Mae hon yn radd rynggddisgyblaethol sy'n rhoi astudiaeth fanwl o'r prosesau biolegol, cemegol a chorfforol sy'n digwydd yn y cefnforoedd, y moroedd ac aberoedd. Byddwch yn dechrau ar astudiaeth fanwl o fywyd yn y môr, o'r bacteria lleiaf i'r mamaliaid mwyaf. Cyfnerthir y wybodaeth hon gan ddealltwriaeth arbenigol o'r modd y mae prosesau ffisegol (megis ceryntau, llanw, tonnau a chymysgu'r cefnfor) a biogeocemegol (megis y cylch carbon, ailgylchu maetholion gan y ddolen microbaidd) allweddol, sy'n rheoli'r rhyngweithio rhwng yr atmoffer, y cefnfor a gwely'r môr, yn effeithio ar wahanol gynefinoedd môr.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym record gadarn o ymchwil o safon fyd-eang a rhagoriaeth mewn addysgu sy'n ymestyn yn ôl dros 50 mlynedd. Mae ein harbenigedd yn ymdrin â phob agwedd ar wyddorau môr. Mae ein diddordebau ymchwil yn amrywio o riffiau cwrel trofannol i'r cefnforoedd pegynol.
- Rydym wedi ein lleoli ychydig fetrau o'r môr, sy'n wych ar gyfer datblygu medrau casglu gwybodaeth yn yr aberoedd, ar lan y môr, ac ar y môr. Mae lleoliad y Brifysgol hefyd yn addas iawn ar gyfer astudio amgylcheddau naturiol eraill gan fod Parc Cenedlaethol Eryri wrth law.
- Byddwch yn elwa o astudio gyda gwyddonwyr blaenllaw ym meysydd bioleg môr, pysgodfeydd, cemeg môr, geowyddorau ac eigioneg ffisegol.
- Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys llong a chychod ymchwil, acwaria môr trofannol a thymherus a dŵr croyw, a'n hamgueddfa sŵoleg ein hunain.
- Rydym yn rhannu ein safle â Chanolfan Fôr Cymru, sy'n rhoi cysylltiadau uniongyrchol â diwydiant, gan roi cyfleoedd i chi ymgymryd â phrojectau gyda diwydiant.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Gall modiwlau gorfodol gynnwys:
- Environmental Data Analysis
- Fundamentals of Oceanography
- Marine Biology Practicals 1
- Earth, Climate and Evolution
- Organismal Diversity

Blwyddyn 2
Gall modiwlau gorfodol gynnwys:
- Marine Biology Practicals 2
- Marine Physiology and Behaviour
- Ship-based field course
- Remote Sensing & Geophysics

Modiwlau dewisol:
- Tides, Waves and Marine Energy
- Ice and Oceans
- Estuary and Shelf Sea Processes

Blwyddyn 3
Yn ogystal â'ch traethawd hir gellwch ddewis modiwlau dewisol o ystod eang o bynciau bioleg môr ac eigioneg, a gall gynnwys:
- Coastal Water Processes
- Sediment Dynamics
- Marine Geology and Applications
- Coastal Processes Field Course
- Marine Conservation and Exploitation
- Marine Ecosystems and Processes
- Marine Mammal Science
- Fish Biology and Ecology
- Rivers, Coasts and Oceans

Blwyddyn 4
Mae cyflawni'r radd Meistr estynedig 4 blynedd yn caniatáu i chi wneud darn sylweddol o ymchwil wyddonol fel rhan o grŵp ymchwil gweithredol, dan oruchwyliaeth un o'n biolegwyr môr neu eigionegwyr arbenigol. Ochr yn ochr â'ch project ymchwil byddwch yn cymryd modiwlau sy'n rhoi i chi'r sgiliau i gynllunio arbrofion, ymgymryd â gwaith maes, adolygu llenyddiaeth, deall rheoliadau moesegol a diogelwch pwysig, a chyflwyno gwaith gwyddonol mewn fformatau amrywiol (e.e. papurau ymchwil a chyflwyniadau). Byddwch hefyd yn cael cyfle i fynd i seminarau ar ystod o bynciau rhyngddisgyblaethol a roddir gan ymchwilwyr a gydnabyddir yn fyd-eang.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn cynnwys hyd at 25-35 awr yr wythnos o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol (gwaith labordy a gwaith maes), astudio preifat, tiwtorialau a gwaith project.
Trwy gydol y radd hon rydym yn manteisio ar ein lleoliad, gan roi pwyslais cryf ar waith maes, gan gynnwys profiad ar y môr. Mae cwrs maes preswyl yn y flwyddyn olaf hefyd ar gael i'r myfyrwyr hynny sy'n dilyn y modiwl Coastal Processes Field Course. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf cyfnerthir darlithoedd a sesiynau ymarferol gan diwtorialau rheolaidd mewn grwpiau bach (tua 8 myfyriwr), pan fyddwn yn datblygu eich sgiliau gwerthuso beirniadol a chyfathrebu gwyddoniaeth. Yn y flwyddyn olaf byddwch yn dewis pwnc traethawd hir arbenigol lle bydd arbenigwr yn eich goruchwylio'n unigol. Asesir trwy gyfuniad o arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Byddwch yn cael dealltwriaeth gynhwysfawr o wyddor systemau môr, a sylweddoli faint o ddisgyblaethau sydd eu hangen yn aml i egluro'n llawn sut mae ecosystem fôr neu unrhyw bwnc gwyddonol arall o ddiddordeb yn gweithredu. Oherwydd hynny, mae'r radd hon yn baratoad delfrydol ar gyfer llawer o yrfaoedd gwahanol. Mae graddedigion wedi cael gwaith gydag ystod eang o sefydliadau, yn cynnwys ymchwil wyddonol, rheoli achub cynefinoedd môr ac asesu effaith amgylcheddol, cyflenwadau dŵr a diwydiannau alltraeth, awdurdodau arfordirol, cyrff ymgynghorol y llywodraeth, y cyfryngau gwyddonol, ecodwristiaeth a diwydiannau hamdden eraill a sefydliadau anllywodraethol.

OCEAN AND GEOPHYSICS
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
F7F6 BSC/OGP
Lleoliad: Cynhelir y mwyafrif o ddarlithoedd ym Mangor. Cynhelir rhai o ddarlithoedd y 3edd flwyddyn a'r holl sesiynau ymarferol ar safle Porthaethwy.
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefelau A (gan gynnwys graddau BB mewn Mathemateg neu Ffiseg ac mewn 1 pwnc gwyddoniaeth arall fel rheol - Ffiseg, Mathemateg, Cemeg, Daearyddiaeth, Daeareg, Gwyddor yr Amgylchedd, Economeg, Seicoleg; ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H6 mewn Mathemateg neu Ffiseg ac un pwnc gwyddonol arall)
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol**: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds mewn Cadwraeth Amgylcheddol neu Gefn Gwlad a'r Amgylchedd**: Teilyngdod
- Mynediad i Wyddoniaeth AU**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Rydym yn ystyried meysydd pwnc tebyg fesul achos.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad
Gwyddorau Eigion

Ffôn: 01248 382851
E-bost: oceansciences@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraueigion

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn canolbwyntio ar swyddogaeth y cefnforoedd yn system y ddaear a'u dylanwad ar yr hinsawdd; yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Nod y ddwy flynedd gyntaf yw datblygu dealltwriaeth gyffredinol o system y ddaear a swyddogaeth y cefnforoedd yn y system honno. Canolbwyntir yn benodol ar swyddogaethau'r moroedd bas, sy'n amgylchynu'r cyfandiroedd, ac ar ryngweithio rhwng rhew a'r cefnforoedd. Yn y drydedd flwyddyn, bydd myfyrwyr yn dewis arbenigo mewn modiwlau yn cynnwys modelu cyfrifiadurol o'r cefnforoedd a gwaith maes preswyl geoffisegol. Mae'r cwrs felly'n rhoi pwyslais penodol ar ennill sgiliau a gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i ddiwydiant, yn enwedig mewn perthynas â materion fel newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, codiad yn lefel y môr, llygredd yn y môr a manteisio ar ynni o'r môr.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym record gadarn o ymchwil o safon fyd-eang a rhagoriaeth mewn addysgu sy'n ymestyn yn ôl dros 50 mlynedd. Mae ein harbenigedd yn ymdrin â phob agwedd ar wyddor y môr, gyda diddordebau ymchwil yn amrywio o riffiau cwrel trofannol i gefnforoedd y pegynau.
- Mae ein lleoliad unigryw yn hwylus iawn ar gyfer gwneud gwaith maes yn geoparc GeoMôn, a ddynodwyd gan UNESCO, ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid ydym ond ychydig fetrau i ffwrdd o'r Fenai a Môr Iwerddon, sy'n systemau model a astudir gan fyfyrwyr eigioneg ar draws y byd.
- Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys llong ymchwil, a mynediad at uwchgyfrifiaduron ac offer arolygu o'r radd flaenaf.
- Rydym hefyd yn cynnal angorfeydd eigionegol sy'n darparu ystod o ddata y byddwch chi'n eu defnyddio.
- Rydym yn rhannu ein safle â Chanolfan Fôr Cymru, sy'n rhoi cysylltiadau uniongyrchol â diwydiant, gan gynnwys rhai'n ymwneud ag adnoddau adnewyddadwy o'r môr, gan roi cyfleoedd i chi ymgymryd â phrojectau gyda diwydiant.
- Mae gennym gysylltiadau cryf yn fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys y Ganolfan Eigioneg Genedlaethol, y Swyddfa Dywydd, a'r diwydiannau alltraeth, hydrocarbon a môr adnewyddadwy.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Fundamentals of Oceanography
- Earth Systems and Processes
- Earth, Climate and Evolution
- Dadansoddi Data Amgylcheddol
- Marine Biogeochemistry
- Anglesey Geology Field Course

Blwyddyn 2

Modiwlau gorfodol:
- Ice and Oceans
- Estuary and Shelf Sea Processes
- Tides, Waves and Marine Energy
- Remote Sensing and Geophysics
- Ship-based Field Course

Blwyddyn 3

Gall modiwlau gynnwys:
- Oceans, Atmosphere and Climate
- Applied Geophysics
- Coastal Processes field course
- Numerical Methods
- Ocean Modeling
- Sediment dynamics

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn cynnwys hyd at 25-35 awr yr wythnos o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol (gwaith labordy a gwaith maes), astudio preifat, tiwtorialau a gwaith project. Trwy gydol y radd hon rydym yn manteisio ar ein lleoliad, gan roi pwyslais cryf ar waith maes, gan gynnwys profiad ar y môr. Mae cwrs maes preswyl yn y flwyddyn olaf hefyd ar gael i'r myfyrwyr hynny sy'n dilyn



y modiwl Coastal Sediments Field Course. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf cyfnerthir darlithoedd a sesiynau ymarferol gan diwtorialau rheolaidd mewn grwpiau bach (tua 8 myfyriwr), pan fyddwn yn datblygu eich sgiliau gwerthuso beirniadol a chyfathrebu gwyddoniaeth. Yn y flwyddyn olaf byddwch yn gwneud traethawd hir dan oruchwyliaeth ar bwnc o'ch dewis. Asesir trwy gyfuniad o arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r radd hon yn eich paratoi ar gyfer gyrfaoedd, mewn diwydiant a'r byd academaidd, sy'n gysylltiedig ag ynni môr adnewyddadwy, ymchwil i newid yn yr hinsawdd, arolwg alltraeth, rheoli parthau arfordirol a chyfryngau darlledu. Bydd hefyd yn rhoi sgiliau rhifiadol cryf i chi y mae galw mawr amdanynt ar draws sector eang o economi'r Deyrnas Unedig.

Fel rhan o'r adran mae gennym long ymchwil gwerth £3.5m yn ogystal â sawl cwch arolygu llai.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
F650 BSc/GeO
Lleoliad: Cynhelir y mwyafrif o ddarlithoedd ym Mangor. Cynhelir rhai o ddarlithoedd y 3edd flwyddyn a'r holl sesiynau ymarferol ar safle Porthaethwy.
Hyd: 3 blynedd (BSc); 4 blynedd (MSci) (gweler tudalen 99 am ddisgrifiad o'r cwrs).

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 112 pwynt tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefelau A (gan gynnwys graddau BB mewn 2 bwnc gwyddoniaeth - Ffiseg, Mathemateg, Cemeg, Daearyddiaeth, Daeareg, Gwyddor yr Amgylchedd, Economeg, Seicoleg; ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H6 mewn 2 bwnc gwyddonol)
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol**: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds mewn Cadwraeth Amgylcheddol neu Gefn Gwlad a'r Amgylchedd**: Teilyngdod
- Mynediad i Wyddoniaeth AU**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Rydym yn ystyried meysydd pwnc tebyg fesul achos.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad
Gwyddorau Eigion

Ffôn: 01248 382851
E-bost: oceansciences@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraueigion

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn canolbwyntio ar swyddogaeth gwaddodion môr a'r cefnforoedd o fewn system y ddaear i ddeall a dehongli amgylcheddau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae'n ymwneud â phrosesau gwaddodol (tarddiad, cludiad a dyddodiad gronynnau yn amgylchedd y môr), a chyda gwaddodion a chreigiau môr, yn enwedig y rhai a ffurfiwyd yn ystod y 2 filiwn o flynyddoedd diwethaf, ond hefyd ymhellach yn ôl mewn amser. Canolbwyntir yn benodol ar swyddogaethau'r moroedd bas, sy'n amgylchynu'r cyfandiroedd, a'r rhyngweithio sy'n digwydd lle mae tir a moroedd yn cyfarfod. Mae'r cwrs yn rhoi pwyslais arbennig ar ennill sgiliau a gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i ddiwydiant, lle mae angen Eigionegwyr Daearegol i fynd i'r afael â materion fel newid yn yr hinsawdd a lefel y môr, erydiad arfordirol, llygredd yn y môr, siltio dyfrffyrdd a pheirianneg alltraeth sy'n gysylltiedig â llwybrau ceblau/pibellau, isadeiledd ynni adnewyddadwy a chwilio am olew a nwy.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym record gadarn o ymchwil o safon fyd-eang a rhagoriaeth mewn addysgu sy'n ymestyn yn ôl dros 50 mlynedd. Mae ein harbenigedd yn ymdrin â phob agwedd ar y gwyddorau môr, gyda chryfderau penodol mewn eigioneg ffisegol a'r geowyddorau.
- Mae ein diddordebau ymchwil yn ymestyn o riffiau cwrel trofannol i'r cefnforoedd pegynol, ac yn treiddio 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl i hanes dechreuadau'r ddaear.
- Rydym yn rhannu ein safle â Chanolfan Fôr Cymru, sy'n rhoi cysylltiadau uniongyrchol â diwydiant, gan gynnwys rhai'n ymwneud ag adnoddau adnewyddadwy o'r môr, gan roi cyfleoedd i chi ymgymryd â phrojectau gyda diwydiant.
- Mae gennym gysylltiadau cryf yn fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys y Ganolfan Eigioneg Genedlaethol, y Swyddfa Dywydd, a'r diwydiannau alltraeth, hydrocarbon a môr adnewyddadwy.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Bydd modiwlau'n cynnwys:
- Anglesey Geology Field Course
- Fundamentals of Oceanography
- Earth Systems and Processes
- Earth, Climate and Evolution
- Dadansoddi Data Amgylcheddol
- Marine Biogeochemistry

Blwyddyn 2

Bydd modiwlau'n cynnwys:
- Ice and Oceans
- Estuary and Shelf Sea Processes
- Tides, Waves and Marine Energy
- Remote Sensing and Geophysics
- Ship-based Field Course

Blwyddyn 3
Yn ogystal â'ch traethawd hir dan oruchwyliaeth unigol, byddwch yn dilyn y modiwlau canlynol:
- Rivers, Coasts and Oceans
- Coastal Processes Field Course
- Marine Geology & Applications
- Sediment Dynamics

Modiwlau dewisol:
- Coastal Water Processes
- Applied Geophysics

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn cynnwys 25-35 awr yr wythnos o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol (gwaith labordy a gwaith maes), astudio preifat, tiwtorialau a gwaith project. Trwy gydol y radd hon rydym yn manteisio ar ein lleoliad, gan roi pwyslais cryf ar waith maes. Ceir cwrs maes preswyl yn y flwyddyn olaf fel rhan o'r modiwl Coastal Sediments Field Course. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf cyfnerthir darlithoedd a sesiynau ymarferol gan diwtorialau rheolaidd mewn grwpiau bach (tua 8 myfyriwr), pan fyddwn yn datblygu eich sgiliau gwerthuso beirniadol a chyfathrebu gwyddoniaeth. Yn y flwyddyn olaf byddwch yn gwneud traethawd hir dan oruchwyliaeth ar bwnc o'ch dewis. Asesir trwy gyfuniad o arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r radd hon yn eich paratoi ar gyfer gyrfaoedd, mewn diwydiant a'r byd academaidd, sy'n gysylltiedig ag arolygon alltraeth, ynni môr adnewyddadwy, ymchwil i newid yn yr hinsawdd, rheoli parthau arfordirol, asesu effeithiau amgylcheddol a chyfryngau darlledu. Bydd hefyd yn rhoi sgiliau rhifiadol cryf i chi y mae galw mawr amdanynt ar draws sector eang o economi'r Deyrnas Unedig. Mae gan y cwrs record hynod o gryf o ran cyflogadwyedd, gyda llawer o raddedigion yn symud ymlaen yn uniongyrchol i yrfaoedd yn y sector alltraeth, gyda llawer ohonynt yn dychwelyd yn rheolaidd i siarad am ragolygon gyrfa yn y meysydd hynny.

100% o fyfyrwyr yn fodlon gyda ansawdd y cwrs
(NSS 2019, 2018)

BLWYDDYN SYLFAEN
Cynigir Blwyddyn Sylfaen mewn Geological Oceanography. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ar gyfer ymgeiswyr sydd ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd neu fyfyrwyr a fyddai'n elwa o astudio blwyddyn ychwanegol. Ar ôl cwblhau'r Flwyddyn Sylfaen, caiff y myfyrwyr symud ymlaen i Flwyddyn 1 y rhaglen radd gysylltiedig. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
F840 BSC/PGO
Lleoliad: Cynhelir y mwyafrif o ddarlithoedd ym Mangor. Cynhelir rhai o ddarlithoedd y 3edd flwyddyn a'r holl sesiynau ymarferol ar safle Porthaethwy.
Hyd: 3 blynedd.

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefelau A (gan gynnwys graddau BC mewn 2 bwnc gwyddoniaeth - Bioleg, Daearyddiaeth, Astudiaethau Amgylcheddol, Cemeg, Economeg, Mathemateg, Ystadegau, Daeareg, Ffiseg, Seicoleg, Cyfrifiadureg; ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn 2 bwnc gwyddonol)
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol**: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds mewn Cadwraeth Amgylcheddol neu Gefn Gwlad a'r Amgylchedd**: Teilyngdod
- Mynediad i Wyddoniaeth AU**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Rydym yn ystyried meysydd pwnc tebyg fesul achos.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad
Gwyddorau Eigion

Ffôn: 01248 382851
E-bost: oceansciences@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraueigion

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r tir yn ffinio â'r cefnfor trwy'r parth arfordirol. Mae deall sut mae'r amgylcheddau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd yn bwysig am lawer o resymau cymdeithasol ac economaidd, ac mae angen dull integredig o ymdrin â'r pwnc, gan fod y rhan fwyaf o boblogaeth y byd yn byw yn agos at y parth arfordirol, neu'n manteisio arno. Mae'r addysgu, sydd wedi'i seilio ar ymchwil, mae'r cwrs yn ymdrin â phrosesau daear (e.e. afonydd, rhewlifoedd) a môr (e.e. tonnau, llanw, dwysedd ceryntau, lefel y môr). Mae'r prosesau hyn yn rheoli symudiad dŵr, gwaddod ac elfennau biogeocemegol (fel carbon a phlastigau) o'r tir i'r môr. Mae'r cwrs hwn hefyd yn integreiddio'r prosesau hyn i archwilio effeithiau newid amgylcheddol, hinsawdd, lefel y môr a llygredd ar iechyd a chynaliadwyedd amgylcheddau tir a môr.

PAM DEWIS BANGOR?
- Datblygwyd y cwrs hwn gyda chefnogaeth athrawon ysgol a chyflogwyr, ac mae'n tynnu ar arbenigedd o'r safon uchaf ym maes gwyddorau daear a môr, sy'n rhychwantu amgylcheddau afonol, rhewlifol, arfordirol a moroedd dwfn.
- Mae ein lleoliad unigryw yn hwylus iawn ar gyfer gwneud gwaith maes yn geoparc GeoMôn, a ddynodwyd gan UNESCO, ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid ydym ond ychydig fetrau i ffwrdd o'r Fenai a Môr Iwerddon, sy'n analogau rhagorol i systemau a astudir gan ddaearegwyr ffisgeol ar draws y byd.
- Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys llong a chychod ymchwil, a mynediad at uwchgyfrifiaduron ac offer arolygu o'r radd flaenaf.
- Rydym yn rhannu ein safle â Chanolfan Fôr Cymru ac mae gennym gysylltiadau cryf â Chanolfan yr Amgylchedd Cymru, a thrwy hynny roi cyfleoedd i chi ymgymryd â phrojectau daearyddol ac eigioneg gyda diwydiant.
- Mae gennym gysylltiadau cryf yn fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys y Ganolfan Eigioneg Genedlaethol, y Swyddfa Dywydd, a'r diwydiannau alltraeth, hydrocarbon a môr adnewyddadwy.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Bydd modiwlau'n cynnwys:
- Dadansoddi Data Amgylcheddol
- Earth Systems and Processes
- Field Course: Making Snowdonia
- Fundamentals of Oceanography
- Earth, Climate and Evolution
- Anglesey Geology Field Course

Blwyddyn 2

Bydd modiwlau'n cynnwys:
- Ship-Based Field Course
- Ice and Oceans
- Field Course in Geography

Modiwlau dewisol:
- Water, Air & Soil Pollution
- Climate Change
- Estuary and Shelf Sea Processes
- Catchment Processes
- Remote Sensing and Geophysics
- Tides, Waves and Marine Energy

Blwyddyn 3
Byddwch yn astudio ar gyfer eich traethawd hir dan oruchwyliaeth unigol ac yn cymryd modiwl sy'n ymdrin ag:
- Afonydd, Arfordiroedd a Chefnforoedd

Modiwlau dewisol:
- Environmental Geochemistry
- Coastal Water Processes
- Coastal Processes Field Course
- Marine Geology & Applications
- Applied Geophysics
- Catchment Modelling & Analysis
- Sediment Dynamics
- Oceans, Atmosphere and Climate



SUT BYDDAF YN DYSGU?
Cynlluniwyd y radd hon o amgylch sgiliau ymarferol, gyda theithiau maes undydd ac aml-ddiwrnod rheolaidd, gwaith ar longau, a dosbarthiadau ymarferol yn ymdrin ag agweddau cymhwysol ar ddaearyddiaeth ffisegol ac eigioneg. Mae'r cwrs yn cynnwys hyd at 25-35 awr yr wythnos o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol (gwaith labordy a gwaith maes), astudio preifat, tiwtorialau a gwaith project. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf cyfnerthir darlithoedd a sesiynau ymarferol gan diwtorialau rheolaidd mewn grwpiau bach (tua 8 myfyriwr), pan fyddwn yn datblygu eich sgiliau gwerthuso beirniadol a chyfathrebu gwyddoniaeth. Yn y flwyddyn olaf byddwch yn gwneud traethawd hir dan oruchwyliaeth ar bwnc o'ch dewis. Asesir trwy gyfuniad o arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Cynlluniwyd y cwrs hwn i roi sgiliau trosglwyddadwy cryf i raddedigion a dealltwriaeth drylwyr o'r amgylchedd tir a môr. Mae graddedigion mewn sefyllfa ddelfrydol i gael gwaith yn y sector geowyddorau: swyddi ymgynghorol yn ymwneud â dŵr/yr amgylchedd, diwydiant daearegol/gwyddorau daear, gwyddorau arfordirol/môr, eigioneg ac ynni adnewyddadwy.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
F700 BSc/OS
Lleoliad: Cynhelir y mwyafrif o ddarlithoedd ym Mangor. Cynhelir rhai o ddarlithoedd y 3edd flwyddyn a'r holl sesiynau ymarferol ar safle Porthaethwy.
Hyd: 3 blynedd.

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefelau A (gan gynnwys graddau BB mewn 2 bwnc gwyddoniaeth - Bioleg, Daearyddiaeth, Astudiaethau Amgylcheddol, Cemeg, Economeg, Mathemateg, Ystadegau, Daeareg, Ffiseg, Seicoleg, Cyfrifiadureg; ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H6 mewn 2 bwnc gwyddonol)
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol**: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds mewn Cadwraeth Amgylcheddol neu Gefn Gwlad a'r Amgylchedd**: Teilyngdod
- Mynediad i Wyddoniaeth AU**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Rydym yn ystyried meysydd pwnc tebyg fesul achos.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad
Gwyddorau Eigion

Ffôn: 01248 382851
E-bost: oceansciences@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraueigion

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd amlddisgyblaethol hon yn cynnwys astudio'r holl agweddau ar amgylchedd y môr, gyda phwyslais cryf ar ddysgu ar sail gwaith maes. Addysgir ystod o ddisgyblaethau gwyddonol (bioleg, cemeg, daeareg, mathemateg a ffiseg) dros y tair blynedd er mwyn arsylwi a deall y prosesau amrywiol a chymhleth yn aml sy'n rheoli'r system Daear-Cefnfor-Atmosffer. Mae'r cwrs hwn yn rhoi sylfaen amlddisgyblaethol drwyadl gan alluogi myfyrwyr i fynd ymlaen i ganolbwyntio ar eu maes diddordeb penodol mewn gwyddor môr a dewis modiwlau yn unol â hynny, gydag opsiynau mewn bioleg, cemeg, daeareg a ffiseg.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae'r cwrs hwn yn cynnig dewis o'r holl ddisgyblaethau gwyddor môr ond mae'n dal i ganiatáu astudio o leiaf un maes pwnc yn fanwl. Mae gennym record gadarn o ymchwil o safon fyd-eang a rhagoriaeth mewn addysgu sy'n ymestyn yn ôl dros 50 mlynedd.
- Mae ein harbenigedd yn ymdrin â phob agwedd ar wyddor y môr, gyda diddordebau ymchwil yn amrywio o riffiau cwrel trofannol i gefnforoedd y pegynau.
- Mae ein lleoliad unigryw yn hwylus iawn ar gyfer gwneud gwaith maes yn geoparc GeoMôn, a ddynodwyd gan UNESCO, ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid ydym ond ychydig fetrau i ffwrdd o'r Fenai a Môr Iwerddon, sy'n systemau model a astudir gan fyfyrwyr eigioneg ar draws y byd.
- Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys llong ymchwil, a mynediad at uwchgyfrifiaduron ac offer arolygu o'r radd flaenaf. Rydym hefyd yn cynnal angorfeydd eigionegol sy'n darparu ystod o ddata y byddwch chi'n eu defnyddio.
- Rydym yn rhannu ein safle â Chanolfan Môr Cymru, sy'n rhoi cysylltiadau uniongyrchol â diwydiant, gan gynnwys rhai'n ymwneud ag adnoddau



adnewyddadwy o'r môr, gan roi cyfleoedd i chi ymgymryd â phrojectau gyda diwydiant.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Bydd modiwlau'n cynnwys:
- Fundamentals of Oceanography
- Earth, Climate and Evolution
- Dadansoddi Data Amgylcheddol
- Marine Biogeochemistry

Modiwlau dewisol:
- Essential Marine Chemistry
- Anglesey Geology Field Course
- Organismal Diversity
- Earth Systems and Processes

Blwyddyn 2

Modiwlau gorfodol:
- Estuaries and Shelf Seas
- Tides, Waves and Marine Energy
- Remote Sensing and Geophysics
- Ship-based Field Course

Modiwlau dewisol:
- Ice and Oceans
- Marine Ecology

Blwyddyn 3

Modiwlau dewisol:
- Estuary and Shelf Sea Processes
- Coastal Processes Field Study
- Marine Geology and Applications
- Shark Ecology
- Marine Ecosystems and Processes
- Sediment Dynamics
- Rivers, Coasts and Oceans

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn cynnwys hyd at 25-35 awr yr wythnos o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol (gwaith labordy a gwaith maes), astudio preifat, tiwtorialau a gwaith project. Trwy gydol y radd hon rydym yn manteisio ar ein lleoliad, gan roi pwyslais cryf ar waith maes. Mae cwrs maes preswyl yn y flwyddyn olaf hefyd ar gael i'r myfyrwyr hynny sy'n dilyn y modiwl Coastal Processes Field Course. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf cyfnerthir darlithoedd a sesiynau ymarferol gan diwtorialau rheolaidd mewn grwpiau bach (tua 8 myfyriwr), pan fyddwn yn datblygu eich sgiliau gwerthuso beirniadol a chyfathrebu gwyddoniaeth. Yn y flwyddyn olaf byddwch yn gwneud traethawd hir dan oruchwyliaeth ar bwnc o'ch dewis. Asesir trwy gyfuniad o arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r radd hon yn eich paratoi ar gyfer gyrfaoedd, mewn diwydiant a'r byd academaidd, sy'n gysylltiedig ag asesu effeithiau amgylcheddol ar y moroedd, ymchwil i newid yn yr hinsawdd, arolygon alltraeth, rheoli parthau arfordirol, ecodwristiaeth a chyfryngau darlledu. Rydym yn ystyried eich cyflogaeth yn y dyfodol yn flaenoriaeth uchel iawn ac, i'ch helpu, rydym yn cynnwys darlithoedd ar gyflogadwyedd yn ystod eich ail flwyddyn ac yn trefnu ffeiriau gyrfaoedd yn flynyddol.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
F710 BSc/MES
Lleoliad: Cynhelir y mwyafrif o ddarlithoedd ym Mangor. Cynhelir rhai o ddarlithoedd y 3edd flwyddyn a'r holl sesiynau ymarferol ar safle Porthaethwy.
Hyd: 3 blynedd.

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefelau A (gan gynnwys graddau BC mewn 2 bwnc gwyddoniaeth - Bioleg, Daearyddiaeth, Astudiaethau Amgylcheddol, Cemeg, Economeg, Mathemateg, Ystadegau, Daeareg, Ffiseg, Seicoleg, Cyfrifiadureg; ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn 2 bwnc gwyddonol)
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol**: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds mewn Cadwraeth Amgylcheddol neu Gefn Gwlad a'r Amgylchedd**: Teilyngdod
- Mynediad i Wyddoniaeth AU**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Rydym yn ystyried meysydd pwnc tebyg fesul achos.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad
Gwyddorau Eigion

Ffôn: 01248 382851
E-bost: oceansciences@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraueigion

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cwrs yn radd gwyddor môr sydd wedi'i integreiddio'n llawn, gan gynnwys pob elfen o system y môr - ffisegol, cemegol, biolegol, a daearegol. Mae wedyn yn cyfuno'r wybodaeth hon ag egwyddorion cadwraeth, polisi amgylcheddol a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar yr amgylcheddau hynny o weithgaredd economaidd-gymdeithasol sydd fwyaf agored i newid amgylcheddol ac mae wedi'i gynllunio i roi dealltwriaeth gyfannol, ond arbenigol hefyd, o wyddor môr, cadwraeth a pholisïau amgylcheddol i genhedlaeth o wyddonwyr amgylcheddol. Bydd y graddedigion hyn mewn sefyllfa ragorol i wynebu heriau byd sy'n newid, lle mae ein cysylltiad ag ecosystemau môr wedi chwarae rhan allweddol yn ffyniant cymdeithas, a byddant yn chwarae rhan fwy fyth o ran ein lles yn y dyfodol. Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer myfyrwyr sydd â chefndiroedd gwyddoniaeth prif ffrwd a hebddynt.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym record gadarn o ymchwil o safon fyd-eang a rhagoriaeth mewn addysgu sy'n ymestyn yn ôl dros 50 mlynedd. Mae ein harbenigedd yn ymdrin â phob agwedd ar wyddorau môr ac mae ein diddordebau ymchwil yn ymestyn o riffiau cwrel trofannol i'r cefnforoedd pegynol, ac yn treiddio 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl i hanes dechreuadau'r ddaear.
- Mae ein lleoliad unigryw yn hwylus iawn ar gyfer gwneud gwaith maes yn geoparc GeoMôn, a ddynodwyd gan UNESCO, ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid ydym chwaith ond ychydig fetrau i ffwrdd o'r Fenai a Môr Iwerddon ar gyfer cyrsiau maes alltraeth.
- Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys llong ymchwil, a mynediad at uwchgyfrifiaduron ac offer arolygu o'r radd flaenaf. Rydym hefyd yn cynnal angorfeydd eigionegol ym Môr Iwerddon, gan ddarparu ystod o ddata amgylcheddol i chi eu hastudio yn ystod eich cwrs.
- Rydym yn rhannu ein safle ym Mhorthaethwy gyda Chanolfan Môr Cymru, gan ddarparu cysylltiadau uniongyrchol â diwydiant ac asiantaethau amgylcheddol, ac yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy môr. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i chi ymgymryd â phrojectau gydag amrywiaeth o sectorau.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Bydd modiwlau yn cynnwys:
- Fundamentals of Oceanography
- Earth Systems and Processes
- Earth, Climate and Evolution
- Dadansoddi Data Amgylcheddol
- Essential Marine Chemistry
- Anglesey Geology Field Course

Blwyddyn 2

Gall modiwlau gynnwys:
- Principles of Conservation
- Ship-based Field Course
- Estuary and Shelf Sea Processes
- Sustainable Development
- Climate Change
- Conservation Practice
- Catchment Processes
- Geohazards
- Remote Sensing and Geophysics

Blwyddyn 3

Gall modiwlau gynnwys:
- Marine Conservation and Exploitation
- Environmental Policy
- Current Issues in Environmental and Related Science
- Coastal Water Processes
- Coastal Processes Field Study
- Rivers, Coasts and Oceans
- Marine Geology and Applications

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn cynnwys hyd at 25-35 awr yr wythnos o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol (gwaith labordy a gwaith maes), astudio preifat, tiwtorialau a gwaith project. Asesir trwy gyfuniad o arholiad ffurfiol ac asesu parhaus. Mae pwyslais cryf ar waith maes bob blwyddyn. Mae cwrs maes preswyl ar gael yn y flwyddyn olaf. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf cyfnerthir darlithoedd a sesiynau ymarferol gan diwtorialau rheolaidd mewn grwpiau bach (tua 8 myfyriwr), pan fyddwn yn datblygu eich sgiliau gwerthuso beirniadol a chyfathrebu gwyddoniaeth. Yn y flwyddyn olaf byddwch yn gwneud traethawd hir dan oruchwyliaeth ar bwnc o'ch dewis.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r radd hon yn eich paratoi ar gyfer ystod eang o yrfaoedd mewn amrywiaeth o sectorau lle mae ymchwil amgylcheddol yn sail i well dealltwriaeth o gadwraeth natur. Rydym yn rhagweld yn benodol gyfleoedd gwaith gyda llunwyr polisi ac ymgynghorwyr cenedlaethol a rhyngwladol ar gadwraeth natur yn y DU ac yn rhyngwladol (e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Chyfoeth Naturiol Cymru).
Yn ogystal, mae yna lawer o sefydliadau cadwraeth sydd angen gwybodaeth arbenigol am wyddor môr ac arfordirol a'i oblygiadau economaidd-gymdeithasol o ran polisïau amgylcheddol o lefelau lleol i ryngwladol.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
F734 MSci/PO
Lleoliad: Cynhelir y mwyafrif o ddarlithoedd ym Mangor. Cynhelir rhai o ddarlithoedd y 3edd flwyddyn a'r holl sesiynau ymarferol ar safle Porthaethwy. Cynhelir y 4edd flwyddyn bron yn gyfan gwbl ym Mhorthaethwy.
Hyd: 4 blynedd.

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 128 pwynt tariff o gymwysteru lefel 3* e.e.:
- Lefelau A (gan gynnwys graddau AB mewn Mathemateg neu Ffiseg ac mewn 1 pwnc gwyddoniaeth arall fel rheol - Ffiseg, Mathemateg, Cemeg, Bioleg, Daearyddiaeth, Daeareg, Gwyddor yr Amgylchedd, Economeg, Seicoleg; ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H6 mewn Mathemateg neu Ffiseg ac un pwnc gwyddonol arall)
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol**: DDD
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds mewn Cadwraeth Amgylcheddol neu Gefn Gwlad a'r Amgylchedd**: Rhagoriaeth.
- Mynediad i Wyddoniaeth AU**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Rydym yn ystyried meysydd pwnc tebyg fesul achos.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad
Gwyddorau Eigion

Ffôn: 01248 382851
E-bost: oceansciences@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraueigion

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn canolbwyntio ar astudio ffiseg y cefnfor a'r prosesau sy'n ei gysylltu â'r atmosffer a'r cryosffer. Nod y ddwy flynedd gyntaf yw datblygu dealltwriaeth gyffredinol o system y ddaear a swyddogaeth y cefnforoedd yn y system honno. Canolbwyntir yn benodol ar swyddogaethau'r moroedd bas, sy'n amgylchynu'r cyfandiroedd, ac ar ryngweithio rhwng rhew a'r cefnforoedd. Yna mae'r drydedd a'r bedwaredd flwyddyn yn canolbwyntio ar ddeall prosesau'n ddyfnach ac ar ddatblygu'r sgiliau sy'n gysylltiedig â datblygu modelau rhifiadol y gellir eu defnyddio i ragweld newid yn y dyfodol. Mae'r cwrs felly'n rhoi pwyslais penodol ar ennill sgiliau a gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i ddiwydiant, yn enwedig mewn perthynas â materion fel newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, codiad yn lefel y môr, llygredd yn y môr a manteisio ar ynni o'r môr.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym record gadarn o ymchwil o safon fyd-eang a rhagoriaeth mewn addysgu sy'n ymestyn yn ôl dros 50 mlynedd. Mae ein harbenigedd mewn eigioneg ffisegol yn cynnwys eigioneg begynol, prosesau arfordirol, ynni adnewyddadwy o'r môr ac efelychiadau llanw byd-eang.
- Mae ein lleoliad unigryw yn hwylus iawn ar gyfer gwneud gwaith maes yn geoparc GeoMôn, a ddynodwyd gan UNESCO, ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid ydym ond ychydig fetrau i ffwrdd o'r Fenai a Môr Iwerddon, sy'n systemau model a astudir gan fyfyrwyr eigioneg ar draws y byd.
- Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys llong ymchwil, a mynediad at uwchgyfrifiaduron ac offer arolygu o'r radd flaenaf. Rydym hefyd yn cynnal angorfeydd eigionegol sy'n darparu ystod o ddata y byddwch chi'n eu defnyddio.
- Rydym yn rhannu ein safle â Chanolfan Fôr Cymru, sy'n rhoi cysylltiadau uniongyrchol â diwydiant, gan gynnwys rhai'n ymwneud ag adnoddau adnewyddadwy o'r môr, gan roi cyfleoedd i chi ymgymryd â phrojectau gyda phartneriaid diwydiannol.
- Mae gennym gysylltiadau cryf yn fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys y Ganolfan Eigioneg Genedlaethol, y Swyddfa Dywydd, a'r diwydiannau alltraeth, hydrocarbon a môr adnewyddadwy.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Bydd modiwlau yn cynnwys:
- Fundamentals of Oceanography
- Earth Systems and Processes
- Earth, Climate and Evolution
- Dadansoddi Data Amgylcheddol
- Essential Marine Chemistry
- Anglesey Geology Field Course

Blwyddyn 2

Bydd modiwlau yn cynnwys:
- Ice and Oceans
- Estuary and Shelf Sea Processes
- Tides, Waves and Marine Energy
- Remote Sensing and Geophysics
- Ship-based Field Course

Blwyddyn 3
Yn ogystal â'ch traethawd hir dan oruchwyliaeth unigol, byddwch yn ymgymryd â'r modiwlau canlynol:
- Numerical Methods
- Ocean Modelling
- Sediment Dynamics
- Oceans, Atmosphere and Climate
- Applied Geophysics

Blwyddyn 4
Yn ogystal â'ch project ymchwil dan oruchwyliaeth unigol, byddwch yn ymgymryd â'r modiwlau canlynol:
- Geophysical Fluid Dynamics'
- Field and Laboratory Oceanography

Byddwch hefyd yn cael cyfle i fynd i seminarau rheolaidd gan wyddonwyr eigion blaenllaw, o bob rhan o'r byd, lle byddwch yn clywed am ddatblygiadau arloesol ar draws holl sbectrwm gwyddorau môr.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn cynnwys hyd at 25-35 awr yr wythnos o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol (gwaith labordy a gwaith maes), astudio preifat, tiwtorialau a gwaith project. Trwy gydol y radd hon rydym yn manteisio ar ein lleoliad, gan roi pwyslais cryf ar waith maes, gan gynnwys profiad ar y môr. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf cyfnerthir darlithoedd a sesiynau ymarferol gan diwtorialau rheolaidd mewn grwpiau bach (tua 8 myfyriwr), pan fyddwn yn datblygu eich sgiliau gwerthuso beirniadol a chyfathrebu gwyddoniaeth. Yn y drydedd flwyddyn byddwch yn gwneud traethawd hir dan oruchwyliaeth unigol ar bwnc o'ch dewis, gan symud ymlaen i broject ymchwil dan oruchwyliaeth un o'n heigionegwyr ffisegol arbenigol. Asesir trwy gyfuniad o arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r radd hon yn eich paratoi ar gyfer gyrfaoedd, mewn diwydiant a'r byd academaidd, sy'n gysylltiedig ag ynni môr adnewyddadwy, ymchwil i newid yn yr hinsawdd, arolwg alltraeth, rheoli parthau arfordirol a chyfryngau darlledu. Bydd hefyd yn rhoi sgiliau rhifiadol cryf i chi y mae galw mawr amdanynt ar draws sector eang o economi'r Deyrnas Unedig. Rydym yn ystyried eich cyflogaeth yn y dyfodol yn flaenoriaeth uchel iawn ac, i'ch helpu, rydym yn cynnwys darlithoedd ar gyflogadwyedd yn ystod eich ail flwyddyn ac yn trefnu ffeiriau gyrfaoedd yn flynyddol. Mae gennym hefyd ddarlithoedd gwadd gan ddarpar gyflogwyr a chyn-fyfyrwyr.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
F652 MSci/GO
Lleoliad: Cynhelir y mwyafrif o ddarlithoedd ym Mangor. Cynhelir rhai o ddarlithoedd y 3edd a'r 4edd flwyddyn a'r holl sesiynau ymarferol ar safle Porthaethwy. Cynhelir y 4edd flwyddyn bron yn gyfan gwbl ym Mhorthaethwy.
Hyd: 4 blynedd.

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg, Mathemateg a Chymhwyster Gwyddoniaeth Ddwbl. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 128 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefelau A (gan gynnwys graddau B mewn Bioleg ac 1 pwnc gwyddoniaeth arall fel rheol - Ffiseg, Mathemateg, Cemeg, Daearyddiaeth, Daeareg, Gwyddor/Astudiaethau'r Amgylchedd, Economeg, Seicoleg; ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H6 mewn Bioleg ac un pwnc gwyddonol arall)
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol *: DDM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds mewn Cadwraeth Amgylcheddol neu Gefn Gwlad a'r Amgylchedd**: Rhagoriaeth
- Mynediad i Wyddoniaeth AU**: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Rydym yn ystyried meysydd pwnc tebyg fesul achos.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gweinyddwr Mynediad
Gwyddorau Eigion

Ffôn: 01248 382851
E-bost: oceansciences@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraueigion

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn canolbwyntio ar astudio gwaddodion môr yng nghyd-destun gwyddoniaeth system y ddaear. Mae'n ymwneud â phrosesau gwaddodol (tarddiad, cludiad a dyddodiad gronynnau yn amgylchedd y môr), a chyda gwaddodion a chreigiau môr, yn enwedig y rhai a ffurfiwyd yn ystod y 2 filiwn o flynyddoedd diwethaf, ond hefyd ymhellach yn ôl mewn amser. Mae angen Eigionegwyr Daearegol i fynd i'r afael â materion fel newid yn yr hinsawdd a lefel y môr, erydiad arfordirol, llygredd yn y môr, siltio dyfrffyrdd a pheirianneg alltraeth sy'n gysylltiedig â llwybrau ceblau/pibellau, isadeiledd ynni adnewyddadwy a chwilio am olew a nwy.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym record gadarn o ymchwil o safon fyd-eang a rhagoriaeth mewn addysgu sy'n ymestyn yn ôl dros 50 mlynedd. Mae gan y daearegwyr ar ein staff arbenigedd mewn gwaddodeg, geoffiseg fôr, palaeoeigioneg, daeareg petroliwm a mwynoleg.
- Mae ein lleoliad unigryw yn hwylus iawn ar gyfer gwneud gwaith maes yn geoparc GeoMôn, a ddynodwyd gan UNESCO, ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri.
- Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys llong ymchwil. Rydym yn rhannu ein safle â Chanolfan Fôr Cymru, sy'n rhoi cysylltiadau uniongyrchol â dwydiant, ac yn arbennig â rhai'n ymwneud â mapio gwely'r môr ac adnoddau adnewyddadwy o'r môr, gan roi cyfleoedd i chi ymgymryd â phrojectau gyda diwydiant.
- Mae gennym gysylltiadau cryf â'r diwydiant alltraeth a hydrocarbon ac rydym yn uchel ein parch ymysg gweithwyr proffesiynol yn y maes am ddarparu staff o ansawdd uchel iddynt.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Bydd modiwlau yn cynnwys:
- Fundamentals of Oceanography
- Earth Systems and Processes
- Earth, Climate and Evolution
- Dadansoddi Data Amgylcheddol
- Essential Marine Chemistry
- Anglesey Geology Field Course

Blwyddyn 2

Bydd modiwlau yn cynnwys:
- Ice and Oceans
- Estuary and Shelf Sea Processes
- Tides, Waves and Marine Energy
- Remote Sensing and Geophysics
- Ship-based Field Course

Blwyddyn 3
Yn ogystal â'ch traethawd hir dan oruchwyliaeth unigol, byddwch yn gwneud y modiwlau canlynol:
- Rivers, Coasts and Oceans
- Coastal Processes Field Course
- Marine Geology and Applications
- Sediment Dynamics

Modiwlau dewisol:
- Coastal Water Processes
- Applied Geophysics

Blwyddyn 4
Yn ogystal â'ch project ymchwil dan oruchwyliaeth unigol byddwch yn gwneud modiwlau gan gynnwys:
- Sediment Geotechnics
- Field and Laboratory Oceanograph

Byddwch hefyd yn cael cyfle i fynd i seminarau rheolaidd gan wyddonwyr eigion blaenllaw, o bob rhan o'r byd, lle byddwch yn clywed am ddatblygiadau arloesol ar draws holl sbectrwm gwyddorau môr.


SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn cynnwys hyd at 25-35 awr yr wythnos o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol (gwaith labordy a gwaith maes), astudio preifat, tiwtorialau a gwaith project. Trwy gydol y radd hon rydym yn manteisio ar ein lleoliad, gan roi pwyslais cryf ar waith maes, gan gynnwys profiad ar y môr. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf cyfnerthir darlithoedd a sesiynau ymarferol gan diwtorialau rheolaidd mewn grwpiau bach (tua 8 myfyriwr), pan fyddwn yn datblygu eich sgiliau gwerthuso beirniadol a chyfathrebu gwyddoniaeth. Yn y drydedd flwyddyn byddwch yn cymryd rhan mewn cwrs maes preswyl gan ddefnyddio offer arolygu o'r radd flaenaf ac yn cynnal traethawd hir dan oruchwyliaeth unigol ar bwnc o'ch dewis. Byddwch yn symud ymlaen i broject ymchwil yn y 4edd flwyddyn dan oruchwyliaeth un o'n tîm arbenigol o geowyddonwyr. Asesir trwy gyfuniad o arholiad ffurfiol ac asesu parhaus.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs yn baratoad delfrydol ar gyfer gyrfaoedd mewn ymchwil, chwilio am olew a nwy a'r diwydiant arolygon alltraeth, asesu effaith amgylcheddol, y diwydiant cyflenwi dŵr, rheoli parthau arfordirol, cyrff cynghori'r llywodraeth a'r cyfryngau gwyddonol. Mae'r radd hon wedi cael ei sefydlu'n gadarn ers dros 35 mlynedd ac mae ganddi record ragorol iawn o ran cyflogadwyedd, gyda llawer o raddedigion yn symud ymlaen yn syth i yrfaoedd yn y sector alltraeth. Rydym yn ystyried eich cyflogaeth yn y dyfodol yn flaenoriaeth uchel iawn ac, i'ch helpu, rydym yn cynnwys darlithoedd ar gyflogadwyedd yn ystod eich ail flwyddyn ac yn trefnu ffeiriau gyrfaoedd yn flynyddol. Mae gennym hefyd ddarlithoedd gwadd gan ddarpar gyflogwyr a chyn-fyfyrwyr.









"Mae'r profiadau 'dwi wedi eu cael wedi bod yn wych, megis gwaith maes amrywiol ar y môr rhwng Bae Llandudno a Thraeth Coch, Ynys Môn . Mae hi'n braf medru rhoi'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn y darlithoedd ar waith allan ar y maes go iawn.

Mae'r gefnogaeth gan y darlithwyr wedi bod yn dda ers yr wythnos gyntaf – maen nhw'n arwain yr ymchwil sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd, a thrwy hynny, yn ein cadw ni fel myfyrwyr yn y lŵp pan mae hi'n dod i waith newydd. Trwy wneud hyn, mae'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn y darlithoedd yn newydd ac yn gyffrous."

Wil Chidley
Myfyriwr Daearyddiaeth Ffisegol ac Eigioneg

CYFRIFIADUREG

- **Computer Science BSc, MComp**
- **Computer Science with Game Design BSc**
- **Data Science and Machine Learning BSc**
- **Data Science and Visualisation BSc**
- **Computer Information Systems BSc**
- **Computer Information Systems for Business BSc**
- **Creative Technologies BSc**

Prentisiaethau Gradd
- **Applied Cyber Security BSc**
- **Applied Data Science BSc**
- **Applied Software Engineering BSc**

Graddau Cysylltiedig
- Computer Systems Engineering (tud 111)
- Control and Instrumentation Engineering (tud 112)
- Electronic Engineering (tud 110 a tud 113)
- Electronic Engineering a Cerddoriaeth (tud 63)
- Cerddoriaeth ac Electronic Engineering (tud 63)

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
G400 BSc/CS; H117 MComp
Hyd: 3 blynedd BSc, 4 blynedd MComp

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Mathemateg.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 o bwyntiau tariff ar gyfer BSc a 128 o bwyntiau ar gyfer MComp o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (gan gynnwys 1 mewn Gwyddoniaeth / Mathemateg / Cyfrifiadura / TG, ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol)
- Diploma Cenedlaethol / Estynedig BTEC a Diploma Estynedig Technegol Caergrawnt mewn pwnc perthnasol (fel uchod): MMM ar gyfer BSc; DDM ar gyfer MComp
- Diploma Technegol / Estynedig Uwch City & Guilds: caiff ei ystyried fesul achos
- Derbynnir Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad at AU mewn pwnc perthnasol fel y rhestrir uchod**:Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Ni dderbynnir Sgiliau Allweddol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ystyried meysydd pwnc eraill fesul achos.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tiwtor Mynediad
Cyfrifiadureg

Ffôn: 01248 382686
E-bost:
cyfrifiadur@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/cyfrifiadureg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Yn ogystal â dysgu hanfodion cyfrifiadureg a sgiliau rhaglennu uwch, byddwch yn elwa o ddysgu sy'n ymwneud â diddordeb ymchwil y staff academaidd. Mae arbenigeddau penodol yn cynnwys graffeg gyfrifiadurol, deallusrwydd artiffisial ac asiantau a chyfathrebu data. Mae ein nod yn syml - rydyn ni am eich helpu chi i ddod yn weithiwr proffesiynol cyfrifiadurol gyda'r gallu i ddysgu am y wybodaeth ddiweddaraf gyda'r datblygiadau cyflym ym maes cyfrifiadureg.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym yn gymuned fywiog gyda labordai â chyfarpar da, cyfrifiaduron wedi'u rhwydweithio gan ddefnyddio meddalwedd o safon diwydiant a'n llyfrgell ein hunain.
- Mae ein hymchwil a rhyngweithio arall â diwydiant yn sicrhau bod ein cyrsiau'n adlewyrchu datblygiadau diweddar. Mae'r staff yn ymarferwyr proffesiynol sy'n gweithio ar brojectau ar y cyd ac yn gweithredu fel ymgynghorwyr i ddiwydiant.
- Mae cyfleoedd i gael nawdd ac ysgoloriaeth.
- Yn aml, cynhelir projectau blwyddyn olaf mewn cydweithrediad â chwmni lleol - gan roi manteision i chi pan fyddwch yn chwilio am waith.
- Dilysir y radd BSc hon gan Gymdeithas Gyfrifiaduron Prydain sef y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG.
- Yn ddiweddar rydym wedi gosod labordy rhwydweithio mawr - wedi'i gynllunio i roi'r cyfle i ddylunio a gweinyddu rhwydweithiau ac i gefnogi cyflwyno modiwlau saernïaeth cyfrifiaduron.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

- Computer Architecture and OS
- Mathemateg ar gyfer Cyfrifiadureg
- Object Oriented Programming
- Professional Perspectives
Byddwch yn treulio tua 12 awr mewn darlithoedd ac 8 awr mewn labordai bob wythnos. Byddwch hefyd yn cael 4 tiwtorial ym mhob modiwl a bydd yn rhaid i chi ysgrifennu adroddiadau am yr arbrofion, gweithio ar ddylunio meddalwedd a chwblhau ymarferion datrys problemau rhifiadol. Byddwch yn cael arholiad ar ddiwedd y semester. Mae rhai modiwlau yn cael eu hasesu trwy waith cwrs hefyd. Mae eich llyfrau gwaith labordy, adroddiadau technegol a'r project unigol hefyd yn cyfrannu at eich marciau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae gan raddedigion ragolygon gyrfa rhagorol yn y sectorau cynhyrchu pŵer a dosbarthu pŵer sy'n tyfu'n gyflym, gan gynnwys cynhyrchu ynni carbon isel ac adnewyddadwy a'r diwydiant gweithgynhyrchu. Bydd llawer yn cael swyddi mewn gorsafoedd pŵer, gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu pŵer, neu gyfleusterau ymchwil a datblygu'r llywodraeth neu breifat. Bydd graddedigion hefyd yn hyddysg mewn egwyddorion cyffredinol Peirianneg Electronig, gyda'r holl gyfleoedd gyrfa y mae'r sgiliau hynny'n eu cynnig. Mae natur datrys problemau a thrin rhifau ein holl gyrsiau gradd peirianneg yn golygu y bydd graddedigion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr mewn llawer o broffesiynau eraill.

ELECTRONIC ENGINEERING
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
H611 BSc/EE
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: gradd C/4 mewn Saesneg/ Cymraeg. Gwyddoniaeth gradd B/5 a Mathemateg (Haen Uwch). Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 80 pwynt tariff o gymwysterau Lefel 3* e.e.:
- Lefelau A
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC: MMP
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru
- Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMP

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tiwtor Mynediad

Ffôn: 01248 382686
E-bost: peirianneg@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/electroneg


BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'n gwrs gradd anrhydedd tair blynedd, sy'n eich paratoi ar gyfer gyrfa broffesiynol mewn cynllunio systemau electronig.

Cynlluniwyd y radd hon yn arbennig i ymgeiswyr sydd heb y cymwysterau arferol mewn mathemateg a ffiseg fel y gallant ddilyn eu diddordeb mewn electroneg a systemau electronig i lefel gradd. Yn ystod y cwrs byddwch yn cael sylfaen drylwyr yn yr holl dechnegau diweddaraf mewn electroneg analog a digidol, ynghyd â hyfforddiant mewn sgiliau proffesiynol, technegau rheoli project a pharatoad dwys mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer electroneg. Byddwch yn cael profiad ymarferol helaeth i sicrhau eich bod yn datblygu sgiliau ymarferol cadarn yn ogystal â gwybodaeth ddamcaniaethol drylwyr.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
- Computer Architecture and OS
- Dylunio Cylchedau
- Electronics Laboratory
- Imperative Programming Foundation
- Professional Perspectives
- Egwyddorion Trydan ac Electron
- Introduction to Embedded Systems
- Foundations Engineering Maths
- Engineering Mathematics

Blwyddyn 2
- Algorithm Design with MATLAB
- Communications Systems
- Cylchedau Digidol
- Electronics Laboratory
- Engineering Analysis Linear Systems
- Introduction to Operating Systems
- Optoelectronics
- Project Planning and Management
- VLSI Design
- Project Tîm Electroneg
- Mathematical Methods
- Analouge Electronics



Blwyddyn 3
- Business Process Re-engineering
- Control Systems
- Electromagnetics
- Project Unigol
- Information and Coding for Communications
- Optical Communication
- Quality Value and TQM
- Signal Processing
- Networks and Distributed Systems
- Microwave Systems Design Techniques and Applications

Syniad bras yn unig yw'r rhestr o'r modiwlau, a gallant newid bob blwyddyn.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 12 awr mewn darlithoedd ac 8 awr mewn labordai bob wythnos. Byddwch hefyd yn cael 4 tiwtorial ym mhob modiwl a bydd yn rhaid i chi ysgrifennu adroddiadau am yr arbrofion, gweithio ar ddylunio meddalwedd a chwblhau ymarferion datrys problemau rhifiadol.
Byddwch yn cael arholiad ar bob modiwl. Mae rhai modiwlau yn cael eu hasesu trwy waith cwrs hefyd. Mae eich llyfrau gwaith labordy, adroddiadau technegol a'r project terfynol yn cyfrannu at eich marciau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd gan raddedigion y radd hon ragolygon gyrfa rhagorol: bydd llawer yn cael swyddi cynllunio systemau electronig neu gyfrifiadurol, neu'n gweithio i gyfleusterau ymchwil a datblygu'r llywodraeth neu breifat. Mae rhai o'n myfyrwyr yn parhau â'u hastudiaethau ar lefel ôl-radd ac yn aml yn aros ymlaen ym Mangor i gwblhau MSc, MRes neu PhD.

BLWYDDYN SYLFAEN
Cynigir Blwyddyn Sylfaen mewn Electronic Engineering. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ar gyfer ymgeiswyr sydd ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd neu fyfyrwyr a fyddai'n elwa o astudio blwyddyn ychwanegol. Ar ôl cwblhau'r Flwyddyn Sylfaen, caiff y myfyrwyr symud ymlaen i Flwyddyn 1 y rhaglen radd gysylltiedig. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd cydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.









"Mae Bangor yn cynnig yr opsiwn i astudio rhai modiwlau yn y Gymraeg os dymunir, ac roeddwn i'n hoffi'r opsiwn o allu wneud hyn.

Mae'r cwrs wedi'i rannu rhwng modiwlau sy'n cael eu dysgu trwy ddarlithoedd, a sesiynau ymarferol yn y labordai. Mae'r cydbwysedd rhwng y darlithoedd a'r sesiynau yn y labordai wedi sicrhau fy mod yn deall y gwaith wrth i mi adeiladu cylchedau sydd wedi cael eu disgrifio yn y darlithoedd. Rwy'n hoffi'r ffaith fod y nifer o fyfyrwyr yn ein blwyddyn yn fach, sydd yn ei gwneud hi'n haws trafod y gwaith yn y darlithoedd.

Mae Bangor yn lle gwych i astudio, a digon o bethau i'w gwneud drwy'r amrywiaeth o glybiau. Mae gwasanaethau'r Brifysgol yn ddefnyddiol: er enghraifft, y gwasanaethau myfyrwyr, sy'n fodlon helpu beth bynnag yw'r broblem. Mae'r darlithwyr ym Mangor ar gael bob tro i gynnig cymorth os oes unrhyw broblem efo modiwl neu waith cwrs."

Megan Wyn Owen
Myfyriwr Peirianneg Electronig

GWYDDORAU MEDDYGOL

- **Medical Sciences BMedSci**
- **Biomedical Science BSc**
- **Medical Biology BSc**
- **Medical Biochemistry BSc**

Graddau Cysylltiedig

- Bachelor of Midwifery BM (tud 124)
- Bachelor of Nursing BN (tud 122)
- Diagnostic Radiography BSc (tud 125)
- Health and Social Care (tud 126)
- Sports Science (Intercalated) (tud 144)
- Clinical Sports Science (Intercalated) (tud 144)
- Psychology with Clinical and Health Psychology (tud 131)
- Psychology with Neuropsychology (tud 132)
- Sport, Health and Exercise Science (tud 139)
- Sport, Health and Physical Education (tud 141)

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
B100 BMedSci/Md
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 112 pwynt tariff o gymwysterau Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (gan gynnwys Bioleg ac o leiaf un wyddor arall o blith Cemeg (dymunol), Gwyddor Feddygol, Ffiseg neu Fathemateg
- Diploma Cymhwysol Gwyddor Feddygol a Thystysgrif Gymhwysol CBAC
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM (modiwlau Bioleg a Chemeg yn ofynnol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol: Gan gynnwys Bioleg a Chemeg (dewisol) ar Lefel Uwch
- Mynediad: Dim ond diplomâu Gwyddoniaeth neu Biowyddoniaeth sy'n rhoi'r wybodaeth gyn-ofynnol angenrheidiol: Llwyddo
- Bagloriaeth Cymru
- Cymhwyster Project Estynedig
- Ni dderbynnir Sgiliau Allweddol ac Astudiaethau Cyffredinol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Meddygol

Ffôn: 01248 383244
E-bost:
gwyddoraumeddygol@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/
gwyddoraumeddygol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Nod y radd hon yw darparu rhaglen wyddoniaeth sy'n berthnasol i feddygaeth gydag elfennau cryf o ymchwil broffesiynol. Mae'r cwrs hwn yn cyflwyno sylfaen gadarn i ddysgu gwyddonol, ystyried iechyd dynol a chlefydau ar lefel micro a macro ac yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu, integreiddio a chymhwyso eu gwybodaeth yn y fan lle mae darganfyddiadau gwyddonol ac ymarfer clinigol yn cyfarfod â'i gilydd. Mae'r rhaglen hon yn rhoi set sgiliau eang i raddedigion sy'n golygu ei bod yn ddewis cyntaf i'r rhai sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes iechyd ond sydd am gadw eu hopsiynau'n agored. Mae hefyd yn ddewis delfrydol i rai y mae Meddygaeth neu Ddeintyddiaeth yn brif nod iddynt; i fyfyrwyr galluog gall y radd hon fod yn gam tuag at eu derbyn i Ysgolion Meddygol fel dechreuwyr graddedig. Bydd myfyrwyr yn cael budd o arbenigedd addysgu ac ymchwil ar draws nifer o ddisgyblaethau.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae myfyrwyr Gwyddor Feddygol yn cael canolbwyntio ar addysg anatomegol, gan gynnwys mynediad i ystafell ddyrannu, sy'n brin y tu allan i ysgolion meddygol.
- Mae ein staff yn cynnwys academyddion, clinigwyr ac ymchwilwyr gyda phrofiad sylweddol yn y GIG ac mewn prifysgolion.
- Roedd ein hymchwil yn y 3ydd safle allan o 94 o gyflwyniadau ledled y DU ym maes Cynnyrch Ymchwil yn REF 2014.
- Rydym yn cynnig awyrgylch fywiog a'n nod yw datblygu graddedigion sydd â'r sgiliau i ddewis amrywiaeth o lwybrau gyrfa ym maes gofal iechyd, yn cynnwys cyrsiau meddygaeth ôl-radd.
- Ar gyfer myfyrwyr sydd â'r cymwysterau rhagofynnol angenrheidiol, mae BMedSci yn gwrs mynediad cydnabyddedig ar gyfer gradd Meddygaeth: Gogledd Cymru. Yn amodol ar gyfweliad llwyddiannus, gall myfyrwyr ddewis wneud cais i astudio Meddygaeth yng Nghaerdydd, neu aros ym Mangor am 4 blynedd ar gyfer eu gradd MBBCh. (Ewch i www.bangor.ac.uk/cyrsiau/israddedig/A102-Meddygaeth-Gogledd-Cymru am fwy o wybodaeth).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol
- Foundation in Molecules and Cells
- Sgiliau Allweddol Gwyddorau Meddygol
- Foundation in Chemistry
- Ymarfer Da'r Labordy
- Ymarferion Biofeddygol
- Ffisoleg Dynol
- Cyflwyniad Meicrobioleg
- Foundation in Therapeutics

Gan fod blwyddyn 1 yn gyffredin i bob gradd gyntaf yn Ysgol y Gwyddorau Meddygol, gall myfyrwyr gael cyfle i newid i radd arall o fewn yr ysgol cyn dechrau Blwyddyn 2 (yn amodol ar feini prawf cymhwysedd).

Blwyddyn 2 a 3
Mae eich modiwlau ail a thrydedd flwyddyn yn canolbwyntio ar ffisioleg ddynol ac anatomeg mewn iechyd a chlefydau, diagnosteg glinigol a therapiwteg, clefydau heintus, a chyfraniad genomeg i ymchwil feddygol. Thema gyffredinol fydd datblygu sgiliau trosglwyddadwy megis dadansoddi beirniadol, dehongli data a'r gallu i gyflwyno gwyddorau meddygol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Yn y drydedd flwyddyn, mae hyn yn arwain at ddarn o ymchwil annibynnol gan ddefnyddio llenyddiaeth wyddonol cysylltiedig â'r maes meddygol. Mae modiwlau cyfrwng Gymraeg ar gael hefyd.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Addysgir myfyrwyr trwy ddarlithoedd, seminarau ac ymarferion labordy (gan gynnwys sesiynau yn yr ystafell ddyrannu). Asesir y cwrs trwy gymysgedd o arholiadau a gwaith ymarferol/gwaith cwrs, yn cynnwys y project ymchwil yn y flwyddyn olaf. Mae croeso i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith cwrs, yn Gymraeg.

RHAGOLYGON GYRFA
Gyda gwybodaeth wyddonol integredig a sgiliau allweddol fel cloriannu beirniadol, cyfathrebu a datrys problemau, bydd gan raddedigion gyfle da iawn i gael swyddi mewn meysydd sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Byddant hefyd mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni rhaglenni MSc a PhD ac ar gyfer swyddi ymchwil yn y GIG (gan gynnwys Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr y GIG). Bydd yr elfen sgiliau proffesiynol yn cynorthwyo graddedigion i sicrhau lleoedd ar raglenni ôl-raddedig sy'n gysylltiedig â meysydd iechyd eraill, gyda chyfleoedd gyrfa i ddilyn mewn meysydd fel awdioleg, gwybodeg glinigol, cardiograffeg, hybu iechyd, therapi galwedigaethol, cwnsela genetig, parafeddyg, ffisiotherapi, cydymaith meddygol, therapi iaith a lleferydd. Mae myfyrwyr yn gymwys i wneud cais am y cwrs 4 blynedd Cynllun Mynediad i Raddedigion (MBBCh) ym Mhrifysgol Caerdydd. Sylwer i wneud cais am y rhaglen ôl-radd hon bydd angen i chi gyflawni eu holl feini prawf ychwanegol, gan gynnwys arholiadau mynediad.

BLWYDDYN SYLFAEN
Rydym yn cynnig Blwyddyn Sylfaen cyn blwyddyn 1 i baratoi myfyrwyr ar gyfer rhaglenni israddedig yn yr Ysgol. Mae'r opsiwn hwn yn darparu'r ddealltwriaeth hanfodol o egwyddorion biolegol a chemegol sy'n sail i'r maes. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i ymgeiswyr heb y cefndir gwyddonol angenrheidiol ar gyfer y rhaglenni 3 blynedd gychwyn ar gwrs 4 blynedd sy'n arwain at yr un cymhwyster, yn amodol ar basio'r Flwyddyn Sylfaen yn llwyddiannus.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
B102 BSC/BSC
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 112 pwynt tariff o gymwysterau Lefel 3* e.e.:
- Lefel A yn cynnwys Bioleg gradd C neu uwch ac o leiaf un wyddor arall o blith Cemeg (dymunol), Gwyddor Feddygol, Ffiseg neu Fathemateg.
- Diploma Cymhwysol Gwyddor Feddygol a Thystysgrif Gymhwysol CBAC
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM (modiwlau Bioleg a Chemeg yn ofynnol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol: Yn cynnwys Bioleg (H5) a Chemeg ar Lefel Uwch
- Mynediad: Dim ond diplomâu Gwyddoniaeth neu Biowyddoniaeth sy'n rhoi'r wybodaeth gyn-ofynnol angenrheidiol: Llwyddo
- Bagloriaeth Cymru
- Cymhwyster Project Estynedig
- Ni dderbynnir Sgiliau Allweddol ac Astudiaethau Cyffredinol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Meddygol

Ffôn: 01248 383244
E-bost:
gwyddoraumeddygol@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/
gwyddoraumeddygol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn ymwneud ag integreiddio ystod eang o bynciau sy'n sail i ymchwil wyddonol i iechyd ac afiechyd dynol. Pwrpas y cwrs hwn yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol i fyfyrwyr am fioleg afiechyd, gan gynnwys cysyniadau a chymwysiadau modern gwyddor biofeddygol wrth ganfod, trin ac ymchwilio i anhwylderau clinigol. Anogir myfyrwyr i ddysgu am y gwyddorau biolegol craidd er mwyn datblygu sgiliau mewn disgyblaethau biofeddygol mwy arbenigol, sef biocemeg glinigol, patholeg y gell, haematoleg a microbioleg feddygol. Mae yna alw am raddedigion sydd â phrofiad o'r uwch dechnegau diagnostig a moleciwlaidd sy'n chwyldroi prosesau canfod a thrin afiechydon.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae'r radd hon wedi'i hachredu gan yr Institute of Biomedical Science (IBMS).
- Mae staff gwyddonol a chlinigol o ysbytai yng Ngogledd Cymru yn ymwneud â phob agwedd ar ddysgu'r radd.
- Mae ymchwil wyddonol flaengar yn rhan annatod o'n rhaglenni ymchwil, ac yn treiddio i'n hamgylchedd dysgu.
- Roedd ein hymchwil yn y 3ydd safle allan o 94 o gyflwyniadau ledled y DU ym maes Cynnyrch Ymchwil yn REF 2014.
- Gall graddedigion arbenigo mewn un o sawl disgyblaeth labordy yn y GIG, gan gynnwys microbioleg feddygol, biocemeg glinigol, patholeg cellog, imiwnoleg, haematoleg a gwyddor trallwysiad, neu ddilyn gyrfa mewn amrywiaeth o feysydd diagnostig ac ymchwil meddygol.
- Rydym yn cynnig awyrgylch bywiog a chyfeillgar, gydag enw da am gefnogaeth myfyrwyr ac am foddhad myfyrwyr.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Foundation in Molecules and Cells
- Sgiliau Allweddol Gwyddorau Meddygol
- Foundation in Chemistry
- Ymarfer Da'r Labordy
- Ymarferion Biofeddygol
- Ffisoleg Dynol
- Cyflwyniad Meicrobioleg
- Foundation in Therapeutics

Gan fod blwyddyn 1 yn gyffredin i bob gradd gyntaf yn Ysgol y Gwyddorau Meddygol, gall myfyrwyr gael cyfle i newid i radd arall yn yr ysgol cyn dechrau Blwyddyn 2 (yn amodol ar feini prawf cymhwysedd).

Blwyddyn 2 a 3
Mae eich modiwlau ail a thrydedd flwyddyn yn rhoi pwyslais ar ficrobioleg feddygol, biocemeg glinigol, patholeg gellog, imiwnoleg, haematoleg a gwyddor trallwysiad, datblygu cyffuriau ac astudiaethau moleciwlaidd a genetig. Treulir cryn dipyn o amser yn ein labordai sy'n cynnwys yr offer diweddaraf, a bydd hynny'n mireinio'ch technegau a chymhwyso'r hyn rydych wedi'i ddysgu. Thema gyffredinol fydd datblygu sgiliau trosglwyddadwy megis dadansoddi beirniadol, dehongli data a'r gallu i gyflwyno gwyddor biofeddygol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Yn y drydedd flwyddyn, mae hyn yn arwain at ymchwil annibynnol mewn labordy ac ymchwil i lenyddiaeth wyddonol cysylltiedig â'r maes meddygol.

Efallai y bydd cyfle i'r rhai sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn labordai patholeg GIG wneud cais am brofiad gwaith gwirfoddol yn ystod y cwrs. Efallai y bydd yn bosibl dilyn rhaglen hyfforddi a gynlluniwyd i fodloni'r gofynion cymhwysedd i wneud cais am gofrestru fel Gwyddonydd Biofeddygol gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal ar ôl cwblhau'r radd. Gall teitlau a chyfuniadau modiwlau newid.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Addysgir myfyrwyr trwy ddarlithoedd, seminarau a gwaith ymarferol a gynhelir yn y brifysgol ac mewn ysbytai lleol. Asesir y cwrs trwy gymysgedd o arholiadau a gwaith ymarferol/gwaith cwrs, yn cynnwys y project ymchwil yn y flwyddyn olaf. Mae croeso i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith cwrs, yn Gymraeg.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae galw mawr am wyddonwyr biofeddygol gan ystod eang o gyflogwyr mewn meysydd fel y gwasanaeth iechyd, diwydiant fferyllol, ymchwil feddygol, gwyddor bwyd, iechyd y cyhoedd a gwyddoniaeth fforensig a derbynnir y radd hefyd gan lawer o brifysgolion ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig mewn meddygaeth, deintyddiaeth a milfeddygaeth. Bydd graddedigion hefyd mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni rhaglenni MSc a PhD ac ar gyfer swyddi ymchwil yn y GIG a Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr y GIG.

BLWYDDYN SYLFAEN
Rydym yn cynnig Blwyddyn Sylfaen cyn blwyddyn 1 i baratoi myfyrwyr ar gyfer rhaglenni israddedig yn yr Ysgol. Mae'r opsiwn hwn yn darparu'r ddealltwriaeth hanfodol o egwyddorion biolegol a chemegol sy'n sail i'r maes. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i ymgeiswyr heb y cefndir gwyddonol angenrheidiol ar gyfer y rhaglenni 3 blynedd gychwyn ar gwrs 4 blynedd sy'n arwain at yr un cymhwyster, yn amodol ar basio'r Flwyddyn Sylfaen yn llwyddiannus.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod UCAS y cwrs:
B103 BSC/MB10
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 112 pwynt tariff o gymwysterau Lefel 3* e.e.:
- Lefel A yn gynnwys Bioleg ac o leiaf un wyddor arall o blith Cemeg (dymunol), Gwyddor Feddygol, Ffiseg neu Fathemateg)
- Diploma Cymhwysol Gwyddor Feddygol a Thystysgrif Gymhwysol CBAC
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM (modiwlau Bioleg a Chemeg yn ofynnol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol: Gan gynnwys Bioleg a Chemeg (dewisol) ar Lefel Uwch
- Mynediad: Dim ond diplomâu Gwyddoniaeth neu Biowyddoniaeth sy'n rhoi'r wybodaeth gyn-ofynnol angenrheidiol: Llwyddo
- Bagloriaeth Cymru
- Cymhwyster Project Estynedig
- Ni dderbynnir Sgiliau Allweddol ac Astudiaethau Cyffredinol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Meddygol

Ffôn: 01248 383244
E-bost:
gwyddoraumeddygol@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/
gwyddoraumeddygol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Bioleg feddygol yw'r bont rhwng ymchwil sylfaenol a meddygaeth glinigol. Dyma gonglfaen gofal iechyd modern a datblygiad cyffuriau uwch. Byddwch yn dysgu am achosion cellog a genynnol prif anhwylderau meddygol fel canser, clefydau awto-imiwn, anhwylderau genynnol, yn ogystal â datblygu eich gwybodaeth am fioleg bôn-gelloedd. Byddwch yn astudio sut mae prif glefydau dynol yn datblygu ac archwilio'r gwahanol ffyrdd y gellir trin anhwylderau meddygol.
Bydd y radd yn manteisio ar yr arbenigedd a'r cyfleusterau sy'n gysylltiedig â Sefydliad Ymchwil Canser y Gogledd Orllewin.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ymchwil wyddonol flaengar yn rhan annatod o'n rhaglenni ymchwil, ac yn treiddio i'n hamgylchedd dysgu. Mae ein harbenigedd mewn bioleg feddygol yn cynnwys astudiaethau i ymchwil cylchred celloedd, bioleg canser, bioleg celloedd a genom.
- Roedd ein hymchwil yn y 3ydd safle allan o 94 o gyflwyniadau ledled y DU ym maes Cynnyrch Ymchwil yn REF 2014.
- Mae ein cyfleusterau ardderchog yn cynnwys labordai ymchwil celloedd a moleciwlaidd, gyda'r offer gorau, a labordai newydd ar gyfer addysgu ymarferol.
- Rydym yn cynnig awyrgylch bywiog a chyfeillgar, gydag enw da am gefnogaeth myfyrwyr ac am foddhad myfyrwyr.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Foundation in Molecules and Cells
- Sgiliau Allweddol Gwyddorau Meddygol
- Foundation in Chemistry
- Ymarfer Da'r Labordy
- Ymarferion Biofeddygol
- Ffisoleg Dynol
- Cyflwyniad Meicrobioleg
- Foundation in Therapeutics



Gan fod blwyddyn 1 yn gyffredin i bob gradd gyntaf yn Ysgol y Gwyddorau Meddygol, gall myfyrwyr gael cyfle i newid i radd arall yn yr ysgol cyn dechrau Blwyddyn 2 (yn amodol ar feini prawf cymhwysedd).

Blwyddyn 2 a 3
Mae modiwlau yn yr ail a'r drydedd flwyddyn yn adeiladu ar gynnwys y flwyddyn gyntaf ac yn cyflwyno cysyniadau a sgiliau ymarferol mwy datblygedig. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar gael gwybodaeth ac arbenigedd y gellir eu defnyddio ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol (e.e. ein MRes mewn Meddygaeth Foleciwlaidd neu astudiaethau PhD) neu gyflogaeth mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag ymchwil.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych amrywiaeth o ddarlithoedd a sesiynau ymarferol bob wythnos, ynghyd â thiwtorialau ym mlynyddoedd 1 a 2. Mae'r flwyddyn olaf yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth, dan oruchwyliaeth aelod staff, ar bwnc sydd o ddiddordeb ichi. Asesir trwy arholiad ffurfiol ac asesu parhaus. Mae croeso i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith cwrs, yn Gymraeg.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae graddedigion mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion recriwtio cyflogwyr ym meysydd biotechnoleg, datblygu cyffuriau, ymchwil glinigol neu wasanaethau iechyd cyhoeddus. Gall biolegwyr meddygol ymwneud â rheoli eiddo deallusol, datblygu busnes, rheoli projectau neu farchnata, ac fe'u cyflogir gan elusennau canser, asiantaethau'r llywodraeth, y GIG a sefydliadau ymchwil.

BLWYDDYN SYLFAEN
Rydym yn cynnig Blwyddyn Sylfaen cyn blwyddyn 1 i baratoi myfyrwyr ar gyfer rhaglenni israddedig yn yr Ysgol. Mae'r opsiwn hwn yn darparu'r ddealltwriaeth hanfodol o egwyddorion biolegol a chemegol sy'n sail i'r maes. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i ymgeiswyr heb y cefndir gwyddonol angenrheidiol ar gyfer y rhaglenni 3 blynedd gychwyn ar gwrs 4 blynedd sy'n arwain at yr un cymhwyster, yn amodol ar basio'r Flwyddyn Sylfaen yn llwyddiannus.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod UCAS y cwrs:
B113 BSc
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 112 pwynt tariff o gymwysterau Lefel 3* e.e.:
- Lefel A yn cynnwys Cemeg, Bioleg (dymunol) ac un pwnc STEM arall
- Diploma Cymhwysol Gwyddor Feddygol a Thystysgrif Gymhwysol CBAC
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM (modiwlau Bioleg a Chemeg yn ofynnol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol: Yn cynnwys Bioleg a Chemeg ar Lefel Uwch
- Mynediad: Dim ond diplomâu Gwyddoniaeth neu Biowyddoniaeth sy'n rhoi'r wybodaeth gyn-ofynnol angenrheidiol: Llwyddo
- Bagloriaeth Cymru
- Cymhwyster Project Estynedig
- Ni dderbynnir Sgiliau Allweddol ac Astudiaethau Cyffredinol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Meddygol

Ffôn: 01248 383244
E-bost:
gwyddoraumeddygol@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/
gwyddoraumeddygol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn ceisio darparu rhaglen gwyddor bywyd eang gyda phwyslais penodol ar fiocemeg sy'n berthnasol i feddygaeth. Bydd y cwrs yn rhoi sylfaen gadarn i sail wyddonol iechyd a chlefydau mewn pobl gyda phwyslais arbennig ar swyddogaeth geneteg a llwybrau cemegol wrth gyfrannu at afiechyd. Mae pwyslais cryf trwy gydol y radd ar ddysgu sgiliau trosglwyddadwy allweddol a fydd yn sicrhau y bydd graddedigion y rhaglen hon yn gyflogadwy iawn mewn nifer o feysydd.

PAM DEWIS BANGOR?
- Bydd myfyrwyr llwyddiannus mewn sefyllfa ddelfrydol i ddilyn cyrsiau uwch MSc a PhD ac ar gyfer swyddi ymchwil yn y Gwasanaeth Iechyd.
- Er mwyn cyflawni hyn, bydd myfyrwyr yn cael eu haddysgu gan academyddion, clinigwyr ac ymchwilwyr sydd â phrofiad sylweddol yn y Gwasanaeth Iechyd ac mewn meysydd academaidd ac ymchwil.
- Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i wneud gwaith labordy yn ein cyfleusterau rhagorol.
- Roedd ein hymchwil yn y 3ydd safle allan o 94 o gyflwyniadau ledled y DU ym maes Cynnyrch Ymchwil yn REF 2014.
- Mae Prifysgol Bangor yn sefydliad bywiog a chyfeillgar, gydag enw da am gefnogi myfyrwyr ac am foddhad myfyrwyr.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Yn ystod y flwyddyn gyntaf byddwch yn mynd i ddarlithoedd, tiwtorialau a sesiynau ymarferol labordy er mwyn cael sylfaen eang o wybodaeth a hyfedredd perthnasol.

Modiwlau gorfodol:
- Foundation in Molecules and Cells
- Sgiliau Allweddol Gwyddorau Meddygol
- Foundation in Chemistry
- Ymarfer Da'r Labordy
- Ymarferion Biofeddygol
- Ffisoleg Dynol
- Cyflwyniad Meicrobioleg
- Foundation in Therapeutics

Gan fod blwyddyn 1 yn gyffredin i bob gradd gyntaf yn Ysgol y Gwyddorau Meddygol, gall myfyrwyr gael cyfle i newid i radd arall yn yr ysgol cyn dechrau Blwyddyn 2 (yn amodol ar feini prawf cymhwysedd).

Blwyddyn 2 a 3
Bydd eich modiwlau ail a thrydedd flwyddyn yn ehangu ar y pynciau gwyddor bywyd allweddol y rhoddir sylw iddynt ym mlwyddyn 1 wrth gyflwyno cysyniadau sylfaenol mewn biocemeg feddygol i chi. Bydd myfyrwyr yn ymdrin â phynciau'n cynnwys metaboledd cellog, geneteg feddygol a genomeg, a phwysigrwydd cemeg anorganig ac organig mewn iechyd a chlefydau. Yn ystod y drydedd flwyddyn bydd disgwyl i chi hefyd gwblhau darn o ymchwil annibynnol lle byddwch yn ymdrin â chwestiwn allweddol ym maes biocemeg feddygol. Bydd canfyddiadau eich ymchwil yn cael eu cyflwyno fel traethawd hir. Mae modiwlau cyfrwng Cymraeg ar gael hefyd.

Efallai y bydd cyfle i'r rhai sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn labordai patholeg GIG wneud cais am brofiad gwaith gwirfoddol yn ystod y cwrs. Efallai y bydd yn bosibl dilyn rhaglen hyfforddi a gynlluniwyd i fodloni'r gofynion cymhwysedd i wneud cais am gofrestru fel Gwyddonydd Biofeddygol gyda'r Cyngor Proffesiynau lechyd a Gofal ar ôl cwblhau'r radd. Gall teitlau a chyfuniadau modiwlau newid.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Addysgir myfyrwyr trwy ddarlithoedd, seminarau a gwaith ymarferol a gynhelir yn y brifysgol ac mewn ysbytai lleol. Asesir y cwrs trwy gymysgedd o arholiadau a gwaith ymarferol/gwaith cwrs, yn cynnwys y project ymchwil yn y flwyddyn olaf. Mae croeso i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith cwrs, yn Gymraeg.

RHAGOLYGON GYRFA
Gyda gwybodaeth wyddonol integredig a sgiliau allweddol fel cloriannu beirniadol, cyfathrebu a datrys problemau, bydd gan raddedigion gyfle da iawn i gael swyddi mewn meysydd sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Byddant hefyd mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflawni rhaglenni MSc a PhD ac ar gyfer swyddi ymchwil yn y byd academaidd ac yn y Gwasanaeth lechyd (gan gynnwys Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr y GIG).

Ymhlith y cyfleoedd cyflogaeth mae biowybodeg glinigol, gwyddor fferyllol glinigol, gwyddorau ffisiolegol, biocemeg glinigol, cwnsela genomig, gwyddorau parafeddygol, a chydymaith meddygol. Sylwer fod angen astudio ôl-raddedig pellach neu hyfforddiant ar lawer o'r rhain.

Yn ogystal, bydd graddedigion o'r radd Biocemeg Feddygol mewn sefyllfa dda i gael swyddi yn y diwydiant fferyllol.

BLWYDDYN SYLFAEN
Rydym yn cynnig Blwyddyn Sylfaen cyn blwyddyn 1 i baratoi myfyrwyr ar gyfer rhaglenni israddedig yn yr Ysgol. Mae'r opsiwn hwn yn darparu'r ddealltwriaeth hanfodol o egwyddorion biolegol a chemegol sy'n sail i'r maes. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i ymgeiswyr heb y cefndir gwyddonol angenrheidiol ar gyfer y rhaglenni 3 blynedd gychwyn ar gwrs 4 blynedd sy'n arwain at yr un cymhwyster, yn amodol ar basio'r Flwyddyn Sylfaen yn llwyddiannus.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
A102
Hyd: 4 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
A102 - Meddygaeth Mynediad i Raddedigion GEM):
Ar adeg argraffu mae llwybr derbyn A102 (Mynediad i Raddedigion i Feddygaeth - GEM) ar gael trwy ffrydiau bwydo yn unig. Mae ein ffrydiau bwydo cydnabyddedig i gael mynediad i'r A102 GEM ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio gydag un o'r graddau canlynol:

- BSc (Anrh) Ffarmacoleg Feddygol Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd (B210)
- BSc (Anrh) Gwyddorau Biofeddygol Ysgol y Biowyddorau Prifysgol Caerdydd (BC97)
- BMedSci o'r Ysgol Gwyddorau Meddygol, Prifysgol Bangor (B100)
- BSc (Anrh) Gwyddorau Meddygol o Brifysgol De Cymru (B901)

Os ydych yn astudio un o'r ffrydiau bwydo ar hyn o bryd a gyda diddordeb yn y cwrs, cysylltwch â ni.

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

C21 Gogledd Cymru | North Wales

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Meddygol

Ffôn: 01248 388620
E-bost:
gwyddoraumeddygol@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/medical-sciences/medicine-north-wales

BETH YW C21 NORTH WALES / GOGLEDD CYMRU?
Mae Prifysgol Bangor, mewn cydweithrediad ag Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd, yn cyflwyno'r cwricwlwm C21 Gogledd Cymru, lle mae graddedigion yn cael eu derbyn i raglen feddygol 4 blynedd (MBBCh). Mae'r rhaglen wedi'i lleoli'n gyfan gwbl yng Ngogledd Cymru gyda lleoliadau ledled y rhanbarth.

Ein nod yw hyfforddi'r meddygon gorau un i Gymru ac yn ehangach yn y DU trwy ddarparu addysgu o ansawdd uchel, a phrofiad dysgu ysbrydoledig wedi'i seilio ar lefelau uchel o gyswllt clinigol.

Cyflwynir cwrs C21 North Wales / Gogledd Cymru mewn partneriaeth rhwng yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ym Mhrifysgol Bangor ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd. Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr sydd eisoes yn raddedigion gyflawni eu holl radd feddygol yng Ngogledd Cymru.

Bydd myfyrwyr ar y rhaglen Feddygaeth hon yn dilyn yr un cwricwlwm i raddau helaeth â'r rhai sydd yng Nghaerdydd, ond gan ganolbwyntio mwy ar feddygaeth gymunedol trwy ystod o leoliadau clinigol mewn amgylcheddau amrywiol, gan gynnwys blwyddyn lawn mewn meddygfa meddygon teulu, cyfnod mewn ysbytai addysgu mawr, meddygaeth mynydd ac amgylcheddau gwledig.

Bydd myfyrwyr hefyd yn profi addysgu mewn grwpiau bach ym Mhrifysgol Bangor (enillydd Safon Aur TEF) ac addysgu clinigol ym Mwrdd Iechyd y Brifysgol sydd wedi ennill gwobrau am eu gwaith.

Mae cwrs C21 North Wales/Gogledd Cymru yn derbyn myfyrwyr sy'n perfformio'n dda o gyrsiau bwydo cydnabyddedig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Mynediad i Raddedigion Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd, a hefyd myfyrwyr sydd eisoes wedi'u derbyn i'w rhaglen A100 sy'n dymuno trosglwyddo i Fangor, ar ôl cwblhau'r flwyddyn gyntaf yn llwyddiannus. Mae'r cwrs wedi'i strwythuro i alluogi myfyrwyr i gael y wybodaeth, y sgiliau clinigol a'r agweddau proffesiynol angenrheidiol sy'n ofynnol gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol o fewn cwricwlwm sbiral integredig.

YDW I'N GYMWYS?
Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr A100 sy'n dymuno cyflawni rhaglen C21 North Wales/Gogledd Cymru fodloni'r un meini prawf mynediad â myfyrwyr eraill ar gwrs safonol A100 Prifysgol Caerdydd a byddant yn ymrwymo i ymgymryd â blwyddyn 2 y cwrs ymlaen yng Ngogledd Cymru, yn dilyn symud ymlaen yn llwyddiannus o flwyddyn 1 y cwrs. Darperir cefnogaeth benodol i fyfyrwyr sy'n dewis cyflawni'r opsiwn hwn i sicrhau bod paratoi digonol ar gyfer y symud. Gall myfyrwyr blwyddyn 1 roi gwybod ar ddechrau'r cwrs eu bod yn dymuno manteisio ar yr opsiwn hwn.

Ar adeg argraffu, derbynnir mynegiadau o ddiddordeb gan fyfyrwyr blwyddyn 1 o ddechrau'r cwrs ond rydym yn rhagweld y bydd cod cwrs ar wahân yn cael ei gynhyrchu. Mae hyn yn caniatáu i ymgeiswyr Ysgol Feddygol Caerdydd ddewis llwybr Bangor wrth wneud cais yn hytrach nag ar ddechrau eu cwrs yng Nghaerdydd.

Cysylltwch ag Ysgol Feddygol Caerdydd neu Brifysgol Bangor i gael mwy o wybodaeth am yr opsiwn hwn.

GWYBODAETH BELLACH A SUT I WNEUD CAIS
Mae angen i ymgeiswyr sy'n dymuno astudio'r cwrs Prifysgol Caerdydd hwn yng Ngogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor wneud cais trwy Gaerdydd. Gellwch gael rhagor o wybodaeth am y cwrs, manylion cyswllt a gwybodaeth ymgeisio ar wefan Caerdydd yma:
https://www.cardiff.ac.uk/study/undergraduate/courses/2020/mbbch-north-wales

YMWELD Â BANGOR
Os oes gennych ddiddordeb mewn astudio ym Mangor, yna gellwch ymweld â'r brifysgol trwy gofrestru ar gyfer Diwrnod Agored. (Gweler tudalennau rhagarweiniol y prosbectws hwn am fanylion).

GWYDDORAU IECHYD

- **Bachelor of Midwifery BM***
- **Bachelor of Nursing BN***
- **Diagnostic Radiography BSc***
- **Health and Social Care BA**

*Mae'r rhaglenni yma yn arwain at gofrestriad proffesiynol gyda'r corff

Graddau Cysylltiedig

- Biomedical Science BSc (tud 117)
- Medical Biochemistry BSc (tud 119)
- Medical Biology BSc (tud 118)
- Medical Sciences BMedSci (tud 116)
- Sports Science (Intercalated) (tud 144)
- Clinical Sports Science (Intercalated) (tud 144)
- Neuropsychology (Intercalated) (tud 132)
- Psychology with Clinical and Health Psychology (tud 131)
- Psychology with Neuropsychology (tud 132)
- Sport, Health and Exercise Science (tud 139)
- Sport, Health and Physical Education (tud 141)

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
B741 (Adult Nursing)
B763 (Learning Disability Nursing)
B762 (Mental Health Nursing)
B732 (Children's Nursing)
Hyd: 3 blynedd

Campws Wrecsam
Oedolion - carfannau Medi a Gwanwyn
Iechyd Meddwl - carfan y gwanwyn
Plant - carfan Medi.
Campws Bangor
Oedolion - carfannau Medi a Gwanwyn
Iechyd Meddwl - carfan Medi
Anabledd Dysgu - carfan Medi.
Am leoliadau'r Meysydd Ymarfer, ewch i'r wefan neu cysylltwch â ni.

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae'r manylion llawn am y gofynion mynediad, y sgrinio a'r broses gyfweld ar gael ar ein gwefan.
Cewch wybodaeth am ofynion nyrsio cyn-gofrestru y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, o ran llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu a'r gofynion mewn perthynas ag iechyd da a chymeriad da ar wefan y CNB: www.nmc-uk.org

Ar adeg argraffu'r llyfryn hwn, mae'r cwrs wedi ei ddilysu yn erbyn y Safonau Addysg Cyn-gofrestru Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2018.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Gofal Iechyd

Ffon: 01248 383189
e-bost: iechyd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraugofaliechyd

GWYDDORAU GOFAL IECHYD
Rydym yn darparu amgylchedd ysgogol a chefnogol i'n myfyrwyr ennill cymwysterau israddedig ac ôl-raddedig mewn gofal iechyd.
Mae cyrsiau perthnasol yn galluogi ein graddedigion i wneud cais am gofrestriad proffesiynol gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.
Bydd ein partneriaethau - gan weithio gyda sefydliadau'r GIG, rhaglenni ymchwil bywiog, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer dysgu rhyngbroffesiynol yn sicrhau bod ein graddedigion mewn sefyllfa dda i ddilyn gyrfaoedd llwyddiannus sy'n rhoi llawer o foddhad mewn gofal iechyd, yn cynnwys y proffesiynau nyrsio, bydwreigiaeth a radiograffeg.

Mae ein staff academaidd a'n partneriaid clinigol wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd dysgu sy'n gwella eich dealltwriaeth o ymarfer clinigol a'ch hyder ynddo. Trwy ein hymchwil, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ymarfer proffesiynol a gwella gofal iechyd. Mae gennym arbenigedd hefyd mewn darparu gofal clinigol a chymdeithasol yn nghyd-destun dwyieithog Cymru ac rydym yn cefnogi ein myfyrwyr i ddefnyddio eu hiaith ddewisiol ar gyfer eu hastudiaethau.

Cyflwynir rhai cyrsiau ar ein campws yn Wrecsam yn unig gyda chyrsiau eraill yn cael eu cyflwyno ym Mangor a Wrecsam, gan roi hyblygrwydd ychwanegol i'n myfyrwyr.

GOFYNION MYNEDIAD:
Proses Mynediad ar gyfer Cyrsiau Proffesiynol
5 TGAU ar radd C/4 neu'n uwch ac mae'n rhaid eu bod yn cynnwys Saesneg a Mathemateg, mae pwnc gwyddoniaeth yn angenrheidiol ar gyfer radiograffeg ac yn ddymunol ar gyfer rhaglenni Baglor Nyrsio. Gall rhai ymgeiswyr Diploma Mynediad AU gael eu heithrio rhag cyflawni'r gofynion TGAU yn llawn.

Rhaid i bob ymgeisydd fodloni ystod o feini prawf mynediad - edrychwch ar Safonau Addysg Nyrsio Cyn-gofrestru y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar www.nmc.org.uk/standards/standards-for-nurses/standards-for-pre-registration-nursing-programmes/
Mae gofynion mynediad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cynnwys dangos iechyd da a chymeriad da. Mae'r Ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd gael gwiriad cofnod troseddol a gofynion eraill ar gyfer dangos cymeriad da; bydd y Bwrdd Iechyd lleol yn gyfrifol am osod y gofyniad am iechyd da.

Gallwch hefyd gysylltu ag admissions.health@bangor.ac.uk i gael cyngor/gwybodaeth bellach.

Bydd rhaid i ymgeiswyr gyda chymwysterau mynediad hŷn na 5 oed ddangos tystiolaeth o astudiaeth ddiweddar ar lefel briodol.

Gofynion academaidd
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg/Iaith Gymraeg a Mathemateg neu'r hyn sy'n cyfateb mewn Sgiliau Hanfodol Rhifedd a Chyfathrebu, lefel 2. O leiaf 04 o'r Irish Leaving Certificate. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm 112 pwynt tariff ar gyfer y rhaglenni Baglor Nyrsio o gymwysterau lefel 3* e.e.::
- Lefel A a Lefel-Tech
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DDM
- Diploma Bagloriaeth Rhyngwladol
- Cymhwyster Project Estynedig
- Mynediad: i gynnwys Rhagoriaeth neu Teilyngdod (lleifaswm o 9 pas)
- Bagloriaeth Cymru
- Irish Leaving Certificate: 120 pwynt o fan leiaf 4 pwnc uwch
- Tystysgrif Lefel 5 FETAC QETI mewn Astudiaethau Nyrsio: Proffil Rhagoriaeth
- Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn sy'n cwblhau Diploma Mynediad AU neu sydd â thystiolaeth o astudio diweddar ar Lefel 3 neu'n uwch yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf sy'n cwrdd â'n gofynion mynediad; sylwch nad ydym yn derbyn NVQ Lefel 3 / QCF Lefel 3 fel ffordd o fodloni ein cymwysterau mynediad.

*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'r radd Baglor Nyrsio yn addas i yrfaoedd sy'n ymwneud â gweithio gyda phobl o bob oed sy'n wynebu heriau iechyd corfforol a meddyliol neu'n byw gydag anableddau dysgu sydd angen gofal nyrsio proffesiynol. Mae nyrsio yn cynnig ystod o yrfaoedd diddorol a buddiol ym maes gofal iechyd. Gellir cael cyngor ar ofynion mynediad a gyrfaoedd yn: www.nhscareers.nhs.uk/explore-by-career/nursing/

Adult Nursing BN
Yr un gair allweddol y gellid ei ddefnyddio i ddisgrifio swydd nyrsys sydd wedi cofrestru ym maes oedolion yw amrywiaeth - mae disgwyl i nyrsys cofrestredig sydd wedi cofrestru ym maes oedolion (ac efallai bod ganddynt gymwysterau cofrestradwy ychwanegol, er enghraifft rhagnodi neu addysgu) ofalu am anghenion pobl ar hyd eu hoes, yn cynnwys diogelu iechyd mamau a babanod. Byddwch yn gallu profi'r amrywiaeth honno yn ystod lleoliadau mewn meysydd clinigol lle mae nyrsys oedolion yn ymarfer a allai gynnwys:
- Nyrsio meddygol a llawfeddygol cyffredinol ac arbenigol yn y sector acíwt
- Nyrsio gofal critigol (gofal dwys a dibyniaeth uchel, adran frys, theatrau ac adferiad)
- Nyrsio cymunedol yn amgylchedd y cartref a gofal sylfaenol

Children's Nursing BN
Mae nyrs plant yn gofalu am blant a phobl ifanc o bob oed, o fabi newydd-anedig i glasoed, a chydag ystod o anghenion iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol. Mae'r swydd yn rhoi llawer o foddhad a all fod yn heriol yn safleoedd gofal iechyd heddiw lle mae newidiadau yn digwydd yn gyflym. Gan weithio fel aelod o dîm gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill mae nyrsys plant yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysbytai, clinigau cymunedol, unedau arbenigol neu gartrefi cleifion. Mae nyrsys plant yn gweithio'n agos gydag aelodau o'r teulu a gofalwyr i leihau'r effaith o fod yn sâl neu yn yr ysbyty.

Mae'r cwrs hwn wedi ei leoli ar gampws Canolfan Archimedes Bangor yn Wrecsam.

Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwlau damcaniaethol mewn nyrsio generig a phynciau maes plant penodol; cynhelir lleoliadau ar draws y tair blynedd mewn ystod o feysydd clinigol fel ysbytai, unedau babanod gofal arbennig, hosbis, gwasanaethau iechyd meddwl, timau nyrsio plant cymunedol ac unedau gofal dwys pediatreg arbenigol yn Lloegr.

Mental Health Nursing BN
Mae nyrsio iechyd meddwl yn yrfa heriol sy'n rhoi llawer o foddhad. Mae nyrsys iechyd meddwl yn gweithio gyda phobl sy'n profi amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl mewn nifer o wahanol leoliadau gan roi sylw i'w hiechyd meddwl yn ogystal â'u hangenion corfforol, cymdeithasol ac ysbrydol. Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfle i gael gradd a chofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae gan bob blwyddyn o'r rhaglen fodiwlau generig a modiwlau penodol i faes iechyd meddwl sy'n gyfystyr â 120 credyd y flwyddyn. Mae gennym ystod o leoliadau ar gael i fyfyrwyr sy'n cynnwys gwasanaethau plant a'r glasoed, unedau cleifion mewnol, timau iechyd meddwl cymunedol, gwasanaethau gofal i'r henoed, unedau diogelwch canolig a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Learning Disability Nursing BN
Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfle i ennill cymhwyster a fydd yn eich galluogi i gael gyrfa sy'n rhoi llawer o foddhad yn gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n byw gydag anableddau dysgu ac sydd angen cefnogaeth nyrs anabledd dysgu. Gellir gweld nyrsys anabledd dysgu yn gweithio mewn gwahanol leoliadau yn ogystal ag ar gyfer ystod o wahanol gyflogwyr sy'n cynnwys y GIG a'r sector annibynnol. Mae nyrsys anabledd dysgu yn aml yn cyfrannu at weithio amlbroffesiwn, ac yn ymwneud ag iechyd eu cleientiaid yn y cyd-destun ehangaf. Maent yn helpu cleientiaid o bob oed i fyw eu bywydau mor llawn ac annibynnol â phosibl, tra'n parchu eu hawliau a'u hurddas.
Treulir rhywfaint o amser y cwrs ar leoliad, mewn ystod o wahanol leoliadau. Pwrpas lleoliadau yw rhoi profiad i chi o weithio gyda chleientiaid a defnyddwyr gwasanaeth o dan oruchwyliaeth nyrsys cofrestredig ac eraill.
O'r flwyddyn gyntaf mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar faes penodol, yn ogystal â rhai modiwlau cyffredin.

PAM DEWIS BANGOR?
- Safle uchel ar gyfer rhagolygon graddedigion gyda llawer o fyfyrwyr yn sicrhau cynigion swydd cyn graddio.
- Cysylltiadau rhagorol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n cynnig lleoliadau gwaith ar draws gogledd Cymru.
- Mae gan ein staff ystod eang o brofiad clinigol yn eu meysydd proffesiynol.
- Campws ym Mangor a Wrecsam sy'n galluogi hyblygrwydd i fyfyrwyr ar y rhan fwyaf o gyrsiau ddewis ar ba gampws i astudio o leiaf rhan o'u cwrs
- Yn y 10 uchaf ar gyfer ymchwil cysylltiedig â Nyrsio a Bydwreigiaeth *(The Complete University Guide 2020).*

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Gallwch astudio un o'n pedwar maes ymarfer; Nyrsio Oedolion, Nyrsio Iechyd Meddwl, Nyrsio Anabledd Dysgu neu Nyrsio Plant. Mae'r cwrs yn seiliedig yn gyfartal ar theori ac ymarfer – 50% ar astudio damcaniaethol a threulir 50% mewn ymarfer clinigol yn datblygu'r cymhwysedd sydd ei angen i gael mynediad i gofrestr y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth. Byddwch yn datblygu sgiliau ac ymddygiad proffesiynol, y gwerthoedd a'r agweddau a ddisgwylir gan nyrs i sicrhau diogelwch pobl o bob oed, eu gofalwyr a'u teuluoedd. Mae cyfleoedd i astudio ochr yn ochr â gweithwyr gofal iechyd eraill sy'n



fyfyrwyr ac mae gennym strategaeth ar gyfer cyfleoedd dysgu ar y cyd fel bod pob maes yn medru dysgu gyda'i gilydd am anatomeg a ffisioleg, seicoleg, cymdeithaseg, cyfathrebu, adfyfyrio, y gyfraith a moeseg.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd yn orfodol i chi wneud astudiaeth ddamcaniaethol a lleoliadau clinigol mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol a/neu breswyl yng ngogledd Cymru. Cewch eich cefnogi gan diwtor personol sy'n nyrs gofrestredig ac yn aelod o'r staff academaidd a chewch oruchwyliaeth fentora gan nyrs gofrestredig weithredol yn y lleoliad. Caiff gwaith theori ac ymarferol ei asesu drwy aseiniadau, arholiadau, cyflwyniadau a phortffolio Asesu Ymarfer Clinigol Cymru gyfan.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae cymhwyso fel Nyrs Gofrestredig yng Nghymru yn golygu y gallwch gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Gellir cael gyrfa gyda chyflogwyr mawr, er enghraifft byrddau iechyd GIG, neu sefydliadau annibynnol yn y sector a all arwain at gyfleoedd mewn arbenigeddau clinigol, rheolaeth, ymchwil neu addysg.

NMC Nursing & Midwifery Council

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
B720 BM/MW
Mae cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn rhoi cyfle i gofrestru a gweithredu fel bydwraig a chael Gradd Anrhydedd mewn Bydwreigiaeth.
Bydd elfennau o'r cyrsiau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.
I gael gwybodaeth am ein darpariaeth ddwyieithog ewch i: **www. bangor.ac.uk/healthcaresciences/bilingual_provision**

Lleoliad: Cynhelir y cwrs hwn ar y cyd ar ein campws ym Mangor ac yn Wrecsam.
Hyd: 3 blynedd llawn-amser
Mae'r cwrs yn cychwyn ym mis Medi.

GOFYNION MYNEDIAD:
Y gofynion mynediad a nodir ar y dde yw isafswm y gofynion addysgol sydd eu hangen. Os byddant yn cael eu dewis, disgwylir i ymgeiswyr ddod am gyfweliad a chael eu sgrinio ymhellach cyn dechrau ar y cwrs bydwreigiaeth.

Ar adeg argraffu'r llyfryn hwn, mae'r cwrs wedi ei ddilysu yn erbyn y Safonau Nyrsio a Bydwreigiaeth Addysg Cyn-gofrestru, 2010.
Bydd cyrsiau'n cael eu dilysu i'r Safonau Hyfedredd newydd ar gyfer Nyrsys Cofrestredig yn 2021, a'u haddasu fel sy'n briodol. Gweler y wefan am y manylion diweddaraf.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Gofal Iechyd

Ffon: 01248 383189
e-bost: iechyd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gwyddoraugofaliechyd

GWYDDORAU IECHYD
Gweler tudalen 126 am wybodaeth.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gan ein staff ystod eang o brofiad clinigol cyfoes yn eu meysydd proffesiynol. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr iechyd lleol, yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i sicrhau bod yr hyn y mae ein myfyrwyr yn ei ddysgu o'r ansawdd uchaf un.
- Mae bydwreigiaeth ym Mangor yn achrededig gan UNICEF UK Baby Friendly Initiative.
- Yn y 10 uchaf ar gyfer ymchwil cysylltiedig â Nyrsio a Bydwreigiaeth *(The Complete University Guide 2020).*

GOFYNION MYNEDIAD:
Proses Mynediad ar gyfer Cyrsiau Proffesiynol
5 TGAU ar radd C/4 neu uwch ac mae'n rhaid eu bod yn cynnwys Saesneg a Mathemateg, mae pynciau gwyddoniaeth yn ddymunol. Gall rhai ymgeiswyr Diploma Mynediad AU gael eu heithrio rhag cyflawni'r gofynion TGAU yn llawn.

Rhaid i bob ymgeisydd fodloni ystod o feini prawf mynediad – darllenwch Safonau Addysg Nyrsio Cyn-gofrestru y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu e-bostiwch â admissions health@bangor.ac.uk; i gael rhagor o gyngor neu wybodaeth. Mae gofynion mynediad yr NMC yn cynnwys dangos iechyd da a chymeriad da. Mae'r Ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd gael gwiriad cofnod troseddol a gofynion eraill ar gyfer dangos cymeriad da; bydd y Bwrdd Iechyd lleol yn gyfrifol am osod y gofynion am iechyd da. Bydd rhaid i ymgeiswyr gyda chymwysterau mynediad hŷn na 5 oed ddangos tystiolaeth o astudiaeth ddiweddar a aseswyd ar lefel briodol.

Gofynion academaidd:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg/Iaith Gymraeg a Mathemateg neu'r hyn sy'n cyfateb mewn Sgiliau Hanfodol Rhifedd a Chyfathrebu, lefel 2. O leiaf 04 o'r Irish Leaving Certificate. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 120 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DDM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Cymhwyster Project Estynedig
- Mynediad: 30 Rhagoriaeth, 15 gradd Teilyngdod
- Diploma Estynedig Lefel 3 NCFE CACHE: Gradd B
- Bagloriaeth Cymru
- Irish Leaving Certificate: 120 pwynt o fan leiaf 4 pwnc uwch
- Tystysgrif Lefel 5 FETAC QETI mewn Astudiaethau Nyrsio: Proffil Rhagoriaeth
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol.
- Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn sy'n cwblhau Diploma Mynediad AU neu sydd â thystiolaeth o astudio diweddar ar Lefel 3 neu'n uwch yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf sy'n cwrdd â'n gofynion mynediad; sylwch nad ydym yn derbyn NVQ Lefel 3 / QCF Lefel 3 fel ffordd o fodloni ein cymwysterau mynediad.

*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu eich sgiliau ymchwil. Yn syth o ddechrau eich cwrs byddwch yn dechrau meithrin dealltwriaeth o sut i gyflawni gwaith ymchwil a byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn rhaglen ymchwil barhaus. Fel hyn, byddwch yn raddol feithrin y sgiliau fydd eu hangen arnoch i gynllunio a chynnal eich project ymchwil eich hun ym mlwyddyn 3. Bydd cyfleoedd i gynnal ymchwil ar y cyd â phartneriaid busnes allanol ac mae gennym hefyd ystod eang o labordai ymchwil arbenigol.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r BSc Psychology with Business Management yn radd eang sydd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS); felly mae'n addas ar gyfer myfyrwyr sydd am ddilyn unrhyw un o'r prif broffesiynau seicolegol (seicoleg glinigol, seicoleg addysg, seicoleg sefydliadol, seicoleg defnyddwyr). Yn ogystal, mae'r cysylltiadau â busnes yn rhoi llwybr i israddedigion sy'n dymuno dilyn gyrfaoedd mewn meysydd mwy cymhwysol, a datblygu gallu myfyrwyr seicoleg i gael trosolwg strategol o faterion busnes a sefydliadol.

Bydd y rhaglen hefyd yn galluogi myfyrwyr i geisio cymwysterau pellach (e.e. MSc) neu ddilyn ystod eang o lwybrau gyrfaol, gan gynnwys cyfleoedd mewn meysydd fel marchnata, ymchwil i'r farchnad, rheoli brandiau, datblygu brandiau, datblygu cynnyrch a manwerthu ar-lein.

3ydd am brofiad myfyrwyr mewn Seicoleg.
(Times Good University Guide 2020).

Mae gradd BSc Marketing and Psychology hefyd ar gael. Mae'r radd yn cael ei chynnig gan yr Ysgol Fusnes, byddwch yn cymryd 80 credyd mewn Busnes a 40 credyd mewn Seicoleg. Ewch i dudalen 159 am fwy o wybodaeth.

GWYDDORAU CHWARAEON, IECHYD AC YMARFER

- Sport Science BSc/MSci
- Sport, Health and Exercise Science BSc/MSci
- Sport and Exercise Psychology BSc (BPS Accredited)
- Sport, Health and Physical Education BSc
- Adventure Sport Science BSc/MSci
- Adventure Sport Science with Business BSc/MSci
- Sport Science BSc (Intercalated)
- Clinical Sports Science BSc (Intercalated)
- Sport Science (Outdoor Recreation) (Top-up Degree)

Graddau Cysylltiedig
- Biomedical Science (tud 117)
- Medical Sciences (tud 116)
- Psychology (tud 130)

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
Gweler tudalennau cyrsiau unigol.

Ar gyfer codau gradd cyd-anrhydedd Gwyddor Chwaraeon gweler tudalen 63.

Hyd y Cwrs: 3 blynedd ar gyfer BSc; 4 blynedd ar gyfer gradd cyd-anrhydedd gydag ieithoedd, 4 blynedd ar gyfer MSci

GOFYNION MYNEDIAD:
Gweler tudalennau cyrsiau am ofynion mynediad i gyrsiau unigol.

Graddau Rhyngosodol (BSc)
Mae'r graddau hyn wedi eu hanelu at fyfyrwyr meddygol sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus y nifer gofynnol o flynyddoedd mewn Ysgol Feddygol ac sy'n dymuno cael BSc i arbenigo neu gael profiad yn y meysydd canlynol:

- Gwyddor Chwaraeon
- Gwyddor Chwaraeon Clinigol

Hyd y Cwrs: 1 flwyddyn

MWY O WYBODAETH
Derbyniadau
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ffôn: 01248 388256
e-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

DISGRIFIAD
Mae'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer wedi bod yn darparu cyrsiau gradd israddedig ac ôl-raddedig o ansawdd uchel ers 1978, gan ei gwneud yn un o'r adrannau hynaf yn y Deyrnas Unedig. Yn ystod yr amser hwn mae Bangor wedi denu rhai o staff dysgu ac ymchwil gorau'r byd, sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r rhaglenni gradd helaeth hyn. Ein cenhadaeth yw arwain dyfodol Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer, a Pherfformiad Dynol. Wrth wneud hyn byddwn yn darparu profiad addysgu a dysgu rhagorol, yn cynhyrchu ymchwil wyddonol sydd gyda'r orau yn y byd, a chael effaith ystyrlon ar unigolion a sefydliadau. Mae ein graddau yn meithrin amgylcheddau trawsnewidiol, anturus, cefnogol a chynhwysol sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddarganfod a gwneud y gorau o'u potensial a gwneud cyfraniad cadarnhaol i Chwaraeon, Perfformiad Dynol ac Iechyd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r byd ehangach.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Roedd yr Ysgol yn y 7fed safle yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil annibynnol diwethaf (REF 2014) a arweiniwyd gan y Llywodraeth ac mae gan y staff enw da rhyngwladol a blaenllaw yn y byd mewn seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff, rheolaeth echyddygol a ffisioleg ymarfer corff clinigol. Mae hyn yn arwain at gwricwlwm unigryw a arweinir gan ymchwil sydd (gan ddibynnu ar y llwybr a ddewisir at y radd) yn ymdrin ag agweddau ar Berfformiad Chwaraeon, Ymarfer Corff a Gwyddor Chwaraeon sy'n gysylltiedig ag Iechyd yn y flwyddyn gyntaf gan arbenigo mewn maes dewisol yn ystod 2 neu 3 blynedd dilynol eich rhaglen radd. Mae'r dull o addysgu a dysgu hefyd yn golygu ein bod yn darparu llawer o brofiadau 'ymarferol' i'r myfyrwyr yn y maes a ddewisant ei astudio. Rydym yn cynllunio'r profiadau ymarferol hynny i ddatblygu'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol ar gyfer gyrfa lwyddiannus.

Hynny yw, rydym yn datblygu eich sgiliau o ran deall a chymhwyso'r wybodaeth a enillwch ym meysydd penodol Perfformiad Chwaraeon Elitaidd, Ymarfer Corff, Iechyd a Lles, Gwyddor Chwaraeon Antur, Addysg Gorfforol, neu Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff. I gyflawni hyn yn llwyddiannus, ym mhob modiwl fel rheol bydd darlith 2 awr ac yna cewch amser mewn labordy, seminarau a/neu diwtorialau. Rydym yn clymu'r holl amser cyswllt staff-myfyriwr uniongyrchol yma â dull dysgu sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr i ddatblygu'ch cyflogadwyedd allweddol a'ch sgiliau darllen ac ysgrifennu trosglwyddadwy yn well, ynghyd â sgiliau sy'n gysylltiedig â llunio a chyflwyno adroddiadau, casglu gwybodaeth a data, gweithio ar brojectau grŵp, a'ch paratoi ar gyfer byd gwaith. Mae'r sgiliau hyn yn aml yn sail i'ch asesiad. Carfannau bach o fyfyrwyr sydd gennym, sef oddeutu 130 y flwyddyn, a dyna pam y medrwn gyflawni'r datblygiad sgiliau unigryw yma, yr amser cyswllt uchel, a chyfleoedd myfyrwyr-staff un-i-un.

> "Unwaith eto, canmolwyd staff gan eu myfyrwyr am eu hagosatrwydd a'u cefnogaeth gyffredinol - mae hyn yn helpu i greu'r diwylliant cymunedol ... mae hynny'n ddilysnod gradd Bangor."
>
> **DR RICHARD WINSLEY**
> Arholwr Allanol, BSc Anrh

PAM DEWIS BANGOR?

Ymchwil ac Addysgu Rhagorol
Ym Mangor mae gennym amgylchedd cyfeillgar a gallwn gynnig llawer o amser cyswllt rhwng myfyrwyr a staff. Rydym yn cefnogi datblygiad y sgiliau byddwch eu hangen yn y gweithle a byddwch yn astudio yn un o'r adrannau Gwyddor Chwaraeon gorau yn y DU.

- **5ed yn y DU am ansawdd ein hymchwil** *(Complete University] Guide 2020)*
- **7fed yn y DU am Ymchwil** gyda 100% o'n hymchwil staff yn cael eu cyd-nabod fel naill ai "gyda'r orau yn y byd" neu "yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol" *(REF, 2014).*

Rydym wedi bod yn dysgu graddau israddedig o ansawdd uchel ers bron i 40 mlynedd. Yn ystod yr amser hwn, rydym wedi denu staff academaidd gyda'r gorau yn y byd sydd â chysylltiadau parhaus yn yr haenau uchaf o chwaraeon a pherfformiad (e.e. UK Sport, English Institute of Sport, Chwaraeon Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Rygbi Lloegr, Bwrdd Criced Cymru a Lloegr) ac iechyd (e.e. GIG, MENCAP).

Mae ein holl staff yn ymchwilwyr cyson ac yn gweithio gyda pherfformwyr chwaraeon a'r arbenigwyr meddygol gorau yn y DU ac yn fyd-eang e.e. ar daith ymchwil i'r Himalayas yn Nepal, astudiodd y grŵp Ymchwil Eithafion sut mae pobl yn ymateb ac yn addasu eu perfformiad mewn amgylcheddau eithafol; mae staff yn y Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit wedi bod yn arwain ymchwil o fewn rhaglen adnabod talent Bwrdd Criced Cymru a Lloegr (ECB); mae ein staff eraill yn ymchwilio i agweddau amrywiol ar wyddor chwaraeon o fewn y lefelau uchaf o chwaraeon elit, perfformio a sefydliadau iechyd.

Mae'r gweithgareddau ymchwil hyn yn bwydo'n uniongyrchol i'r dysgu a bydd llawer o fyfyrwyr sy'n dewis astudio Gwyddor Chwaraeon ym Mangor yn cael cyfle i fod yn rhan o'r prosesau ymchwil cyffrous hyn sydd gyda'r gorau yn y byd. Yn ogystal â'r hyn rydych chi'n ei wybod pan fyddwch chi'n graddio, mae hefyd yn bwysig ystyried pwy fyddwch chi'n ei adnabod! Cofiwch, rydym yn y 10 Uchaf yn y DU (Gwobrau WhatUni? 2019) ar gyfer Rhagolygon Swyddi.

Cefnogaeth a Phrofiad Myfyrwyr Rhagorol
Mae pawb yn Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer yn adnabod ei gilydd ac rydym yn ymfalchïo yn y croeso cynnes a roddwn i fyfyrwyr newydd a'r awyrgylch cyfeillgar yma.

Chwaraeon a Gweithgareddau Awyr Agored
Mae'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr yn hoffi gwneud chwaraeon yn ogystal â dysgu amdano. Byddwch yn astudio yn un o'r lleoliadau prifysgol gorau yn y DU. Mae'r lleoliad gwych hwn yn rhoi cyfle ardderchog i chi gymryd rhan frwd mewn bywyd y tu allan i'r ddarlithfa.

Rydym wedi ennill gwobr arian, Clybiau a Chymdeithasau (WhatUni? 2020) ac rydym yn cynnig **aelodaeth am ddim** o'r holl glybiau a chymdeithasau. Mae myfyrwyr hefyd yn cael cynnig prisiau gostyngol gan y darparwr gweithgareddau dŵr awyr agored, Snowdonia Watersports. Darllenwch fwy am glybiau a chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr, a'r cyfleusterau chwaraeon yng Nghanolfan Brailsford ar dudalennau rhagarweiniol y prosbectws hwn.

Cyfleusterau a Lleoliad Rhagorol
Rydym wedi ein lleoli mewn adeilad rhestredig Gradd II hynod hardd ar lannau'r Fenai.

Mae gennym nifer helaeth o labordai sy'n cynnwys yr offer diweddaraf ar gyfer ffisioleg chwaraeon ac ymarfer, seicoleg, rheolaeth echddygol a dadansoddi symudiant. Maent yn cynnwys: labordy dysgu newydd gwerth £1M; siambr uchder (hypocsia); labordy dadansoddi symudiant 3D; sganiwr corff cyfan absorptiometreg pelydr-X ynni deuol (DXA); labordai profi ymarfer corff ac adsefydlu; siambr amgylcheddol; ystafelloedd profi seicoleg, seicoechddygol a seicoffisioleg; labordai biocemeg a bioleg celloedd.

Gwella eich cyflogadwyedd
Mae ein holl raglenni gradd yn galluogi myfyrwyr i wneud gwaith ymarferol nid damcaniaethol yn unig gyda gwaith ymarferol mewn labordy, project ymchwil/traethawd hir a thrwy gefnogi arddangosiadau, sesiynau tiwtorial ac ymchwil. Gallwch hefyd ennill profiad bywyd go iawn yn gweithio dramor ac ennill cymwysterau proffesiynol ychwanegol mewn ystod o feysydd. Trwy ein cysylltiadau helaeth â sefydliadau chwaraeon, y GIG, a'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff, gallwn gynnig cyfleoedd lleoliad gwaith gyda mentor ochr yn ochr â'n rhaglenni gradd ym meysydd hyfforddi chwaraeon, dadansoddi perfformiad, cryfder a chyflyru, ymarfer corff ac iechyd, adsefydlu cardiaidd a ffisioleg resbiradol. Mae'r rhain yn eich galluogi i weithio gydag arbenigwyr mewn maes sy'n berthnasol i'ch gradd a'ch gyrfa yn y dyfodol. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi symud i gefnogi eich dyheadau gyrfa yn y dyfodol ym mhellach trwy gynnig blwyddyn lleoliad gwaith gydag ein graddau.

Hefyd, rydym yn cynnal gweithdai cyflogadwyedd yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn trefnu Wythnos Cyflogadwyedd a Ffair Yrfaoedd bob blwyddyn. Mae'r cyfleoedd ychwanegol hyn yn caniatáu i fyfyrwyr gael dealltwriaeth a chyngor am yrfaoedd gan rai o'n cyn-fyfyrwyr, siarad â darpar gyflogwyr yn y sector a chael gwybodaeth am gynlluniau cyflogaeth i raddedigion.

Mae ein graddau profiad rhyngwladol yn rhoi cyfle i chi astudio dramor fel rhan o'ch gradd. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae myfyrwyr wedi bod i golegau a phrifysgolion yn Iowa, Maine a Gorllewin Florida, UDA a phrifysgolion ym Melbourne, Awstralia a Windsor, Canada.

Mae Gwobr Cyflogadwyedd Bangor yn cydnabod eich holl weithgareddau ychwanegol a chyd-gwricwlaidd, sy'n gwella'ch CV a sicrhau eich bod yn cael y gorau o'ch amser yma.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae Bangor yn y 10 Uchaf yn y DU (WhatUni? 2019) ar gyfer Rhagolygon Swyddi. Bydd ein cyrsiau i gyd yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd chwaraeon; gweithio gydag athletwyr a pherfformwyr elît i fireinio eu hyfforddiant; ymchwil i wyddor chwaraeon; gweithio yn y sector iechyd cyhoeddus, er enghraifft, ym maes therapi neu ffisiotherapi chwaraeon; neu weithio yn y diwydiant iechyd/ffitrwydd yn gyffredinol.

Mae astudio ôl-radd a gyrfa mewn dysgu (ar ôl gwneud tystysgrif addysg i ôl-raddedigion), ymchwil a darlithio yn llwybr galwedigaethol arall. Mae yna hefyd rai cyfleoedd gyrfa penodol ar gyfer gwahanol raddau wedi eu rhestru gyda manylion y cwrs.

Mae rhai o raddedigion yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer yn defnyddio eu cymhwyster academaidd a'r sgiliau trosglwyddadwy y maent wedi eu datblygu i weithio mewn rheolaeth, gyda'r gwasanaethau brys neu i sefydlu eu busnes eu hunain.

> "Mae'r gwaith a welaf yn creu argraff arnaf - o ran cyflawniad myfyrwyr ac o ran cynnwys a nodau'r modiwlau sydd i'w seilio ar ymchwil gyfoes. Mae'n gryfder amlwg yn yr adran ac yn y staff addysgu.
>
> Roedd ansawdd projectau ymchwil / traethodau hir yn gryf iawn, nid yw'n syndod efallai gan ystyried yr addysgu sy'n seiliedig ar ymchwil."
>
> **YR ATHRO MARC JONES**
> Arholwr Allanol, BSc Anrh

> "Mae ehangder y cyfleoedd cyflogadwyedd a lleoliadau sydd ar gael i'r myfyrwyr yn rhagorol."
>
> **DR RICHARD WINSLEY**
> Arholwr Allanol

SPORT SCIENCE
BSc [Anrh] / MSci

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C600 BSc/SpS
C607 MSCI/SS
Hyd: 3 blynedd ar gyfer BSc neu 4 blynedd ar gyfer MSci

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff ar gyfer BSc a 136 ar gyfer MSci o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM ar gyfer BSc; DDD ar gyfer MSci
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo Diploma Mynediad i Addysg Uwch
- Arweinwyr Chwaraeon y DU: Cymwysterau Arweinyddiaeth Chwaraeon Uwch
- Bagloriaeth Cymru
- Cymhwyster Project Estynedig
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Derbyniadau
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ffôn: 01248 388256
E-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Gan ddilyn dull astudio yn seiliedig ar ymchwil; mae agweddau allweddol y radd hon yn cynnwys astudio sut y gellir gwella perfformiad corfforol a meddyliol i helpu unigolion i gyflawni eu potensial personol. Nid yn unig y bydd hyn yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd chwaraeon yn gweithio gyda sgwadiau o berfformwyr elit i fireinio eu hyfforddiant ond bydd hefyd yn rhoi'r cefndir sydd ei angen arnoch i gael gyrfa mewn ymchwil gwyddor chwaraeon.

PAM DEWIS BANGOR?
- 5ed am Foddhad Myfyrwyr *(Guardian Good University Guide 2020).*
- 5ed am Ansawdd Ymchwil *(Guardian Good University Guide 2020).*
- 2il yn y DU am Werth Ychwanegol (GGUG 2020) yn dangos ein gallu i helpu myfyriwr i gyflawni ei ganlyniad gorau posibl.
- Mae gennym gysylltiadau agos ag UK Sport, Bwrdd Criced Cymru a Lloegr, Rygbi Lloegr a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.
- 95% o raddedigion naill ai'n gweithio neu'n parhau i astudio chwe mis ar ôl cwblhau gradd Gwyddor Chwaraeon *(UniStats 2019).*

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio ar gyfer cyfanswm o 120 o gredydau bob blwyddyn. Mae'r rhaglen fodiwlaidd rydym yn ei chynnig yn rhoi parhad ar draws y blynyddoedd, yn ogystal â dyfnder. Mae modiwlau dewisol yn eich galluogi i astudio meysydd newydd neu ddatblygu arbenigeddau sydd o ddiddordeb arbennig.

Blwyddyn 1
Yn ogystal ag astudio modiwlau academaidd, ymchwil a galwedigaethol byddwch yn dilyn modiwlau sy'n ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Human Physiology*
- Psychomotor Behaviour*
- Employability in Sport, Health and Wellbeing
- Biomechanics
- Anatomy for Sport Science


Mesur y defnydd o ocsigen yn ystod ymarfer corff gan ddefnyddio bag Douglas.

Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau gydag ymchwil a modiwlau ymarferol cymhwysol, gan adeiladu eich set sgiliau, a byddwch hefyd yn ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Motor Control and Learning
- Sport & Exercise Physiology*
- Sport Nutrition
- Psychology of Sports Performance
- Applied Sport Science of Elite Performance
- Physiological Assessment Skills
- Disability Sport and Rehabilitation

Blwyddyn 3
Yn ogystal â gwneud eich project mewn maes sy'n gysylltiedig â'ch prif ddiddordebau, byddwch yn astudio cymysgedd o fodiwlau craidd a dewisol mewn ystod amrywiol o feysydd gan gynnwys:
- Stress & Performance*
- Strength and Conditioning
- Research Project*
- Personality and Individual Differences
- Advanced Research Statistics
- Environmental Physiology
- Exercise Biochemistry
- Skill Acquisition

Blwyddyn 4
Yn ogystal ag ymestyn eich project a datblygu eich sgiliau ymchwil ymhellach, byddwch yn dewis modiwlau sy'n ymwneud â meysydd fel:
- Performance Psychology
- Exercise Psychology
- Performance Physiology
- Sports Injury Rehabilitation
- Psychology of Effective Coaching

* Mae'r modiwl yma ar gael yn ddwyieithog. Er byddwch yn mynychu darlithoedd Saesneg mae modd i chi drafod a chyflwyno eich gwaith yn Gymraeg.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs hwn yn baratoad delfrydol ar gyfer gyrfaoedd mewn gwyddor chwaraeon, ymchwil, ffitrwydd/ rheolaeth hamdden, gweinyddu chwaraeon, hyfforddi a rhoi cyfarwyddyd, datblygu chwaraeon, therapi/ffisiotherapi chwaraeon, dysgu, y llu oedd arfog neu'r gwasanaethau brys, newyddiaduraeth chwaraeon, gwaith ieuenctid ac ymgynghori ym maes rheolaeth.

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd cydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

SPORT, HEALTH AND EXERCISE SCIENCE*
BSc [Anrh] / MSci

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
CB69 BSc/SHES; C608 MSCI/SHS
Hyd: 3 blynedd ar gyfer BSc neu 4 blynedd ar gyfer MSci

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff ar gyfer BSc a 136 ar gyfer MSci o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM ar gyfer BSc; DDD ar gyfer MSci
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo Diploma Mynediad i Addysg Uwch
- Arweinwyr Chwaraeon y DU: Cymwysterau Arweinyddiaeth Chwaraeon Uwch
- Bagloriaeth Cymru
- Cymhwyster Project Estynedig
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Derbyniadau
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ffôn: 01248 388256
E-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Yr hyn sy'n allweddol i'r radd hon yw ei bod yn canolbwyntio ar agweddau cyffredinol chwaraeon ac ymarfer a sut maent yn bwysig o ran hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r cwrs hefyd yn archwilio sut y gall ymarfer corff fod yn fuddiol ar gyfer adsefydlu clinigol a heneiddio'n iach.

PAM DEWIS BANGOR?
- 5ed am Foddhad Myfyrwyr *(Guardian Good University Guide 2020).*
- 5ed am Ansawdd Ymchwil *(Guardian Good University Guide 2020).*
- 2il yn y DU am Werth Ychwanegol (GGUG 2020) yn dangos ein gallu i helpu myfyriwr i gyflawni ei ganlyniad gorau posibl.
- Mae'r radd hon yn tynnu ar arbenigedd gan staff sy'n arwain ymchwilwyr a chlinigwyr yn eu meysydd. Mae gennym nifer o Gymrodyr Ymchwil er Anrhydedd sy'n uwch ymgynghorwyr gyda'r GIG leol.
- Mae sesiynau ymarferol mewn labordy yn rhoi profiad ymarferol i fyfyrwyr i'w galluogi i roi theori ar waith.
- 90% o raddedigion naill ai'n gweithio neu'n parhau i astudio chwe mis ar ôl cwblhau gradd Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer *(UniStats 2019).*

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio ar gyfer cyfanswm o 120 o gredydau bob blwyddyn. Mae'r rhaglen fodiwlaidd rydym yn ei chynnig yn rhoi parhad ar draws y blynyddoedd, yn ogystal â dyfnder. Mae modiwlau dewisol yn eich galluogi i astudio meysydd newydd neu ddatblygu arbenigeddau sydd o ddiddordeb arbennig.

Blwyddyn 1
Yn ogystal ag astudio modiwlau sgiliau academaidd, ymchwil a galwedigaethol byddwch yn dilyn modiwlau sy'n ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Human Physiology*
- Learning to be Happy
- Academic Research Skills



- Sports Science Anatomy
- Physical Activity and Health
- Stress and Distress

Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau gydag ymchwil a modiwlau ymarferol cymhwysol, gan adeiladu eich set sgiliau, a byddwch hefyd yn ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Motor Control
- Lifestyle and Disease
- Sport & Exercise Physiology*
- Nutrition
- Exercise Psychology
- Physiological Assessment Skills
- Disability Sport and Rehab

Blwyddyn 3
Yn ogystal â gwneud eich project mewn maes sy'n gysylltiedig â'ch prif ddiddordebau, byddwch yn astudio cymysgedd o fodiwlau craidd a dewisol mewn ystod amrywiol o feysydd gan gynnwys:
- Disability Sport
- Rehabilitation
- Exercise for Clinical Populations
- Stress & Performance*
- Elite Performance
- Physiology
- Personality
- Exercise Biochemistry
- Skill Acquisition

Blwyddyn 4
Yn ogystal ag ymestyn eich project a datblygu eich sgiliau ymchwil ymhellach, byddwch yn dewis modiwlau sy'n ymwneud â meysydd fel:
- Nutrition for Exercise Rehab
- Exercise Psychology
- Exercise is Medicine
- Sports Injury Rehabilitation
- Psychology of Injury & Rehabilitation

* Mae'r modiwl yma ar gael yn ddwyieithog. Er byddwch yn mynychu darlithoedd Saesneg mae modd i chi drafod a chyflwyno eich gwaith yn Gymraeg.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs hwn yn baratoad delfrydol ar gyfer gyrfaoedd iechyd cyhoeddus e.e. therapi/ffisiotherapi chwaraeon, iechyd/ffitrwydd neu reolaeth hamdden, hyfforddi a rhoi cyfarwyddyd, dysgu, y llu oedd arfog neu'r gwasanaethau brys, gwaith ieuenctid, ymchwil ac ymgynghori ym maes rheolaeth.

*Bydd y cwrs hwn yn cael ei ailenwi'n Sport, Physical Activity, Health and Wellbeing ar gyfer mynediad 2021 i adlewyrchu yn well ei gynnwys, ei sylfaen ymchwil a chwricwlwm uwchradd cenedlaethol Cymru gan roi'r cymhwyster delfrydol i chi ar gyfer gyrfa fel Athro Gweithgaredd Corfforol.

SPORT AND EXERCISE PSYCHOLOGY
BSc [Anrh]*

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
C680 BSc/SExP
Hyd: 3 blwyddyn ar gyfer BSc

***Mae'r radd hon wedi ei hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain.**

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 128 pwynt tariff o gymwysterau Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DDM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo Diploma Mynediad i Addysg Uwch
- Arweinwyr Chwaraeon y DU: Cymwysterau Arweinyddiaeth Chwaraeon Uwch
- Bagloriaeth Cymru
- Cymhwyster Project Estynedig
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Derbyniadau
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ffôn: 01248 388256
E-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn agweddau meddyliol chwaraeon ac ymarfer corff a pherfformiad chwaraeon. Bydd yn darparu dealltwriaeth wyddonol o'r meddwl dynol, yr ymennydd, ymddygiad a phrofiad, ac o'r rhyngweithio cymhleth rhwng y rhain, fel y'u defnyddir mewn chwaraeon ac ymarfer corff cystadleuol a hamdden. Mae'r radd yn darparu dealltwriaeth o ffisioleg ymarfer corff a gwerthfawrogiad o sut mae'r meddwl a'r corff yn rhyngweithio i ddylanwadu ar berfformiad dynol.

Mae ein graddau wedi'u hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain ac mae staff wedi bod yn chwarae rhan flaenllaw yn y ddisgyblaeth ers dyddiau cynnar ei datblygiad yn y DU. Ar hyn o bryd mae gennym y nifer mwyaf o Seicolegwyr Chwaraeon blaenllaw ym Mhrydain.

PAM DEWIS BANGOR?
- 5ed am Foddhad Myfyrwyr *(Guardian Good University Guide 2020).*
- Mae ein Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit (IPEP) yn enwog yn rhyngwladol am ei waith.
- 5ed am Ansawdd Ymchwil *(Guardian Good University Guide 2020).*
- 2il yn y DU am Werth Ychwanegol (GGUG 2020) yn dangos ein gallu i helpu myfyrwr i gyflawni ei ganlyniad gorau posibl.
- Mae'r staff yn darparu arbenigedd seicoleg chwaraeon ac arweinyddiaeth yn rheolaidd i dimau cenedlaethol fel Gymnasteg Prydain, Tîm Sgïo Telemark Prydain, Bwrdd Criced Cymru a Lloegr; Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol fel UK Sport a Chyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru); a sefydliadau fel y Weinyddiaeth Amddiffyn, Lloyds TSB, Ericsson.
- Mae gan fyfyrwyr fynediad at gyfleusterau i alluogi profi prosesau seicolegol ar gyfrifiadur, a gall systemau a phrofion pwrpasol ar gyfer projectau myfyrwyr y flwyddyn olaf gael eu cynllunio, eu hysgrifennu neu eu haddasu gan ein rhaglennydd cyfrifiadurol profiadol.
- Mae 89% o'n graddedigion naill ai'n gweithio neu'n parhau i astudio chwe mis ar ôl cwblhau gradd. (UniStats 2019).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio ar gyfer cyfanswm o 120 o gredydau bob blwyddyn. Mae'r rhaglen fodiwlaidd rydym yn ei chynnig ar y cyd â Seicoleg yn rhoi parhad ar draws y blynyddoedd, yn ogystal â dyfnder. Mae modiwlau dewisol yn eich galluogi i astudio meysydd newydd neu ddatblygu arbenigeddau sydd o ddiddordeb arbennig.

Yn ogystal â gwneud project sgiliau ymchwil a phroject blwyddyn olaf mewn maes o ddiddordeb yn ystod y tair blynedd, bydd myfyrwyr yn astudio modiwlau sy'n ymdrin ag ystod eang o bynciau gwyddorau chwaraeon a seicoleg.

Blwyddyn 1
Yn ogystal ag astudio modiwlau sgiliau academaidd, ymchwil a galwedigaethol byddwch yn dilyn modiwlau sy'n ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Stress and Distress
- Psychomotor Behaviour
- Brain and Mind
- Learning to be Happy
- Applied Psychology
- Physical activity and Health

Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau gydag ymchwil a modiwlau ymarferol cymhwysol, gan adeiladu eich set sgiliau, a byddwch hefyd yn ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Psychology of Sport Performance
- Motor Control and Learning
- Applied Sport Science of Elite Performance
- Exercise Psychology
- Developmental Psychology
- Biological Psychology
- Social Psychology
- Disability, Sport and Rehabilitation

Blwyddyn 3
Yn ogystal â gwneud eich project mewn maes sy'n gysylltiedig â'ch prif ddiddordebau, byddwch yn astudio cymysgedd o fodiwlau craidd a dewisol mewn ystod amrywiol o feysydd gan gynnwys:
- Stress and Performance*
- Personality and Individual Differences
- Research in Psychological Skills

Ynghyd â dewis o fodiwlau dewisol sy'n ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Born to Run: Achieve Your Goal
- Exercise Prescription for Health and Disease
- Stress, Anxiety and Health
- Skill Acquisition
- Consumer and Applied Psychology
- Evolution and Human Social Behaviours
- Brain Development and Degeneration
- Topics of Illness and Disability
- Exercise Prescription for Health and Disease

* Mae'r modiwl yma ar gael yn ddwyieithog. Er byddwch yn mynychu darlithoedd Saesneg mae modd i chi drafod a chyflwyno eich gwaith yn Gymraeg.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs gradd BSc wedi'i achredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) i roi sylfaen graddedigion i fyfyrwyr ar gyfer aelodaeth siartredig o'r Gymdeithas. Dyma'r cam cyntaf sydd angen ei gymryd tuag at yrfa fel seicolegydd yn y DU. Mae hefyd yn baratoad rhagorol ar gyfer gyrfaoedd mewn gwyddorau chwaraeon a'r diwydiannau chwaraeon, ffitrwydd ac iechyd. Mae 89% o raddedigion naill ai'n gweithio neu mewn astudiaeth bellach chwe mis ar ôl graddio *(UniStats 2019).*

accredited by The British Psychological Society

SPORT, HEALTH AND PHYSICAL EDUCATION
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
C651 BSc/ShPE
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 112 pwynt tariff o gymwysterau Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo Diploma Mynediad i Addysg Uwch
- Arweinwyr Chwaraeon y DU: Cymwysterau Arweinyddiaeth Chwaraeon Uwch
- Bagloriaeth Cymru
- Cymhwyster Project Estynedig
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Derbyniadau
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ffôn: 01248 388256
E-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Dyma ein gradd glasurol sy'n eich galluogi i astudio'r tri maes gwyddor chwaraeon, iechyd ac addysg gorfforol. Mae'n baratoad da ar gyfer gyrfaoedd mewn dysgu addysg gorfforol (ar ôl gwneud Tystysgrif Addysg i Raddedigion), y diwydiant ffitrwydd, neu ar gyfer gyrfa mewn ymchwil ym maes chwaraeon ac amrywiaeth o feysydd cysylltiedig ag iechyd.

PAM DEWIS BANGOR?
- 5ed am Foddhad Myfyrwyr *(Guardian Good University Guide 2020).*
- 5ed am Ansawdd Ymchwil *(Guardian Good University Guide 2020).*
- 2il yn y DU am Werth Ychwanegol (GGUG 2020) yn dangos ein gallu i helpu myfyriwr i gyflawni ei ganlyniad gorau posibl.
- Mae'r radd hon yn cynnig ystod eang o bynciau, gan roi hyblygrwydd a chyfle delfrydol i chi arbenigo yn nes ymlaen yn eich cwrs. Ym mlwyddyn 3 byddwch yn cwblhau eich project ymchwil neu draethawd hir; project unigol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'ch maes arbenigedd.
- Cyflwynir modiwlau dewisol ymarferol gan ddarlithwyr sydd hefyd yn athrawon a hyfforddwyr Addysg Gorfforol profiadol, ac sydd â chymwysterau hyfforddi ar draws nifer fawr o chwaraeon fel rygbi, athletau, badminton, pêl-droed, hoci, tenis, criced a nofio.
- Mae 89% o raddedigion naill ai'n gweithio neu'n parhau i astudio chwe mis ar ôl cwblhau gradd Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer *(UniStats 2019).*

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio ar gyfer cyfanswm o 120 o gredydau bob blwyddyn. Mae'r rhaglen fodiwlaidd rydym yn ei chynnig yn rhoi parhad ar draws y blynyddoedd, yn ogystal â dyfnder. Mae modiwlau dewisol yn eich galluogi i astudio meysydd newydd neu ddatblygu arbenigeddau sydd o ddiddordeb arbennig.



Mae modiwlau Addysgu Campfa ac Athletau yn datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ofynion Athletau a Gymnasteg.

Yn ystod y tair blynedd byddwch yn astudio modiwlau sy'n ymdrin â phynciau yn cynnwys:

Blwyddyn 1
- Human Physiology*
- Academic and Research Skills
- Physical Activity and Health
- Psychomotor Behaviour*
- Teaching Gym and Athletics*
- Pedagogy for Physical Education*

Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau gydag ymchwil a modiwlau ymarferol cymhwysol, gan adeiladu eich set sgiliau, a byddwch hefyd yn ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Sport Nutrition
- Physiological Assessment Skills*
- Psychology of Sport Performance
- Disability, Sport and Rehabilitation
- Preparing to Teach*
- Pedagogy for PE*
- Nutrition for Health and Wellbeing

Blwyddyn 3
Yn ogystal â gwneud eich project mewn maes sy'n gysylltiedig â'ch prif ddiddordebau, byddwch yn astudio cymysgedd o fodiwlau craidd a dewisol mewn ystod amrywiol o feysydd gan gynnwys:
- Stress and Performance*
- Personality and Individual Differences
- Research in Psychological Skills*
- Exercise Prescription for Health and Disease
- Biochemistry of Exercise
- Physical Literacy*
- Skill Acquisition

* Mae'r modiwl yma ar gael yn ddwyieithog. Er byddwch yn mynychu darlithoedd Saesneg mae modd i chi drafod a chyflwyno eich gwaith yn Gymraeg.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs hwn yn baratoad delfrydol ar gyfer gyrfaoedd mewn ffitrwydd/rheolaeth hamdden, gweinyddu chwaraeon, hyfforddi a rhoi cyfarwyddyd, datblygu chwaraeon, therapi/ffisiotherapi chwaraeon, dysgu, y llu oedd arfog neu'r gwasanaethau brys, newyddiaduraeth chwaraeon, gwaith ieuenctid ac ymgynghori ym maes rheolaeth.

* Bydd y cwrs hwn yn cael ei ailenwi'n Physical Education for Sport, Health and Wellbeing ar gyfer mynediad 2021 i adlewyrchu yn well ei gynnwys, ei sylfaen ymchwil a chwricwlwm uwchradd cenedlaethol Cymru gan roi'r cymhwyster delfrydol i chi ar gyfer gyrfa fel Athro Gweithgaredd Corfforol.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
C611 BSc/ASS
C612 MSCI/ASS
Hyd: 3 blynedd ar gyfer BSc neu 4 blynedd ar gyfer MSci

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Gradd C/4 mewn Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff ar gyfer BSc a 136 ar gyfer MSci o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM ar gyfer BSc; DDD ar gyfer MSci
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo Diploma Mynediad i Addysg Uwch
- Arweinwyr Chwaraeon y DU: Cymwysterau Arweinyddiaeth Chwaraeon Uwch
- Bagloriaeth Cymru
- Cymhwyster Project Estynedig
- Ni dderbynnir Astudiaethau Cyffredinol
- Dylai ymgeiswyr ddangos ymrwymiad i'r awyr agored (e.e. profiad ymarferol, profiad gwaith, Gwobr Dug Caeredin).

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Derbyniadau
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ffôn: 01248 388256
E-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Efallai eich bod wedi breuddwydio am ddringo Everest, wedi meddwl am yr hyn sydd ei angen i ddringo'r Wal Fawr yn Yosemite neu deithio ar y rhewlifau yn yr Antarctica.
Efallai bod gennych ddiddordeb mewn mynd ar daith anturus i diroedd garw neu'n teimlo'n gyffrous am chwaraeon antur? Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio'n arbennig i'ch helpu chi i wireddu'r breuddwydion hyn. Trwy roi profiad a dealltwriaeth ymarferol i chi o astudiaethau craidd gwyddor chwaraeon am ymatebion dynol i amgylcheddau antur a pherfformio mewn chwaraeon antur, byddwch yn ennill y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer gyrfa yn y farchnad antur sy'n ehangu. Mae'r wybodaeth graidd hanfodol am wyddor chwaraeon wedi'i chyfuno'n unigryw â'r cyfle parhaus i ddatblygu eich sgiliau antur ac awyr agored eich hun. Yn benodol, yn ogystal â dysgu gwyddor perfformio ac ymarfer corff craidd, byddwch yn cwblhau modiwlau 'gwneud' gyda phwyslais ar fynd ar anturiaethau a dysgu'n ymarferol.

PAM DEWIS BANGOR?
- 5ed am Foddhad Myfyrwyr a Ansawdd Ymchwil *(2020 Guardian Good University Guide).*
- Mae ein Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit (IPEP) yn enwog yn rhyngwladol am ei waith.
- 2il yn y DU am Werth Ychwanegol (GGUG 2020) yn dangos ein gallu i helpu myfyriwr i gyflawni ei ganlyniad gorau posibl.
- Mae lleoliad Bangor yn ei gwneud yn lle delfrydol i astudio gweithgareddau awyr agored.
- Mae'r radd hon yn tynnu ar arbenigedd staff sy'n ymchwilwyr blaenllaw yn eu meysydd ond sydd hefyd yn cymryd rhan gyson mewn gweithgareddau awyr agored a risg uchel fel dringo, canŵio, sgïo, etc.
- Caiff elfennau galwedigaethol y radd hon eu cryfhau ymhellach gan gyfraniad ymarferwyr awyr agored cymwys a phrofiadol iawn ein partneriaid allanol yn Snowdonia Watersports a Chanolfan Conwy.
- Bydd myfyrwyr yn astudio modiwl Alldaith (a gynhelir gan Ganolfan Conwy) yn cyfuno eu gwybodaeth wyddonol, eu sgiliau gweithgareddau awyr agored a'u sgiliau bywyd, i gwblhau taith mynydd a/neu ddŵr mewn amgylchedd gwyllt.
- Mae myfyrwyr yn cymhwyso eu gwybodaeth am wyddor chwaraeon i alwedigaethau mewn gweithgareddau awyr agored wrth symud ymlaen tuag at (neu ennill) gwobrau y Corff Llywodraethu Cenedlaethol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio cyfanswm o 120 o gredydau bob blwyddyn.

Blwyddyn 1
Yn ogystal ag astudio modiwlau sgiliau academaidd, ymchwil a galwedigaethol byddwch yn dilyn modiwlau sy'n ymdrin â phynciau yn cynnwys:
- Human Physiology*
- Academic and Research Skills
- Practical Water Based Skills
- Practical Land Based Skills*
- Biomechanics
- Anatomy for Sport Science
- Physical Activity and Health

Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau gyda modiwlau ymchwil a ymarferol. Byddwch hefyd yn ymdrin â phynciau gan gynnwys:
- Practical Water Based Leading and Coaching
- Advanced Rope Skills and Leadership
- Research Expedition
- Motor Control and Learning
- Physiological Assessment Skills*
- Disability Sport and Rehabilitation
- Psychology of Sport Performance

Blwyddyn 3
Yn ogystal â gwneud eich project mewn maes sydd o ddiddordeb i chi, byddwch yn dilyn cymysgedd o fodiwlau craidd a dewisol mewn ystod eang o feysydd gan gynnwys:
- Adventure Sport Therapy
- Stress and Performance*
- Skill Acquisition
- Personality and Individual Differences
- Advanced Research Statistics
- Environmental Physiology
- Research in Psychological Skills*

Mae pob modiwl gweithgareddau awyr agored ymarferol yn orfodol.
* Mae'r modiwl yma ar gael yn ddwyieithog. Er byddwch yn mynychu darlithoedd Saesneg mae modd i chi drafod a chyflwyno eich gwaith yn Gymraeg.

Blwyddyn 4
Mae'r cwrs Meistr yn rhaglen israddedig estynedig sy'n galluogi myfyrwyr raddio naill ai gyda BSc(Anrh) ar ddiwedd y drydedd flwyddyn neu gyda gradd Meistr ar ddiwedd y bedwaredd flwyddyn. Mae myfyrwyr yn cymryd modiwlau ymchwil uwch a phrofiad dan oruchwyliaeth ychwanegol, ynghyd â modiwlau Seicoleg, Ffisioleg, Hyfforddi ac Adsefydlu ychwanegol.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Ein nod yw eich paratoi yn ystod y rhaglen i ddod yn 'arbenigwyr' antur o ran cymhwyso gwyddor chwaraeon craidd i fyd antur, a hefyd rhoi'r setiau sgiliau ymarferol i chi fel y gallwch fynd ar anturiaethau mynydd a dŵr annibynnol eich hun. Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygu eich sgiliau personol a sgiliau grŵp o ran penderfyniad ac ymwybyddiaeth yn ogystal â sgiliau ymarferol amrywiaeth o weithgareddau antur. Bydd y sgiliau annibynnol hyn yn aros gyda chi gydol oes ac yn eich helpu i wireddu eich amcanion.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs hwn yn baratoad delfrydol ar gyfer gyrfa yn yr awyr agored fel hyfforddwr, arweinydd teithiau, mewn hyfforddiant datblygu awyr agored, a hefyd ym maes addysg a hamdden yn gyffredinol. Gweler hefyd y rhagolygon gyrfa ar tudalen 137.

DATBLYGIADAU NEWYDD
Yn amodol ar ddilysiad bydd, Adventure Sport Science with Business BSc ar gael yn 2021. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
BSc Sport Science and Business Management: C6N1
BSc Sport Science and Marketing: C6N5
BA French and Sport Science (4 years): CR61
BA German and Sport Science (4 years): CR62
BA Italian and Sport Science (4 years): CR6H
BA Spanish and Sport Science (4 years): CR6K
BA Cymraeg/Welsh and Sport Science: CQ65

Gallwch gyfuno astudio unrhyw un o'r pynciau canlynol â Gwyddor Chwaraeon:
- French (4 blynedd)
- German (4 blynedd)
- Italian (4 blynedd)
- Spanish (4 blynedd)
- Cymraeg
- Business Management*
- Marketing*

*yn amodol ar ddilysu

Hyd: 3 blynedd ar gyfer gradd cyd-anrhydedd; 4 blynedd ar gyfer gradd cyd-anrhydedd gydag iaith fodern

GOFYNION MYNEDIAD:
Gweler y tudalennau am y cyrsiau unigol.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Derbyniadau
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ffôn: 01248 388256
E-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae elfen Gwyddor Chwaraeon y graddau hyn yn darparu sgiliau deallusol ac ymarferol (labordy/profi) i fyfyrwyr a fydd yn eu galluogi i ofyn cwestiynau perthnasol mewn gwyddor chwaraeon a chymhwyso sgiliau ymchwil priodol. Bydd hyn yn eu galluogi ymhellach i gydnabod sut y gallent gymhwyso eu sgiliau academaidd ac ymarferol i weithio yn y gymuned ehangach, gan ddatblygu eu galluoedd trwy brofiadau newydd.

Mae'r radd ar y cyd â **Business Management** yn cynnwys astudio sefydliadau, eu rheolaeth a'r amgylchedd allanol newidiol y maent yn gweithredu ynddi. Byddwch hefyd yn astudio amryw o feysydd swyddogaethol arbenigol fel gwneud penderfyniadau busnes a rheolaethol, yn cynnwys marchnata, cynllunio busnes, rheoli gweithrediadau, strategaeth gorfforaethol, rheoli adnoddau dynol, strwythur a dyluniad sefydliadol, rheolaeth ariannol a rheoli risg.

Prif amcanion graddau ar y cyd gyda **Marketing** yw datblygu gwybodaeth a sgiliau arbenigol ar draws ystod eang o gymwysiadau marchnata, gan gynnwys rheoli brand a theyrngarwch, gwasanaeth cwsmeriaid, cysylltiadau cyhoeddus, ymchwil i'r farchnad, ymddygiad defnyddwyr, seicoleg marchnata a strategaeth hysbysebu. Byddwch hefyd yn astudio sefydliadau, eu rheolaeth a'r amgylchedd allanol cyfnewidiol y maent yn gweithredu ynddo, ynghyd â meysydd rheoli busnes swyddogaethol arbenigol eraill.

Bydd yr elfen iaith mewn graddau cyd-anrhydedd gydag **leithoedd Modern** yn rhoi sgiliau uwch i chi yn eich dewis iaith, ac amrywiaeth eang o wybodaeth arbenigol a manwl am ddiwylliant, cymdeithas a hanes yr iaith honno. Mae iaith yn ganolog i'r cyrsiau hyn, gyda modiwlau craidd yn datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig allweddol bob blwyddyn. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich blwyddyn dramor, ac ar gyfer byd gwaith yn nes ymlaen. Treulir y bedwaredd flwyddyn o raddau cyd-anrhydedd gydag iaith mewn gwlad yn dibynnu ar yr iaith sy'n cael ei hastudio.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio ar gyfer 120 credyd ym mhob blwyddyn o'ch gradd gyda hanner y credydau wedi'u cwblhau mewn Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer a hanner yn y pwnc cyd-anrhydedd. Treulir y bedwaredd flwyddyn o raddau cyd-anrhydedd gydag iaith mewn gwlad yn dibynnu ar yr iaith sy'n cael ei hastudio.

Mae modiwlau Gwyddor Chwaraeon yn cynnwys modiwlau craidd/gorfodol mewn Sgiliau Ymchwil, Dulliau Ymchwil a Phroject / Traethawd Hir a wneir gan fyfyrwyr ar bob rhaglen, ynghyd â dewis o fodiwlau dewisol sy'n ymdrin â: Cynnig Project, Rheolaeth Echddygol a Dysgu, Seicoleg Chwaraeon Gymhwysol, Canfyddiad a Gweithredu, Straen a Pherfformiad, Gwyddor Chwaraeon Cymhwysol Perfformiad Elit, Ffisioleg Amgylcheddol, Biocemeg Ymarfer, Ymarfer ar gyfer Poblogaethau Clinigol.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd yr elfen Gwyddor Chwaraeon o raglenni ar y cyd yn rhoi cyfle i raddedigion ddilyn gyrfa academaidd neu broffesiynol mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer. Bydd y sgiliau a'r wybodaeth benodol a enillir a'r sgiliau trosglwyddadwy yn gwella cyfleoedd cyflogaeth mewn sectorau fel y diwydiannau ffitrwydd ac iechyd, y fyddin a busnes.

Mae'r graddau cyd-anrhydedd Rheoli Busnes a Marchnata yn eich galluogi i ddatblygu ystod o wybodaeth a sgiliau busnes penodol, ynghyd â gwell hunanymwybyddiaeth a datblygiad personol sy'n briodol i raddedigion gyda'r posibilrwydd o symud ymlaen i yrfaoedd proffesiynol ym myd busnes, rheolaeth neu farchnata. Mae hyn yn cynnwys annog agweddau cadarnhaol a beirniadol tuag at newid a menter. Mae astudio leithoedd Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd.

Mae llawer o raddedigion leithoedd Modern Bangor, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfleithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, busnes a masnach, diwydiant a'r cyfryngau. Mae'r sgiliau a ddysgwch wrth astudio leithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol – i gyd yn cael eu prisio'n uchel gan gyflogwyr o bob sector o'r economi.

SPORT SCIENCE [OUTDOOR RECREATION] GRADD DDILYNIANT / GRADDAU RHYNGOSODOL

FFEITHIAU AM Y CWRS SPORT SCIENCE (OUTDOOR RECREATION) TOP-UP DEGREE
Cod cwrs UCAS:
C605 BSc/SSOR:
Hyd: blwyddyn (ar ben Gradd Sylfaen addas)

GOFYNION MYNEDIAD:
- Byddwch wedi cwblhau Gradd Sylfaen gysylltiedig lle cafwyd o leiaf 70% ar gyfer 30% neu fwy o'r modiwlau, ac o leiaf 60% yn hanner y modiwlau. Mae angen TGAU Mathemateg a Saesneg ar radd C (neu gyfwerth) a byddai Addysg Gorfforol a Gwyddorau TGAU yn fanteisiol.

GRADDAU RHYNGOSODOL (BSc)
Codau cwrs UCAS:
C603 BSc/SPSc: Sport Science
C883 BSc/CLSPS: Clinical Sports Science
Hyd: blwyddyn

GOFYNION MYNEDIAD:
- Bydd gofynion mynediad yn cael eu gosod rhyngoch chi ac Ysgol Feddygol Phrifysgol Bangor. Cysylltwch â'r Ysgol Feddygol am fanylion pellach.

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Derbyniadau
Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer

Ffôn: 01248 388256
E-bost: chwaraeon@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/chwaraeon

GRADD DDILYNIANT

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Os ydych chi'n cwrdd â'r meini prawf mynediad (gweler y gofynion mynediad ar y chwith), gallwch wneud **Gradd Ddilyniant** fel y gallwch raddio ar ôl tair blynedd gyda Gradd BSc Anrh. mewn Sport Science (Outdoor Recreation).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Gyda'r Radd Ddilyniant byddwch yn astudio ar gyfer cyfanswm o 120 credyd yn cynnwys project ymchwil a modiwlau sy'n ymdrin â phynciau gan gynnwys:
- Stress and Performance
- Group Dynamics
- Applied Sport Science of Elite Performance
- Environmental Physiology – Extremes
- Research in Psychological Skills
- Personality and Individual Differences
- Motor Behaviour
- Healthy Aging
- Disability, Sport and Rehabilitation
- Environmental Physiology – High Altitude
- Skill Acquisition
- Exercise for Clinical Populations

RHAGOLYGON GYRFA
Gallwch ddefnyddio eich gradd ddilyniant fel paratoad ar gyfer gyrfa mewn gweithgareddau awyr agored/rheoli ffitrwydd/ hamdden, gweinyddu chwaraeon, hyfforddi a rhoi cyfarwyddyd, datblygu chwaraeon, ymchwil, therapi/ ffisiotherapi chwaraeon, dysgu, teithiau, a hyfforddiant datblygu awyr agored, addysg, hamdden, datblygu chwaraeon a therapi.

GRADDAU RHYNGOSODOL

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'r graddau hyn wedi eu hanelu at fyfyrwyr meddygol sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus y nifer gofynnol o flynyddoedd mewn Ysgol Feddygol ac sy'n dymuno cael BSc i arbenigo neu gael profiad yn y meysydd canlynol:

- Gwyddor Chwaraeon
- Gwyddor Chwaraeon Clinigol

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio ar gyfer 120 credyd yn ystod y flwyddyn. Bydd pob myfyriwr yn astudio Sgiliau Ymchwil ar gyfer Meddygon (20 credyd) ac yn gwneud Project Ymchwil (40 credyd).

Yn dibynnu ar y cwrs a ddewiswyd, byddwch hefyd yn gwneud 60 credyd dewisol a ddewiswyd o ystod o fodiwlau, rhoddir enghreifftiau isod. Gall modiwlau eraill a gynigir gan Seicoleg a Gwyddorau Meddygol fod ar gael os gellir eu cynnwys yn yr amserlen:

Gwyddor Chwaraeon
- Perception and Action (10 credyd)
- Stress and Performance (10 credyd)
- Research in Psychological Skills (10 credyd)
- Personality and Individual Differences (10 credyd)
- Environmental Physiology (10 credyd)
- Applied Sport Science of Elite Performance (10 credyd)
- Disability, Sport and Rehabilitation (10 credyd)
- Skill Acquisition (10 credyd)
- Biochemistry of Exercise (10 credyd)
- Sports Injury Rehabilitation (10 credyd)
- Psychology of Injury and Rehabilitation (10 credyd)

Ffisioleg Ymarfer Corff
- Exercise Psychology (10 credyd)
- Applied Sport Science of Elite Performance (10 credyd)
- Environmental Physiology (10 credyd)
- Disability, Sport and Rehabilitation (10 credyd)
- Exercise for Clinical Populations (10 credyd)
- Biochemistry of Exercise (10 credyd)
- Sports Injury Rehabilitation (10 credyd)
- Psychology of Injury and Rehabilitation (10 credyd)

Ymarfer Corff, Newid Ymddygiad ac Atal Clefydau
- Biological Psychology (10 credyd)
- Exercise Psychology (10 credyd)
- Research in Psychological Skills (10 credyd)
- Personality & Individual Differences (10 credyd)
- Environmental Physiology (10 credyd)
- Disability, Sport and Rehabilitation (10 credyd)
- Exercise for Clinical Populations (10 credyd)
- Exercise is Medicine (30 credyd)
- Sports Injury Rehabilitation (10 credyd)
- Psychology of Injury and Rehabilitation (10 credyd)

RHAGOLYGON GYRFA
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn ystod eang o bynciau busnes a'r gyfraith.
- Mae'r radd yn rhoi sylw i ddimensiynau Prydeinig, Ewropeaidd a byd-eang y byd cyfreithiol.
- Gall myfyrwyr ddewis cael tiwtorialau Cymraeg ym mhob modiwl y gyfraith lle cynigir tiwtorialau yn rhan o'r cwricwlwm.
- Mae gennym lyfrgell y gyfraith bwrpasol gydag adnoddau da ynddi.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Rydym yn cynnal ffug-lysoedd yn rheolaidd ac mae ystafell llys bwrpasol ar y campws.
- Mae Cymdeithas Myfyrwyr y Gyfraith wedi ennill nifer o wobrau ac maent yn trefnu ystod o weithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol ac academaidd.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Ymhob blwyddyn bydd hanner eich modiwlau yn y Gyfraith a'r hanner arall ym maes Rheoli Busnes.

Blwyddyn 1

Modiwlau Busnes:
- Egwyddorion Rheoli Busnes
- Dulliau Dadansoddi Busnes
- Tutorials in Management

Modiwlau'r Gyfraith:
- Legal Skills
- Contract Law
- Public Law

Blwyddyn 2

Modiwlau Busnes:
- Operations Strategy
- Leadership & HRM
- Systemau Gwybodaeth Busnes

Yn ogystal ag 20 credyd arall o restr o'r modiwlau sydd ar gael (mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys): Law for Business, Dulliau Ystadegol, Evolution of Management Thought, Ymchwil Marchnata, Corporate Governance and Regulation.

Modiwlau'r Gyfraith:
Dewiswch 3 modiwl o restr o'r modiwlau sydd ar gael (mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys): Tort, Roman Law and Legal History, Evidence, Employment Law, Media Law, Intellectual Property Law, Equity and Trusts.

Blwyddyn 3

Modiwlau Busnes:
- Entrepreneuriaeth Cyf & Cwmni
- Strategic Management

Yn ogystal â 30 credyd arall o restr o'r modiwlau sydd ar gael (mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys):International Business Competency, Prosiect Rheoli Busnes, Globalisation and Multinational Companies, Enterprise by Design, Corporate Social Responsibility, Corporate Risk Management, Executive Compensation, Marketing Strategy and Management.

Modiwlau'r Gyfraith:
Dewiswch 3 modiwl o restr o'r modiwlau sydd ar gael (mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys): Land Law, Company Law, Commercial Law, European Union Law

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Yn holl fodiwlau'r gyfraith bydd gennych 2 awr o ddarlithoedd a thiwtorial awr o hyd bob pythefnos. Yn y modiwlau busnes byddwch yn mynychu darlithoedd wythnosol. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae llawer o raddedigion yn dilyn gyrfaoedd ym meysydd rheoli, marchnata, rheoli adnoddau dynol, rheoli adwerthu, rheoli busnes, masnach ac allforio.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
N2N5 BSc/BMM
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol): www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Diffiniwyd marchnata fel swyddogaeth sefydliadol ac fel set o brosesau ar gyfer creu, cyfathrebu a darparu gwerth i gwsmeriaid, a rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid mewn ffyrdd sydd o fudd i'r sefydliad a'i randdeiliaid.

Am gyfnod rhy hir, dehonglwyd marchnata yn syml fel modd i werthu beth bynnag mae'r sefydliad yn ei gynhyrchu. Wrth i'r gystadleuaeth gynyddu, mae cwmnïau wedi dechrau cydnabod pwysigrwydd marchnata fel rhan o strategaeth gwbl integredig sy'n ceisio nodi, rhagweld a diwallu anghenion cwsmeriaid. Bydd y radd hon yn canolbwyntio ar y newid hwn mewn agweddau a goblygiadau hynny ar sut y mae egwyddorion ac arferion rheoli yn cael eu cymhwyso mewn gwahanol fath o sefydliadau.

Bydd eich astudiaethau'n cyfuno modiwlau mewn marchnata â rhaglen astudio fwy cyffredinol ar draws amrediad o ddisgyblaethau busnes a rheoli.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog ac fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd mewn busnes a chyllid.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy manwl. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Operation Strategy; Consumer Behaviour; Marketing of Services; Strategic Management; e-marketing a Customer Insight Project. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai yn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill.

Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae ein rhaglen wedi'u llunio'n ofalus i ddarparu amrediad eang o sgiliau cyflogadwyedd a ddylai wella rhagolygon gyrfa ein graddedigion. Gall myfyrwyr fynd yn eu blaenau i amrediad eang o swyddi, rolau a diwydiannau. Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i sefydlu busnesau cychwynnol llwyddiannus, gweithio mewn rolau allweddol mewn diwydiant a hyd yn oed ddatblygu'n ysgolheigion rhyngwladol pan gyhoeddwyd eu gwaith.

Mae marchnata ym Mhrifysgol Bangor yn y 10 Uchaf ar gyfer Dwysedd Ymchwil.

(Complete University Guide 2020)

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
L190 BSc/BEc
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol): www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cwrs hwn yn cyfuno rhaglen o astudiaethau craidd mewn economeg gyda dewis eang o fodiwlau dewisol mewn busnes, cyllid a rheolaeth.

Mae economeg wedi cael ei ddiffinio fel astudiaeth o ddewis dynol, ac effaith y dewis ar gynhyrchu, dosbarthu a defnyddio adnoddau prin. Mae micro-economeg yn delio â'r dewis ar lefel yr unigolyn, ac mae macro-economeg yn dadansoddi'r economi yn gyffredinol.

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys micro-economeg a macro-economeg fel elfennau craidd, ac arbenigedd sy'n canolbwyntio ar gyd-destun economaidd gwneud penderfyniadau busnes. Byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o sut y gellir cymhwyso economeg i feysydd yn cynnwys rheolaeth busnes, cyllid a pholisi cyhoeddus.

Bydd y radd hon yn apelio at unrhyw un sy'n dymuno astudio materion economaidd ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol, wrth ddatblygu sgiliau ymarferol mewn busnes, cyllid a rheolaeth a fydd yn ddeniadol i gyflogwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes, gan gynnwys cyfrifeg, bancio, cyllid, economeg, rheolaeth, marchnata ac entrepreneuriaeth.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog ac fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd mewn busnes a chyllid.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy trylwyr. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Microeconomics; Macroeconomics; Current Issues in Economics; Industrial Organisation; Financial Economics and Applied Economics. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai yn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill.

Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ddefnyddio economeg i ddeall amgylchedd busnes. Byddwch yn meithrin sgiliau a fydd yn werthfawr i'ch gyrfa yn y dyfodol mewn busnes ac wrth weithio i sefydliadau eraill.

"Mae' fy swydd yn galw arna'i i gyfathrebu'n ddwyieithog yn ddyddiol, o fewn a thu allan i'r swyddfa. Trwy astudio trwy'r Gymraeg, fe wnes i wella fy sgiliau sylfaenol, yn cynnwys y gallu i feddwl, ysgrifennu, a chyfathrebu'n effeithiol ac yn broffesiynol yn y ddwy iaith."

Dylan Williams
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

BUSINESS MANAGEMENT WITH ACCOUNTING
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
N2ND BSc/BMA
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Yn achos graddau cydanrhydedd, dylech edrych hefyd ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis.
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol):
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn caniatáu i chi ddatblygu'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen i reoli cyllid, pobl a gwybodaeth, a meithrin gwybodaeth arbenigol am gyfrifeg.

Mae rheolaeth yn golygu'r broses o arwain neu gyfeirio sefydliad, a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â dyrannu adnoddau. Byddwch yn astudio egwyddorion rheolaeth, ac yn datblygu ymwybyddiaeth fasnachol, arweinyddiaeth a sgiliau cyfathrebu a chyflwyno.

Mae cyfrifeg wedi ei ddiffinio fel y gwaith o fesur a datgelu gwybodaeth ariannol a ddefnyddir gan reolwyr, buddsoddwyr ac eraill i wneud penderfyniadau'n ymwneud â dyrannu adnoddau mewn sefydliadau. Rhaid i'r dulliau o baratoi gwybodaeth cyfrifo gael eu defnyddio'n ddoeth, gan ddeall at ba ddiben y defnyddir yr wybodaeth. Bydd y radd hon yn eich galluogi i ddeall yr egwyddorion allweddol sy'n sail lefelau cost ac elw a gynhyrchir gan gyfrifydd, a gwerthfawrogi goblygiadau data cyfrifeg ar wneud penderfyniadau rheoli.

Mae'r rhaglen hon wedi'i hachredu gan ACCA (Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig), y corff byd-eang ar gyfer cyfrifwyr proffesiynol, Chartered Institute of Management Accountants (CIMA), the Institute of Chartered Accountants in England and Wales (ICAEW), a Certified Practising Accountant (CPA) Australia. Bydd hyd at 7 o eithriadau yn cael ei ddarparu rhag arholiadau craidd llawer o'r cyrff hyn. Mae hyn yn fantais enfawr, gan y byddwch yn sefyll llai o arholiadau sy'n eich galluogi i ganolbwyntio ar ddatblygu eich gyrfa.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog ac fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd mewn busnes a chyllid.
- Gan ddibynnu ar y modiwlau y byddwch yn eu hastudio, gallwch gael eich eithrio rhag elfennau o arholiadau proffesiynol rhai o'r prif gyrff cyfrifeg.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy trylwyr. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau megis Principles of Organisation and Management; Cyfrifeg Ariannol; Human Resource Management; Operations Management; Systemau Gwybodaeth Busnes a Business Planning. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai o fewn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis: casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau, cwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd graddedigion rheolaeth wedi eu harfogi i ddilyn gyrfaoedd ym meysydd cyfrifeg, bancio, buddsoddi, yswiriant, rheoli risg, marchnata, rheoli adnoddau dynol a rheoli adwerthu.

CIMA

ACCREDITED BY ACCA PROGRAMME

BLWYDDYN SYLFAEN
Mae Blwyddyn Sylfaen yn cael ei chynnig yn y cwrs hwn. Mae'r radd yn gwrs 4 blynedd ac yn dilyn i'r un cymhwyster a'r radd 3 blynedd. Mae'r flwyddyn sylfaen ar gyfer ymgeiswyr sydd awydd astudio ar lefel gradd ond ddim yn cyflawni gofynion mynediad ar gyfer y radd 3 blynedd. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

MARKETING WITH PSYCHOLOGY
BSc [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
N5C8 BSc/MP
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol):
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Cynlluniwyd y cwrs hwn i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau myfyrwyr ar draws amrediad eang o swyddogaethau marchnata a seicoleg, gan gynnwys agweddau strategol a gweithredol marchnata, ac astudio'r amgylchedd marchnata allanol. Byddwch yn archwilio ac yn datblygu dealltwriaeth o agweddau seicolegol allweddol - sy'n sail i ymddygiad defnyddwyr a sefydliadau - a ddefnyddir yn yr amgylchedd busnes. Byddwch hefyd yn datblygu gwybodaeth eang am bynciau busnes a rheoli.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ein cyrsiau marchnata yn cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio marchnata yng nghyd-destun y byd go iawn, gan ddatblygu sgiliau dadansoddol ac ymarferol cryf, a chymhwyster sy'n berthnasol i yrfa sy'n canolbwyntio ar farchnata.
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes.
- Mae ein myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cenedlaethol megis Her Fusnes IBM a 'The Pitch', her farchnata a llunio cynllun busnes a gynhelir ledled y Deyrnas Unedig.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am opsiynau gwaith ar ôl graddio.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol ardderchog ac fe gewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd (MA, MSc ac MBA) mewn busnes a chyllid.



BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Yn y flwyddyn gyntaf byddwch yn dewis o blith detholiad o fodiwlau sy'n rhoi sylfaen gadarn yn y maes pwnc. Yn ogystal â modiwlau sy'n canolbwyntio ar Egwyddorion Rheoli Busnes a Marchnata byddwch hefyd yn dewis dau fodiwl Seicoleg o restr o'r opsiynau sydd ar gael.

Blwyddyn 2 a 3
Byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn astudio modiwlau fel Statistical Methods, Cyfathrebu Marchnata, Consumer Behaviour, Marketing Strategy, e-Marketing, Brand Management ac Ymchwil Marchnata. Yn ogystal, byddwch yn dewis modiwlau pellach o restr o'r opsiynau marchnata a seicoleg sydd ar gael.

Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae llwybrau gyrfa nodweddiadol graddedigion marchnata yn cynnwys: swyddi megis swyddogion marchnata a rheolwyr marchnata, cynlluniau hyfforddi graddedigion ym maes rheoli a swyddi gweinyddiaeth busnes. Mae cynnydd yn y galw am raddedigion marchnata yn y sector cyhoeddus a'r sector dielw hefyd.

FFEITHIAU AM Y CYRSIAU
Codau cwrs UCAS:
N109 BSc/BAFT (Business Analytics with Financial Technology)
N312 BSc/BKFT (Banking with Financial Technology)
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Yn achos graddau cydanrhydedd, dylech edrych hefyd ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis.
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol):
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae Technoleg Ariannol (neu FinTech) yn ddatblygiad newydd sylweddol sy'n addo chwyldroi y ffordd y caiff gwasanaethau ariannol eu darparu a'u defnyddio. O ystyried pwysigrwydd y sector ariannol i economi'r DU, mae'r llywodraeth wedi nodi ei huchelgais i wneud y DU yn ganolfan fyd-eang i FinTech.

Nod y rhaglen newydd gyffrous hon yw ateb y galw am raddedigion â sgiliau addas o'r sector FinTech, sy'n datblygu'n gyflym.

Business Analytics with Financial Technology BSc
Mae busnesau modern yn casglu ac yn dehongli llawer iawn o ddata a gwybodaeth am eu cwsmeriaid a'u gweithgareddau. Mae dadansoddwyr busnes yn defnyddio sgiliau arbenigol i ymchwilio ac archwilio'r wybodaeth hon, i'w dehongli a nodi patrymau sy'n golygu y gall busnesau wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

Bydd ein cwrs yn rhoi sgiliau craidd i chi mewn dadansoddeg busnes. Byddwch yn datblygu sgiliau meintiol a chyfrifiadurol o fewn cyd-destun busnes, a fydd yn rhoi dealltwriaeth ddofn i chi o theori rheolaeth ac ymarfer. Bydd y rhaglen o ddiddordeb i fyfyrwyr economeg, marchnata a rheolaeth. Yn ogystal ag ennill sgiliau dadansoddi arbenigol, bydd y rhaglen yn rhoi sgiliau cyfrifiadureg arbenigol i chi yn cynnwys rhaglennu gan ddefnyddio Python a seiberddiogelwch.

Trwy gyfuno cysyniadau damcaniaethol â chymwysiadau ymarferol, bydd y cwrs hwn yn rhoi set o sgiliau i chi y byddwch ei hangen ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y sectorau hyn.

Banking with Financial Technology BSc
Bancio yw un o sectorau pwysicaf economi. Fel prif ffynhonnell arian ar gyfer corfforaethau ac aelwydydd, mae banciau hefyd yn chwarae rhan fawr mewn dyroddi gwarantau, tanysgrifennu a threfnu, a busnes ymgynghorol arall gan gynnwys cydsoddi a chaffael. Mae datblygiadau, megis globaleiddio, arloesi technolegol, dadreoleiddio ac integreiddio rhyngwladol cynyddol wedi trawsnewid y ffyrdd y mae banciau'n gwneud eu busnes yn ogystal â helpu i wneud y sector yn fwy cystadleuol.

Yn ogystal ag ennill sgiliau a gwybodaeth am fancio, bydd myfyrwyr ar y cwrs hwn yn dysgu sgiliau arbenigol fel cyfrifiadureg, yn cynnwys rhaglennu gan ddefnyddio Python a seiberddiogelwch, y byddwch eu hangen ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y sector hwn.

Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr byd-enwog ym maes bancio yn addysgu ar y cwrs hwn.
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes, a fydd yn rhoi dealltwriaeth ddofn i chi o theori rheolaeth ac ymarfer. Bydd y rhaglen o ddiddordeb i fyfyrwyr economeg, marchnata a rheolaeth. Yn ogystal ag ennill sgiliau dadansoddi arbenigol, bydd y rhaglen yn rhoi sgiliau cyfrifiadureg arbenigol i chi yn cynnwys rhaglennu gan ddefnyddio Python a seiberddiogelwch.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Cynhelir Ffair Yrfaoedd a Chyflogadwyedd bob blwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gwrdd â recriwtwyr a dysgu mwy am wahanol swyddi.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Cewch gyfle i ddatblygu eich sgiliau dadansoddi data a pharatoi adroddiadau.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd (MA, MSc ac MBA) mewn busnes a chyllid.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae ein holl gyrsiau gradd Anrhydedd Sengl yn darparu sylfaen eang ar draws yr holl ddisgyblaethau a astudir yn yr Ysgol - cyfrifeg, bancio, economeg, cyllid, rheolaeth a marchnata - ynghyd ag astudio pynciau craidd y rhaglen yn fwy trylwyr. Maent hefyd yn cynnig cyflwyniad cynhwysfawr i'r sgiliau dadansoddi sy'n ofynnol ym mhob un o feysydd pwnc yr Ysgol.

Ym mlynyddoedd 2 a 3, byddwch yn arbenigo'n gynyddol ym maes astudio craidd eich cwrs. Byddwch yn cymryd modiwlau fel Principles of Organisation and Management; Cyfrifeg Ariannol; Human Resource Management; Operations Management; Systemau Gwybodaeth Busnes a Business Planning. Fodd bynnag, bydd cyfle gennych o hyd i ddewis modiwlau dewisol naill ai yn eich prif ddisgyblaeth neu mewn meysydd pwnc eraill.

Gellir astudio llawer o'n pynciau hefyd wedi eu cyfuno â phwnc mewn ysgol academaidd arall i ffurfio cwrs gradd cydanrhydedd.
Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fodiwlau.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf
Hyd: 4 blynedd ar gyfer graddau gydag iaith fel prif elfen neu elfen gyfartal; 3 blynedd pan mae iaith yn is elfen

GOFYNION MYNEDIAD:
Isod ceir gofynion mynediad elfen Busnes y cwrs. Dylech edrych hefyd ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis.
TGAU: Mathemateg gradd C/4 yn ofynnol.
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol):
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Busnes

Ffôn: 01248 382085
E-bost: busnes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/busnes

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'n bosibl astudio dau bwnc yn gyfartal o fewn un cwrs gradd. Gelwir y rhain yn raddau cydanrhydedd. Gallwch astudio pwnc Busnes fel gradd gydanrhydedd gyda phwnc o faes pwnc gwahanol. Mae hefyd yn bosibl astudio am radd lle byddwch yn astudio dwy ran o'ch gradd mewn pwnc busnes a'r traean sy'n weddill mewn maes pwnc arall, neu yn groes i hynny. Gweler isod fanylion yr holl gyfuniadau sydd ar gael.

PWNC BUSNES A/GYDA PHWNC IEITHOEDD MODERN
Mae'r cyrsiau integredig hyn yn eich galluogi i gyfuno astudio pynciau sy'n gysylltiedig â busnes a chyllid gydag arbenigedd iaith.

Accounting, Banking, Astudiaethau Busnes, Economics, Management neu Marketing A Chymraeg, Chinese*, French, German, Italian neu Spanish (50% pwnc busnes, 50% iaith)
Mae'r rhaglenni hyn yn para 4 blynedd gan y treulir y drydedd flwyddyn dramor. I gael rhagor o wybodaeth am elfen iaith y graddau, gweler yr adran Ieithoedd Modern sy'n dechrau ar dudalen 224.
*Business Management ac Economics yn unig.

Astudiaethau Busnes neu Marketing GYDA French, German, Italian neu Spanish (67% pwnc busnes, 33% iaith)
Graddau lle treulir traean yn amser yn astudio iaith a dwy ran o dair o'r amser yn astudio pwnc busnes, cyrsiau 3 blynedd yw'r rhain sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl ym Mangor.

Business Management with French	N1R1
BusinessManagement with German	N1R2
Business Management with Italian	N1R3
Business Management with Spanish	N1R4
Marketing with French	N5R1
Marketing with German	N5R2
Marketing with Italian	N5R3
Marketing with Spanish	N5R4

French, German neu Spanish GYDAG Business Studies neu Marketing (67% iaith, 33% pwnc busnes)
Mae graddau sy'n cynnwys astudio iaith am ddwy ran o dair o'r amser yn rhaglenni 4 blynedd, gyda'r drydedd flwyddyn yn cael ei threulio dramor. Gweler yr adran Ieithoedd Modern sy'n dechrau ar dudalen 224 i weld y codau UCAS.

PWNC BUSNES A/GYDA PHWNC ARALL

Economics neu Astudiaethau Busnes A phwnc arall (50% pwnc busnes, 50% pwnc arall)
Gweler tudalennau 63-64 am godau UCAS.
History and Economics LV11
Social Policy and Economics LL14
Economics and Sociology LL14
Cymraeg a Rheolaeth Busnes

Pwnc arall GYDAG Accounting and Finance neu Astudiaethau Busnes (67% pwnc arall, 33% pwnc busnes)
Law with Accounting and Finance M1N4
Law with Business Studies M1N1

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym arbenigwyr yn gweithio i ni mewn amrediad eang o bynciau busnes.
- Mae gennym gysylltiadau cryf â diwydiant trwy bartneriaethau â chyrff proffesiynol megis Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA) a'r Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM), ac rydym yn gweithredu rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i rannu gwybodaeth rhwng y sector prifysgolion a busnesau a sefydliadau allanol.
- Mae'r cyfleusterau addysgu leithoedd Modern yn cynnwys pum system deledu lloeren a chanolfan iaith amlgyfrwng o'r safon uchaf
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn eu meysydd pwnc, ac mae gennym enw da yn rhyngwladol.
- Mae gennym gyfleusterau cyfrifiadurol rhagorol.
- Mae Bangor yn cynnig amrywiaeth atyniadol o raddau ôl-radd (MA, MSc ac MBA) mewn pynciau busnes a chyllid ac mewn Astudiaethau Ewropeaidd.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio hyd at 15 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau.
Yn achos pynciau busnes ceir cymysgedd o asesu parhaus ac arholiadau ysgrifenedig.
Byddwch yn cwblhau aseiniadau megis casglu a dadansoddi gwybodaeth o gronfeydd data masnachol neu oddi ar y rhyngrwyd, paratoi astudiaethau achos busnes, ysgrifennu traethodau a chwblhau ymarferion datrys problemau.
Yn achos ieithoedd, byddwch yn chwarae rôl, yn dadansoddi fideos a thestunau, yn gwneud trawsgrifiadau clywedol a chyflwyniadau llafar, yn crynhoi ac yn ysgrifennu adroddiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae llawer o'n graddedigion yn dilyn gyrfaoedd mewn meysydd megis cyfrifeg, bancio, buddsoddi, yswiriant, rheoli risg, marchnata, rheoli adnoddau dynol a rheoli adwerthu. Mae llawer o raddedigion leithoedd Modern wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfieithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn gyrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, mewn busnes a masnach, mewn diwydiant ac yn y cyfryngau.



"Teimlaf fod Bangor yn lle gwych ar gyfer myfyrwyr Cymraeg gan fod yna gymdeithas glos iawn sy'n dod â phawb at ei gilydd.

Mae'r darlithwyr yn gefnogol iawn, ac yn barod i roi cymorth ynglŷn â gwaith ar unrhyw bryd.

Byddwn yn cynghori unrhyw un sy'n ystyried dod i Fangor i weithio'n galed yn eu hastudiaethau a cheisio am unrhyw ysgoloriaeth maent yn gymwys ar ei chyfer. Byddwn hefyd yn eu hannog i fynychu'r diwrnodau agored sy'n cael eu cynnal gan y Brifysgol, er mwyn profi'r ddinas a'r gymdeithas sydd yma o flaen llaw."

Elin Owen Jones
BSc Cyfrifeg a Chyllid

"O safbwynt cael swydd a gwella rhagolygon gyrfa mae nifer o resymau dros ddewis astudio drwy'r Gymraeg. Mae mwy a mwy o gyflogwyr yn chwilio am weithwyr efo sgiliau dwyieithog ac o gofio pa mor gystadleuol ydi'r byd gwaith heddiw, mae'r ffaith eich bod wedi astudio o leiaf rhan o gwrs gradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i fod yn fantais fawr."

Dr Sara Parry
Uwch Ddarlithydd mewn Marchnata

Y GYFRAITH

- **Law LLB**
- **Law with Accounting and Finance LLB**
- **Law with Business Studies LLB**
- **Law with Criminology LLB**
- **Law with Social Policy LLB**
- **Y Gyfraith gyda'r Gymraeg LLB**
- **Law with Chinese (International Experience) LLB**
- **Law with French (European Experience) LLB**
- **Law with German (European Experience) LLB**
- **Law with Italian (European Experience) LLB**
- **Law with Spanish (European Experience) LLB**
- **English Law and French Law LLB**
- **Law with Creative Media Writing LLB**
- **Law with History LLB**
- **Law with Media Studies LLB**
- **Law with Philosophy and Religion LLB**
- **Business and Law BA**

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Codau cwrs UCAS:
Rhaglen 3 blynedd M100 LLB/L
Rhaglen 2 flynedd M101 LLB/Law2

GOFYNION MYNEDIAD:
Rhaglen 3 blynedd:
Cynnig nodweddiadol o isafswm o 120 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: DMM
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, City & Guilds, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at www.ucas.com.

Rhaglen 2 flynedd:
- Gradd gyntaf (2.ii neu uwch) mewn pwnc arall o Brifysgol Bangor neu sefydliad achrededig arall.
- Ystyrir myfyrwyr hŷn gyda phrofiad perthnasol.

Os ydynt yn gobeithio ymarfer fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr ar ôl graddio, dylai darpar fyfyrwyr fod yn ymwybodol y bydd rhaid iddynt gyflawni gofynion y Solicitors Regulation Authority neu'r Bar Standards Board i fod yn gymwys. Byddai hyn yn cynnwys cyflawni gofynion sy'n berthnasol i droseddau ac ymddygiad troseddol. Cynghorir myfyrwyr gyda chollfarn droseddol i gysylltu â'r corff proffesiynol perthnasol am gyngor.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Y Gyfraith

Ffôn: 01248 382085
e-bost: cyfraith@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/cyfraith

ASTUDIO TRWY'R GYMRAEG
Gyda'r twf yn statws y Gymraeg fel iaith swyddogol ac fel iaith busnes a chyfraith, mae galw cynyddol am swyddogion a chyfreithwyr a all weithredu yn y byd cyfreithiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mewn ymateb i'r galw hwn, rydym wedi datblygu cyrsiau dwyieithog i alluogi myfyrwyr i ennill cymwysterau addas a datblygu'r sgiliau a'r hyder i ddiwallu anghenion cyfreithiol newydd Cymru. Gallwch ddewis astudio rhan o'r cwrs yn y Gymraeg, yn ogystal â chyflwyno pob aseiniad, gan gynnwys y modiwl traethawd hir, a sefyll pob arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

CEFNDIR Y CWRS
Mae'r gyfraith yn effeithio ar fywydau pob un ohonom ac mae gwybodaeth o'r gyfraith yn ein galluogi i ddeall cymdeithas a'r byd rydym yn byw ynddo yn well. Mae'r rhaglenni hyn yn rhoi addysg gyflawn yn y Gyfraith, neu yn y Gyfraith a disgyblaeth arall, er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r fath a galluogi'r rhai sy'n dymuno symud ymlaen i yrfaoedd yn y proffesiynau cyfreithiol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Bangor yw'r unig sefydliad yng ngogledd Cymru sy'n cynnig gradd yn y Gyfraith a neilltuwyd adnoddau sylweddol i ddatblygu'r pwnc.
- Dysgir y radd gan staff dwyieithog sydd ag amrywiaeth eang o arbenigedd yn y pwnc.
- Mae pob un o'r cyrsiau LLB wedi eu hachredu gan Gymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor Bar Prydain ac felly maent yn Raddau Cymhwysol yn y Gyfraith.
- Gan fod y graddau yn rhai Cymhwysol yn y Gyfraith, mae ein myfyrwyr wrth raddio o Fangor yn cwblhau'r elfen academaidd o'r hyfforddiant proffesiynol i fod yn gyfreithwyr neu fargyfreithwyr.
- Mae gennym ystafell 'llys' ar gyfer cystadleuthau ffug-lysoedd.
- Mae graddau Bangor yn ymdrin â'r datblygiadau cyfreithiol cyfoes yn y dimensiynau Cymreig, Prydeinig ac Ewropeaidd.
- Mae strwythur y radd yn eich galluogi i arbenigo, yn ogystal ag ymdrin ag amrywiaeth ehangach o opsiynau, ac wynebu her ddeallusol y maes pwnc.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio'r saith pwnc Sylfaen i gael Gradd Gymhwysol yn y Gyfraith, yn ogystal â phynciau yn ymwneud â'r gyfraith, ac/neu eraill sy'n eich galluogi i arbenigo. Byddwch yn cael eich annog i astudio mewn meysydd sy'n cyd-fynd â'r cynllun gradd o'ch dewis.

Seiliau Gwybodaeth Gyfreithiol i gael Gradd Gymhwysol yn y Gyfraith yw:
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd
- Cyfraith Trosedd
- Ymrwymiadau (yn cynnwys Contract, Adferiad a Chamwedd)
- Cyfraith Eiddo
- Ecwiti ac Ymddiriedolaethau
- Ymchwil Gyfreithiol

LLB Y GYFRAITH (3 BLYNEDD)

Blwyddyn 1

Modiwlau craidd:
- Systemau Cyfreithiol
- Cyfraith Contractau
- Cyfraith Gyhoeddus
- Sgiliau Cyfreithiol

Gyda modiwlau dewisol yn y Gyfraith neu bwnc arall.

Blwyddyn 2

Modiwlau craidd:
- Cyfraith Trosedd
- Cyfraith Camwedd
- Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd
- Ecwiti ac Ymddiriedolaethau

Gyda modiwlau dewisol yn y Gyfraith.

Blwyddyn 3

Modiwlau craidd:
- Cyfraith Cwmni
- Cyfraith Tir

Gyda modiwlau dewisol yn y Gyfraith

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Mewn modiwlau gorfodol, byddwch yn cael darlithoedd bob wythnos fel rheol, ac yna gweithdy ymarferol i ddilyn. Mewn cyrsiau dewisol ceir seminarau wythnosol a fydd yn para am ddwy awr. Cyn tiwtorialau a seminarau bydd angen darllen ac ymchwilio. Rhoddir traethodau a/neu brofion dosbarth ym mhob cwrs yn ystod y flwyddyn. Asesir yr holl fodiwlau craidd trwy waith cwrs ac arholiadau.

CYNLLUN GRADD LLB (2 FLYNEDD)
Mae'r cwrs 2 flynedd israddedig hwn wedi ei gynllunio ar gyfer unigolion sydd wedi cwblhau addysg uwch ac yn dymuno astudio ar gyfer gradd Baglor yn y Gyfraith a/neu ymgeiswyr hŷn sydd â phrofiad sylweddol gyrfa flaenorol. Gallai hyn gynnwys graddedigion sydd wedi bod yn llwyddiannus yn cwblhau gradd mewn pwnc arall ym Mhrifysgol Bangor neu sefydliad achrededig arall, neu unigolion sydd â phrofiad proffesiynol addas.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Mae ein holl raddau LLB yn Raddau Cymhwysol yn y Gyfraith (QLD), sy'n caniatáu i raddedigion symud ymlaen yn uniongyrchol i gyfnod galwedigaethol yr hyfforddiant proffesiynol sydd ei angen i fod yn fargyfreithwyr neu gyfreithwyr. Mae gradd yn y gyfraith hefyd yn gymhwyster gwerthfawr ar gyfer mynediad i yrfaoedd eraill. Mae galw mawr am gyfreithwyr â medrau ychwanegol yn y Gymru ôl-ddatganoli sydd ohoni a hefyd yn yr Undeb Ewropeaidd.

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Cod cwrs UCAS:
M1Q5
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Cynnig nodweddiadol o isafswm o 120 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.
- Lefel A (yn cynnwys gradd B mewn Cymraeg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: DMM
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, edrychwch yn www.ucas.com.
Gweler hefyd y testun ar waelod colofn 1, tudalen 90 ynglŷn â'r gofynion yn ymwneud â throseddau os yn dymuno ymarfer fel cyfriethiwr neu fargyfreithiwr yn dilyn eich gradd.

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Y Gyfraith

Ffôn: 01248 382085
e-bost: cyfraith@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/cyfraith

CEFNDIR Y CWRS
Mae hwn yn gyfle arbennig ac unigryw i fyfyrwyr sydd eisoes wedi astudio Cymraeg fel pwnc Lefel A i astudio gradd yn y Gyfraith gyda'r Gymraeg, sy'n Radd Gymhwysol yn y Gyfraith (QLD). Trwy astudio traean o'r cwrs yn Adran y Gymraeg, bydd y radd hon yn gloywi a datblygu'r sgiliau yn y Gymraeg, a bydd gweithdai cyfrwng Cymraeg y Gyfraith yn galluogi myfyrwyr i feithrin sgiliau cyfreithiol yn ddwyieithog – gallu a chymhwyster gwerthfawr a hanfodol i gyfreithwyr Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn yr holl fodiwlau craidd a restrir ar dudalen 164.

Gyda dyfodiad Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel corff deddfwriaethol yng Nghaerdydd. Yn unol â'r Deddfau, mae'n rhaid i bob darn o ddeddfwriaeth a gynhyrchir gan y Cynulliad gael ei gyhoeddi'n ddwyieithog. Felly, mae galw mawr yng Nghymru, nid yn unig am gyfreithwyr sy'n gallu darllen a deall y naill fersiwn a'r llall o'r testun, ond sydd hefyd yn gallu cyfrannu at ddrafftio'r ddeddfwriaeth yn ddwyieithog. Bydd y galw yma'n sicr o gynyddu wrth i broses ddeddfwriaethol y Cynulliad ddatblygu gydag amser.

Nod y radd gymhwysol unigryw hon yn y Gyfraith gyda'r Gymraeg yw paratoi ein graddedigion ar gyfer gyrfaoedd fel cyfreithwyr yn y Gymru fodern, ac i fod yr un mor gymwys a hyderus yn y ddwy iaith, cam a ystyrir yn hanfodol yn natblygiad Cymru'r Gyfraith a chymdeithas ddwyieithog y Gymru fodern.



BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Isod rhestrir y modiwlau gorfodol yn y Gymraeg a astudir ochr yn ochr â'r modiwlau craidd yn y Gyfraith, a restrir ar dudalen 164.

Blwyddyn 1
- Defnyddio'r Gymraeg
- Llenyddiaeth Gyfoes

Blwyddyn 3
- Medrau Cyfieithu

Gellwch hefyd ddilyn modiwlau cyfrwng Cymraeg eraill fel modiwlau dewisol ychwanegol.

YSTAFELL LLYS

Yn y blynyddoedd diweddar, mae ein myfyrwyr wedi mwynhau llwyddiant wrth ddadlau yn ein hystafell llys. Mi fydd myfyrwyr yn dadlau achos cyfreithiol ffug o dan amgylchiadau llys. Drwy gydnabod y gwerth mae'r dadleuon hynny'n dod i'r radd ac i gyflogadwyedd myfyrwyr, rydym wedi buddsoddi yn drwm yn yr ardal hon, gan agor ffug ystafell llys gwerth £25,000 ar y campws. Daeth y Cyn-Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr John Thomas i'r agoriad. Rydym yn cynnal sawl dadl fewnol naill ai yn Saesneg neu yn y Gymraeg ac yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn nifer o gystadleuthau cenedlaethol a rhyngwladol.

Prifysgol Bangor yw'r Ysgol Gyfraith orau yng Nghymru
(Guardian University Guide 2018, 2019 a 2020)

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Hyd: 3 blynedd; 4 blynedd ar gyfer graddau yn y Gyfraith gydag leithoedd Modern (yn cynnwys blwyddyn yng Nghyfadran y Gyfraith mewn gwlad lle caiff yr iaith dan sylw ei siarad).

GOFYNION MYNEDIAD:
Crynodeb yn unig a gewch chi isod, felly mae'n werth bwrw golwg ar y manylion llawn ar ein gwefan cyn gwneud unrhyw benderfyniad.
• Mae'r gofynion yn amrywio o isafswm o 112 pwynt tariff i isafswm o 128 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3*
• BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: yn amrywio o DMM i DDM yn dibynnu ar y cwrs
• Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
• Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
• Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.
*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at www.ucas.com.
Gweler hefyd y testun ar waelod colofn 1, tudalen 164ynglŷn â'r gofynion yn ymwneud â throseddau os yn dymuno ymarfer fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr yn dilyn eich gradd.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Y Gyfraith

Ffôn: 01248 382085
e-bost: cyfraith@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/cyfraith

CEFNDIR Y CYRSIAU
Gellwch gyfuno astudio'r Gyfraith ag ystod o bynciau. Yn y graddau hyn bydd oddeutu dwy ran o dair o'r cwricwlwm yn canolbwyntio ar y Gyfraith ac un rhan o dair ar y pwnc arall. Mae pob un o'n graddau LLB wedi'u harchredu gan Gymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar fel Graddau Cymhwysol yn y Gyfraith (Qualifying Law Degrees - QLD). Mae'r statws hwn yn dangos bod graddedigion LLB Bangor wedi cwblhau'r cam academaidd o hyfforddiant ar gyfer proffesiynau'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr, a gallant fynd yn uniongyrchol i Gyrsiau Ymarfer Cyfreithiol (LPC) i ddod yn gyfreithwyr neu Gwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar (BPTC) i ddod yn fargyfreithwyr.

Mae pob gradd LLB yn 3 blynedd ac eithrio'r LLB Cyfraith Lloegr a Chyfraith Ffrainc sy'n 4 blynedd (2 flynedd yn Université Toulouse Capitole a 2 flynedd ym Mangor); mae graddau LLB ag iaith Ewropeaidd yn 4 blynedd (treulir blwyddyn yn astudio mewn sefydliad partner dramor); mae LLB Y Gyfraith gyda Tsieneeg hefyd yn radd 4 blynedd.

Codau cwrs UCAS:
Accounting & Finance M1N4 LLB/LAF
Business Studies M1N1 LLB/LBS
Criminology M1M9 LLB/LWCR
Social Policy M1L4 LLB/LSP
Chinese MT11 LLB/LC
Creative Media Writing M1W1 LLB/LCMW
History M1V1 LLB/LH
Media Studies M1P1 LLB/LMS
Philosophy & Religion M1V5 LLB/LPR
Business and Law NM11 BA/BusALaw
English Law and French Law M1M0 LLB/ELFL
Law with European Experience: French M116 / German M117 / Italian M118 /Spanish M119

Law with Accounting & Finance
Pwyntiau gofynnol UCAS: 120
TGAU Mathemateg gradd C/4
Mae cyfuno'r gyfraith gyda chyfrifeg a chyllid mewn Gradd Gymhwysol yn y Gyfraith yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu amrwyiaeth o arbenigedd a sgiliau sy'n berthnasol i'r byd masnachol presennol. Mae'r radd 3 blynedd hon yn cynnig sgiliau busnes allweddol i fyfywyr sy'n dewis mynd i ymarfer cyfreithiol ac sydd angen rheoli eu busnesau eu hunain ac ymateb yn effeithiol i broblemau busnes eu cleientiaid. Yn ogystal, mae'r radd hon yn ymateb i sgandalau corfforaethol diweddar, sydd wedi arwain at alw cynyddol am gyfreithwyr â sgiliau cyfrifo ac archwilio a allai ymgymryd ag archwilio corfforaethol ac ailsaernïo corfforaethol. Mae elfen gyfrifeg y radd yn cyflwyno archwilio mewnol ac allanol, a bydd cyfreithwyr sydd â'r sgiliau ychwanegol hyn yn ymgeiswyr addas iawn ar gyfer swyddi yn y meysydd proffidiol hyn o'r gyfraith.

Mae hefyd yn ffordd ardderchog o'u paratoi ar gyfer arholiadau proffesiynol posib yn y proffesiwn cyfreithiol a phroffesiynau perthynol, ac mewn rhai achosion gallai arwain at esgusodi rhag gorfod gwneud cymwysterau proffesiynol.

Law with Business Studies
Pwyntiau gofynnol UCAS: 112
TGAU Mathemateg gradd C/4
Mae cyfuno'r gyfraith â busnes mewn Gradd Gymhwysol yn y Gyfraith 3 blynedd yn briodas naturiol. Pobl fusnes yw cyfreithwyr ac maent hefyd yn treulio llawer o'u hamser yn cynghori cleientiaid, yn unigolion ac yn fusnesau corfforaethol. Mae globaleiddio busnes a'r rheoliadau cynyddol sydd wedi deillio o hynny wedi arwain at fwy o gyfleoedd i gyfreithwyr sydd â gwybodaeth am y rheolau sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, cyfraith cwmnïau a rheoli adnoddau dynol.

Law with Criminology
Pwyntiau gofynnol UCAS: 112
Mae cyfuno astudio'r gyfraith gyda throseddeg, sy'n arwain at Radd Gymhwysol yn y Gyfraith 3 blynedd, yn rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio'n fanylach feysydd yn ymwneud â throseddeg a'r system cyfiawnder troseddol. Bydd yr astudiaethau'n ymwneud â damcaniaethau, polisïau, ymarfer a materion pwysig sy'n effeithio ar y Gyfraith - astudiaethau a fydd o werth i raddedigion ac i unigolion a fydd yn ddiweddarach yn ennill cymhwyster i weithredu fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr.
Mae enghreifftiau o'r meysydd troseddeg a chyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â'r Gyfraith yn cynnwys plismona, y fframwaith dedfrydu a swyddogaeth y llysoedd yng Nghymru a Lloegr.

Law with Social Policy
Pwyntiau gofynnol UCAS: 120
Mae cyfuno'r gyfraith gyda pholisi cymdeithasol, sy'n arwain at Radd Gymhwysol yn y Gyfraith 3 blynedd, yn rhoi cyfle i fyfyrwyr astudio meysydd sy'n ymwneud â pholisi cymdeithasol mewn mwy o ddyfnder. Bydd yr astudiaethau'n ymwneud â damcaniaethau, polisïau, ymarfer a materion pwysig sy'n effeithio ar y gyfraith, a fydd o werth i raddedigion a fydd yn ddiweddarach yn cymhwyso i weithredu fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr.

Mae enghreifftiau o feysydd polisi cymdeithasol sy'n ymwneud â'r gyfraith yn cynnwys materion tai a lles, a materion yn ymwneud â mewnfudo a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Law with Chinese
Pwyntiau gofynnol UCAS: 112
Lefel A mewn iaith berthnasol yn ddymunol.
IBD: dylai gynnwys iaith. Dylai fod gan ymgeiswyr ddiddordeb amlwg mewn Tsieinëeg.
Gan fod galw mawr am gyfreithwyr â sensitifrwydd diwylliannol, mae'r radd hon yn cyfuno astudio'r gyfraith ag astudio'r iaith Tsieinëeg.

Yn ystod y Radd Gymhwysol 4 blynedd yn y Gyfraith hon, bydd myfyrwyr yn cael eu haddysgu yn hanfodion y gyfraith ac yn y sgiliau cyfreithiol sylfaenol sydd eu hangen yn y Gymru gyfoes, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r gymuned ryngwladol ehangach. Bydd myfyrwyr yn cael gwybodaeth fewnol am y system gyfreithiol, yn dysgu sut i ddelio'n gymwys â materion cyfreithiol, dehongli rheolau cyfreithiol a defnyddio technegau rhesymu cyfreithiol, gan sicrhau yr un pryd hyfedredd yn yr iaith Tsieinëeg a deallltwriaeth o ddiwylliant Tsieina a geir yn ystod blwyddyn academaidd orfodol a dreulir yn Tsieina. Bydd y wybodaeth a'r sgiliau hyn yn cynyddu rhagolygon myfyrwyr o gael gwaith yn y dyfodol yn sylweddol.

Law with Creative Media Writing
Pwyntiau gofynnol UCAS: 120
Mae cyfuno'r gyfraith gydag ysgrifennu i'r cyfryngau creadigol yn Radd Gymhwysol 3 blynedd yn y Gyfraith sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu amrywiaeth o arbenigedd a sgiliau sy'n berthnasol i'r byd cyhoeddi digidol presennol. Mae'n annog datblygu sgiliau cyfryngau creadigol allweddol a fydd yn ddefnyddiol i yrfaoedd yn y sector cyfreithiol a'r diwydiant cyfryngau. Bydd gan fyfyrwyr sy'n dymuno cael gradd mewn Sgiliau Ysgrifennu i'r Cyfryngau Creadigol y fantais o sicrhau gradd ryngddisgyblaethol, diolch i elfen y Gyfraith. Bydd ochr y Gyfraith y radd yn canolbwyntio ar bynciau Sylfaen Gwybodaeth Gyfreithiol, fel y bydd y radd yn cael ei chydnabod fel Gradd Gymhwysol yn y Gyfraith gan y cyrff proffesiynol yng Nghymru a Lloegr: Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar.
Bydd ochr Ysgrifennu i'r Cyfryngau Creadigol y radd yn eich helpu i ddatblygu set hollol gyflenwol o sgiliau trwy astudio pynciau fel ysgrifennu sgriptiau, cyfathrebu digidol, cyhoeddi a chrefft adrodd straeon.

Law with History
Pwyntiau gofynnol UCAS: 128
Mae gradd hon yn Radd Gymhwysol yn y Gyfraith 3 blynedd sy'n archwilio'r cysylltiadau rhwng y gyfraith a hanes. Gellwch ddewis o ystod eang o fodiwlau a chyfnodau hanes, megis y cyfnodau Normanaidd, Tuduraidd a modern, er mwyn deall yn well sut y cafodd y cyfnodau hanesyddol hyn ddylanwad ar ddatblygiad egwyddorion cyfreithiol. Bydd y rhai sydd wedi astudio hanes yn yr ysgol yn cael cyfle i barhau â'u hastudiaethau yn y brifysgol, ac ehangu apêl eu gradd trwy ei chyfuno â disgyblaeth bwysig y Gyfraith, dau faes y mae cysylltiad naturiol rhynggdynt.

Law with Media Studies
Pwyntiau gofynnol UCAS: 112
Mae'r radd hon yn Radd Gymhwysol yn y Gyfraith 3 blynedd sy'n eich galluogi i astudio'r cysylltiad rhwng y gyfraith a'r cyfryngau a sut mae'r cyfryngau'n gweithredu yn yr oes fodern. Mae elfen y gyfraith yn sicrhau eich bod yn astudio'r holl bynciau QLD fel bod y radd yn cael ei chydnabod fel gradd yn y gyfraith at ddibenion proffesiynol. Mae elfen y cyfryngau yn caniatáu i chi astudio datblygiad ffurfiau modern o gyfryngau, o'r radio i'r teledu; a'r oes ddigidol, gan archwilio'n fanwl sut mae materion preifatrwydd a dulliau cyfathrebu modern yn cael eu cysoni yn yr oes gyfoes.

Law with Philosophy & Religion
Pwyntiau gofynnol UCAS: 120
Nod y Radd Gymhwysol 3 blynedd yn y Gyfraith hon yw eich addysgu yn hanfodion y gyfraith ac yn y sgiliau cyfreithiol sylfaenol sydd eu hangen yn y Gymru gyfoes, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r gymuned ryngwladol ehangach. Bydd elfen athroniaeth a chrefydd y cwrs hwn yn eich galluogi i ddatblygu eich dealltwriaeth o'r dadleuon moesegol sy'n sail i ymatebion cyfreithiol i faterion fel: hawliau dynol (e.e. yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd); defnyddio grym arfog a therfysgaeth; globaleiddio; gofalu am yr amgylchedd; erthyliad; ewthanasia; llywodraethu a rheolaeth y gyfraith; a, sancteiddrwydd addewidion.
Byddwch yn meithrin sgiliau uwch mewn meddwl yn feirniadol a rhesymu rhesymegol, gan eich gwneud yn ymgeisydd cystadleuol iawn am yrfa fel bargyfreithiwr neu fath arall o eiriolaeth gyfreithiol.

Law with French, German, Italian or Spanish (Profiad Ewropeaidd).
Pwyntiau gofynnol UCAS: 112 Lefel A, yn cynnwys gradd C mewn iaith berthnasol. (Nid oes angen iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
IBD: yn cynnwys H5 mewn iaith berthnasol.
Mae galw mawr am gyfreithwyr sydd â sgiliau ieithyddol. Oherwydd hyn, rydym wedi datblygu cyfres o raglenni sy'n cyfuno'r Gyfraith gydag iaith Ewropeaidd i alluogi myfyrwyr i ddilyn rhaglen 4 blynedd sy'n cyfuno astudio iaith Ewropeaidd gyda Gradd Gymhwysol yn y Gyfraith.

Gellir astudio'r ieithoedd Ewropeaidd hyn ar lefel dechreuwyr neu ganolradd pan maent wedi eu cyfuno â'r Gyfraith. Mae astudio'r Gyfraith gydag iaith Ewropeaidd yn eich galluogi i ddatblygu sgiliau ieithyddol a gwybodaeth am systemau cyfreithiol y cyfandir sy'n angenrheidiol i ymarfer y gyfraith o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cynlluniau hyn yn para pedair blynedd, gan gynnwys blwyddyn academaidd dramor yn y drydedd flwyddyn yn astudio hanfodion y gyfraith sy'n sail i system gyfreithiol y wlad arall, a datblygu hyfedredd yn iaith y wlad honno yr un pryd. Mae hyn yn cynnwys dysgu gwybodaeth fewnol am y system gyfreithiol arall, dysgu ymdrin â materion cyfreithiol, dehongli rheolau cyfreithiol a defnyddio technegau rhesymu cyfreithiol – a'u cyflawni'n gymwys yn yr iaith ddewisol.
Mae'r wybodaeth a'r sgiliau hyn yn cynyddu eich rhagolygon gwaith yn y dyfodol yn sylweddol.

LAW GYDA PHWNC ARALL
LLB

English Law and French
Gofynion mynediad: rhaid i ymgeiswyr i'r cwrs hwn gwneud cais yn uniongyrchol i Université Toulouse Capitole (UTC). Mi fydd blynyddoedd 3 a 4 ym Mangor ar ôl cwblhau'n llwyddiannus flynyddoedd 1 a 2 yn Université Toulouse Capitole (UTC). Gweler www.bangor.ac.uk/law/undergraduate-courses
Rydym wedi ffurfio partneriaeth gydag Université Toulouse Capitole i gyflwyno rhaglen unigryw LLB Cyfraith Lloegr a Chyfraith Ffrainc i fyfyrwyr sy'n cofrestru drwy'r brifysgol yn Ffrainc. Mae'r rhaglen 4 blynedd hon yn rhoi cyfle gwych i astudio am y ddwy flynedd gyntaf yn Ffrainc, ac yna am ddwy flynedd ym Mhrifysgol Bangor.

1. Gradd LLB Gymhwysol yn y Gyfraith (a gydnabyddir gan Bwrdd Safonau y Bar a Chymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr).
2. Gradd Meistr 1 Droit européen et compare (Cyfraith Ewropeaidd a Chymharol)

Addysgir myfyrwyr yn hanfodion y gyfraith ac ym mhrif bynciau'r Gyfraith yn y Deyrnas Unedig, Ffrainc, Ewrop, a'r gymuned ryngwladol ehangach.
Byddwch yn cael dealltwriaeth fanwl, yn ei chyd-destun, o brif feysydd y gyfraith, ac yn datblygu'r gallu i gymharu a chyferbynnu agweddau ar gyfraith Lloegr, Cymru a Ffrainc â rhai gwledydd eraill.
Ar ôl cwblhau, bydd myfyrwyr wedi sicrhau digon o arbenigedd yng nghyfreithiau Cymru, Lloegr a Ffrainc i symud ymlaen i astudiaethau pellach yn y ddisgyblaeth o'u dewis a/neu i gam cymhwyster hyfforddiant proffesiynol yng Nghymru a Lloegr, neu'r cam "Meistr 2" yn Ffrainc.

Business and Law* (BA)
Pwyntiau gofynnol UCAS: 112
TGAU Mathemateg gradd C/4
Mae'r gyfraith yn effeithio ar ein bywydau i gyd ac mae gwybodaeth am y gyfraith yn cynyddu ein dealltwriaeth o fusnes, gwleidyddiaeth, cymdeithas a'r byd yr ydym yn byw ynddo.

Mae gradd sy'n cyfuno'r Gyfraith â Busnes yn cynnig cyfle gwerthfawr i ddeall y strwythur cyfreithiol sy'n llywodraethu pob agwedd ar ein bywydau heddiw, ac yn sicrhau gwybodaeth a sgiliau busnes allweddol sy'n darparu sylfaen werthfawr ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae'r rhaglen hon yn cyfuno'r astudiaeth o fusnes a'r gyfraith, i gynnwys pynciau fel busnes, rheolaeth, marchnata ac amrywiaeth o bynciau'r Gyfraith megis cyfraith contractau, rhyngwladol a masnachol. Gallai cefndir yn y meysydd hyn agor drysau i ystod amrywiol a diddorol o yrfaoedd.

Mae'n addas ar gyfer unigolion sy'n anelu at yrfa mewn busnes a rheolaeth, ond sydd hefyd eisiau cael dealltwriaeth drylwyr o'r rheoliadau cyfreithiol y mae'n rhaid i fusnesau a diwydiant weithredu oddi mewn iddynt.

Gall hefyd fod yn addas i unigolion sy'n anelu at yrfaoedd mewn rheolaeth yn y sector cyfreithiol, lle mae cefndir trylwyr yn y gyfraith a busnes yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

* Nid yw hon yn Radd Gymhwysol yn y Gyfraith. Dylai unigolion sy'n dymuno bod yn gyfreithwyr neu'n fargyfreithwyr wneud cais yn hytrach am un o raddau LLB Bangor a gydnabyddir yn broffesiynol. Mae gan bob un o'r rhain statws Gradd Gymhwysol yn y Gyfraith (QLD).



INTERNIAETHAU A RHAGLEN PROFIAD GWAITH

Trwy ein Pwyllgor Cyflogadwyedd, rydym ni yn gallu cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ennill profiad gwaith i'n myfyrwyr gyda nifer o gwmnïau cyfreithiol a sefydliadau cysylltiedig.

Mae gennym bartneriaeth unigryw â Linenhall, un o'r prif gwmnïau bargyfreithwyr ym Mhrydain. Fel rhan o'r berthynas, bydd myfyrwyr Ysgol y Gyfraith yn cael y profiad gwerthfawr o ddilyn Bargyfreithwyr wrth eu gwaith trwy gynllun interniaethau pedair wythnos, neu 'tymhorau prawf byr' ('mini-pupillages').

Mae gennym gysylltiadau sylweddol gyda chwmnïau proffesiynol cyfreithiol sy'n galluogi i'n myfyrwyr ennill profiad gwaith gwerthfawr a gwella eu cyflogadwyedd.

FFAIR FLYNYDDOL

Mae Ffair Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd y Gyfraith Prifysgol Bangor yn rhoi cyfle amhrisiadwy i fyfyrwyr gwrdd â darpar gyflogwyr o amrywiaeth o feysydd a sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith i drafod eu hopsiynau gyrfa gyda gweithwyr proffesiynol profiadol.

Cewch gyfle i archwilio cyfleoedd gyrfa'r gyfraith, clywed gan weithwyr proffesiynol y gyfraith a mynychu cyflwyniadau sy'n llawn awgrymiadau a chyngor i'ch helpu chi wrth chwilio am swydd i raddedigion.

GWYDDORAU CYMDEITHAS

Gradd Cyfrwng Cymraeg
- **Cymdeithaseg â Pholisi Cymdeithasol BA* (Gradd Cyfrwng Cymraeg)**

- **Criminology and Criminal Justice BA***
- **Sociology BA***
- **Social Policy BA***

*Gellir astudio'r pynciau hyn fel rhan o radd gyd-anrhydedd. Ewch i www.bangor.ac.uk/so/cyrsiau-israddedig am restr lawn o gyfuniadau.

Graddau Cysylltiedig
- Health and Social Care (tud 126)
- Law with Criminology (tud 166)
- Law with Social Policy (tud 166)

CYMDEITHASEG Â PHOLISI CYMDEITHASOL
BA [Anrhydedd]

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Cod cwrs UCAS:
L3LK
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
- Cynnig nodweddiadol o isafswm o 96 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: MMM
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
- NCFE CACHE Lefel 3 Diploma Estynedig: Gradd C
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at www.ucas.com.

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Cymdeithas

Ffôn: 01248 382085
e-bost:
gwyddoraucymdeithas@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gc

CEFNDIR Y CWRS
Mae'r radd hon yn cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio'r gwyddorau cymdeithas drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys llwybrau mewn cymdeithaseg, polisi cymdeithasol a throseddeg a chyfiawnder troseddol. Mae'r cwrs hwn yn codi rhai cwestiynau pwysig ynglŷn a sut y mae ein cymdeithas yn gweithio, ac ynglŷn â'r polisïau y byddai'n bosib eu dyfeisio i fynd i'r afael â rhai o'i phroblemau dwysaf. Mae'n darparu'r wybodaeth a'r dulliau dadansoddi sy'n ein galluogi i ddeall cymdeithas, a datblygu barn wybodus ar faterion cymdeithasol cymhleth.

Mae'n bwnc sy'n her i'w astudio a byddwch yn datblygu sgiliau cyfathrebu a dadansoddi da. Byddwch yn dod yn fwy ymwybodol o'r byd o'ch cwmpas – sut a pham fod newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol yn digwydd. Byddwch yn cael eich dysgu i feddwl tu draw i'r ffyrdd arferol 'synnwyr cyffredin' o edrych ar y byd.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym yn cynnig amgylchedd cyfeillgar ac anffurfiol, ac yn eich annog i ddatblygu'ch diddordebau eich hunain.
- Mae ein modiwlau i gyd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, felly byddwch yn astudio mewn amgylchedd lle byddwch yn cyfarfod llawer o siaradwyr Cymraeg eraill,
- Rydym yn adran sy'n ddigon mawr i roi amrywiaeth ddiddorol o gyrsiau i chi, ond hefyd 'rydym yn ddigon bychan i ddod i adnabod ein myfyrwyr i gyd.
- Mae'r cwrs yn canolbwyntio yn arbennig ar Gymru a materion Cymreig mewn fframwaith Ewropeaidd.
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cydnabyddedig yn eu meysydd pwnc, ac mae gan yr uned record dda o gynhyrchu graddedigion ar gyfer graddau MPhil a PhD, gyda rhai ohonynt wedi symud ymlaen wedyn i wneud ymchwil bellach.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Nid oes raid i chi fod wedi dilyn Cymdeithaseg o'r blaen na gwneud Lefel A yn y pwnc oherwydd rydym yn cynnig cwrs sylfaenol i bawb yn y flwyddyn gyntaf.

Blwyddyn 1
Modiwlau gorfodol:
- Cymdeithaseg a'r Byd Cyfoes
- Y Wladwriaeth Les
- Cyflwyniad i Droseddeg
- Cyflwyniad i Gyfiawnder a Throsedd
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant Academaidd

Blwyddyn 2 a 3
Yn ogystal â'r modiwlau gorfodol, byddwch yn gwneud nifer o ddewisiadau sy'n adlewyrchu eich diddordebau er mwyn gweithio ar draethawd estynedig.

- Theori Gymdeithasegol
- Dulliau Ymchwil
- Traethawd Hir
- Cymdeithas, Iaith a Phrotest
- Trosedd a Chyfiawnder
- Pŵer, Cyfalaf a Chymdeithas
- Yr Heddlu a Chymdeithas Gyfoes
- Hawliau Ieithyddol
- Addysg yn y Gymru Gyfoes
- Gender, Trais a Throsedd
- Cymdeithaseg Cerddoriaeth
- Problemau Cymdeithasol Cymru
- Lleoliad Gwaith

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn cael darlithoedd a grwpiau seminar bob wythnos yn ogystal â dosbarthiadau tiwtorial lle bo'r angen. Byddwch hefyd yn gwneud traethodau, gwneud gwaith paratoi ar gyfer cyflwyniadau seminar, darllen, ymchwilio, dadansoddi dogfennau a gwneud gwaith cwrs arall. Os byddwch yn dilyn y cwrs fel pwnc gradd unigol, byddwch yn gwneud traethawd estynedig yn ymwneud ag ymchwil mewn maes o'ch dewis chi.

Rydym yn defnyddio nifer o ddulliau asesu, yn cynnwys gwaith cwrs, arholiadau a'r traethawd estynedig. Mae'r rhan fwyaf o fodiwlau yn cael eu hasesu trwy waith cwrs.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Yn ogystal â chyflawni amcanion academaidd hanfodol, bydd myfyrwyr yn datblygu sgiliau ymarferol a fydd yn werthfawr yn nes ymlaen wrth wneud penderfyniadau doeth a rhesymol, ac i gyfrannu at ddatblygu polisïau cymdeithasol perthnasol. Fel disgyblaeth, mae cymdeithaseg yn mynnu ar asesiad cytbwys o'r dystiolaeth, casglu gwybodaeth, a chyflwyno dadleuon yn ddisgybledig a manwl-gywir. Trwy ddefnyddio'r sgiliau hyn, yn ogystal â sgiliau technoleg gwybodaeth a sgiliau cyflwyno, mae ein myfyrwyr yn barod ar gyfer llwyddiant ym myd gwaith mewn amrediad eang o swyddi cyfrifol.

Mae astudio Cymdeithaseg â Pholisi Cymdeithasol fel gradd yn gyfuniad delfrydol a phoblogaidd ymhlith myfyrwyr, ac yn rhoi cefndir academaidd gadarn i chi ddilyn gyrfa mewn amryw o feysydd fel yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Gwaith Cymdeithasol (gofal plant, anabledd, yr henoed, afiechyd meddwl), dysgu, ymchwil, y gwasanaeth sifil, y cyfryngau, llywodraeth ganolog a lleol, llysoedd barn a mudiadau gwirfoddol. Mae'r gallu i astudio'r meysydd hyn drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn sgil gwerthfawr wrth i fyfyrwyr gamu i mewn i'r byd gwaith dwyieithog.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

CRIMINOLOGY AND CRIMINAL JUSTICE
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
M930 BA/CRIM;
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Estynedig Lefel 3 NCFE CACHE: Gradd C
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion Iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Cymdeithas

Ffôn: 01248 382085
e-bost:
gwyddoraucymdeithas@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gc

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae troseddeg yn edrych ar ddamcaniaethau a thystiolaeth yn ymwneud â throsedd, ymddygiad troseddol ac erledigaeth, tra bo astudiaethau Cyfiawnder Troseddol yn edrych ar y gwahanol ymatebion i drosedd ac erledigaeth, o gamau anffurfiol i fesurau deddfwriaethol ffurfiol mewn rheolaeth gymdeithasol ac atal troseddau. Mae hefyd yn edrych ar y ffordd mae'r system cyfiawnder troseddol yn gweithio - o blismona i garcharu.

PAM DEWIS BANGOR?
- Cewch eich addysgu mewn amgylchedd cyfeillgar ac anffurfiol gan staff sy'n cyfuno gyrfaoedd ymchwil gydag ymroddiad gwirioneddol i addysgu.
- Rydym yn addysgu Troseddeg ac yn ymchwilio i'r pwnc o safbwynt y Deyrnas Unedig ac o safbwynt rhyngwladol.
- Mae gennym gysylltiadau da ag asiantaethau cyfiawnder troseddol (yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol) ac mae ein cyrsiau'n arloesol ac yn adlewyrchu natur amserol y maes pwnc.
- Mae ystod o siaradwyr gwadd yn ychwanegu at y profiad dysgu.
- Mae strwythur y radd yn caniatáu ichi arbenigo yn ogystal ag ymdrin ag ystod eang o opsiynau ac ymateb i heriau deallusol y maes pwnc.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Mae modiwlau ym mlwyddyn 1 yn darparu sylfaen gadarn yn y maes pwnc. Byddwch yn dilyn modiwlau sy'n ymdrin ag ystod eang o feysydd o fewn y pwnc.

Gall modiwlau cynnwys;
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant Academaidd
- Rhagarweiniad i Droseddeg a Chyfiawnder Troseddol
- Cymdeithaseg a'r Byd Cyfoes
- Y Wladwriaeth Les
- Power, Freedom & the Stake

Blwyddyn 2 a 3
Mae modiwlau craidd yn darparu sylfaen drylwyr mewn safbwyntiau damcaniaethol allweddol, methodolegau ymchwil a materion cyfiawnder troseddol. Gallwch ddewis modiwlau eraill a gynigir mewn Gwyddorau Cymdeithas. Ym mlwyddyn 3 byddwch hefyd yn gweithio'n annibynnol (gyda goruchwyliaeth) ar ddarn estynedig o waith fel traethawd hir.

Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau i astudio pynciau craidd sy'n gysylltiedig â'ch disgyblaeth, yn dechrau eich astudiaeth traethawd hir ac yn dewis nifer o opsiynau o blith y dewisiadau sydd ar gael.

Modiwlau gorfodol:
Bydd y rhain yn cynnwys pynciau sy'n ymdrin â Criminological Theory, Crime and Justice in Modern Britain and Social a Political Research.

Byddwch hefyd yn dewis tri modiwl o restr o opsiynau ar gael sy'n cynnwys;
- Crime and the Media
- World Poverty and Inequality
- Lying, Cheating & Stealing
- Serial Killers
- Issues in Equality
- Criminal Law
- Lleoliad Gwaith

Blwyddyn 3
Byddwch yn parhau i astudio pynciau sy'n gysylltiedig a'r pwnc fel;
- Perspectives on Youth Crime
- Crime and Power
- Policing and Society
- Crime and Punishment

Byddwch yn cael arweiniad gan staff wrth ddewis modiwlau. Mi fydd rhai dewisiadau yn cael eu llywio gan eich astudiaethau blwyddyn 2. Yn ystod y flwyddyn hon byddwch hefyd yn cwblhau Traethawd Hir.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Ar gyfartaledd, bydd gennych 6 awr o ddarlithoedd yr wythnos a hyd at 6 awr o seminarau mewn grwpiau bach. Byddwch hefyd yn darllen, yn gwneud ymchwil yn y llyfrgell, yn chwilio llyfryddiaeth, yn gwneud ymchwil strwythuredig sy'n gysylltiedig â phwnc, yn gwneud gwaith project ac yn paratoi ar gyfer cyflwyniadau. Mae rhai modiwlau'n cynnwys gwaith project neu weithio mewn grŵp bach. I wneud eich traethawd hir bydd angen i chi ymchwilio i faes o'ch dewis.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu, gan gynnwys aseiniadau ysgrifenedig, traethodau, arholiadau, dyddiaduron cwrs, gwaith project a'r traethawd hir.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r rhagolygon gyrfa ar gyfer graddedigion yn cynnwys plismona, y gwasanaeth carchardai, cuddwybodaeth droseddol, cefnogaeth gymunedol, y gwasanaeth prawf a'r gyfraith.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
L300 BA/S;
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Estynedig Lefel 3 NCFE CACHE: Gradd C
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Cymdeithas

Ffôn: 01248 382085
e-bost:
gwyddoraucymdeithas@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gc

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Ymchwil i fywyd cymdeithasol a'r ffordd y mae'n siapio ymddygiad, credoau a hunaniaeth pobl yw cymdeithaseg. Mae'r maes yn amrywio o archwilio ymwneud beunyddiol pobl â'i gilydd, wyneb yn wyneb, i sefydliadau cymdeithasol mawr, mudiadau cymdeithasol a phrosesau byd-eang. Trwy ddeall y byd cymdeithasol, rydym yn meithrin gwell dealltwriaeth ohonom ein hunain a'n sefyllfaoedd cymdeithasol ein hunain.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ein haddysgu a'n hymchwil yn adlewyrchu Cymdeithaseg fel disgyblaeth ryngwladol.
- Ein nod yw rhoi awyrgylch dysgu cyfeillgar ac anffurfiol.
- Mae strwythur y radd yn hyblyg ac yn cynnig ystod o arbenigeddau a llawer o ddewis.
- Dysgir y radd gan arbenigwyr yn y pwnc a'u nod yw bod yn arloesol a darparu at anghenion gwirioneddol.
- Bwriad gwaith y flwyddyn ragarweiniol yw rhoi cyfle i chi fagu eich hyder, beth bynnag fo'ch cefndir.
- Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu ac, yn ogystal â datblygu sgiliau personol, rydym yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau ymarferol mewn arsylwi, dehongli, a phrosesu a chyflwyno gwybodaeth - sef pethau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Cewch eich cyflwyno i brif gysyniadau, themâu a safbwyntiau cymdeithaseg, gan gynnwys dulliau damcaniaethol a dulliau ymchwil allweddol. Cewch eich annog i ddewis modiwlau eraill o feysydd sy'n ategu eich cynllun gradd, megis Polisi Cymdeithasol neu Droseddeg.

Modiwlau gorfodol:
- Cymdeithaseg a'r Byd Cyfoes
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant Academaidd
- Y Wladwriaeth Les
- Power, Freedom & the State

ynghyd â 40 credyd (2 fodiwl) o restr o opsiynau ar gael.

Blwyddyn 2
Byddwch yn cymryd modiwlau craidd sy'n ymdrin â safbwyntiau damcaniaethol mewn cymdeithaseg, dulliau ymchwil, a materion yn ymwneud â hunaniaeth gymdeithasol ac amrywiaeth. Gallwch hefyd ddewis modiwlau dewisol, a byddwch yn dechrau gweithio tuag at eich traethawd hir.

Modiwlau gorfodol:
- Identity and Diversity
- Sociological Theory
- Methods of Social Research
- Contemporary Social Debates

ynghyd ag 20 credyd o restr o opsiynau ar gael o fewn Gwyddorau Cymdeithas.

Blwyddyn 3
Yn eich trydedd flwyddyn, yn ogystal ag astudio theorïau a dulliau uwch a newidiadau cymdeithasol, byddwch yn cwblhau eich traethawd hir. Byddwch yn dewis o amrywiaeth o fodiwlau.

Modiwlau gorfodol:
- Traethawd Hir
- Sociological Theory Today
- Globalisation and Social Change

ynghyd â 60 credyd o blith modiwlau Gwyddorau Cymdeithas.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Ar gyfartaledd, bydd gennych 6 awr o ddarlithoedd yr wythnos a hyd at 6 awr o seminarau grŵp. Byddwch hefyd yn gwneud ymchwil yn y llyfrgell, yn chwilio llyfryddiaeth, yn gwneud gwaith project ac yn paratoi ar gyfer cyflwyniadau. Mae rhai modiwlau'n cynnwys gwaith project ac/neu weithio mewn grŵp bach. I wneud eich traethawd hir bydd angen i chi ymchwilio i faes o'ch dewis. Bydd siaradwyr gwadd yn cynnig safbwyntiau amgen ar y pwnc.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu, gan gynnwys gwaith cwrs, arholiadau a'r traethawd hir. Caiff rhai modiwlau eu hasesu'n gyfan gwbl drwy waith cwrs.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs hwn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer ystod eang o yrfaoedd yn y cyfryngau ac ym meysydd gweinyddiaeth, personél, addysgu a gwaith cymunedol.

80% o fyfyrwyr mewn gwaith neu addysg bellach o fewn 6 mis o raddio.
(Discoveruni.gov 2020)

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
L402 BA/SOCPOL;
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Mynediad: Llwyddo
- Diploma Estynedig Lefel 3 NCFE CACHE: Gradd C
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Gwyddorau Cymdeithas

Ffôn: 01248 382085
e-bost:
gwyddoraucymdeithas@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gc

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Byddwch yn astudio polisi cymdeithasol ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae polisi cymdeithasol yn ymwneud ag astudio'r cysylltiadau cymdeithasol a'r systemau sy'n cynnal ac yn hyrwyddo lles dynol. Mae'n rhoi sylw i ddarparu lloches, hybu iechyd ac osgoi gwahaniaethu. Mae polisi cymdeithasol yn gofyn am ddealltwriaeth o'r prosesau a ddefnyddir i fynegi polisïau cymdeithasol mewn cymdeithas, a'r amgylchedd damcaniaethol ac ideolegol lle datblygir y polisïau hyn.

Dyma rai o'r cwestiynau y mae gan fyfyrwyr Polisi Cymdeithasol ddiddordeb ynddynt:
- Pam darparu lles?
- Sut y dylid talu am wasanaethau iechyd?
- Pa gydbwysedd ddylai fod rhwng hawliau a rhwymedigaethau?
- A yw systemau lles Ewrop yn datblygu i fod yn debycach i'w gilydd?
- Beth fydd dyfodol tai cymdeithasol?
- A yw tlodi byd-eang wedi lleihau yn ystod y ddeugain mlynedd ddiwethaf?

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Yn eich blwyddyn gyntaf byddwch yn astudio amrywiaeth o fodiwlau sydd wedi eu cynllunio i roi sylfaen, themâu allweddol a chysyniadau polisi cymdeithasol i chi.

- Y Wladwriaeth Les
- Doing Social Research
- Health & Welfare Issuess
- Cymdeithaseg a'r Byd Cyfoes
- Cyflwyniad i Drosoddeg a Cyfiawnder Troseddol
- Social Science Perspectives

ynghyd ag 20 credyd o restr o opsiynau ar gael.



Blwyddyn 2
Byddwch yn parhau i astudio pynciau craidd sy'n gysylltiedig â'ch disgyblaeth, yn dechrau eich astudiaeth traethawd hir ac yn dewis gweddill eich modiwlau o restr o opsiynau ar gael.

- Personal Social Services
- World Poverty and Inequality
- Methods of Social Research

Mae gweddill y credydau i'w cymryd o fan arall o'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Blwyddyn 3
Byddwch yn cymhwyso'ch gwybodaeth am bolisi cymdeithasol i amryw o faterion cymdeithasol a dadleuon cyfredol. Yn ogystal ag astudio meysydd craidd, byddwch yn cwblhau **Traethawd Hir.**

- Traethawd Hir
- Global Health and Social Care

Mae gweddill y credydau i'w cymryd o fan arall o'r Gwyddorau Cymdeithasol.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae graddedigion polisi cymdeithasol yn mynd i amrywiaeth eang o alwedigaethau ym maes polisi, gan gynnwys tai cyhoeddus, y gwasanaeth iechyd, gweinyddu llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol.

Yn y 10 uchaf ar gyfer Boddhad Myfyrwyr, Ansawdd Ymchwil a Safonau Mynediad.
(Complete University Guide 2018, 2019 a 2020)

DATBLYGIADAU NEWYDD
Yn amodol ar ddilysiad mi fydd BA Political Studies a BA Liberal Arts ar gael. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth.









"Un o'r pethau gorau am y cwrs oedd brwdfrydedd ac arbenigedd y darlithwyr, ochr yn ochr â'u parodrwydd i gynnig cymorth ac arweiniad ar bob achlysur. Bu i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg arwain at gyswllt llawer mwy personol rhwng y darlithydd a'r myfyrwyr, gan fod nifer y myfyrwyr yn llawer llai nag ar y cwrs cyfrwng Saesneg. Roedd hyn yn creu awyrgylch mwy cartrefol yn ystod y darlithoedd a'r seminarau, gan fod pawb ar y cwrs yn adnabod ei gilydd."

Adam Pierce
Graddiodd gyda Gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cymdeithaseg â Pholisi Cymdeithasol

GWLEIDYDDIAETH

- **Politics BA**

POLITICS
BA [Anrh]

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Cod cwrs UCAS:
L200
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar o leiaf 112 pwynt tariff ar gyfer BA ac o leiaf 120 pwnt tariff ar gyfer MArts o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen pynciau penodol ond mae Hanes yn ddymunol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: a ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tiwtor Mynediad

Ffôn: 01248 382085
E-bost: socialsciences@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/history-philosophy-and-social-sciences

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Ydych chi eisiau dysgu mwy am lywodraeth a chymdeithas a sut mae systemau gwleidyddol yn gweithio? A oes gennych chi ddiddordeb yn y ffordd mae pobl, sefydliadau a syniadau'n rhyngweithio?

Yn y radd hon byddwch yn ystyried materion pwysig sy'n ymwneud â dylanwad pŵer, llywodraethu, sofraniaeth, gwrthdaro, trefn, cyfryngu, rhwymedigaeth, cyfiawnder, atebolrwydd, cyfreithlondeb, diogelwch a gwneud penderfyniadau. Caiff y myfyrwyr sy'n dilyn y rhaglen hon eu cyflwyno i ddulliau rhyngddisgyblaethol o drafod pethau damcaniaethol, athronyddol, sefydliadol sy'n seiliedig ar faterion gwirioneddol sy'n ymwneud â llywodraethu.

PAM DEWIS BANGOR?
- Daw myfyrwyr o wledydd ledled y byd i Ysgol Fusnes Bangor i wneud graddau Meistr a hyfforddiant ymchwil, ac mae hynny'n creu amgylchedd dysgu bywiog.
- Mae ein staff yn gwneud ymchwil o fri yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac maent wedi ysgrifennu gwerslyfrau o bwys ac erthyglau mewn cyfnodolion academaidd blaenllaw.
- Rhown sylw i faterion fel dylanwad a rheolaeth y cyfryngau, rhywedd, sgiliau ystrywgar gwleidyddion a'r delfrydau a'r amcanion sydd wedi llywio eu gweithredoedd gwleidyddol.
- Mae yma awyrgylch dysgu cyfeillgar, cefnogol ac ysgogol i'r myfyrwyr.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Yn y flwyddyn gyntaf byddwch yn dewis o blith detholiad o fodiwlau sy'n rhoi sylfaen gadarn yn y maes pwnc. Yn ogystal â modiwlau sy'n canolbwyntio ar **Principles of Politics, Modern Politics in Action, Introduction to Modern History a Doing Social and Political Research** byddwch hefyd yn dewis dau fodiwl arall o blith rhestr o'r opsiynau sydd ar gael, a all gynnwys:
- Understanding Society
- Birth of Modern Europe
- Existentialism
- From Cradle to Grave

Blwyddyn 2 a 3
Byddwch yn cymryd modiwlau mwy arbenigol ac yn ymchwilio i'r themâu a'r pynciau'n fwy manwl. Yn ogystal â datblygu eich sgiliau ymhellach, cewch eich cyflwyno hefyd i ddulliau, damcaniaethau a chysyniadau mwy arbenigol. Byddwch yn cymryd modiwlau gorfodol mewn **Modern Ideas** a **Movements and Methods of Social a Political Research.**

Yn ogystal, byddwch yn dewis modiwlau pellach o blith rhestr helaeth o'r opsiynau sydd ar gael a all gynnwys:
- Race, Democracy and Political Ideology
- Issues in Equality
- Classical Social Theory
- Contemporary Social and Political Debates
- Sex and Society
- World Poverty and Inequality
- Identity and Diversity
- Crime and Justice in Modern Britain
- Crime and the Media
- Political Philosophy
- Issues in Housing
- Theorizing Society and Politics Today
- Globalisation and Social Change
- Policing and Society
- Crime and Power
- Nationalism in UK 1916-1997
- Politics and Culture in the 1960s
- Work placement module

Ym Mlwyddyn 3 byddwch hefyd yn cwblhau **Traethawd Hir** - project ymchwil ar bwnc sydd o ddiddordeb neilltuol i chi.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Cewch eich dysgu ar y cwrs drwy gyfuniad o ddarlithoedd, seminarau a gweithdai. Mae'r dulliau asesu'n cynnwys cymysgedd o arholiadau, traethodau, gwaith ysgrifenedig, cyflwyniadau a phortffolios. Bydd gennych tua 12 awr o ddarlithoedd, seminarau a thiwtorialau bob wythnos. Byddwch yn treulio tua dwywaith yr amser hwn yn darllen ac yn gwneud gwaith cwrs.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y cwrs hwn yn paratoi'r myfyrwyr ar gyfer amryw o opsiynau o ran cyflogaeth - yn enwedig mewn meysydd sy'n gofyn am sgiliau cyfathrebu, dadansoddi gwybodaeth fawr, a deall materion sy'n ymwneud â llywodraethu a chymdeithas. Bydd y rhai sy'n dewis manteisio ar y cyfleoedd sydd ohoni am leoliadau gwaith (e.e. modiwl lleoliad gwaith, neu flwyddyn ar leoliad) yn ennill profiad ymarferol a dealltwriaeth o'r cyfleoedd gwaith yn y maes ehangach. Gall yr opsiynau posib am yrfa at y dyfodol gynnwys llywodraeth leol a/neu genedlaethol, dysgu, rheoli a gweinyddu. Bydd y cwrs hefyd yn sylfaen ragorol at astudiaethau ôl-radd pellach.

GRADDAU CYSYLLTIEDIG
Rydym ni hefyd yn cynnig graddau yn y pynciau canlynol: Law with Politics LLB (Cod UCAS: M1L2) a BA Politics and Economics (Cod UCAS: L202).

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'r wefan neu cysylltwch â ni.

HANES, HANES CYMRU AC ARCHAEOLEG

- Hanes BA/MArts
- History with Archaeology BA
- Hanes gyda Newyddiaduraeth BA
- History with Film Studies BA
- History with Journalism BA
- Heritage, Archaeology and History BA
- Medieval and Early Modern History BA
- Modern and Contemporary History BA
- Hanes Cymru a Hanes BA
- Welsh History and Archaeology BA

Graddau Cysylltiedig
- Law with History (tud 166)

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Codau cwrs UCAS:
V100; V101MARTS/HIST
Hyd: 3 blynedd (BA); 4 blynedd (MArts)

GOFYNION MYNEDIAD:
Ar gyfer cyrsiau gradd cyd-anrhydedd, cofiwch fwrw golwg ar ofynion mynediad y pwnc arall a ddewiswch.
Cynnig nodweddiadol o isafswm o 112 pwynt tariff ar gyfer BA a 120 pwynt tariff ar gyfer MArts o gymhwyster lefel 3* e.e.:
- Lefel A (Hanes yn ddymunol)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: DMM
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at y tariff newydd gan UCAS ar www.ucas.com

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

CEFNDIR Y CWRS
Mae Hanes yn bwnc ysbrydoledig, deinamig a pherthnasol. Mae'n wastad yn ehangu ac yn newid i amsugno syniadau newydd ac i ofyn cwestiynau newydd am y gorffennol. Bydd astudio hanes yn eich helpu i ddatblygu sgiliau sy'n cael eu hystyried yn werthfawr gan gyflogwyr, fel y gallu i gasglu a dadansoddi data ac i lunio dadl glir.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae Hanes yn radd eang sy'n cynnig ystod o opsiynau.
- Bydd cyfle i chi astudio ystod o gyfnodau a gwledydd, canolbwyntio ar gyfnodau penodol neu astudio hanes Prydeinig neu Ewropeaidd yn bennaf.
- Mae gennym arbenigedd mewn hanes modern a chyfoes yn ogystal ag mewn hanes canoloesol, modern cynnar, hanes Cymru, archaeoleg a threftadaeth.
- Mae hanes yn ddwfn yn yr ardal leol ac mae safleoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol ar garreg ein drws, yn adnodd dysgu gwerthfawr.
- Mae gennym enw da o safbwynt ein dysgu ac rydym yn cyfuno'r defnydd o dechnoleg newydd â dysgu mewn grwpiau bychain a sylw personol.
- Rydym yn cydnabod pwysigrwydd medrau trosglwyddadwy ac yn gwneud defnydd mawr o dechnoleg gwybodaeth. Mae cyfleoedd hefyd i ddefnyddio medrau hanes ar leoliad gwaith.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Byddwch yn treulio o leiaf draean o'ch amser yn astudio Hanes. Gallwch ddewis mwy o fodiwlau hanes a phynciau cysylltiedig, gwella eich medrau technoleg gwybodaeth neu fedrau ieithyddol, neu gallwch ddilyn pynciau cyflenwol (gweler tudalen 63 am y cyrsiau cyd-anrhydedd).

Modiwlau:
- Apocalyps: y 14eg Ganrif
- Genedigaeth Ewrop Fodern 1460-1560
- Cyflwyniad i Hanes Modern 1815-1914
- Dechrau o'r Dechrau
- Cymru: Tywysogion i Duduriaid
- Cymru yn y Byd Modern
- Opsiynau Archaeoleg a Threftadaeth

Blwyddyn 2
Cewch ddewis astudio cyfnodau arbennig mewn dyfnder trwy fodiwlau cyffredinol a chymryd cyrsiau thematig mwy arbenigol. Fel rheol, cewch ddewis 4/ 5 modiwl.

Modiwl gorfodol:
- Dehongli'r Gorffennol neu
- Perceptions of the Past

Dewisiadau:
Ceir ystod eang o fodiwlau dewisol e.e. Y Tuduriaid; Ewrop: Oes y Rhyfel Oer; Rhyfeloedd Sanctaidd; Cenedlaetholdeb yn Sbaen; Prydain Thatcher; Owain Glyndŵr a'i Fudiad; Ail-danio'r Ddraig: Cymru wedi 1939.

Blwyddyn 3
Byddwch yn dewis pwnc arbennig o blith tua 12 sydd ar gael, sy'n adlewyrchu diddordebau ymchwil ein staff. Byddwch yn gwneud traethawd estynedig – project ymchwil ar bwnc o ddiddordeb arbennig i chi e.e. Edward I a'r Cyrion Celtaidd, Adfywiad Celtaidd 1800-1920. Ar ben hynny, byddwch yn gwneud modiwlau pellach o ddetholiad o ddewisiadau.

Blwyddyn 4
Mae'r cwrs MArts yn dilyn yr un rhaglen â'r cwrs BA am y tair blynedd gyntaf. Bwriad y bedwaredd flwyddyn yw gwella eich sgiliau fel hanesydd, gyda chefnogaeth staff profiadol. Byddwch yn dilyn modiwlau penodol ac yn cwblhau ymchwil.

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn cael tua 8 i 12 awr o ddarlithoedd, seminarau a dosbarthiadau tiwtorial bob wythnos. Byddwch yn treulio dwywaith yr amser hwnnw yn darllen ac yn gwneud gwaith cwrs.

Yn ogystal â hyn, bydd teithiau maes a sesiynau ymarferol ynghlwm â'r modiwlau archaeoleg a threftadaeth. Bydd rhai modiwlau hanes, yn enwedig modiwlau pwnc-arbennig hefyd yn cynnwys teithiau maes. Mae rhai modiwlau hanes, yn enwedig cyrsiau pwnc arbenigol, wedi golygu teithiau i Hampton Court, Caerdydd a mannau lleol, tra gall y modiwlau Ewropeaidd olygu teithiau i fannau o ddiddordeb dramor.

Gallwch ddilyn modiwl lleoliad gwaith neu gymryd rhan mewn cynllun cyfnewid i'r Unol Daleithiau yn ystod yr ail flwyddyn. Os ydych yn dilyn Hanes fel pwnc gradd cyd-anrhydedd gydag iaith, byddwch yn treulio eich trydedd flwyddyn dramor cyn dychwelyd i Fangor ar gyfer eich blwyddyn olaf.

Mae asesiad yn cynnwys cymysgedd o arholiadau a thraethodau cyflwyniadau portffolios, blogiau a'r traethawd estynedig.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Bydd gradd dda mewn Hanes, yn cyfuno gwybodaeth gadarn o hanes ag amrediad o fedrau dadansoddi a chyflwyno trosglwyddadwy. Byddwch yn gallu dewis o blith amryw o yrfaoedd, e.e. y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, dysgu a thwristiaeth. Yn ddiweddar, mae graddedigion Hanes o Fangor wedi mynd i yrfaoedd mewn masnach, treftadaeth, yn y gyfraith, fel athrawon, ac yn y llu oedd arfog.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
VV41 BA/HAH
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol ond mae Hanes neu Archaeoleg yn ddymunol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Bydd y radd hon yn ddeniadol i chi os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am y gorffennol a'r ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio gan y diwydiant treftadaeth. Byddwch yn edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac archaeolegol yn ogystal â dehongliadau ohoni. Gellir ecsploetio'r gorffennol; gellir ei lygru; gellir ei ddefnyddio i greu mythau, chwedlau ac i greu hunaniaethau. Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i ddeall a beirniadu'r prosesau hyn.

PAM DEWIS BANGOR?
- Cynlluniwyd y radd hon i roi dealltwriaeth academaidd i chi o'r gorffennol y gellwch wedyn ei defnyddio mewn gyrfaoedd yn y diwydiant treftadaeth.
- Mae hwn yn bwyslais gwahanol i lawer o gyrsiau rheoli treftadaeth sy'n cymysgu astudiaethau mewn hamdden, twristiaeth a busnes.
- Ceir cyfleoedd i gael lleoliad gwaith mewn amgueddfa neu mewn safle treftadaeth a fydd yn rhoi profiad o'r diwydiant i chi.
- Mae amrywiaeth gyfoethog o safleoedd treftadaeth, henebion ac amgueddfeydd yn ardal Bangor ac rydym hefyd yn trefnu teithiau i nifer dda o safleoedd treftadaeth eraill.
- Mae cyfle hefyd i gael profiad archaeolegol ymarferol fel rhan o'r radd hon.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- History and Heritage: an Introduction
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant Academaidd

A o leiaf un o blith:
- Introduction to British Prehistory
- Introduction to Historic Archaeology
- Archaeological; Principles and Techniques

Modiwlau eraill o restr a all gynnwys:
- Cyflwyniad i Hanes Modern
- Genedigaeth yr Ewrop Fodern
- Monarchs, Monks and Miracles: Europe in the High Middle Ages

Blwyddyn 2

Modiwlau gorfodol:
- Debating History
- Heritage and Identities

Modiwlau dewisol:
Dewiswch o blith ystod o fodiwlau mewn hanes, treftadaeth ac archaeoleg. Gall y dewisiadau gynnwys: Experimental Archaeology; Norman Sicily; Britannia Rules the Waves; Cestyll a Chymdeithas; Lleoliad Gwaith.

Blwyddyn 3
Byddwch yn arbenigo mewn cyfnod o'r gorffennol ac yn ysgrifennu **Traethawd Hir** sy'n cyfuno o leiaf ddau faes astudio: archaeoleg/ treftadaeth neu hanes/treftadaeth.

Modiwl gorfodol:
Byddwch hefyd yn cwblhau modiwl pwnc arbennig - a ddatblygwyd i'ch galluogi i fynd i'r afael â phwnc yn fanwl iawn. Dyma rai enghreifftiau diweddar: Gender and Society, 1400-1800; Politics and Culture in the 1960s; Home Front during WWI.

Byddwch hefyd yn dewis opsiynau pellach o blith ystod o fodiwlau mewn hanes, treftadaeth ac archaeoleg.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 12 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Byddwch yn treulio tua dwywaith yr amser hwn yn darllen ac yn gwneud gwaith cwrs. Mae teithiau maes yn elfen allweddol o'r cwrs.
Rydym yn trefnu ymweliadau â safleoedd lleol - archaeolegol, hanesyddol a threftadaeth - yn ogystal ag amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a phlastai mewn mannau eraill.

Asesir y cwrs drwy gymysgedd o waith ysgrifenedig, traethodau, arholiadau, projectau, cyflwyniadau a'r traethawd hir (yn y flwyddyn olaf).

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd natur gyflenwol y disgyblaethau hyn yn eich galluogi i ddilyn gyrfa yn y diwydiant treftadaeth trwy'r sgiliau ymarferol a damcaniaethol a gawsoch mewn treftadaeth, ynghyd â dealltwriaeth academaidd glir o'r cyd-destunau archaeolegol a hanesyddol. Bydd y radd hon hefyd yn rhoi ystod o sgiliau dadansoddi a chyflwyno i chi gan eich paratoi at amrywiaeth o yrfaoedd yn y dyniaethau, twristiaeth a'r cyfryngau.

DATBLYGIADAU NEWYDD
Yn amodol ar ddilysiad bydd Heritage and Climate Change (BA Anrh) ar gael. Ewch i'r wefan am wybodaeth fwyaf diweddar.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
'and Archaeology': V103 BA/HA
'with Archaeology': V1V4 BA/HAr
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol ond mae Hanes neu Archaeoleg yn ddymunol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae gan y gorffennol lawer o ddimensiynau ac mae yna lawer o ffyrdd i'w astudio. Mae hanes ac archaeoleg yn bynciau cyflenwol - sydd gyda'i gilydd yn rhoi dealltwriaeth gyfoethocach o bobl a chymdeithasau'r gorffennol.
Tra bo hanes yn draddodiadol yn deillio o astudio ffynonellau ysgrifenedig, mae archaeoleg yn archwilio'r dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys arteffactau, henebion ac adeiladau.

Cynlluniwyd y cyrsiau hyn i roi cyfle i fyfyrwyr astudio'r gorffennol trwy gofnodion dogfennol ac olion materol. Byddwch yn cael cyfle i astudio ystod o gyfnodau a themâu sy'n ymestyn o gyn-hanes hyd at yr unfed ganrif ar hugain.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ein graddau'n pwysleisio dwy ffynhonnell dystiolaeth gyflenwol, gan roi profiad i chi o weithio gyda ffynonellau hanesyddol ac archaeolegol.
- Byddwch yn datblygu sgiliau, gan gynnwys Technoleg Gwybodaeth, a fydd yn fanteisiol mewn nifer o yrfaoedd. Mae ein myfyrwyr wedi mynd ymlaen i gael cymwysterau yn ymwneud â gwaith maes ac amgueddfa ac mae gan lawer ohonynt yrfaoedd fel archeolegwyr proffesiynol.
- Mae gennym arbenigwyr ym mhob maes hanes o'r Oesoedd Canol i'r Ugeinfed Ganrif, sy'n gweithio'n bennaf ar Brydain, Ewrop ac Unol Daleithiau America. Mae arbenigedd archaeoleg yn cynnwys archaeoleg gynhanesyddol, Rufeinig a chanoloesol, yn ogystal ag archaeoleg a threftadaeth tirwedd.
- Mae gennym rai o'r henebion a thirweddau archaeolegol sydd wedi'u cadw orau ym Mhrydain ar garreg ein drws. O domenni claddu cynhanesyddol i blastai urddasol, mae'r adnodd cyfoethog hwn yn rhan annatod o'r cwrs ac yn cael ei ddefnyddio yn ein haddysgu trwy deithiau maes, gweithdai ymarferol a chloddio.
- Byddwch yn ennill profiad ymarferol trwy gymryd rhan mewn projectau gwaith maes ac ar ôl cloddio. Cewch hyfforddiant mewn sgiliau cloddio a chofnodi, gwaith arolwg, prosesu darganfyddiadau, prosesu pridd, darlunio, ffotograffiaeth, dadansoddi ffynonellau dogfennol a gwaith archifol.
- Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar eich helpu i gynllunio ar gyfer eich dyfodol. Gall myfyrwyr gael profiad gwerthfawr trwy leoliadau gwaith (e.e. yn yr uned faes archaeolegol leol, archifau neu amgueddfa) ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd adnabod a mireinio sgiliau a fydd o werth i chi yn eich swyddi yn y dyfodol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Fel myfyriwr 'ac' Archaeoleg, byddwch yn cymryd hanner eich modiwlau mewn archaeoleg bob blwyddyn. Bydd myfyrwyr 'gydag' Archaeoleg yn cymryd traean eu modiwlau mewn archaeoleg bob blwyddyn. Yn y ddau achos bydd y gweddill mewn hanes.

Blwyddyn 1
Byddwch yn astudio modiwlau y bwriedir iddynt ddarparu sylfaen gadarn mewn dulliau, theori a chysyniadau hanesyddol ac archaeolegol. Byddwch hefyd yn gallu dewis modiwlau o restr sy'n pontio ystod o gyfnodau.

Yn achos myfyrwyr 'gyda', o leiaf 2 o blith:
- Archaeological Principles and Techniques
- Introduction to Historic Archaeology: Roman and Medieval Britain
- Introduction to British Prehistory

Yn achos myfyrwyr 'ac', o leiaf 3 o blith:
- Archaeological Principles and Techniques
- Introduction to History and Heritage
- Introduction to Historic Archaeology: Roman and Medieval Britain
- Introduction to British Prehistory

Dewisir y modiwlau sy'n weddill o restr a all gynnwys:
- Ewrop yng Nghanol yr Oesoedd Canol
- Genedigaeth yr Ewrop Fodern
- Cyflwyniad Hanes Modern
- Gweithredu Gwleidyddiaeth Fodern
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant Academaidd

Blwyddyn 2
Byddwch yn dewis o amrywiaeth o opsiynau mewn hanes ac archaeoleg. Gellwch arbenigo mewn archaeoleg gynhanesyddol a/neu hanesyddol. Ymhlith y dewisiadau mae modiwlau; Bronze Age Europe; Viking Archaeology; Landscape Archaeology a Heritage.

Modiwlau Gorfodol
- Dehongli'r Gorffennol

O leiaf ddau o blith:
- Lleoliad Gwaith
- Field Archaeology in Britain
- Rethinking Archaeology
- Archaeology Field School

Dewisir y modiwlau sy'n weddill o restr o'r modiwlau sydd ar gael (rhaid i o leiaf ddau ohonynt fod mewn hanes). Gweler BA Hanes am enghreifftiau diweddar.

Blwyddyn 3
Yn eich blwyddyn olaf byddwch yn cael cyfle i fynd i'r afael â phwnc yn fanwl iawn trwy ddilyn modiwl **Pwnc Arbennig** a chwblhau **Traethawd Hir** - project ymchwil ar bwnc o'ch dewis ac sydd o ddiddordeb arbennig i chi.

Bydd myfyrwyr 'gyda' yn cymryd pwnc arbennig mewn hanes. Gall myfyrwyr 'ac' ddewis gwneud naill ai traethawd hir hanes neu archaeoleg.

Os dewiswch wneud traethawd hir archaeoleg, yna mae'n rhaid i chi gymryd pwnc arbennig hanes.

Mae pynciau arbennig diweddar wedi cynnwys: Native Wales & the Normans; British Country House from1750; The Norman Conquest; Gender Sex and Society 1400-1800.

Yn ogystal, bydd myfyrwyr 'ac' yn dewis 1 modiwl mewn archaeoleg ac 1 modiwl mewn hanes. Bydd myfyrwyr 'gyda' yn dewis 2 fodiwl mewn archaeoleg.

Gall yr opsiynau sydd ar gael gynnwys: Experimental Archaeology; Roman Frontier Society; Field Archaeology in Britain; Supervising Archaeology Fieldwork; Britain 1945-1990; Europe in the Early Middle Ages; Heritage and Identity; Gender and Society in the 12th century; The Age of the Castle.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Trwy ddod â'r ddwy ddisgyblaeth hon ynghyd yn y cwrs hwn, byddwch yn mynd ati i astudio cymdeithasau a digwyddiadau'r gorffennol gan ddefnyddio ystod o sgiliau dadansoddi.

Byddwch yn treulio tua 12 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a gwaith ymarferol.
Yn ogystal, byddwch yn cwblhau traethodau, ymarferion dadansoddi, paratoi ar gyfer seminarau a darllen. Mae teithiau maes i safleoedd archaeolegol ac amgueddfeydd yn rhan bwysig o'r profiad addysgu.

Bydd cyfleoedd i ymuno â gwaith cloddio, cael profiad gwaith sydag uned gloddio neu amgueddfa a gwneud gwaith ymarferol arall.
Yn y flwyddyn gyntaf bydd gennych hyd at 5 taith i ymweld â henebion lleol. Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn mae teithiau maes yn amrywio o ran hyd a natur ac yn cynnwys safleoedd lleol, yn ogystal â theithiau i rannau eraill o Brydain ac Iwerddon.

Asesir trwy gyfuniad o waith ysgrifenedig, traethodau, arholiadau, portffolios a chyflwyniadau.
Mae'r traethawd hir a'r pwnc arbennig bob un yn ffurfio traean o'r asesiad yn y flwyddyn olaf.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd natur gyflenwol y ddwy ddisgyblaeth hon yn eich galluogi i ddilyn gyrfa mewn archaeoleg trwy'r sgiliau ymarferol a damcaniaethol a gawsoch, ynghyd â dealltwriaeth glir o gyd-destunau hanesyddol.
Yn fwy cyffredinol, bydd y radd hon hefyd yn rhoi sgiliau dadansoddi ac ymarferol i chi gan eich paratoi at amrywiaeth o yrfaoedd yn y dyniaethau.

"Mae'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr yn wych yma. Mae'r darlithwyr yn hawdd siarad â hwy, a'r mwyafrif yn ddwyieithog."

Ceri Lois Owen
Cyn-fyfyriwr Hanes





HISTORY WITH JOURNALISM
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
V1P5 BA/HJ
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol ond mae Hanes neu Archaeoleg yn ddymunol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cyfryngau, sef papurau newydd, radio, teledu a'r rhyngrwyd, yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn ein bywydau. Mae'r ffordd mae swyddogaeth y cyfryngau yn y gorffennol yn ogystal â'r presennol wedi newid yn bwnc hynod ddiddorol i'w astudio. Ym Mangor byddwch yn cael sylfaen academaidd ddeallusol ac eang mewn hanes a newyddiaduraeth, datblygu dealltwriaeth feirniadol o'r gorffennol ac o faterion cyfoes, a dysgu'r sgiliau a'r wybodaeth i'ch cynorthwyo i ddilyn gyrfa lwyddiannus mewn newyddiaduraeth.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym yn cynnig ystod eang o fodiwlau sy'n ymwneud â hanes Prydain, Cymru, Ewrop ac America.
- Fe'ch dysgir gan staff sy'n ymchwilwyr cynhyrchiol. Rydym wedi ymrwymo i addysgu ein myfyrwyr mewn grwpiau bach.
- Mae gan y staff newyddiaduraeth brofiad cyfoes o newyddiaduraeth ddarlledu a chyhoeddi ac maent yn cadw mewn cysylltiad â'r diwydiant.
- Byddwch yn cael cyfle i ennill profiad uniongyrchol trwy fodiwl yn y gweithle, e.e. gyda phapur newydd lleol neu mewn swyddfa archifau.
- Mae ein canolfan y cyfryngau yn cynnwys y stiwdios a'r offer digidol a thechnolegol cyfrifiadurol diweddaraf.
- Mae gennym hefyd stiwdio deledu aml-gamera gydag oriel gynhyrchu, stiwdio radio sain gyda chyfleusterau hunan-weithredu, ystafelloedd golygu fideo, ystafelloedd golygu sain digidol a nifer o unedau fideo a sain symudol ar gyfer ffilmio a recordio ar leoliad. Rydym wedi creu Ystafell Newyddion bwrpasol ar gyfer darpar newyddiadurwyr sydd â chyfrifiaduron amlgyfrwng a llinellau ffôn o ansawdd recordio ISDN.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Byddwch yn astudio o leiaf 2 fodiwl hanes ac o leiaf 2 fodiwl newyddiaduraeth. Gellwch hefyd ddewis modiwlau mewn pynciau cyflenwol, e.e.treftadaeth, archaeoleg, cymdeithaseg, troseddeg, neu iaith fodern.

Gall opsiynau Hanes gynnwys:
- Cyflwyniad i Hanes Modern
- Ewrop yng Nghanol yr Oesoedd Canol
- Genedigaeth yr Ewrop Fodern

Bydd rhaid i chi gymryd modiwlau hanes sy'n cwmpasu o leiaf ddau o'r tri chyfnod hanesyddol (Canoloesol 500-1500, Modern Cynnar 1500-1750 a Modern 1750 ymlaen)

Modiwlau gorfodol newyddiaduraeth:
- Cyflwyniad i Newyddiaduraeth Ymarferol
- Issues in Media and Journalism

Gellwch hefyd ddewis modiwlau o'r radd BA Hanes ac eraill o ystod sydd ar gael, e.e.: Modern Politics in Action; Cymru yn y Byd Modern; Intro. to Modern History; Birth of Modern Europe.

Blwyddyn 2 a 3

Modiwl gorfodol hanes:
- Dehongli'r Gorffennol

Ym mlwyddyn 2 byddwch hefyd yn dewis modiwlau hanes eraill, o restr o opsiynau a all gynnwys:
Victorian Britain; USA 1945-2001; Europe 1945-1992; Thatcher's Britain; Britain in the Jazz Age; Lleoliad gwaith.

Ym mlwyddyn 3 byddwch yn dewis **Pwnc Arbennig Hanes** (gweler BA Hanes) fel y cewch brofiad uniongyrchol o drin dogfennau, yn ogystal ag ysgrifennu traethawd hir - darn o ymchwil ar bwnc hanesyddol yn ymwneud â newyddiaduraeth.

Modiwlau gorfodol newyddiaduraeth:
Yn ystod blynyddoedd 2 a 3 byddwch yn cymryd y modiwlau canlynol:
- Journalism and Risk
- Global News Agenda
- Digital Journalism
- Newyddiaduraeth Ymarferol

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 12 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a gwaith ymarferol. Y tu allan i'r amser hwn byddwch yn darllen ac ymchwilio, ysgrifennu traethodau, paratoi papurau seminar a gweithio ar aseiniadau eraill. Byddwch yn cael cyfle i gael profiad ymarferol yn ein Canolfan Gyfryngau, a hefyd y cyfle i gwblhau lleoliad gwaith.

Asesir y cwrs trwy gymysgedd o arholiadau a thraethodau wedi'u hasesu a phrojectau eraill.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae hwn yn gwrs paratoadol cadarn sy'n cynnig dealltwriaeth ymarferol a damcaniaethol o broffesiwn y newyddiadurwr, ynghyd â dealltwriaeth gyd-destunol sylweddol o faterion cyfoes a digwyddiadau'r gorffennol. Bydd yr ystod o sgiliau dadansoddol a chyflwyniadol a geir drwy'r cwrs yn eich galluogi i gyflawni tasgau yn y cyfryngau i safon uchel o gywirdeb ac eglurder.

HANES GYDA NEWYDDIADURAETH
BA [Anrhydedd]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
V1PM
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Ar gyfer cyrsiau gradd cyd-anrhydedd, cofiwch fwrw golwg ar ofynion mynediad y pwnc arall a ddewiswch.
Cynnig nodweddiadol o isafswm o 112 pwynt tariff ar gyfer BA o gymhwyster lefel 3* e.e.:
- Lefel A (Hanes yn ddymunol)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: DMM
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, ewch i www.ucas.com

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cyfryngau – papurau newydd, radio, teledu a'r rhyngrwyd – yn dod yn fwyfwy pwysig yn ein bywydau. Mae'n bwysig deall, felly, sut y newidiodd swyddogaeth y cyfryngau yn y gorffennol yn ogystal ag yn y presennol. Mae'n debyg fod diddordeb gennych eisoes mewn hanes modern a chyfoes, gwleidyddiaeth neu faterion cyfoes. Mae'n bur debyg fod gennych ddiddordeb byw hefyd mewn un neu fwy o feysydd y cyfryngau. Bydd y cwrs yn rhoi i chi seiliau deallusol ac academaidd amrywiol ac eang. Bydd hefyd yn darparu'r medrau a'r wybodaeth a fydd yn eich helpu i ddilyn gyrfa mewn newyddiaduraeth.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym enw da am ymchwil a dysgu mewn Hanes a Hanes Cymru.
- Mae nifer o ganolfannau cyfryngau darlledu a'r wasg yn y cyffiniau.
- Ceir hyfforddiant mewn Newyddiaduraeth gan newyddiadurwyr profiadol.
- Mae bywyd y myfyrwyr yn fywiog ac mae cyfle i Gymry ifanc fwynhau pob math o weithgarwch yn y Gymraeg.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Byddwch yn dilyn cyfuniad o fodiwlau hanes a modiwlau sy'n ymwneud â newyddiaduraeth. Bydd y modiwlau Hanes a Hanes Cymru a argymhellir yn rhoi cryn sylw i swyddogaeth y cyfryngau yng ngwleidyddiaeth yr ugeinfed ganrif a'u dylanwad arni, ac yn edrych ar yr her a'r cyfleoedd a roddwyd i Gymru gan ddatblygiadau pan-Ewropeaidd diweddar. Bydd gofyn i chi ddewis o leiaf ddau fodiwl hanes, ond gallwch ddewis astudio mwy o fodiwlau Hanes a phynciau cysylltiedig os dymunwch hynny.
- Cymru yn y Byd Modern

Bydd modiwlau newyddiadurol yn datblygu medrau sylfaenol ac yn cyflwyno nodweddion allweddol disgyblaeth newydd:
- Newyddiaduraeth Ymarferol Sylfaenol
- Ysgrifennu, Is-olygu a Sgriptio
- Technoleg Gwybodaeth ar gyfer Newyddiadurwyr
- Gweinyddu Cyhoeddus

Blwyddyn 2 a 3
Byddwch yn treulio bron i ddwy ran o dair o'ch amser yn gwneud modiwlau hanes. Cewch gyfle i ddewis amrywiaeth helaeth o fodiwlau. Bydd rhai ohonynt yn gyffredinol ac wedi cael eu cynllunio i ddatblygu ymwybyddiaeth o dueddiadau dros amser, tra bydd eraill yn canolbwyntio ar un testun/ cyfnod.

Yn ystod yr **ail flwyddyn** bydd modiwl gorfodol, Dehongli'r Gorffennol, yn canolbwyntio ar sut y cafodd y gorffennol ei gyflwyno mewn ysgrifen, a dylanwad ysgrifennu ar ddatblygiad hanes ei hun. Rhoddir cyfle hefyd i ddatblygu dealltwriaeth lawn o gymdeithas a gwleidyddiaeth Cymru ochr yn ochr ag archwilio datblygiadau y tu allan iddi drwy astudio modiwlau ar hanes Ewrop, America a Phrydain yn ystod yr ugeinfed ganrif. Gallwch hefyd ddilyn modiwlau sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Saesneg, gan ysgrifennu gwaith cwrs a gwaith i'w asesu yn Gymraeg os mynnwch. Bydd cyfle i chi hefyd wneud 'modiwl yn y gweithle' gyda phapur newydd neu gyfryngau lleol neu ymchwilio mewn archifdy lleol.

Yn ystod y **drydedd flwyddyn** byddwch yn dewis pwnc arbennig a fydd yn caniatáu i chi astudio testun mewn dyfnder. Byddwch yn gwneud traethawd estynedig lle byddwch yn gwneud eich gwaith ymchwil eich hun. Anogir chi i ysgrifennu ar bwnc hanesyddol sy'n ymwneud â newyddiaduraeth neu'r cyfryngau.

Bydd y modiwlau newyddiaduraeth yn ystod y blynyddoedd hyn yn datblygu dealltwriaeth ehangach o'r cyd-destun y mae newyddiadurwyr yn gweithredu ynddo, gan edrych ar gyfryngau print a darlledu. Bydd cyfle hefyd i gryfhau medrau ymarferol perthnasol. Ymhlith y modiwlau a gynigir mae:
- Newyddiaduraeth a Chymdeithas
- Datblygiad a Sensoriaeth Teledu
- Newyddiaduraeth Ymarferol
- Hanfodion Newyddiaduraeth a Dadansoddi
- Ffotonewyddiaduraeth a Chynllunio Gweledol

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn cael tua 8-12 awr o ddarlithoedd a dosbarthiadau tiwtorial bob wythnos. Byddwch yn treulio cryn dipyn o amser yn darllen, ymchwilio, ysgrifennu traethodau a pharatoi ar gyfer cyflwyniadau mewn tiwtorial.

Bydd rhai modiwlau yn gwneud defnydd arbennig o ddogfennau, ffilm a rhaglenni dogfen yn ogystal â hanes llafar. Bydd eraill yn cynnwys teithiau i weld safleoedd perthnasol yng Nghymru a thu hwnt. Bydd y modiwlau Newyddiaduraeth yn cynnwys gwaith ymarferol.

Bydd cyfle i chi hefyd wneud modiwl ar leoliad gwaith mewn archifdy lleol, neu amgueddfa, neu yn y byd newyddiadurol. Asesir drwy gymysgedd o arholiadau a thraethodau yn ogystal â thraethawd estynedig yn y flwyddyn olaf.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Mae hwn yn gwrs sy'n rhoi dealltwriaeth ymarferol a theoretig o broffesiwn y newyddiadurwr, ynghyd â dealltwriaeth gyd-destunol fanwl o faterion cyfoes a digwyddiadau blaenorol. Bydd yr amrediad o fedrau dadansoddi a chyflwyno a gewch yn eich galluogi i gyflawni tasgau yn y cyfryngau yn gywir ac yn eglur iawn.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
V1W6 BA/HFS
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol ond mae Hanes neu Archaeoleg yn ddymunol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae ffilm wedi bod yn un o'r dylanwadau pwysicaf ar y gymdeithas fodern. Ers iddi gael ei dyfeisio, mae'r sinema wedi diddanu cynulleidfaoedd enfawr ledled y byd. Mae wedi rhoi delweddau amlycaf y diwylliant modern, wedi creu ffurfiau celf newydd, ac wedi bod yn gyfrwng allweddol i addysg a phropaganda. Mae'r cwrs yn eich galluogi i edrych yn fanwl ar gyfrwng ffilm, ac ymarfer cynhyrchu ffilm, tra bo'r gwaith hwn mewn cyd-destun hanesyddol cadarn hefyd. Byddwch yn gallu ymdrin â materion fel sut mae sinema wedi effeithio ar ddatblygiad cymdeithasau modern, a sut y dylid defnyddio ffilm fel tystiolaeth hanesyddol. Cewch gyfle hefyd i gymryd modiwlau hanes 'prif ffrwd' sy'n cwmpasu ystod o gyfnodau a'r cyfle i astudio pynciau fel theori ffilm, cynhyrchu ffilmiau, ac ysgrifennu creadigol ar gyfer ffilm.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym yn cynnig modiwlau sy'n rhoi sylw arbennig i faterion yn ymwneud â dylanwad a rheolaeth y cyfryngau - yn y byd cyfoes ac mewn cyfnodau cynharach.
- Mae modiwlau hanes yn dod ag addysgu yn fyw gyda theithiau maes, siaradwyr gwadd, a defnyddio darnau o ffilmiau a chyfweliadau wedi'u tapio.
- Mae ein canolfan y cyfryngau yn cynnwys y stiwdios a'r offer digidol a thechnolegol cyfrifiadurol diweddaraf. Mae gennym hefyd stiwdio deledu aml-gamera gydag oriel gynhyrchu, stiwdio radio sain gyda chyfleusterau hunan-weithredu, ystafelloedd golygu fideo ac ystafelloedd golygu sain digidol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Bydd dwy ran o dair o'ch modiwlau bob blwyddyn mewn hanes. Byddwch hefyd yn cymryd 2 fodiwl mewn astudiaethau ffilm bob blwyddyn.

Blwyddyn 1

Gall opsiynau Hanes gynnwys:
- Ewrop yng Nghanol yr Oesoedd Canol
- Genedigaeth yr Ewrop Fodern
- Cyflwyniad i Hanes Modern
- Cymru: Gormeswyr i Dywysogion
- Cymru yn y Byd Modern

Bydd rhaid i chi gymryd modiwlau Hanes sy'n cwmpasu o leiaf ddau o'r tri chyfnod hanesyddol (Canoloesol 500-1500, Modern Cynnar 1500-1750 a Modern 1750 ymlaen).

Modiwlau ffilm ddiweddar:
- laith y Ffilm
- Film History

Yn ogystal, byddwch hefyd yn dewis modiwlau ychwanegol mewn hanes (gweler BA Hanes) sy'n cynnwys modiwlau a all fod o ddiddordeb mawr i fyfyrwyr ffilm.

Blwyddyn 2 a 3

Modiwl hanes gorfodol:
- Dehongli'r Gorffennol

Modiwl ffilm gorfodol:
- Film Theory (beirniadaeth ffilm gan ddefnyddio ystod o ffilmiau a dilyniannau)

Modiwlau ffilm dewisol (dewis 2) o restr a all gynnwys: :
- Alfred Hitcock
- Y Ffilm ddogfen:Theori
- American Film
- Authorship and Holywood
- Race and Gender
- Stanley Kubrick: Auteur
- Film Distribution and Marketing

Byddwch hefyd yn dewis modiwlau o'r radd BA Hanes, gan gynnwys **Pwnc Arbennig**, ac yn cwblhau **Traethawd Hir** a all ymdrin â hanes, agwedd ar astudiaethau ffilm neu'r rhyngweithio rhwng ffilm a hanes.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 12 awr yr wythnos mewn darlithoedd a seminarau. Yn ogystal â hyn ceir ymweliadau â sinema a dangosiadau (mae gennym sgrin fawr yn ein Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau). Rydym yn rhoi pwyslais ar addysgu grwpiau bach. Ceir peth gwaith ymarferol ym maes gwneud ffilmiau ac mewn un modiwl byddwch yn datblygu project gwreiddiol fel sgript. Byddwch hefyd yn treulio amser yn gwylio ffilmiau, gwneud ymarferion creadigol a chasglu ynghyd enghreifftiau o dechneg ffilm gan ddefnyddio'r cyfleusterau golygu.

Rydym yn trefnu nifer o siaradwyr gwadd ar ffilmiau a gwneuthurwyr ffilm i ymweld bob blwyddyn, a dangos ffilmiau y mae myfyrwyr wedi'u gwneud. Rydym hefyd yn cynnal dangosiadau ffilm yn rheolaidd.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu gan gynnwys arholiadau 'mynd adref' a chynhyrchu ffilmiau fel rhan o dîm.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs hwn yn gosod y sylfaen ar gyfer gwaith ôl-raddedig pellach mewn archifo ffilmiau a dadansoddi ffilmiau gan arwain at yrfaoedd yn y diwydiant ffilm a chyfathrebu. Bydd yr ystod o sgiliau dadansoddol a chyflwyniadol a geir drwy'r cwrs yn eich galluogi i fynd ymlaen i amrywiaeth o yrfaoedd eraill mewn diwydiant fel cynorthwywyr personol ac ymchwilwyr.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
V130 BA/MEMH
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol ond mae Hanes neu Archaeoleg yn ddymunol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn rhoi cyfle i chi astudio'r byd cyn-fodern (yn enwedig yn Ewrop, Prydain a Chymru) yn fanwl. Byddwch yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr fel casglu gwybodaeth yn effeithlon, dadansoddi tystiolaeth yn feirniadol, barnu rhwng gwahanol ddehongliadau, cyflwyno llafar ac ysgrifenedig, eglurder mynegiant a chynefindra â thechnoleg gwybodaeth.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae'r radd hon yn rhoi cyfle i chi ganolbwyntio ar y cyfnodau canoloesol a modern cynnar. Trwy arbenigo yn y modd hwn, byddwch yn gallu datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r materion a ysgogodd ddigwyddiadau, a'r ffynonellau sy'n eu cofnodi, nag a fyddai'n bosib mewn gradd gyffredinol mewn hanes.
- Rydym yn ymdrin ag amrywiaeth eang o fathau o hanes - hanes diwylliannol, lleol, deallusol, milwrol a chelf yn ogystal â hanes cymdeithasol a gwleidyddol.
- Gellwch ddewis modiwlau mewn astudiaethau archaeoleg neu dreftadaeth.
- Mae ein lleoliad yn golygu bod amrywiaeth cyfoethog o safleoedd hanesyddol gerllaw, gan gynnwys cestyll Edward I a thŷ tref Elisabethaidd Plas Mawr, yn ogystal â thai ac eglwysi canoloesol. Mae'r rhain yn adnodd dysgu gwerthfawr ac yn ddelfrydol ar gyfer teithiau maes a lleoliadau gwaith.
- Mae ein tîm o staff yn ymchwilwyr cynhyrchiol yn y cyfnod, gan ddarparu deunyddiau arbenigol a ddefnyddir ganddynt yn eu haddysgu.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Cyflwynir themâu allweddol yn hanes yr oesoedd canol a'r cyfnod modern cynnar i chi a byddwch yn dewis o blith ystod o opsiynau i ehangu eich dealltwriaeth.

Modiwl gorfodol:
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant Academaidd

O leiaf un modiwl yr un o: rhestr o'r modiwlau Canoloesol (c.500-1500), rhestr o'r modiwlau Modern Cynnar sydd ar gael.

Modiwlau dewisol o amrywiaeth o ddisgyblaethau megis:
- Hanes
- Archaeoleg
- Treftadaeth
- Llenyddiaethau ac leithoedd

Blwyddyn 2
Byddwch yn canolbwyntio ar ddau fodiwl yn ymdrin â chyfnodau o hanes Ewropeaidd, Prydain neu Gymru cyn 1750. Mae'r rhain yn rhoi cefndir ar gyfer astudio mwy arbenigol yn ddiweddarach. Bydd y modiwl gorfodol **Debating History** yn eich ysgogi i feddwl am y ffyrdd y mae pobl fodern yn defnyddio delweddau a dehongliadau o'r byd cyn-fodern. Byddwch hefyd yn dewis o blith amrywiaeth o fodiwlau pwnc sy'n gysylltiedig ag agweddau ar hanes (gellwch gynnwys astudiaethau archaeoleg neu dreftadaeth). Mae engreifftiau o fodiwlau'n cynnwys: Acts of Union – England and Wales; The Reign of King Stephen, Gender and Society in the 12th Century; The Lion of Justice – Henry I; Norman Kingdom of Sicily; Holy Wars 1095-1197; Cestyll a Chymdeithas; Owain Glyndŵr; Under the Hammer – Edward I; The Tudors; Modiwl Gweithle.

Blwyddyn 3
Byddwch yn dewis **Pwnc Arbennig** yn ymdrin â'r cyfnod cyn c1750. Byddwch yn ei astudio'n fanwl, gan weithio'n agos â dogfennau gwreiddiol. Byddwch yn astudio modiwlau pwnc pellach a byddwch hefyd yn gwneud **Traethawd Hir** (project ymchwil unigol a gyflawnir dan arweiniad eich tiwtor).

Mae Pynciau Arbennig diweddar wedi cynnwys:
- The Norman Conquest
- Henry II
- Gender and Society: 1400-1800

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych tua 12 awr yr wythnos o ddarlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Ceir lefel uchel o hyfforddiant unigol, yn enwedig yn ystod y traethodau hir yn y drydedd flwyddyn. Y tu allan i addysgu ffurfiol bydd angen i chi ddarllen o gwmpas y pwnc a pharatoi ar gyfer seminarau (a fydd weithiau'n cynnwys cyflwyniadau) a chwblhau gwaith cwrs a thraethodau a gaiff eu hasesu.

Mae rhai modiwlau'n cynnwys teithiau maes i safleoedd perthnasol gydag enghreifftiau diweddar yn cynnwys: Hampton Court ac amgueddfeydd yn Ynys Manaw ac Iwerddon.

Gellwch dreulio un modiwl yn cael profiad gwaith gwerthfawr. Gallai hyn fod yn gweithio mewn amgueddfa leol, archifau lleol, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Asesir y cwrs trwy gymysgedd o draethodau, projectau ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs hwn yn rhoi gwybodaeth arbenigol ac ystod o sgiliau dadansoddol a chyflwyniadol a fydd yn eich galluogi i ddilyn amrywiaeth o yrfaoedd sy'n ymwneud ag anghenion gweinyddol ac arweinyddiaeth; er enghraifft, yn adrannau personél cwmnïau, y gwasanaeth sifil a llywodraeth leol yn ogystal ag mewn a ystod o alwedigaethau y gellir trosglwyddo'r sgiliau hyn yn uniongyrchol iddynt. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae graddedigion wedi cael gyrfaoedd mewn gwaith amgueddfa, y gyfraith, addysgu a'r diwydiannau diwylliannol.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
V140 BA/MCH
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol ond mae Hanes neu Archaeoleg yn ddymunol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn ymchwilio i esblygiad cymdeithas, gwleidyddiaeth a diwylliant modern y gorllewin o'r 18fed ganrif hyd heddiw. Yn ogystal â digwyddiadau mewnol, mae'n ystyried dylanwadau llai amlwg ar agweddau gorllewinol, o Americaneiddio diwylliant poblogaidd i chwalfa'r hen ymerodraethau a'r globaleiddio cyfoes.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae hwn yn gwrs arbenigol mewn hanes modern a chyfoes sydd wedi ennill ei blwyf yn gadarn erbyn hyn.
- Mae'n canolbwyntio ar egluro sut mae materion o bwysigrwydd cyfredol wedi esblygu a newid ein cyfnod ni, gan archwilio'r hyn sy'n digwydd nawr yng ngoleuni'r hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol.
- Mae gennym enw da rhagorol am addysgu ac mae ein staff wedi cyhoeddi'n helaeth yn eu meysydd arbenigol. Rhoddir pwyslais ar ddigwyddiadau'r gorffennol agos.
- Rydym yn rhoi sylw i faterion fel dylanwad a rheolaeth y cyfryngau, rhywedd, sgiliau ystrywgar gwleidyddion a'r delfrydau a'r amcanion sydd wedi llywio eu gweithredoedd gwleidyddol.
- Rydym yn dod â'r addysgu'n fyw gyda theithiau maes, siaradwyr gwadd a defnyddio darnau o ffilmiau a hanes llafar yn y dosbarth.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Mae pob un o fodiwlau'r flwyddyn gyntaf yn cyflwyno thema ffres a ffyrdd newydd o edrych ar y gorffennol. Astudir materion cyfoes mewn cyd-destun hanesyddol a'u trafod mewn perthynas â phrofiadau'r gorffennol.

Modiwl gorfodol:
- Sgiliau Hanfodol ar gyfer Llwyddiant Academaidd

O leiaf ddau o restr a all gynnwys:
- Cyflwyniad Hanes Modern
- Gweithredu Gwleidyddiaeth Fodern
- Cymru yn y Byd Modern

Modiwlau dewisol pellach o amrywiaeth yn cynnwys
- Pynciau Hanes neu Hanes Cymru
- Polisi Cymdeithasol, Economeg, Ieithoedd neu Lenyddiaethau

Blwyddyn 2
Byddwch yn astudio cyfuniad o fodiwlau mwy cyffredinol eu thema gyda modiwlau dewisol manylach. Mae'r dewis yn cynnwys modiwlau sydd naill ai'n rhoi sylw i faterion cyfoes, neu'n dangos sut mae'r gorffennol wedi siapio neu ddylanwadu ar ddigwyddiadau a gweithredoedd diweddar.

Modiwl gorfodol:
- Dehongli'r Gorffennol

Gall y modiwlau dewisol gynnwys:
- USA 1945-2001
- America: Revolution to Civil War
- Britain in the Jazz Age
- Thatcher's Britain
- Europe: the Age of the Cold War
- Victorian Britain
- Britannia Rule the Waves

Blwyddyn 3
Bydd gennych gyfle i ddilyn **Pwnc Arbennig** a thrwy hynny ganolbwyntio ar bwnc neu faes neilltuol. Byddwch yn dod yn awdurdod gwirioneddol ar gyfnod neu thema, gan dynnu ar sgiliau a ddatblygwyd eisoes a diddordebau ymchwil cyfredol staff academaidd. Yn y **Traethawd Hir** byddwch yn cyflawni eich ymchwil eich hun gan adlewyrchu'ch diddordebau a defnyddio ffynonellau gwreiddiol.

Modiwlau gorfodol:
- Mae enghreifftiau o Bynciau Arbennig yn cynnwys: Britain in the 1960s; Nationalism in the UK; Celtic Revival 1800-1920; Anarchism in Europe and the USA
- Traethawd Hir

Modiwlau dewisol:
- Bydd angen i chi ddewis o blith ystod o opsiynau sydd ar gael (gweler opsiynau blwyddyn 2 uchod)

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych tua 12 awr yr wythnos o ddarlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Rydym yn gwneud defnydd helaeth o ddarnau ffilm a theledu, adnoddau ar-lein a chyfweliadau llafar i ddod â'r pwnc yn fyw. Byddwch yn cymryd rhan mewn teithiau maes hefyd. Ymhlith yr enghreifftiau diweddar mae ymweliad â'r Imperial War Museum ym Manceinion.

Asesir y cwrs trwy gymysgedd o arholiadau, traethodau, portffolios, podlediadau, cofnodion blog a thraethawd hir y flwyddyn olaf y byddwch yn ei wneud dan arweiniad eich tiwtor.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs hwn yn rhoi gwybodaeth arbenigol ac ystod o sgiliau dadansoddol a chyflwyniadol a fydd yn eich galluogi i ddilyn amrywiaeth o yrfaoedd sy'n ymwneud â gweinyddiaeth gyhoeddus; er enghraifft, yn adrannau personél cwmnïau, y gwasanaeth sifil a llywodraeth leol yn ogystal ag mewn a ystod o alwedigaethau y gellir trosglwyddo'r sgiliau hyn yn uniongyrchol iddynt. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae graddedigion wedi cael gyrfaoedd ym myd gwleidyddiaeth, y gyfraith, cyfrifeg a'r diwydiannau diwylliannol.

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Cod cwrs UCAS:
VV12
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol ond mae Hanes neu Archaeoleg yn ddymunol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae hon yn radd eang sy'n cynnig y cyfle i astudio ystod eang o gyfnodau gydag arbenigedd mewn Hanes Cymru. Bydd y cwrs yn trafod esblygiad Cymru, ei gwleidyddiaeth a'i diwydiant; ei chymdeithas a'i chrefydd trwy'r canrifoedd, ac yn rhoi hyn yng nghyd-destun datblygiadau mewn Hanes Prydeinig, Ewropeaidd ac Americanaidd o'r Oesoedd Canol hyd at y presennol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae Bangor yn ganolfan flaenllaw ar gyfer astudio hanes Cymru. Mae Bangor wedi bod ag enw ardderchog am ymchwil yn y maes hwn ers blynyddoedd lawer.
- Mae gennym arbenigedd mewn hanes modern a chyfoes yn ogystal â mewn hanes canoloesol, modern cynnar a hanes Cymru ac archaeoleg a threftadaeth.
- Rydym yn cynnig y cyfle i astudio ystod eang o fodiwlau Hanes Cymru ac mae gennym enw ardderchog am safon ein dysgu ac rydym wedi ein hymrwymo i ddysgu mewn grwpiau bychain.
- Mae hanes yn ddwfn yn yr ardal leol, a chyda safleoedd rhyngwladol bwysig ar garreg ein drws – o Gynhanes hyd at y Chwyldro Diwydiannol – yn darparu adnoddau dysgu gwerthfawr.
- Bydd amrywiaeth helaeth o adnoddau'n cael eu defnyddio wrth ddysgu'r cwrs. Mae'r rhain yn cynnwys archifdai lleol ac amgueddfeydd.
- Ceir cyfoeth o henebion heb fod ymhell o Fangor gan gynnwys cestyll a safleoedd allweddol yn y Chwyldro Diwydiannol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
- Cymru yn y Byd Modern
- Cymru: Tywysogion i Duduriaid

Ac o leiaf un allan o:
- Monarchs, Monks and Miracles
- Genedigaeth yr Ewrop Fodern
- Cyflwyniad i Hanes Modern
- Rhyfel, Cymdeithas a'r Cyfryngau

Mae grŵp seminar Cymraeg ar gael i'r uchod.

Cewch ddewis gweddill eich modiwlau allan o amrywiaeth a gynigir, a bydd cyfle i gymryd modiwlau gwerth 20 credyd mewn pwnc arall e.e. Cymraeg.

Blwyddyn 2
Byddwch yn astudio cyfnodau a themâu mewn dyfnder a gallwch ddewis o amrywiaeth o fodiwlau. Bydd llawer o'r modiwlau yn gwneud defnydd o ffynonellau gwreiddiol ac mae modiwl yn y gweithle hefyd ar gael. Bydd gennych hefyd y cyfle i ddatblygu eich sgiliau ymchwil a chyflwyno.

Modiwlau gorfodol:
- Dehongli'r Gorffennol

Modiwlau dewisol Hanes (dewis 2)
Mae ystod o fodiwlau ar gael e.e. Ewrop yng Nghanol yr Oesoedd Canol; 1000-1200, Holy Wars, 1095-1197; USA 1945-2001; Europe 1945-1992; Thatcher's Britain; The Tudors; Britain 1780-1832; Royal Propaganda; Britain in the Jazz Age..

Modiwlau dewisol Hanes Cymru (dewis 2): Ail Danio'r Ddraig; Lleoliad Gwaith; Cymru 1600-1789; Wales & Europe in the Renaissance; Owain Glyndŵr a'i Fudiad.

Blwyddyn 3
Byddwch yn dewis **Pwnc Arbennig** mewn Hanes neu Hanes Cymru – dyma fodiwl sy'n defnyddio ffynonellau gwreiddiol ac sy'n seiliedig ar ymchwil y tiwtor. Byddwch hefyd yn ysgrifennu **Traethawd Hir** sy'n rhoi'r cyfle i chi wneud eich ymchwil eich hun. Byddwch hefyd yn cwblhau modiwlau eraill (gweler blwyddyn 2 uchod).

Enghreifftiau o ddewisiadau Pwnc Arbennig posib: The Norman Conquest; Going to the Devil – Henry II; Land and Power in England & Wales 1780-1888; Britain in the 1960s; Ruled by an Orange; Nationalism in the UK; Celtic Revival 1800–1920.

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn cael tua 12 awr o ddarlithoedd, seminarau a dosbarthiadau tiwtorial bob wythnos. Byddwch hefyd yn treulio cryn dipyn o amser yn darllen, ymchwilio, ysgrifennu traethodau a pharatoi ar gyfer cyflwyniadau mewn tiwtorial. Bydd rhai modiwlau yn gwneud defnydd arbennig o ddogfennau, ffilm a rhaglenni dogfen, yn ogystal â hanes llafar. Bydd eraill yn cynnwys teithiau i weld safleoedd perthnasol yng Nghymru a thu hwnt. Bydd cyfle i chi hefyd wneud modiwl ar leoliad gwaith mewn archifdy lleol neu amgueddfa a gwneud project ar y deunydd y byddwch yn ei drafod.

Asesir trwy gymysgedd o arholiadau a thraethodau a thraethawd estynedig yn y flwyddyn olaf.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Mae'r cwrs hwn yn rhoi gwybodaeth arbenigol am Gymru o fewn cyd-destun Ewropeaidd, a chydag amrediad o fedrau dadansoddi a chyflwyno. Bydd yn eich galluogi i ddewis o blith amryw o yrfaoedd sy'n canolbwyntio ar weinyddu ac arweiniad cyhoeddus, yn arbennig ond nid yn neilltuol yng Nghymru; er enghraifft, mewn adrannau personél mewn diwydiant yn y sector preifat, yn y gwasanaeth sifil ac mewn llywodraeth leol, dysgu a thwristiaeth. Yn ddiweddar, mae graddedigion wedi mynd i yrfaoedd ym meysydd ymchwil wleidyddol, archifau, y gwasanaethau lles, addysgu a diwydiannau diwylliannol.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

WELSH HISTORY AND ARCHAEOLOGY
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
V104 BA/WHAR
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol ond mae Hanes neu Archaeoleg yn ddymunol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion Iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Hanes ac Archaeoleg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: hanes@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/hanes

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Trwy astudio hanes ac archaeoleg Cymru (ac archaeoleg Prydain ac Iwerddon) byddwch yn cael dealltwriaeth o ddatblygiad Cymru dros y canrifoedd, o natur gyfnewidiol cymdeithas ac anheddu, ac o gyd-destun hanesyddol Cymru gyfoes.

PAM DEWIS BANGOR?
- Bangor yw'r brif ganolfan ar gyfer astudio hanes Cymru ac mae ein staff wedi gwneud cyfraniadau nodedig i ymchwil mewn Hanes ac Archaeoleg Cymru.
- Bydd ein dewis o fodiwlau yn arbennig o ddeniadol os oes gennych ddiddordeb mewn cymdeithas hynafol a chyn-fodern.
- Mae ein hardal leol yn hynod gyfoethog o ran henebion o bob cyfnod. Mae teithiau maes yn manteisio ar hyn.
- Mae ein hamgueddfa leol yn eich galluogi i ennill profiad uniongyrchol o drin arteffactau - cyfle nad yw'n cael ei gynnig yn eang mewn mannau eraill.
- Mae'r ail flwyddyn yn rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau mewn archaeoleg ymarferol, megis gwneud arolygon a gwaith cyfrifiadurol, a mynd ar leoliad gwaith.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Cymru: Gormeswyr i Dywysogion
- Cymru er 1789

3 modiwl archaeoleg o restr a all gynnwys:
- Introduction to British Prehistory
- Introduction to Historic Archaeology
- Archaeological Techniques and Principles
- Introduction to History and Heritage

Mae dewisiadau sy'n weddill o opsiynau a all gynnwys:
- Birth of Modern Europe 1470-1600
- Introduction to Modern History 1815-1914
- History and Heritage: an Introduction
- War, Society and the Media
- Ewrop yng Nghanol yr Oesoedd Canol

Blwyddyn 2
Mae gennych ddewis o fodiwlau Hanes Cymru/Archaeoleg yn amrywio o archaeoleg Cymru ac Iwerddon o'r cyfnod cyn-hanes i'r oesoedd canol, a phob cyfnod o hanes Cymru.

Gall modiwlau sydd ar gael gynnwys:
- The Archaeology of Early Medieval Wales
- Cymru 1660-1789
- The Acts of Union: Wales and England
- Ail-danio'r Ddraig
- Owain Glyndŵr a'i Fudiad
- Lleoliad Gwaith

Blwyddyn 3
Byddwch yn dewis modiwl Pwnc Arbennig ac yn ymchwilio'n fanwl i bwnc o ddiddordeb i chi. Byddwch hefyd yn cwblhau **Traethawd Hir**. Os yw'r traethawd hir yn ymwneud â Hanes Cymru, gall myfyrwyr ddewis unrhyw Bwnc Arbennig. Os yw'r traethawd hir yn ymwneud ag Archaeoleg, rhaid i fyfyrwyr ddewis **Pwnc Arbennig yn Hanes Cymru**.

Mae dewisiadau diweddar o Bynciau Arbennig wedi cynnwys:
- Land and Power in England and Wales 1780-1888
- Nationalism in the UK
- Celtic Revival 1800-1920
- Native Wales and the Normans

Byddwch hefyd yn cwblhau dau fodiwl dewisol arall (gweler Blwyddyn 2 uchod am fanylion)

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych tua 12 awr yr wythnos o ddarlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Tueddir i addysgu modiwlau Hanes Cymru mewn grwpiau bach. Mae awyrgylch agos iawn yn datblygu, gan fod mwyafrif y myfyrwyr yn dilyn patrwm tebyg o fodiwlau dewisol, ac yn cael eu haddysgu i raddau helaeth gan yr un staff. Rydym yn trefnu amrywiaeth o deithiau maes a all fod yn brynhawniau, dyddiau cyfan neu benwythnos cyfan. Byddwch hefyd yn cael cyfle i fynd ar gloddiadau archaeolegol a gwneud gwaith ymarferol arall. Y tu allan i ddysgu ffurfiol byddwch yn darllen, cwblhau traethodau a pharatoi cyflwyniadau. Mae modiwl gweithle dewisol yn rhoi profiad gwerthfawr o weithio mewn amgueddfa, archifdy neu uned archaeolegol.

Asesir y cwrs trwy gyfuniad o waith ysgrifenedig, traethodau, arholiadau a phortffolios. Mae traethawd hir y flwyddyn olaf yn broject mawr sy'n cynnwys ymchwil a wneir dan oruchwyliaeth agos eich tiwtor.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cwrs hwn yn rhoi gwybodaeth arbenigol ac ystod o sgiliau dadansoddi a chyflwyno a fydd yn eich galluogi i gyflawni nifer o ddewisiadau gyrfa sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant a threftadaeth yng Nghymru yn arbennig (er nad yw'n eich cyfyngu i Gymru chwaith), e.e. mewn unedau archaeoleg, amgueddfeydd a chanolfannau treftadaeth, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn ogystal ag amrywiaeth o alwedigaethau y gellir trosglwyddo'r sgiliau hyn yn uniongyrchol iddynt. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae graddedigion wedi mynd i yrfaoedd mewn llywodraeth leol, cadwraeth ac addysgu, ac mae rhai wedi dilyn hyfforddiant pellach i ddod yn archeolegwyr proffesiynol.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

CYMRAEG AC ASTUDIAETHAU CELTAIDD

- **Cymraeg BA**
- **Cymraeg Proffesiynol BA**
- **Cymraeg gyda Newyddiaduraeth BA**
- **Cymraeg gydag Ysgrifennu Creadigol BA**
- **Cymraeg, Theatr a'r Cyfryngau BA**
- **Cymraeg i Ddechreuwyr/Welsh for Beginners BA**

Graddau Cysylltiedig

- Cymraeg a Hanes (tud 63)
- Cymraeg a Cherddoriaeth (tud 63)
- Hanes Cymru a Chymraeg (tud 64)
- Business Managment a Chymraeg (tud 63)
- Cymdeithaseg a Chymraeg (tud 63)
- Sport Science a Chymraeg (tud 64)

Y FFEITHIAU SYLFAENOL:
Cod cwrs UCAS:
Q562
Hyd: 3 blynedd
am godau cydanrhydedd gweler tudalennau 63-64.

GOFYNION MYNEDIAD:
Ar gyfer graddau cyd-anrhydedd dylech fwrw golwg ar ofynion mynediad eich pwnc dewisol arall. Cynnig nodweddiadol o isafswm o 112 pwynt tariff o gymhwyster lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd B mewn Cymraeg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: DMM**
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch gyda Chymraeg fel elfen: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at y tariff newydd gan UCAS ar www.ucas.com.
**Gall gael ei ystyried gyda chymhwyster arall mewn Cymraeg e.e. Lefel A

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau

Ffôn: 01248 382085
E-bost:
cymraeg.israddedig@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cwrs hwn ar gael i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith.

Ni fu erioed adeg fwy cyffrous i astudio'r Gymraeg ym Mangor. Mewn meysydd mor amrywiol â'r cyfryngau, addysg, y gwasanaeth sifil, cysylltiadau cyhoeddus, byd cyfieithu a llywodraeth leol, mae galw aruthrol am rai sydd â gradd dda yn y Gymraeg. Mae Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mangor wedi ymateb yn egnïol i'r alwad hon drwy greu cyrsiau diddorol a blaengar sy'n berthnasol i ofynion y byd modern. Iaith fyw y presennol yn hytrach na chrair o'r gorffennol yw'r Gymraeg ym Mangor. Yma cewch gyfle nid yn unig i astudio a mwynhau un o lenyddiaethau hynotaf y byd, ond cyfle hefyd i ddilyn modiwlau mwy ymarferol eu gogwydd a fydd yn baratoad ardderchog ar gyfer gyrfa a swydd.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym yn cynnig dewis eang o fodiwlau, yn cynnwys meysydd blaengar fel medrau cyfieithu, ysgrifennu creadigol ac astudiaethau ffilm a theatr.
- Mae gennym enw da o safbwynt safon ein haddysgu a gofal myfyrwyr.
- Mae'r staff yn weithgar ym meysydd ymchwil, beirniadaeth lenyddol ac ysgrifennu creadigol.
- Mae ein proffil uchel a'r parch sydd gan gyflogwyr tuag at ein safonau yn golygu bod llawer o alw am ein myfyrwyr ni.
- Gallwch barhau i astudio gyda ni hyd at lefel MA, MPhil a PhD.
- Mae Bangor yn ddewis delfrydol os yw'r Gymraeg yn ail iaith i chi. Byddwn yn eich annog i ddatblygu'n siaradwr hyderus trwy gyfrwng dysgu mewn grwpiau bach a modiwlau arbennig.
- Bydd nifer o ysgoloriaethau ariannol yn cael eu dyfarnu bob blwyddyn.



BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Os ydych chi'n dilyn y cwrs gradd Cymraeg, byddwch yn astudio modiwlau gorfodol a gallwch ddilyn rhai dewisiadau ychwanegol yn y pwnc.

Blwyddyn 1

Iaith Gyntaf
Modiwlau yn y meysydd hyn:
- Llên Gyfoes
- Beirniadaeth Lenyddol Ymarferol
- Rhyddiaith yr Oesoedd Canol
- Yr Iaith ar Waith
- Llenyddiaeth y Cyfnod Modern Cynnar
- Theatr Fodern Ewrop

Dewisiadau:
- Gweithdy Creadigol
- Sgriptio Teledu
- Gwyddeleg Fodern
- Amryw fodiwlau eraill

Ail Iaith
Modiwlau gorfodol:
- Ysgrifennu Cymraeg
- Cymraeg Llafar
- Golwg ar Lenyddiaeth
- Llên a Llun

Dewisiadau:
- Dewisir modiwlau eraill o blith y rhai iaith gyntaf

Blwyddyn 2 a 3
Byddwch yn astudio modiwlau gorfodol ac yn dethol dewisiadau o blith ystod eang o fodiwlau, e.e.:

- Barddoniaeth Fodern
- Rhyddid y Nofel
- Dafydd ap Gwilym
- Chwedlau'r Oesoedd Canol
- Medrau Cyfieithu
- Ymarfer Ysgrifennu
- Y Sgrin Fach Gymraeg
- Sgriptio
- Y Theatr Gymraeg Fodern
- Llenyddiaeth Gymraeg America
- Canu Llys
- Traethawd Estynedig
- Athroniaeth a Llenyddiaeth
- O'r Llyfr i'r Llwyfan

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Cewch eich dysgu drwy gyfrwng darlithoedd, seminarau, dosbarthiadau tiwtorial a gweithdai bob wythnos. Byddwch hefyd yn gwneud traethodau, amrywiol ymarferion, gwaith darllen a pharatoi ar gyfer seminarau. Mae'r asesiad yn gyfuniad o waith cwrs ac arholiadau. Os ydych chi'n astudio cwrs gradd anrhydedd sengl, byddwch hefyd ym mlwyddyn 3 yn gwneud traethawd hir ar bwnc o'ch dewis.

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Cod cwrs UCAS:
Q563
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Ar gyfer graddau cyd-anrhydedd dylech fwrw golwg ar ofynion mynediad eich pwnc dewisol arall. Cynnig nodweddiadol o isafswm o 112 pwynt tariff o gymhwyster lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd B mewn Cymraeg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: DMM**
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch gyda Cymraeg fel elfen: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at y tariff newydd gan UCAS ar www.ucas.com.
**Gall gael ei ystyried gyda chymhwyster arall mewn Cymraeg e.e Lefel A

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau

Ffôn: 01248 382085
E-bost:
cymraeg.israddedig@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cwrs newydd hwn yn ymateb i'r galw cynyddol gan gyflogwyr am fyfyrwyr sydd â safon uchel o sgiliau yn y Gymraeg y gellir eu cymhwyso'n rhwydd i'r gweithle. Byddwch yn astudio amryw feysydd sy'n ymwneud ag iaith a llenyddiaeth Gymraeg gyda phwyslais mawr ar agweddau ymarferol a galwedigaethol. Bydd y cwrs yn rhoi cyfle i chi fynd ar brofiad gwaith gyda chyflogwyr a chwmniau proffesiynol.

Mae'r Ysgol yn cydweithio'n agos â Chanolfan Bedwyr a byddwch yn elwa o'r arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol y mae Canolfan Bedwyr wedi ei ddatblygu dros y blynyddoedd. Mae'r cwrs hwn yn gyfle i chi ddilyn gradd gyda'r holl elfennau sy'n ddisgwyliedig o fewn gradd draddodiadol yn y Gymraeg, ond gyda llwybr ymarferol clir a fydd yn arwain i gyfeiriadau gyrfaol amrywiol.

Noder, ystyrir ceisiadau gan rai sydd wedi dilyn Lefel A trwy gyfrwng y Gymraeg mewn pynciau eraill yn unigol.

Ymhlith y cyrff cyhoeddus sydd wedi datgan eu cefnogaeth i'r radd hon mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Menter Iaith Môn, a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae cefnogaeth o'r fath yn ychwanegu at hygrededd proffesiynol y rhaglen hon.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae hon yn radd sy'n gyfuniad amrywiol o fodiwlau newydd a modiwlau traddodiadol a fydd yn cael eu haddysgu gan arbenigwyr yn eu meysydd.
- Cewch eich dysgu mewn dosbarthiadau bychain, a fydd yn eich galluogi i ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr yn dda.
- Mae yma draddodiad llwyddiannus o safbwynt safon ein dysgu a boddhad myfyrwyr.
- Cewch gyfle i fynd ar brofiad gwaith fel rhan o'ch cwrs.
- Byddwch yn cael eich dysgu gan staff sy'n ymchwilio yn gyson, ac yn cyhoeddi llyfrau ac erthyglau.
- Mae ein proffil uchel a'r parch sydd gan gyflogwyr tuag at ein safonau yn golygu bod llawer o alw gan gyflogwyr am ein myfyrwyr ni.
- Mae Bangor yn eich galluogi i fyw bywyd myfyriwr i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch cyfeillgar a naturiol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Defnyddio'r Gymraeg
- O'r Senedd i'r Swyddfa
- Llên Gyfoes
- Llên y Cyfnod Modern Cynnar
- Cyflwyniad i Bolisi a Chynllunio Ieithyddol

Cewch ddewis hyd at 40 credyd arall o blith y modiwlau Cymraeg neu mewn pynciau eraill.

Bydd cyfle i chi fynd ar leoliad gwaith a byddwch yn cael nifer o ddarlithoedd gwadd gan gynrychiolwyr o wahanol broffesiynau.

Blwyddyn 2
Modiwlau gorfodol:
- Iaith Gwaith
- Ymarfer Ysgrifennu
- Datblygiad yr Iaith

Cewch gyfle i ddewis unrhyw 40-60 credyd arall o blith modiwlau Cymraeg neu mewn pynciau eraill.

Blwyddyn 3
Modiwlau gorfodol:
- Medrau Cyfieithu
- Portffolio Proffesiynol ar fedrau ymchwilio annibynnol.

Cewch ddewis unrhyw 60 credyd arall o blith modiwlau Cymraeg (heblaw am fodiwl **Y Traethawd Estynedig**).

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn dysgu trwy gyfuniad o ddarlithoedd a seminarau a chewch gyfle i fynd ar leoliad gwaith. Byddwch yn cael eich asesu drwy amrywiaeth o ddulliau yn ôl yr hyn sy'n briodol i ofynion modiwlau unigol. Y nod yw rhoi'r cyfle i chi astudio'r iaith Gymraeg mewn modd ymarferol a fydd yn cryfhau eich sgiliau ysgrifenedig a llafar yn ogystal â rhoi'r cyfle i chi astudio agweddau ar lenyddiaeth Gymraeg hyd at y presennol. Bydd pwyslais arbennig ar ddatblygu ymwybyddiaeth a hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg yn y gweithle.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Mae gradd mewn Cymraeg Proffesiynol yn gallu arwain at ystod eang o yrfaoedd. Y mae galw mawr am ein graddedigion ac mae'r sgiliau a ddysgwch wrth ddilyn modiwlau mwy ymarferol yn baratoad gwych ar gyfer gyrfa a swydd. Mae nifer o raddedigion yn mynd ymlaen i weithio mewn amryw o feysydd megis addysgu, cyfieithu, newyddiadura, y cyfryngau, golygu a'r byd cyhoeddi, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, swyddogion y wasg, cynllunio ieithyddol, gweinyddiaeth a'r Gwasanaeth Sifil.

CYMRAEG I DDECHREUWYR
Mae'r cwrs hwn hefyd ar gael fel Cymraeg Proffesiynol (i Ddechreuwyr), cod UCAS: Q564. Mae'r fersiwn 4 blynedd hon o'r cwrs yn canolbwyntio yn y flwyddyn gyntaf ar gael gafael ar Gymraeg modern lafar. O Flwyddyn 2 ymlaen, bydd myfyrwyr yn cael eu haddysgu fwyaf gyda myfyrwyr ail iaith ac iaith gyntaf. Am fanylion Blwyddyn 1 y cwrs hwn, gweler Cymraeg i Ddechreuwyr, tudalen 195.

CYMRAEG GYDA NEWYDDIADURAETH
BA [Anrh]

Y FFEITHIAU SYLFAENOL:
Cod cwrs UCAS:
Q5P5
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Cynnig nodweddiadol o isafswm o 112 pwynt tariff o gymhwyster lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd B mewn Cymraeg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: DMM**
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch gyda Cymraeg fel elfen: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at y tariff newydd gan UCAS ar www.ucas.com.
**Gall gael ei ystyried gyda chymhwyster arall mewn Cymraeg e.e Lefel A

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau

Ffôn: 01248 382085
E-bost:
cymraeg.israddedig@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cwrs hwn yn agor nifer o lwybrau gyrfa. Mae'n cynnig sylfaen academaidd dda mewn Cymraeg (dwy ran o dair o'r cwrs) ynghyd â nifer o fodiwlau ymarferol ac academaidd mewn Newyddiaduraeth. Ceir cyfle i flasu newyddiaduraeth heb gau'r drws ar yrfa yn yr holl feysydd sy'n gofyn am radd mewn Cymraeg.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym yn cynnig dewis eang o fodiwlau, yn cynnwys meysydd blaengar megis medrau cyfieithu, ysgrifennu creadigol ac astudiaethau ffilm a theatr.
- Mae gennym enw da o safbwynt safon ein haddysgu a gofal myfyrwyr.
- Mae'r staff yn weithgar ym meysydd ymchwil, beirniadaeth lenyddol, ysgrifennu creadigol a'r cyfryngau.
- Mae ein proffil uchel a'r parch sydd gan gyflogwyr tuag at ein safonau yn golygu bod llawer o alw am ein myfyrwyr ni.
- Gallwch barhau i astudio yn yr Adran hyd at lefel MA, MPhil a PhD.
- Dysgir modiwlau Newyddiaduraeth gan Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, lle ceir newyddiadurwyr profiadol i'ch hyfforddi.
- Bydd nifer o ysgoloriaethau ariannol yn cael eu dyfarnu bob blwyddyn (edrychwch ar y tudalennau ar ddechrau'r prosbectws).



BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

CYMRAEG
Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Rhyddiaith yr Oesoedd Canol
- Llên Gyfoes
- Beirniadaeth Lenyddol Ymarferol
- Yr Iaith ar Waith
- Llên y Cyfnod Modern Cynnar

Modiwlau dewisol:
- Gweithdy Creadigol
- Theatr Fodern Ewrop
- Sgriptio Teledu

Blwyddyn 2 a 3

Modiwlau gorfodol:
- Ymarfer Ysgrifennu
- Traethawd Estynedig
- Medrau Cyfieithu

Byddwch hefyd yn dewis modiwlau o blith ystod eang o ddewisiadau'r radd BA (Anrhydedd) Cymraeg: gweler y cynllun uchod.

NEWYDDIADURAETH
Dysgir modiwlau Newyddiaduraeth gan Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, sydd ag enw da iawn yn y maes hwn.

Blwyddyn 1

Modiwlau gorfodol:
- Cyflwyniad i Newyddiaduraeth Ymarferol
- Cyflwyniad i Ymarfer yn y Cyfryngau

Blwyddyn 2 a 3

Modiwlau gorfodol:
- Newyddiaduraeth Ymarferol Ddigidol
- Newyddiaduraeth: Moeseg, Cyfraith a Democratiaeth

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn dysgu drwy gyfrwng darlithoedd, seminarau a dosbarthiadau tiwtorial bob wythnos. Ar ben hynny, byddwch yn gwneud traethodau, amrywiol ymarferion, gwaith darllen a pharatoi ar gyfer seminarau.

Bydd y cyrsiau Newyddiaduraeth yn cynnwys gwaith ymarferol.

Bydd yr asesiad terfynol yn cynnwys arholiadau a gwaith cwrs.

CYMRAEG GYDAG YSGRIFENNU CREADIGOL
BA [Anrh]

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Cod cwrs UCAS:
Q5WK
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Cynnig nodweddiadol o isafswm o 112 pwynt tariff o gymhwyster lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd B mewn Cymraeg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: DMM**
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch gyda Cymraeg fel elfen: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at y tariff newydd gan UCAS ar www.ucas.com.
**Gall gael ei ystyried gyda chymhwyster arall mewn Cymraeg e.e Lefel A

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau

Ffôn: 01248 382085
E-bost:
cymraeg.israddedig@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Bydd y radd hon yn eich galluogi i astudio modiwlau iaith a llenyddiaeth Gymraeg wrth i chi ddatblygu eich sgiliau ysgrifennu creadigol. Dylai fod yn arbennig o fuddiol os ydych chi â'ch bryd ar yrfa ym maes dysgu, cyfieithu neu newyddiaduraeth, neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn awdur proffesiynol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae hon yn radd sy'n unigryw i Fangor. Rydym yn cynnig modiwlau arbennig megis Gweithdy Creadigol, Gweithdy Rhyddiaith, Gweithdy Cynghanedd a Sgriptio.
- Mae gennym enw da iawn o safbwynt safon ein haddysgu a gofal myfyrwyr.
- Mae aelodau'r staff yn weithgar ym meysydd cyfieithu ac ysgrifennu creadigol (mae yma feirdd, awduron rhyddiaith, dramodwyr a rhai sy'n ysgrifennu ar gyfer teledu a radio sydd wedi ennill gwobrau am eu gwaith), ac y mae rhai o'r enwau mwyaf blaenllaw ym maes ysgrifennu creadigol, ddoe a heddiw, wedi graddio o Fangor.
- Mae ein darlithwyr wedi ennill gwobrau cenedlaethol pwysig: mae gennym ddau fardd coronog a dau sydd wedi ennill y fedal rhyddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac mae ein darlithwyr wedi ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn sawl gwaith.
- Mae ein proffil uchel, a'r parch sydd gan gyflogwyr tuag at ein safonau, yn golygu bod llawer o alw am ein myfyrwyr ni.
- Ar ôl graddio mae'n bosibl astudio hyd at lefel MA, MPhil a PhD ym maes ysgrifennu creadigol.
- Bydd nifer o ysgoloriaethau ariannol yn cael eu dyfarnu bob blwyddyn (edrychwch ar y tudalennau ar ddechrau'r prosbectws).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Dyma gyflwyniad i'r Gymraeg ac Ysgrifennu Creadigol.

Modiwlau gorfodol:
- Gweithdy Creadigol
- Sgriptio Teledu
- Beirniadaeth Lenyddol Ymarferol
- Yr Iaith ar Waith

- Llenyddiaeth Gyfoes
- Rhyddiaith yr Oesoedd Canol
- Theatr Fodern Ewrop
- Llenyddiaeth y Cyfnod Modern Cynnar

Blwyddyn 2 a 3
Cewch y cyfle i astudio dewis eang o fodiwlau cyffrous sy'n torri tir newydd ac yn datblygu eich doniau creadigol.

Modiwlau gorfodol:
- Gweithdy Rhyddiaith
- Sgriptio
- Ymarfer Ysgrifennu
- Gweithdy Barddoniaeth
- Traethawd Estynedig
- Gweithdy Cynghanedd

Byddwch hefyd yn dethol dewisiadau o blith ystod eang o fodiwlau, er enghraifft:
- Rhyddid y Nofel
- Dafydd ap Gwilym
- Chwedlau'r Oesoedd Canol
- Medrau Cyfieithu
- Y Theatr Gymraeg Fodern
- Llenyddiaeth Gymraeg America
- O'r Llyfr i'r Llwyfan
- Barddoniaeth Fodern
- Y Sgrin Fach Gymraeg
- Athroniaeth a Llenyddiaeth



SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn cael eich dysgu drwy gyfrwng darlithoedd, seminarau, dosbarthiadau tiwtorial a gweithdai bob wythnos. Ar ben hynny bydd angen i chi wneud traethodau ac ymarferion, a darllen yn eang.

Wrth asesu datblygiad eich medrau ysgrifennu creadigol byddwn yn talu cryn sylw i'ch gwaith gwreiddiol – e.e. storïau byrion, ymsonau, cerddi.

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Cod cwrs UCAS:
QWM5
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Cynnig nodweddiadol o isafswm o 112 pwynt tariff o gymhwyster lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd B mewn Cymraeg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: DMM**
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch gyda Chymraeg fel elfen: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at y tariff newydd gan UCAS ar www.ucas.com.
**Gall gael ei ystyried gyda chymhwyster arall mewn Cymraeg e.e Lefel A

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tim Derbyniadau

Ffôn: 01248 382085
E-bost:
cymraeg.israddedig@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Dyma gwrs sy'n rhoi sylfaen gadarn yn y Gymraeg, ac at hynny'n cynnig cyfle i astudio ym maes y theatr a'r cyfryngau. Mae'n cynnig profiadau cyffrous i'r sawl sydd am ddilyn gyrfa nid yn unig ym myd y theatr a'r cyfryngau ond hefyd ym myd addysg. Cewch gyfle i astudio'r Gymraeg a'i llenyddiaeth yn ogystal â drama, theatr, teledu, radio a ffilm. Ceir hefyd gyfle i feithrin dawn greadigol a thalent yn y modiwlau ymarferol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gan gennym enw da o safbwynt safon ein haddysgu a'n gofal am ein myfyrwyr.
- Mae gan y rhai sy'n dysgu'r cwrs Theatr a'r Cyfryngau brofiad helaeth o weithio yn y meysydd hyn ar lefel broffesiynol. Cynigir rhai o'r modiwlau gan yr Adran Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau.
- Mae ein proffil uchel a'r parch sydd gan gyflogwyr tuag at ein safonau yn golygu bod galw mawr am ein myfyrwyr ni.
- Cewch yn y cwrs hwn wybodaeth ddofn am iaith a diwylliant Cymru, yn ogystal â gwybodaeth am y cyfryngau. Bydd hyn yn cynyddu'ch apêl i gyflogwyr.
- Ar ôl graddio mae'n bosibl astudio hyd at lefel MA, MPhil a PhD.
- Bydd nifer o ysgoloriaethau ariannol yn cael eu dyfarnu bob blwyddyn (edrychwch ar y tudalennau ar ddechrau'r prosbectws).



BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Cymraeg
Modiwlau gorfodol:
- Yr Iaith ar Waith
- Llên Gyfoes
- Llên y Cyfnod Modern Cynnar

Theatr a'r Cyfryngau
Modiwlau gorfodol:
- Theatr Fodern Ewrop
- Sgriptio Teledu

- Y Ddelwedd Symudol
- Cyflwyniad i Ymarfer yn y Cyfryngau

Blwyddyn 2 a 3
Cymraeg
Modiwlau gorfodol:
- Ymarfer Ysgrifennu
- Traethawd Estynedig

Theatr a'r Cyfryngau
Modiwlau gorfodol:
- Sgriptio
- Y Sgrin Fach Gymraeg
- O'r Llyfr i'r Llwyfan
- Y Theatr Gymraeg Fodern

Byddwch hefyd yn medru dewis o blith modiwlau eraill Cymraeg.
Theatr a'r Cyfryngau

Modiwlau dewisol:
- Llwyfannu Theatr
- Rhaglenni Dogfen a Drama
- Theatr yn y Gymdeithas
- Celfyddyd Perfformio
- Ymarfer yn y Cyfryngau: Ffeithiol

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn dysgu drwy gyfrwng cyfuniad o ddarlithoedd, seminarau, dosbarthiadau a gweithdai. Ar ben hynny, byddwch yn gweithio ar draethodau, sgriptiau a chynyrchiadau. Fel rhan o'ch cwrs, disgwylir i chi fynychu cynyrchiadau theatrig yn rheolaidd. Gwahoddir cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr proffesiynol o fyd teledu, ffilm a'r theatr i drafod eu gwaith gyda'r myfyrwyr.

Mae rhai modiwlau'n cael eu hasesu trwy gyfrwng arholiadau a thraethodau, ac eraill ar sail gwaith cwrs yn unig.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
Q565 BA/CYM4
Hyd: 4 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefelau A (gan gynnwys gradd B mewn pwnc yn y Celfyddydau neu'r Dyniaethau, e.e. Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Hanes, Daearyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol).
- Nid oes rhaid cael Cymraeg Lefel A.
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys gradd H6 mewn pwnc yn y Celfyddydau neu'r Dyniaethau)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Cwrs mynediad ym maes y Celfyddydau neu'r Dyniaethau: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion Iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ei ystyried ar y cyd â chymhwyster arall mewn pwnc derbyniol yn y Celfyddydau neu'r Dyniaethau, e.e. Lefel A ac IB Uwch.

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tim Derbyniadau

Ffôn: 01248 382085
E-bost:
cymraeg.israddedig@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ysgolygymraeg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
O lenyddiaeth Gymraeg America i chwedlau canoloesol a'r nofel fodern; o ysgrifennu creadigol i brofiad gwaith a datblygiad proffesiynol: mae'r radd hon yn rhoi persbectif unigryw i chi ar ddiwylliant ein gwlad a'r byd ehangach.

Mae Cymraeg yn bwnc i fyfyrwyr o bob cefndir. Cynlluniwyd y cwrs hwn ar gyfer y rhai nad ydynt eto'n siarad gair o Gymraeg. Canolbwyntir yn y flwyddyn gyntaf ar gaffael Cymraeg fodern lafar, ac o'r ail flwyddyn ymlaen rhoddir mwy o bwyslais ar sgiliau ysgrifennu a bydd myfyrwyr yn cael eu dysgu fwyfwy gyda myfyrwyr iaith gyntaf. Yn ystod blwyddyn 3 a 4 bydd myfyrwyr yn dilyn prif gynllun gradd BA Cymraeg gyda'r holl fodiwlau'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Flwyddyn Sylfaen ar gyfer dechreuwyr a siaradwyr di-hyder ac mae'n canolbwyntio ar sgiliau ymarferol. Bydd cynnydd graddol mewn faint a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda modiwlau wedi'u cynllunio'n benodol i hwyluso'r broses o drosglwyddo o fod yn ddysgwr i fod yn siaradwr hyderus.

PAM DEWIS BANGOR?
- Byddwch yn cael cyfle i ddatblygu eich sgiliau'n llawn trwy ddysgu mewn grwpiau bach a thrwy ddilyn modiwlau arbennig.
- Rydym wedi ein lleoli yng Ngwynedd, lle mae mwyafrif y boblogaeth yn siarad Cymraeg. Nid oes unrhyw brifysgol arall yn cynnig amgylchedd ieithyddol mor rhyfeddol.
- Gallwch brofi pob agwedd ar fywyd myfyriwr trwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch cyfeillgar a naturiol.
- Mae ein darlithwyr wedi ennill gwobrau cenedlaethol pwysig: mae gennym ddau fardd coronog a dau sydd wedi ennill y fedal ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac mae ein darlithwyr wedi ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn sawl gwaith.
- Cewch eich dysgu gan staff academaidd sy'n arbenigwyr rhyngwladol blaenllaw yn eu gwahanol feysydd astudio.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae'r rhaglen bedair blynedd yn cynnwys Blwyddyn Sylfaen, sy'n arwain at y radd BA tair blynedd reolaidd (gweler hefyd BA Cymraeg, tudalen 190).

Blwyddyn Sylfaen
Mae'r flwyddyn hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu sgiliau siarad. Bydd myfyrwyr hefyd yn datblygu sgiliau ysgrifennu ac yn cael cyfle i ddysgu am hanes, llenyddiaeth a diwylliant Cymru. Yn ystod y flwyddyn hon, byddwch hefyd yn dysgu o dan arweiniad arbenigwyr yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion gogledd orllewin Cymru.

Modiwlau Gorfodol:
- Cymraeg Llafar Dwys 1 (Intensive Spoken Welsh 1)
- Cymraeg Llafar Dwys 2 (Intensive Spoken Welsh 2)
- Cyflwyno Llenyddiaeth Gymraeg (Introduction to Welsh Literature)

Blwyddyn 1
Byddwch yn ymuno â myfyrwyr blwyddyn 1af ar y cwrs BA Cymraeg (llwybr ail iaith).

Modiwlau Gorfodol:
- Ysgrifennu Cymraeg (Writing Welsh)
- Cymraeg Llafar (Spoken Welsh)
- Beirniadaeth Lenyddol Ymarferol (Practical Literary Criticism)
- Golwg ar Lenyddiaeth (Looking at Literature)
- Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol (Mediaeval Literature)
- Llên y Cyfnod Modern Cynnar (Literature of the Early Modern Period)
- Llenyddiaeth Gyfoes (Contemporary Literature)
- Llên a Llun (Literature and Visual Culture)

Modiwlau Dewisol:
Gallwch ddewis hyd at 20 credyd pellach o restr a all gynnwys:
- Golwg ar Lenyddiaeth II (Looking at Literature II)
- Defnyddio'r Gymraeg (Using Welsh)
- Sgriptio Teledu (Scriptwriting for Television)
- Gweithdy Creadigol (Creative Workshop)
- Theatr Fodern Ewrop (Modern European Theatre)
- Gwyddeleg Fodern (Modern Irish)
- O'r Senedd i'r Swyddfa (From the Senedd to the Office)

Blwyddyn 2
Modiwl Gorfodol:
- Ymarfer Ysgrifennu (Writing Practice)

Blwyddyn 3
Modiwl Gorfodol:
- Dissertation

Gall modiwlau dewisol ym Mlwyddyn 2 a 3 gynnwys:
- Llên a Chymdeithas 1500–1800 (Literature and Society 1500–1740)
- Beirdd yr Uchelwyr (Poets of the Nobility)
- Gweithdy Barddoniaeth (Poetry Workshop)
- Y Theatr Gymraeg Fodern (Modern Welsh Theatre)
- Y Sgrin Fach Gymraeg (The Welsh Small Screen)
- O'r Llyfr i'r Llwyfan (From the Book to the Stage)
- Dafydd ap Gwilym
- Gweithdy Cynganeddu (Welsh Strict Meter Workshop)
- Gweithdy Rhyddiaith (Prose Workshop)
- Chwedlau'r Oesau Canol (Medieval Legends)
- Barddoniaeth Fodern (Modern Poetry)
- Canu Llys (Court Poetry)
- Rhyddid y Nofel (The Freedom of the Novel)
- Llenyddiaeth Gymraeg America (Welsh American Literature)
- Sgriptio (Script writing)
- Datblygiad yr Iaith (Development of the Welsh Language)
- Athroniaeth a Llenyddiaeth (Philosophy and Literature)

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Ar wahân i'r hyfforddiant iaith dwys yn y flwyddyn gyntaf, byddwch yn treulio tua 10 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a grwpiau tiwtorial bach. Caiff hyn ei ategu gan astudiaeth breifat. Cewch eich asesu trwy arholiadau, traethodau, gwaith cwrs parhaus a chyflwyniadau llafar.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae galw mawr am raddedigion BA Cymraeg ac mae'r sgiliau rydych chi'n eu dysgu trwy wneud ein modiwlau mwy ymarferol yn baratoad gwych ar gyfer gyrfa. Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i weithio mewn amrywiaeth o feysydd, megis dysgu, cyfieithu, newyddiaduraeth, y cyfryngau, marchnata, cynllunio iaith, y gwasanaeth sifil.







"Fedra' i fyth ganmol digon ar Ysgol y Gymraeg Bangor. Ydi, mae hi'n Ysgol uchel ei pharch â'i darlithwyr yn ysgolheigion disglair yn eu meysydd, ac mae'r dewis o fodiwlau'n hynod eang. Ond, i mi, 'roedd Bangor yn fwy na hynny.

Ei hawyrgylch gyfeillgar, greadigol a chefnogol, ydi'r pethau fydd yn aros efo fi fwya' – y parodrwydd hwnnw i annog ac ysbrydoli, a thrîn myfyrwyr fel oedolion.

Yng nghyfnod fy astudiaethau, roeddwn i'n teithio llawer ac yn recordio a rhyddhau albymau cerddorol; yn byw bywyd hynod o brysur rhwng popeth. Heb gefnogaeth tiwtoriaid a darlithwyr Ysgol y Gymraeg Bangor, â'u gallu di-ail i danio brwdfrydedd myfyrwyr, 'rydw i'n sicr na fyddwn i wedi dyfalbarhau i orffen fy Ngradd yn y cyfnod prysur hwnnw yn fy mywyd. Mae fy niolch yn fawr i'r Ysgol a'i staff."

Meinir Gwilym
Cantores-gyfansoddwraig, cyflwynydd a chyfarwyddwr teledu

LLENYDDIAETH, IEITHYDDIAETH, IAITH SAESNEG, Y CYFRYNGAU A FFILM

GRADDAU BA LLENYDDIAETH
- **English Literature**
- **English Literature with English Language**
- **English Literature with/and Creative Writing**
- **English Literature with Journalism**
- **English Literature with Theatre & Performance**

FFILM, NEWYDDIADURAETH A'R CYFRYNGAU GRADDAU BA
- **Creative and Professional Writing**
- **Film Studies**
- **Film Studies with Theatre and Performance**
- **Journalism and Media Studies/ Newyddiaduraeth**
- **Astudiaethau'r Cyfryngau gyda Theatr a Pherfformio / Media Studies with Theatre & Performance**
- **Astudiaethau'r Cyfryngau / Media Studies**
- **Astudiaethau'r Cyfryngau gydag Iaith Fodern / Media Studies with a Modern Language**
- **Professional Writing and Film**
- **Professional Writing and Media**

IEITHYDDIAETH AC IAITH SAESNEG
- **English Language**
- **English Language with Creative Writing**
- **English Language with Film Studies**
- **English Language with Media Studies**
- **Linguistics**
- **Linguistics and the English Language**
- **English Language with English Literature**
- **Linguistics with English Literature**
- **English Language for TEFL**
- **International English Language for TEFL**

Graddau Cysylltiedig
- Creative Technologies (tud 106)
- Ffrangeg/Spanish/German gydag Astudiaethau'r Cyfryngau/Newyddiaduraeth (tud 235)
- History with Film Studies (tud 63)
- Hanes gyda Newyddiaduraeth (tud 183)
- Law with Creative Media Writing (tud 166)
- Law with Media Studies (tud 166)

ENGLISH LITERATURE
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
8H25 BA/ENGL
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Ar gyfer cyrsiau gradd cyd-anrhydedd, cofiwch fwrw golwg ar ofynion mynediad y pwnc arall a ddewiswch. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (Llenyddiaeth Saesneg/laith Saesneg/Saesneg yn ddelfrydol ond ddim yn hanfodol)
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (yn cynnwys H6 mewn Llenyddiaeth Saesneg neu laith Saesneg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Cwrs mynediad gydag elfen o Lenyddiaeth Saesneg: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir eu hystyried ar y cyd â chymhwyster arall mewn Llenyddiaeth neu laith Saesneg, e.e. Lefel A ac IB Uwch.

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Llenyddiaeth Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/saesneg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cwrs hwn yn cynnig cyfle i chi astudio ystod eang o lenyddiaeth Saesneg mewn grwpiau bach, dan arweiniad yr arbenigwyr ymchwil yn y maes, mewn awyrgylch o fenter greadigol, ysgolheigaidd er mwyn datblygu sgiliau dadansoddi beirniadol sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym wedi ymrwymo i ddysgu mewn grwpiau bach yn ogystal â darlithoedd, goruchwyliaeth un i un a rhoi adborth unigol.
- Rydym yn cynnig dewis eang a hyblyg o fodiwlau sy'n rhoi rhyddid i chi ddatblygu ac archwilio'ch diddordebau eich hun. Mae modiwlau'n cyfuno'r arloesol - *e.e. The Literature of Laughter, Children's Fiction, Transformative Writing a The Gothic in Literature a Film - gyda'r rhai mwy traddodiadol - e.e. Beowulf to Malory, Victorian Literature a Shakespeare.*
- Mae ein haddysgu wedi ei seilio ar ein gwaith ymchwil. Cafodd ein gwaith ymchwil ac ysgrifennu ei gydnabod fel o'r ansawdd orau un yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (REF 2014), gan ein rhoi yn y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig am ymchwil.
- Mae ein cysylltiadau agos â Pontio, Canolfan Gelfyddydau'r Brifysgol, theatrau lleol, grwpiau barddoniaeth a chymdeithasau myfyrwyr bywiog - yn cynnwys Cymdeithas Ddrama Saesneg Bangor (BEDS) a Seren (papur newydd y myfyrwyr) - mae llawer o gyfleoedd i chi gymryd rhan.
- Mae Bangor yn lle delfrydol ar gyfer ysgrifennu creadigol neu astudio llenyddol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Mae llawer o fodiwlau yn seiliedig ar genre, pob un yn ymdrin ag amrywiaeth eang o gyfnodau hanesyddol. Gallwch gymryd modiwlau pellach o'r rhestr isod ac, os dymunwch, o bynciau eraill.

Modiwl gorfodol:
- Reading, Thinking, Writing: This module will advance your skills in close reading and essay writing.

Gall modiwlau dewisol gynnwys:
- The Literature of Laughter
- Medieval Literature
- The Gothic in Literature and Film
- Landmarks in Literature
- Creative Writing – Prose
- Creative Writing – Poetry
- Children's Fiction

Blwyddyn 2
Mae llawer o fodiwlau yn seiliedig ar gyfnodau, wedi'u cynllunio i alluogi myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth fanylach o lenyddiaeth. Ar gyfer anrhydedd sengl byddwch yn dewis 6 modiwl o ystod o gyfnodau a phynciau llenyddol. Ar gyfer graddau ar y cyd gallwch ddewis 3 modiwl ac ar gyfer graddau 'gyda' rydych yn dewis 4.

Gall modiwlau dewisol gynnwys:
- Contemporary Literatures
- Literature and Modernity
- Victorian Literature
- The Romantic Period
- Jonson to Johnson
- Renaissance and Reformation
- Beowulf to Malory
- Hitchcock in Film

Blwyddyn 3
Yn achos anrhydedd sengl byddwch yn gweithio ar **Draethawd Hir** ar bwnc llenyddol o'ch dewis, yn cael eich goruchwylio'n unigol gan aelod staff. Byddwch hefyd yn gwneud 4 modiwl arbenigol Bydd myfyrwyr cyd-anrhydedd yn cymryd 2 fodiwl arbenigol ac yn ysgrifennu traethawd hir sy'n cysylltu 2 bwnc eu gradd.

Gall modiwlau dewisol gynnwys:
- Detective Fiction
- Experimental Writing
- Dystopian Fiction
- Shakespeare
- Jane Austen
- Arthurian Literature
- Literature and the Community
- Medieval Women's Writing
- Sex, Sects and Scandal
- Neo-Victorian

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych tua 10 awr o amser cyswllt yr wythnos. Caiff rhai modiwlau eu dysgu trwy seminarau a darlithoedd wythnosol. Dysgir llawer o fodiwlau trwy seminarau neu diwtorialau wythnosol yn unig, gyda'r pwyslais ar ddysgu mewn grwpiau bach. Dysgir y traethawd hir trwy oruchwyliaeth un i un a darlithoedd. Mae sawl modiwl yn cynnwys teithiau i'r theatr, gwylio ffilmiau, ymweld ag orielau a'r cyfle i glywed awduron gwadd. Mae asesu'n gynyddol trwy waith cwrs.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r radd hon o Brifysgol Bangor yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy rhagorol i'n myfyrwyr sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr mewn ystod o sectorau. Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio ym maes: addysgu, cyhoeddi, hysbysebu, newyddiaduraeth a'r cyfryngau, y gyfraith, gwaith cymdeithasol, busnes, gwleidyddiaeth, cyfrifeg, y celfyddydau perfformio, y gwasanaeth sifil, yr heddlu, adnoddau dynol, a'r byd academaidd. Bydd ein gradd yn dysgu sgiliau i chi fel dadansoddi beirniadol, defnyddio'r dychymyg i ddatrys problemau a chyflwyno. Dewis arall yw astudiaeth ôl-radd sy'n cynnig cyfle i chi ddyfnhau eich gwybodaeth a'ch arbenigedd ymhellach. Mae cyfleoedd gwych ar gyfer hyn ym Mangor.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
Q310 BA/ELEL
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (Llenyddiaeth Saesneg/laith Saesneg/Saesneg yn ddelfrydol ond ddim yn hanfodol)
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (yn cynnwys H6 mewn Llenyddiaeth Saesneg neu laith Saesneg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Cwrs mynediad gydag elfen o Lenyddiaeth Saesneg: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir eu hystyried ar y cyd â chymhwyster arall mewn Llenyddiaeth Saesneg neu laith Saesneg, e.e. Lefel A ac IB Uwch.

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Ieithyddiaeth ac laith Saesneg
Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

Llenyddiaeth Saesneg
Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/saesneg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r rhaglen radd hon yn cynnig cyfle i chi astudio ystod o fodiwlau mewn llenyddiaeth Saesneg ac astudio hanes a strwythur iaith Saesneg gyda thiwtoriaid arbenigol mewn leithyddiaeth. Byddwch yn cael eich dysgu mewn awyrgylch o fenter greadigol, ysgolheigaidd ac yn defnyddio'r dychymyg i ddatrys problemau gan ddatblygu sgiliau dadansoddi beirniadol sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym wedi ymrwymo i ddysgu mewn grwpiau bach yn ogystal â darlithoedd, goruchwyliaeth un i un a rhoi adborth unigol.
- Rydym yn cynnig dewis eang a hyblyg o fodiwlau, yn cyfuno Llenyddiaeth Saesneg - *e.e. The Literature of Laughter, Detective Fiction, Shakespeare a The Gothic in Literature a Film – ac laith Saesneg – e.e. mewn Bilingualism, Historical Linguistics, Language and Communication, a Psycholinguistics.*
- Mae ein haddysgu wedi ei seilio ar waith ymchwil. Cafodd ein gwaith ymchwil ac ysgrifennu ei gydnabod fel o'r ansawdd orau un yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (REF 2014), gan ein rhoi yn y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig am ymchwil.
- Mae'r Celfyddydau a Diwylliant yn llewyrchus. Mae ein cysylltiadau agos â Pontio, Canolfan Gelfyddydau'r Brifysgol, theatrau lleol, grwpiau barddoniaeth a chymdeithasau myfyrwyr bywiog - yn cynnwys Cymdeithas Ddrama Saesneg Bangor (BEDS) a Seren (papur newydd y myfyrwyr) - mae llawer o gyfleoedd i chi gymryd rhan.
- Mae Bangor yn lle delfrydol ar gyfer ysgrifennu creadigol neu astudio llenyddol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Fel myfyriwr 'gyda' Llenyddiaeth Saesneg, byddwch yn gwneud dwy ran o dair o'ch credydau mewn llenyddiaeth Saesneg ac un rhan o dair o'ch credydau mewn iaith Saesneg bob blwyddyn.

Modiwlau gorfodol:
- Reading, Thinking, Writing: Bydd y modiwl hwn yn datblygu eich sgiliau darllen yn fanwl ac ysgrifennu traethodau sgiliau hanfodol ar gyfer y radd.
- Introduction to Language

Gall modiwlau dewisol gynnwys:
Un modiwl 20 credyd o blith:
- Introduction to Phonetics and Phonology
- Introduction to English Grammar

3 modiwl (60 credyd) o blith a gall cynnwys:
- The Literature of Laughter
- The Gothic in Literature and Film
- Landmarks in Literature
- Medieval Literature
- Children's Fiction
- English Teaching in the Classroom

Blwyddyn 2
Mae'r flwyddyn hon yn eich galluogi i ddatblygu eich diddordebau mewn llenyddiaeth Saesneg gydag iaith Saesneg. Bydd dwy ran o dair o'ch credydau mewn llenyddiaeth Saesneg ac un rhan o dair o'ch credydau mewn iaith Saesneg.

Gall modiwlau Llenyddiaeth Saesneg gynnwys:
- Contemporary Literature
- Literature and Modernity
- Victorian Literature
- The Romantic Period
- Jonson to Johnson
- Renaissance and Reformation
- Beowulf to Malory
- Hitchcock in Film
- Young Adult Fiction

Gall modiwlau Iaith Saesneg gynnwys:
- Variation in English
- The History of English
- English Sentence Structure

Blwyddyn 3
Byddwch yn ysgrifennu **Traethawd Hir** ar bwnc a benderfynir gennych mewn ymgynghoriad â'ch tiwtor. Byddwch hefyd yn gwneud 2 fodiwl arbenigol mewn llenyddiaeth Saesneg a 2 arall o'r opsiynau iaith Saesneg sydd ar gael.

Modiwl gorfodol:
- Traethawd Hir

Byddwch yn dewis 2 fodiwl o opsiynau Llenyddiaeth Saesneg a all gynnwys:
- Detective Fiction
- Experimental Writing
- Dystopian Fiction
- Shakespeare
- Sex, Sects and Scandal
- Jane Austen
- Neo-Victorian

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych tua 10 awr o amser cyswllt yr wythnos. Caiff rhai modiwlau eu dysgu trwy seminarau a darlithoedd wythnosol. Dysgir llawer o fodiwlau trwy seminarau neu diwtorialau wythnosol yn unig, gyda'r pwyslais ar ddysgu mewn grwpiau bach. Dysgir y traethawd hir trwy oruchwyliaeth un i un a darlithoedd. Mae sawl modiwl yn cynnwys teithiau i'r theatr, gwylio ffilmiau, ymweld ag orielau a'r cyfle i glywed awduron gwadd. Mae asesu'n gynyddol trwy waith cwrs.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cyrsiau hyn yn darparu rhagolygon gwaith rhagorol i fyfyrwyr, mewn amrywiaeth eang o yrfaoedd. Yn y gorffennol mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon, i'r byd cyhoeddi, hysbysebu, newyddiaduraeth, y gyfraith, gwaith cymdeithasol, busnes, gwleidyddiaeth, cyfrifeg, yr heddlu, adnoddau dynol a'r byd academaidd.

Bydd ein gradd yn dysgu sgiliau i chi fel dadansoddi beirniadol, defnyddio'r dychymyg i ddatrys problemau a chyflwyno. Mae'r sgiliau sydd ganddynt yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr. Dewis arall yw astudiaeth ôl-radd.

ENGLISH LITERATURE WITH CREATIVE WRITING / ENGLISH LITERATURE & CREATIVE WRITING
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
2D13 BA/ENGLC
2P17 BA/ENCW
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (Llenyddiaeth Saesneg/laith Saesneg/Saesneg yn ddelfrydol ond ddim yn hanfodol)
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (yn cynnwys H6 mewn Llenyddiaeth Saesneg neu laith Saesneg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Cwrs mynediad gydag elfen o Lenyddiaeth Saesneg: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir eu hystyried ar y cyd â chymhwyster arall mewn Llenyddiaeth Saesneg

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Llenyddiaeth Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/saesneg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cyrsiau cyffrous hyn yn datblygu cysylltiadau rhwng yr astudiaeth feirniadol o Lenyddiaeth Saesneg a'r ymarfer creadigol o ysgrifennu mewn sawl ffurf. Byddwch yn dysgu ymdrin â thestunau fel darllenydd ac awdur, yn darganfod cysylltiadau a synergedd rhwng y gwahanol safbwyntiau hyn. Trwy wybodaeth feirniadol a phrofiad ymarferol, byddwch yn astudio ystod eang o Lenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol mewn grwpiau bach neu weithdai, dan arweiniad arbenigwyr ymchwil yn y maes neu gan awduron cyhoeddedig, mewn awyrgylch o fenter ysgolheigaidd, greadigol er mwyn datblygu sgiliau dadansoddi beirniadol a defnyddio'r dychymyg i ddatrys problemau sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Fel myfyriwr 'ac' Ysgrifennu Creadigol, byddwch yn gwneud hanner eich modiwlau mewn ysgrifennu creadigol bob blwyddyn. Fel myfyriwr 'gydag' Ysgrifennu Creadigol, byddwch yn gwneud un rhan o dair o'ch modiwlau mewn ysgrifennu creadigol bob blwyddyn. Yn y ddau achos, bydd gweddill eich modiwlau mewn llenyddiaeth Saesneg (gweler tud 198).

Blwyddyn 1
Mae llawer o fodiwlau yn seiliedig ar genre, pob un yn ymdrin ag ystod eang o gyfnodau hanesyddol, yn canolbwyntio ar ysgrifennu mewn genre penodol. Cewch eich cyflwyno i amrywiaeth o dechnegau mewn ysgrifennu creadigol. Nod y modiwlau hyn yw datblygu sgilliau myfyrwyr sy'n ofynnol ar gyfer gradd israddedig mewn Llenyddiaeth Saesneg ac gydag Ysgrifennu Creadigol.

Gall modiwlau gynnwys:
- Creative Writing - Poetry*
- Creative Writing - Prose*
- Introduction to Screenwriting
- Reading, Thinking, Writing*
- Children's Fiction**
- The Literature of Laughter
- Exploring America: an Introduction to US Literature
- The Gothic in Literature and Film
- Landmarks in Literature
- Heroes and Villains: an Introduction to Medieval Literature

* yn orfodol ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg ac/ gydag Ysgrifennu Creadigol
** yn orfodol ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Blwyddyn 2
Mae'r ail flwyddyn yn eich galluogi i ddatblygu eich diddordebau yn y nofel, ffuglen fer, gwaith ffeithiol creadigol a barddoniaeth.

Gall modiwlau gynnwys:
- The Novel
- Transformative Writing
- Short Fiction and Poetry
- Writing Selves
- Contemporary Literature
- Creative Non-fiction

Blwyddyn 3
Yn y drydedd flwyddyn cewch gyfle i archwilio un maes yn fwy trylwyr yn y **Traethawd Hir**. Cewch eich goruchwylio ar sail un i un gan awdur sy'n ymarfer wrth i chi gwblhau nofel, casgliad o straeon byrion neu farddoniaeth i'r safon uchaf un. Bydd dysgu sut i adfyfyrio'n feirniadol ar eich ymarfer eich hun yn eich paratoi hefyd ar gyfer gyrfa annibynnol yn ysgrifennu neu ar gyfer astudiaeth ôl-radd bellach.

Modiwl gorfodol:
- Creative Writing - Traethawd Hir

Mae'r modiwlau'n cynnwys:
- Experimental Writing
- Cross-Cultural Writing
- The Open Road
- Working-class Writing
- Detective Fiction

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych tua 10 awr o amser cyswllt yr wythnos. Mae'r pwyslais ar ddysgu mewn grwpiau bach trwy weithdai. Y tu allan i'r amser cyswllt hwn, byddwch yn gweithio ar eich gwaith ysgrifennu eich hun o fewn y gymuned gefnogol o awduron creadigol ym Mangor. Byddwch yn darllen yn eang i gefnogi eich gwaith ysgrifennu eich hun a'ch astudiaeth lenyddol. Nid oes unrhyw arholiadau i'r modiwlau ysgrifennu creadigol ac mae digon o gymorth ar gael wrth i chi ddatblygu portffolios ar gyfer pob asesiad. Bydd mynd i sgyrsiau a pherfformiadau gan awduron, cyhoeddwyr a golygyddion yn eich helpu i weld eich gwaith ysgrifennu yng nghyd-destun y diwylliant llenyddol ehangach yng Nghymru a thu hwnt. Ceir digwyddiadau 'meic agored' bywiog hefyd, yn ogystal ag ymweliadau gan nifer o awduron gwadd bob semester.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cyrsiau hyn yn darparu rhagolygon gwaith rhagorol i fyfyrwyr, mewn dewis eang o yrfaoedd. Yn y gorffennol mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i waith ym maes cysylltiadau cyhoeddus, addysg, cyhoeddi, hysbysebu, newyddiaduraeth, y gyfraith, gwaith cymunedol a'r byd academaidd.

Mae cyflogwyr mewn ystod eang o sectorau yn gwerthfawrogi'n fawr sgiliau dadansoddi beirniadol, defnyddio'r dychymyg i ddatrys problemau a chyflwyno. Mae ein graddedigion fel rheol yn annibynnol eu meddwl, ond eto'n gallu gweithio fel rhan o dîm effeithiol. Dewis arall yw astudiaeth ôl-radd, sy'n cynnig cyfle i raddedigion ddyfnhau eu gwybodaeth a'u harbenigedd ymhellach, fel eu bod yn rhagori ar fyfyrwyr eraill. Mae cyfleoedd gwych i wneud hyn ym Mangor. Mewn gwirionedd, mae'r gallu i ddefnyddio geiriau'n effeithiol yn fantais fawr mewn bron unrhyw yrfa.

ENGLISH LITERATURE WITH JOURNALISM
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
O65C BA/ELJ
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (Llenyddiaeth Saesneg/laith Saesneg/Saesneg yn ddelfrydol ond ddim yn hanfodol)
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (yn cynnwys H6 mewn Llenyddiaeth Saesneg neu laith Saesneg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Cwrs mynediad gydag elfen o Lenyddiaeth Saesneg: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir eu hystyried ar y cyd â chymhwyster arall mewn Llenyddiaeth Saesneg

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Llenyddiaeth Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/saesneg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn eich galluogi i astudio Llenyddiaeth Saesneg gyda Newyddiaduraeth. Yn ogystal â'r dewis eang o fodiwlau llenyddiaeth sydd ar gael, byddwch yn gallu astudio pynciau fel newyddiaduraeth ddarlledu, moeseg cyfryngau a ffotonewyddiaduraeth.

PAM DEWIS BANGOR?
- Byddwch yn cael eich dysgu gan staff sy'n ymchwilio yn gyson, yn cyhoeddi llyfrau ac erthyglau yn y meysydd rydych chi'n eu hastudio. Mae gennym draddodiad cadarn o lwyddiant ym maes ymchwil ac mae gan ein haelodau staff enw da rhyngwladol yn eu gwahanol feysydd.
- Mae gan y staff newyddiaduraeth brofiad cyfoes o newyddiaduraeth ddarlledu a chyhoeddi ac maent yn cadw mewn cysylltiad â'r diwydiant.
- Rydym yn cynnig dewis eithriadol o eang o fodiwlau llenyddiaeth Saesneg mewn amrywiaeth o gyfnodau o 700AD i'r presennol.
- Rydym wedi ymrwymo i adysgu mewn grwpiau bach a chyflwynir y mwyafrif o'n modiwlau trwy weithdai wythnosol neu seminarau.
- Mae ein canolfan y cyfryngau yn cynnwys y stiwdios a'r offer digidol a thechnolegol cyfrifiadurol diweddaraf. Mae gennym hefyd stiwdio deledu aml-gamera gydag oriel gynhyrchu, stiwdio radio sain gyda chyfleusterau hunan-weithredu, ystafelloedd golygu fideo, ystafelloedd golygu sain digidol a nifer o unedau fideo a sain symudol ar gyfer ffilmio a recordio ar leoliad.
- Mae Bangor yn cyfuno cyfarwyddyd ymarferol gydag addysg gref yn y dyniaethau a chaiff ei chydnabod am gynhyrchu graddedigion sy'n gallu ymdopi â'r sgiliau niferus sy'n ofynnol yn awr gan newyddiadurwyr yn y DU, Ewrop a thu hwnt.



BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Bydd dwy ran o dair o'ch modiwlau mewn llenyddiaeth Saesneg*. Byddwch yn cymryd gwerth 40 credyd mewn newyddiaduraeth bob blwyddyn.

*Gweler cofnod BA Llenyddiaeth Saesneg ar gyfer modiwlau.

Blwyddyn 1
Yn ogystal â modiwl gorfodol sgiliau llenyddiaeth Saesneg (e.e. darllen, meddwl, ysgrifennu), byddwch yn dewis tri modiwl arall (60 credyd) o restr o'r opsiynau sydd ar gael.

Gall modiwlau newyddiaduraeth gynnwys:
- Cyflwyniad i Newyddiaduraeth Ymarferol
- Issues in Media & Journalism

Blywyddyn 2 a 3
Yn ogystal â chymryd modiwlau pellach mewn llenyddiaeth Saesneg, gall y modiwlau newyddiaduraeth cynnwys:
- Journalism and Risk
- Global News Agenda
- Newyddiaduraeth Ymarferol: MCD
- Digital Journalism
- Practical Digital Journalism

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych dair i bedair awr o amser cyswllt fesul modiwl yr wythnos. Cewch gyfle hefyd i gael profiad ymarferol yng nghanolfan y cyfryngau. Defnyddir nifer o wahanol ddulliau o asesu sy'n gweddu i'r math o bwnc a astudir (e.e. traethodau, arholiadau gyda llyfrau a heb lyfrau, arholiadau a ryddhawyd ymlaen llaw, portffolios, projectau).

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r cyrsiau hyn yn darparu rhagolygon gwaith rhagorol i fyfyrwyr, yn cynnwys llawer o opsiynau posibl, fel dysgu, y cyfryngau, newyddiaduraeth, y celfyddydau perfformio, cyllid neu'r gyfraith. Gan fod elfennau newyddiaduraeth y cwrs hwn yn meddu ar ogwydd galwedigaethol cryf, mae ein graddedigion wedi llwyddo i gael gyrfaoedd mewn meysydd academaidd ac ymarferol: dysgu cyrsiau sy'n gysylltiedig â newyddiaduraeth, a gweithio yn y diwydiant papurau newydd ac mewn newyddiaduraeth y cyfryngau ar radio a theledu. I gael rhagor o wybodaeth am ein graddedigion a'u rhagolygon, ewch i'n gwefan.

ENGLISH LITERATURE WITH THEATRE AND PERFORMANCE
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
32M8 BA/ELTP
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (Llenyddiaeth Saesneg/laith Saesneg/Saesneg yn ddelfrydol ond ddim yn hanfodol)
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (yn cynnwys H6 mewn Llenyddiaeth Saesneg neu laith Saesneg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Cwrs mynediad gydag elfen o Lenyddiaeth Saesneg: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir eu hystyried ar y cyd â chymhwyster arall mewn Llenyddiaeth Saesneg

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Llenyddiaeth Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/saesneg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r radd hon yn eich galluogi i astudio theatr a datblygu projectau perfformio mewn ffordd sy'n ategu'r modiwlau craidd mewn llenyddiaeth Saesneg. Mae'r cwrs yn archwilio pob agwedd ar theatr ymarferol a bydd disgwyl i chi ddatblygu arbenigedd mewn o leiaf un o'r meysydd canlynol: perfformio, cyfarwyddo, dylunio, goleuo a rheoli llwyfan.

PAM DEWIS BANGOR?
Yn ogystal â'r manteision a restrir ar y dudalen 198:
- Mae gennym gysylltiadau da iawn â'r theatr broffesiynol, yn enwedig yng Nghymru, ac mae modiwlau fel Theatre in Society yn cynnwys cydweithio ar raddfa fawr gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis.
- Ar gyfer gwaith ymarfer a pherfformio mae gennym ni'n benodol yr hawl i ddefnyddio Neuadd John Phillips, sef lle perfformio o'r radd flaenaf gyda system goleuadau cyfrifiadurol a sain digidol.
- Rydym wedi ymrwymo i ddysgu mewn grwpiau bach a chyflwynir y mwyafrif o'n modiwlau trwy weithdai wythnosol neu seminarau.
- Mae'r rhan fwyaf o'r asesu ar gyfer modiwlau theatr yn seiliedig ar waith cwrs ymarferol.
- Mae cymaint o bwyslais ar theatr fel gweithgaredd cydweithredol a chymunedol ag y sydd ar berfformio dramâu. Mae dyfeisio ar gyfer safleoedd a chynulleidfaoedd penodol yn elfen hanfodol.
- Caiff testunau clasurol, a astudir mewn theatr a pherfformio, eu dadansoddi'n bennaf o safbwynt modern. Mae hyn yn ategu pwyslais y modiwlau llenyddiaeth Saesneg ar destunau a'r pwyslais hanesyddol.
- Mae adolygu cynhyrchiadau theatr ac ymweld â theatrau yn rhan o'r asesu ym mhob modiwl theatr a pherfformio.



BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Bydd dwy ran o dair o'ch modiwlau mewn llenyddiaeth Saesneg (gweler tud 198 ar gyfer modiwlau). Byddwch yn gwneud 2 fodiwl mewn astudiaethau theatr bob blwyddyn, gan ffurfio un rhan o dair o'ch cwrs.

Mae'r modiwlau Theatr yn cynnwys:

Blwyddyn 1
- Dyfeisio Theatr
- Perfformio ar gyfer y Llwyfan a'r Sgrin

Blwyddyn 2 a 3
- Ymarfer Theatr Cyfoes
- Perfformio Safle Benodol
- Theatre & Performance: The Self
- Professional Practice

Byddwch yn datblygu sgiliau mewn agweddau a ddewisir o gynhyrchiad theatrig fel y prif elfen o'ch asesiad.

Byddwch hefyd yn dewis modiwlau o'r radd BA English Literature (gweler tudalen 198).

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r modiwlau theatr yn hynod ymarferol ac yn y rhan fwyaf ohonynt byddwch yn gweithio ar gyflwyniadau ymarferol. Fel rheol, mae 60% o farc y modiwl am gyfraniad unigol i berfformiad, 20% am draethawd dadansoddol ar y broses greadigol, ac 20% am adolygu cynhyrchiadau gan theatrau proffesiynol.

RHAGOLYGON GYRFA
Gyda'r radd hon mae eich rhagolygon gyrfa yn cynnwys llawer o opsiynau posibl, fel dysgu, y cyfryngau, newyddiaduraeth, y celfyddydau perfformio, cyllid neu'r gyfraith. Gan fod elfennau Theatr y cwrs hwn yn meddu ar ogwydd galwedigaethol cryf, mae ein graddedigion wedi llwyddo i gael gyrfaoedd mewn meysydd academaidd ac ymarferol: dysgu theatr a drama, a gweithio mewn theatr, ar y llwyfan a thu cefn i'r llwyfan.

ENGLISH LITERATURE PLUS ANOTHER SUBJECT
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
Gweler y testun cyfagos
Hyd: 3 blynedd; 4 blynedd ar gyfer graddau cyd-anrhydedd gyda phwnc Ieithoedd a Diwylliannau Modern

GOFYNION MYNEDIAD:
Dylech edrych hefyd ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis.
Mae'r cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff (o leiaf 104 pwynt ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg ac laith Fodern a Tsieinëeg) o gymhwyster lefel 3 * e.e.:
- Lefel A (Llenyddiaeth Saesneg/laith Saesneg/ Saesneg yn ddelfrydol ond ddim yn hanfodol)
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (yn cynnwys H6 mewn Llenyddiaeth Saesneg neu laith Saesneg; H5 ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg ac laith Fodern a Tsieinëeg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM (MMM ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg ac laith Fodern a Tsieinëeg **
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Cwrs mynediad gydag elfen o Lenyddiaeth Saesneg: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir eu hystyried ar y cyd â chymhwyster arall mewn Llenyddiaeth Saesneg neu laith Saesneg, e.e. Lefel A ac IB Uwc

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Llenyddiaeth Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/saesneg

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'n bosibl astudio dau bwnc yn gyfartal o fewn un cwrs gradd. Rydym yn cynnig ystod o raddau cyd-anrhydedd llenyddiaeth Saesneg. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnig cyfle i fyfyrwyr gyfuno pynciau amrywiol ond ategol. Gweler isod am yr opsiynau sydd ar gael.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym yn cynnig dewis eang o fodiwlau mewn amrywiaeth o gyfnodau llenyddol o c.700AD hyd heddiw, gan roi'r rhyddid i chi ddatblygu ac archwilio'ch diddordebau eich hun.
- Mae ein hystod o fodiwlau yn eich galluogi i ganolbwyntio'ch diddordebau ar thema neu awdur penodol.
- Rydym wedi ymrwymo i ddysgu ein myfyrwyr mewn grwpiau bach.
- Cewch eich dysgu gan staff sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n ymchwilwyr cyson, yn cyhoeddi llyfrau ac erthyglau yn y meysydd rydych chi'n eu hastudio.
- Mae'r aelodau staff yn enwog yn fyd-eang am eu hymchwil.

LLENYDDIAETH SAESNEG A PHWNC ARALL
Mae'r rhaglenni 3 blynedd hyn yn cynnig cyfle i astudio 50% Llenyddiaeth Saesneg, 50% mewn pwnc arall. Mae gwybodaeth am fodiwlau llenyddiaeth Saesneg ar dudalen 198. Dylech hefyd wirio cynnwys y cwrs a'r gofynion mynediad i'r pwnc arall o'ch dewis yn y prosbectws hwn neu ar y wefan.

English Language & Literature	QQC3 BA/ELLIT
English Literature a Cherddoriaeth	32N6 BA/ELM
English Literature & Criminology/Criminal Justice	M3Q9 BA/ENC
Film Studies & English Literature	3P3Q BA/FSEL
Hanes a English Literature	3QV1 BA/ELH
Linguistics & English Literature	1Q3Q BA/ELL
Astudiaethau'r Cyfryngau a English Literature	3HPQ BA/MEN
Philosophy and Religion & English Literature	3VQV BA/PREN
Sociology & English Literature	3L3Q BA/SEL



LLENYDDIAETH SAESNEG AC IAITH FODERN
Mae'r cyrsiau integredig hyn yn eich galluogi i gyfuno astudio mewn llenyddiaeth Saesneg gydag arbenigedd iaith.

Mae'r rhaglenni hyn yn para 4 blynedd gan y treulir y drydedd flwyddyn dramor. I gael rhagor o wybodaeth am elfen iaith y graddau, gweler yr adran leithoedd Modern sy'n dechrau ar dudalen 223.

English Literature & Chinese	T124 BA/LITCH
English Literature & Italian	09V3 BA/ELI
English Literature & Spanish	3YT5 BA/ELIS
French & English Literature	06CDBA/FEL
German & English Literature	3N7S BA/GEL

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych oddeutu 10 awr o amser cyswllt yr wythnos. Addysgir rhai modiwlau gan seminarau a darlithoedd wythnosol; addysgir llawer o fodiwlau trwy seminarau wythnosol neu diwtorialau yn unig. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu, amrywiol sy'n gweddu i'r math o bwnc a astudir.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae llawer o raddedigion yn mynd ymlaen i wneud cyfraniadau eithriadol yn y maes o'u dewis. Mae Danny Boyle, cyfarwyddwr Slumdog Millionaire ac a enillodd Oscar, yn un o'n cyn-fyfyrwyr. Fel rheol mae ein graddedigion yn gadael prifysgol wedi eu paratoi ar gyfer y byd gwaith, naill ai yma yn y DU neu dramor. Mae llawer yn llwyddo mewn gyrfaoedd sy'n cynnwys y byd busnes, diwydiannau creadigol, newyddiaduraeth, addysgu a'r Gwasanaeth Sifil.

ENGLISH LANGUAGE
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
Q301 BA/EL
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
leithyddiaeth ac laith Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae Saesneg yn iaith bwysig yn gymdeithasol, yn wleidyddol ac yn economaidd. Mae'n iaith y byd, ac amcangyfrifir bod 1,500 miliwn o siaradwyr ledled y byd. Saesneg hefyd yw'r iaith y gellir ei disgrifio orau yn y byd. Mae'r modiwlau rhagarweiniol i'r radd hon yn edrych ar faterion fel sut mae ein hiaith yn newid yn ôl y cyd-destun lle caiff ei defnyddio, sut mae defnydd iaith dynion a merched yn wahanol, sut rydym yn caffael iaith a pham a sut y mae'n datgymalu.

PAM DEWIS BANGOR?
- Cewch eich dysgu gan staff sy'n ymchwilwyr cynhyrchiol mewn amrywiaeth o feysydd damcaniaethol a chymhwysol sy'n gysylltiedig â'r cyrsiau - mae gan nifer ohonynt enw da rhyngwladol yn y maes.
- Bydd ein modiwlau'n rhoi golwg wyddonol i chi ar strwythur a defnydd iaith, yn ogystal ag ar hanes Saesneg a sosioieithyddiaeth (y berthynas rhwng iaith a chymdeithas).
- Mae ein modiwlau yn ymdrin ag ystod eang o faterion pwnc, ac ar ôl y flwyddyn gyntaf byddwch yn gallu canolbwyntio ar gwestiynau penodol sydd o ddiddordeb mwyaf ichi.
- Mae ein hamrywiaeth eang o gyfleusterau dysgu yn cynnwys casgliad helaeth o lyfrau ar leithyddiaeth ac laith Saesneg, labordy lleferydd, stiwdio recordio ac offer sain/fideo/teledu.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Yn y flwyddyn gyntaf byddwch yn dewis o ddetholiad o fodiwlau. Bydd y rhain yn cynnwys modiwlau gorfodol mewn iaith Saesneg. Mae modiwlau yn cynnwys pynciau fel: Introduction to Language, Introduction to Phonetics, Phonology, Introduction to English Grammar a Introduction to Meaning.

Byddwch yn dewis gweddill eich modiwlau o restr ddewisol y pwnc Saesneg, neu o'r modiwlau a gynigir mewn pynciau eraill

Bydd gennych hefyd yr opsiwn o gymryd modiwlau cyfrwng Cymraeg ar agweddau craidd o ieithyddiaeth.

Blwyddyn 2 a 3
Yn ystod y ddwy flynedd hyn byddwch yn gwneud chwe modiwl 20 credyd. Ym Mlwyddyn 2 bydd rhai modiwlau yn orfodol, a byddant yn cynnwys modiwlau manwl (e.e. ar ffonoleg, cystrawen, semanteg, a hanes Saesneg). Ym Mlwyddyn 3 bydd gennych ddewis mwy rhydd o fodiwlau, a bydd gofyn i chi gwblhau astudiaeth traethawd hir ar bwnc ieithyddol o'ch dewis fel un o'ch modiwlau. Gall modiwlau Blwyddyn 3 gynnwys pynciau fel:
- Dwyieithrwydd
- Language Acquisition
- Psycholinguistics
- Phonetics and Phonology
- Discourse Analysis
- Welsh Linguistics (cyfrwng Saesneg)
- Teaching English as a Foreign Language (practice and theory)
- Language Change

Mae modiwlau cyfrwng Cymraeg hefyd ar gael fel opsiynau ym mlwyddyn 2 a 3.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 10 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a chyfleoedd i siarad un-i-un gyda thiwtoriaid. Byddwch hefyd yn treulio amser yn darllen, casglu a dadansoddi data iaith naturiol ac yn gweithio ar dasgau ymarferol yn y labordy. Bydd eich traethawd hir yn eich galluogi i ymchwilio'n fanwl i bwnc o ddiddordeb i chi a byddwch yn gweithio dan oruchwyliaeth aelod staff.

Mae asesu yn cynnwys ysgrifennu traethodau, aseiniadau ymarferol, astudiaethau ymchwil empirig, cyflwyniadau llafar ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y radd hon yn cynyddu eich gwybodaeth am strwythur a defnydd iaith at ddibenion cyfathrebu, hanes yr iaith a swyddogaeth Saesneg yn y byd. Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i wneud astudiaeth academaidd bellach fel TAR a chymwysterau ôl-radd gan arwain at therapi iaith a lleferydd, dysgu dramor, a hyfforddiant arall er mwyn dilyn gyrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol, gwaith yr heddlu, gwaith yn ymwneud â mewnfudo, llywodraeth leol, bancio a chyfrifeg, llyfrgellyddiaeth, y cyfryngau a newyddiaduraeth, ysgrifennu creadigol a chyhoeddi.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

ENGLISH LANGUAGE WITH CREATIVE WRITING
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
Q3WL BA/ELCW
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
leithyddiaeth ac laith Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Yn ystod y cwrs hwn byddwch yn treulio dwy ran o dair o'ch amser yn astudio laith Saesneg (gweler tudalen 204) ac un rhan o dair yn astudio Ysgrifennu Creadigol (gweler tudalen 213).

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ein staff yn ymchwilwyr cyson mewn ystod o feysydd damcaniaethol a chymhwysol - mae gan nifer ohonynt enw da rhyngwladol yn y maes.
- Bydd ein modiwlau yn rhoi golwg wyddonol i chi ar strwythur a defnydd iaith, seicoieithyddiaeth (y berthynas rhwng y meddwl ac iaith) a sosioieithyddiaeth (y berthynas rhwng iaith a chymdeithas).
- Mae ein modiwlau yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion pwnc, ac ar ôl y flwyddyn gyntaf byddwch yn gallu canolbwyntio ar gwestiynau penodol sydd o ddiddordeb mwyaf ichi.
- Mae ein hystod eang o gyfleusterau dysgu yn cynnwys casgliad helaeth o lyfrau ar leithyddiaeth ac laith Saesneg, labordy lleferydd, stiwdio recordio ac offer sain/fideo/teledu.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Byddwch yn gwneud pedwar modiwl mewn iaith Saesneg a dau mewn ysgrifennu creadigol.

Modiwlau laith Saesneg Gorfodol:
- Introduction to Language: how to be a linguist; the different subfields of linguistics; introduce basic linguistic terminology; academic skills.
- Introduction to English Grammar: how to describe the grammatical structure of the English Language on the word level (morphology).

Yn ogystal â 2 fodiwl arall o restr a all gynnwys:
- Language and Society
- Introduction to Meaning
- Introduction to Phonetics & Phonology

Bydd gennych hefyd yr opsiwn o gymryd modiwlau cyfrwng Cymraeg ar agweddau craidd o ieithyddiaeth.

Modiwlau Ysgrifennu Creadigol gorfodol:
- Creative Writing: Prose
- Creative Writing: Poetry

Blwyddyn 2 a 3
Yn ystod y ddwy flynedd hyn byddwch yn gwneud wyth modiwl 20 credyd yn yr iaith Saesneg a phedwar modiwl 20 credyd mewn ysgrifennu creadigol.

Modiwlau laith Saesneg Gorfodol:
Yn ystod y ddwy flynedd byddwch yn gwneud yr hyn sy'n cyfateb i wyth modiwl 20 credyd mewn iaith Saesneg a phedwar modiwl 20 credyd mewn ysgrifennu creadigol.

Bydd modiwlau gorfodol yn yr 2il flwyddyn yn cynnwys pynciau fel ffonoteg a ffonoleg, cystrawen, semanteg, a hanes Saesneg. Ym mlwyddyn 3 cewch ddewis o ystod eang o fodiwlau iaith Saesneg ac ysgrifennu creadigol. I gael rhagor o fanylion darllenwch y rhestr ar gyfer iaith Saesneg (tudalen 204), yn cynnwys y gofyniad am draethawd hir. Darllenwch y cofnod ar gyfer ysgrifennu creadigol (tudalen 213) i weld y dewisiadau modiwl eraill.

Mae enghreifftiau o bynciau traethodau hir diweddar yn cynnwys:
Language change and the internet; language policy in cases of genocide; bilinguals' word-processing; gender-neutral pronouns in English; stress patterns in child speech; influence of the media on Welsh-English code-switching patterns.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 10 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Byddwch hefyd yn treulio amser yn darllen, casglu a dadansoddi data iaith naturiol ac yn gweithio ar dasgau ymarferol yn y labordy. Bydd eich traethawd hir yn eich galluogi i ymchwilio'n fanwl i bwnc o ddiddordeb i chi a byddwch yn gweithio dan oruchwyliaeth aelod staff.

Mae'r asesu'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau - ysgrifennu traethodau, aseiniadau ymarferol, astudiaethau ymchwil empirig, cyflwyniadau llafar ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y radd hon yn cynyddu eich gwybodaeth am strwythur a defnydd iaith at ddibenion cyfathrebu, hanes yr iaith a swyddogaeth Saesneg yn y byd, a'ch gallu o ran strwythur gramadegol a defnyddio Saseneg. Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i wneud astudiaeth academaidd bellach fel TAR a chymwysterau ôl-radd gan arwain at therapi iaith a lleferydd, dysgu dramor, a hyfforddiant arall er mwyn dilyn gyrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol, gwaith yr heddlu, gwaith yn ymwneud â mewnfudo, llywodraeth leol, bancio a chyfrifeg, llyfrgellyddiaeth, y cyfryngau a newyddiaduraeth, ysgrifennu creadigol a chyhoeddi.

ENGLISH LANGUAGE WITH FILM STUDIES
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
Q3WP BA/ELFS
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
leithyddiaeth ac laith Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Byddwch yn treulio dwy ran o dair o'ch amser yn astudio iaith Saesneg (gweler tudalen 204) ac un rhan o dair yn astudio astudiaethau ffilm (tudalen 215).

PAM DEWIS BANGOR?
- Ym Mangor cewch eich dysgu gan staff sy'n ymchwilwyr cyson mewn amrywiaeth o feysydd damcaniaethol a chymhwysol sy'n gysylltiedig â'r cyrsiau - mae gan nifer ohonynt enw da rhyngwladol.
- Bydd ein modiwlau yn rhoi golwg wyddonol i chi ar strwythur a defnydd iaith, seicoieithyddiaeth (y berthynas rhwng y meddwl ac iaith) a sosioieithyddiaeth (y berthynas rhwng iaith a chymdeithas).
- Mae ein modiwlau yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion pwnc, ac ar ôl y flwyddyn gyntaf byddwch yn gallu canolbwyntio ar gwestiynau penodol sydd o ddiddordeb mwyaf ichi.
- Mae ein hamrywiaeth eang o gyfleusterau dysgu yn cynnwys casgliad helaeth o lyfrau, labordy lleferydd, stiwdio recordio ac offer sain/fideo/teledu.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Byddwch yn gwneud pedwar modiwl 20 credyd mewn iaith Saesneg a dau mewn astudiaethau ffilm.

Modiwlau 20-credyd gorfodol ar gyfer Iaith Saesneg:
- Introduction to Language: how to be a linguist; the different subfields of linguistics; introduce basic linguistic terminology; academic skills.
- Introduction to English Grammar: how to describe the grammatical structure of the English Language on the word level (morphology)

Dau fodiwl arall o restr a all gynnwys:
- Iaith a Chymdeithas
- Introduction to Meaning
- Introduction to Phonetics & Phonology

Modiwlau Ffilm gorfodol:
- Hanes Film
- Iaith y Ffilm

Blwyddyn 2 a 3
Yn ystod y ddwy flynedd byddwch yn gwneud wyth modiwl 20 credyd mewn iaith Saesneg a phedwar mewn astudiaethau ffilm, ac unrhyw rai a restrir o dan iaith Saesneg (tudalen 204) yn cynnwys y gofynion ar gyfer y **Traethawd Hir.**

Modiwlau Iaith Saesneg Gorfodol:
Bydd modiwlau gorfodol yn yr 2il flwyddyn yn cynnwys pynciau fel ffonoleg, cystrawen, semanteg, a hanes Saesneg. Ym mlwyddyn 3 byddwch yn dewis o amrywiaeth eang o fodiwlau iaith Saesneg ac astudiaethau ffilm. Gweler y cofnod ar gyfer astudiaethau ffilm (tudalen 215) am y dewisiadau eraill o fodiwlau.

Mae enghreifftiau o bynciau traethodau hir diweddar yn cynnwys:
The acquisition of consonant clusters by a Down's syndrome child; A syntactic analysis of verb-second in Swedish; Pronunciation change in popular music; Attitudes towards north Wales accents of English; Metaphors for war during the first Gulf War; Children's attitudes to accents; An analysis of doctor-patient interactions.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 10 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Byddwch hefyd yn treulio amser yn darllen, casglu a dadansoddi data am iaith naturiol ac yn gweithio ar dasgau ymarferol yn y labordy. Bydd eich traethawd hir yn eich galluogi i ymchwilio'n fanwl i bwnc o ddiddordeb i chi a byddwch yn gweithio dan oruchwyliaeth aelod staff.

Mae'r asesu'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau - ysgrifennu traethodau, aseiniadau ymarferol, astudiaethau ymchwil empirig, cyflwyniadau llafar ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y radd hon yn cynyddu eich gwybodaeth am strwythur a defnydd iaith at ddibenion cyfathrebu, hanes yr iaith a swyddogaeth Saesneg yn y byd, a'ch gallu o ran strwythur gramadegol a defnyddio Saseneg. Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i wneud astudiaeth academaidd bellach fel TAR a chymwysterau ôl-radd gan arwain at therapi iaith a lleferydd, dysgu dramor, a hyfforddiant arall er mwyn dilyn gyrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol, gwaith yr heddlu, gwaith yn ymwneud â mewnfudo, llywodraeth leol, bancio a chyfrifeg, llyfrgellyddiaeth, y cyfryngau a newyddiaduraeth, ysgrifennu creadigol a chyhoeddi.

ENGLISH LANGUAGE WITH MEDIA STUDIES
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
Q3P3 BA/ELMS
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
leithyddiaeth ac laith Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cwrs gradd cyffrous hwn wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd eisiau astudio iaith Saesneg gydag astudiaethau'r cyfryngau (sy'n cynnwys teledu/radio /ffilm/ fideo, dylunio gemau, ysgrifennu proffesiynol, newyddiaduraeth a'r cyfryngau digidol). Mae sgiliau a thechnegau a ddysgir wrth astudio ac ysgrifennu testunau wrth wraidd llawer o'r meysydd allweddol yn y diwydiannau hyn. Bydd y cwrs hwn yn rhoi sylfaen gadarn i chi mewn sgiliau technegol ac ymarferol sy'n ofynnol i'ch gwneud yn weithiwr proffesiynol llwyddiannus o ran cael gwaith.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gan Fangor amrywiaeth o gyfleusterau dysgu yn cynnwys: Labordy Ffonoteg, stiwdio recordio ac offer sain, fideo a theledu.
- Mae Bangor yn arbenigo mewn tri maes allweddol: Ysgrifennu Creadigol, Ysgrifennu Proffesiynol, Newyddiaduraeth; Astudiaethau'r Cyfryngau, Ffilm a Sinema, Y Cyfryngau Newydd; Y Diwydiannau Adloniant a Chelfyddydau Perfformio. Mae gennym ddiddordebau ymchwil ym mhob maes o'r diwydiannau creadigol, gyda rhaglenni ymchwil yn cael eu cynnal mewn meysydd allweddol.
- Mae gan staff ieithyddiaeth ac iaith Saesneg ddiddordebau addysgu ac ymchwil eang felly rydym yn cynnig rhaglen fwy amrywiol o fodiwlau na rhan fwyaf o brifysgolion.
- Mae gan y Brifysgol adeilad astudiaethau creadigol a'r cyfryngau pwrpasol sy'n cynnwys sinema ddigidol, lle perfformio, ystafelloedd addysgu a man cyfarfod. Mae hefyd yn gartref i nifer o raglenni ymchwil, datblygu ac allymestyn cenedlaethol a rhyngwladol yn y celfyddydau creadigol a'r diwydiannau creadigol.
- Mae gan y Brifysgol ganolfan gyfryngau sydd â chyfarpar pwrpasol, gydag ystafelloedd golygu, stiwdios cynhyrchu ac offer cyfryngau ar gael i fyfyrwyr.
- Rydym wedi ymrwymo i ddysgu mewn grwpiau bach a chyflwynir y rhan fwyaf o'n modiwlau trwy weithdai wythnosol neu seminarau.
- Mae'r staff yn ymarferwyr yn y maes sy'n gweithio ar brojectau ar y cyd ac yn gweithredu fel ymgynghorwyr i ddiwydiant.
- Mae cyfleoedd i gael nawdd ac ysgoloriaeth ar sail gystadleuol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Yn eich blwyddyn gyntaf byddwch yn cymryd pedwar modiwl 20 credyd o iaith Saesneg, a dau fodiwl o astudiaethau'r cyfryngau (tudalen 218).

Blwyddyn 1

Modiwlau 20-credyd gorfodol ar gyfer Iaith Saesneg:
- Introduction to Language: how to be a linguist; the different subfields of linguistics; introduce basic linguistic terminology; academic skills.
- Introduction to English Grammar: how to describe the grammatical structure of the English Language on the word level (morphology).

Byddwch yn dewis dau fodiwl arall o fodiwlau'r iaith Saesneg, a dau opsiwn o restr ddewisol modiwlau'r cyfryngau sy'n cynnwys pynciau fel ffilm, ymarfer cyfryngau, ysgrifennu sgrin a newyddiaduraeth. Gweler astudiaethau'r cyfryngau tudalen 218 am fodiwlau'r cyfryngau.

Bydd gennych hefyd yr opsiwn o gymryd modiwlau cyfrwng Cymraeg ar agweddau craidd o ieithyddiaeth.

Blwyddyn 2 a 3
Bydd modiwlau gorfodol yn yr 2il flwyddyn yn cynnwys pynciau fel ffonoleg, cystrawen, semanteg, a hanes Saesneg. Ym mlwyddyn 3 cewch ddewis o ystod eang o fodiwlau iaith Saesneg ac astudiaethau'r cyfryngau. Mae modiwlau cyfrwng Cymraeg hefyd ar gael fel opsiynau ym mlwyddyn 2 a 3. I gael rhagor o fanylion darllenwch y rhestr ar gyfer iaith Saesneg (tudalen 204), yn cynnwys y gofyniad am **Draethawd Hir**.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Yn astudiaethau'r cyfryngau cewch eich dysgu trwy amrywiaeth eang o ddulliau, yn cynnwys gweithdai ac ymarferion ymarferol, seminarau, trafodaethau a darlithoedd. Asesir rhai modiwlau yn gyfan gwbl trwy waith cwrs (straeon, cerddi, ffilmiau, aseiniadau newyddiadurol, darnau dramatig etc.). Asesir eraill trwy draethawd neu arholiad. Mae'r cyfuniad o ddulliau asesu wedi'i gynllunio i wella'r broses ddysgu, gan eich galluogi i ddatblygu ystod o ymatebion i'ch pynciau.

Yn achos iaith Saesneg byddwch yn dysgu trwy gyfuniad o ddarlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Asesir modiwlau trwy arholiadau, asesu parhaus neu gyfuniad o'r ddau. Gall yr asesu parhaus gynnwys ychydig o elfen ymarferol dan oruchwyliaeth neu astudiaeth annibynnol, gydag ysgrifennu adroddiadau i ddilyn. Mae canlyniadau eich modiwl/ marciau eich project unigol yn cyfrannu at farc terfynol eich gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y radd hon yn cynyddu eich gwybodaeth am strwythur a defnydd iaith at ddibenion cyfathrebu, hanes yr iaith a swyddogaeth yr iaith Saesneg yn y byd. Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i wneud astudiaeth academaidd bellach fel TAR a chymwysterau ôl-radd gan arwain at therapi iaith a lleferydd, dysgu dramor, a hyfforddiant arall er mwyn dilyn gyrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol, gwaith yr heddlu, gwaith yn ymwneud â mewnfudo, llywodraeth leol, bancio a chyfrifeg, llyfrgellyddiaeth, y cyfryngau a newyddiaduraeth, ysgrifennu creadigol a chyhoeddi.

LINGUISTICS
BA [Anrh] / MArts

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
Q100 BA/Ling; C101 MArts/Ling
Hyd: 3 blynedd (BA); 4 blynedd (MArts)

GOFYNION MYNEDIAD:
Yn achos graddau ar y cyd, dylech edrych hefyd ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion Iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
leithyddiaeth ac Iaith Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Rydym yn tueddu i gymryd ein gallu i gynhyrchu a deall lleferydd yn ganiatáol hyd nes ein bod yn ceisio dysgu iaith arall, gwylio sut mae plentyn yn dysgu iaith gyntaf, neu'n gweld beth yw effeithiau nam iaith. leithyddiaeth yw'r astudiaeth o alluoedd iaith, sut maent yn cael eu caffael, sut maent yn cael eu defnyddio, a sut y gellir cael nam lleferydd. Gan fod lleferydd mor ganolog i'n bodolaeth, mae'n bwnc hynod ddiddorol ac yn werthfawr iawn i'w astudio. Mae'n gefndir delfrydol i lawer o yrfaoedd, yn enwedig y rhai yn y proffesiynau dysgu a gofalu, ond hefyd mewn meysydd mwy 'uwch-dechnolegol' fel cyfrifiadura a thelathrebu.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ein hadran leithyddiaeth yn un o'r rhai hynaf yn y DU, gyda staff sy'n ymchwilwyr cyson mewn amrywiaeth o feysydd damcaniaethol a chymhwysol - mae gan lawer enw da yn rhyngwladol yn y maes.
- Bydd ein modiwlau yn rhoi golwg wyddonol i chi ar strwythur a defnydd iaith, seicoieithyddiaeth (y berthynas rhwng y meddwl ac iaith) a sosioieithyddiaeth (y berthynas rhwng iaith a chymdeithas).
- Rydym yn ymdrin ag ystod eang o faterion pwnc, ac ar ôl y flwyddyn gyntaf byddwch yn gallu canolbwyntio ar gwestiynau penodol sydd o ddiddordeb mwyaf ichi.
- Mae ein hamrywiaeth eang o gyfleusterau dysgu yn cynnwys casgliad helaeth o lyfrau ar leithyddiaeth ac iaith Saesneg, labordy lleferydd, stiwdio recordio ac offer sain, fideo a theledu.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Byddwch yn gwneud chwe modiwl sy'n gyfanswm o 120 credyd.

Gall modiwlau gynnwys:
- Introduction to Language: how to be a linguist; the different sub-fields of linguistics; introduction to basic linguistic terminology
- Introduction to English Grammar: how to describe the grammatical structure of the English Language on the word level (morphology)
- Introduction to Phonetics & Phonology: the study of sounds and sounds systems.
- Introduction to Meaning

Byddwch hefyd yn dewis dau fodiwl arall o restr ddewisol.

Blwyddyn 2 a 3
Ym mhob un o'r blynyddoedd hyn byddwch yn gwneud chwe modiwl 20 credyd. Ym mlwyddyn 2 bydd rhai modiwlau yn orfodol, a byddant yn cynnwys modiwlau manwl (e.e. am ffonoleg, cystrawen, semanteg, a dwyieithrwydd). Ym mlwyddyn 3 bydd gennych ddewis mwy rhydd o fodiwlau, a bydd gofyn i chi gwblhau traethawd hir ar bwnc ieithyddol o'ch dewis. Gall blwyddyn 3 gynnwys modiwlau fel:
- Dwyieithrwydd
- Language Acquisition
- Psycholinguistics
- Phonetics and Phonology
- Discourse Analysis
- Welsh Linguistics (cyfrwng Saesneg)
- Teaching English as a Foreign Language (practice and theory)
- Language Change

Mae modiwlau cyfrwng Cymraeg hefyd ar gael fel opsiynau ym mlwyddyn 2 a 3.

Os byddwch yn astudio leithyddiaeth fel gradd ar y cyd, byddwch yn gwneud hanner eich modiwlau mewn leithyddiaeth a'r hanner arall yn y pwnc arall.

Blwyddyn 4
Os byddwch yn gwneud y radd MArts, bydd tair blynedd gyntaf eich cwrs yr un fath ag ar gyfer BA.
Yn eich blwyddyn olaf byddwch yn canolbwyntio ar naill ai leithyddiaeth neu ddwyieithrwydd. Byddwch yn gwneud tri modiwl lefel ôl-radd ac yn cwblhau traethawd hir ar bwnc ymchwil sydd â chysylltiad agos â'r maes o'ch dewis. Amcan hyn yw datblygu eich sgiliau academaidd a throsglwyddadwy a chynyddu eich cyflogadwyedd.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 10 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Byddwch hefyd yn treulio amser yn darllen, casglu a dadansoddi data iaith naturiol ac yn gweithio ar dasgau ymarferol yn y labordy. Bydd eich traethawd hir yn caniatáu ichi ymchwilio'n fanwl i bwnc o ddiddordeb a byddwch yn gweithio dan oruchwyliaeth aelod staff. Mae'r asesu'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau - ysgrifennu traethodau, aseiniadau ymarferol, astudiaethau ymchwil empirig, cyflwyniadau llafar ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y radd hon yn cynyddu eich gwybodaeth am strwythur a defnydd iaith at ddibenion cyfathrebu, hanes yr iaith Saesneg, a'ch gallu o ran strwythur gramadegol a defnyddio Saseneg. Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i wneud astudiaeth academaidd bellach fel TAR a chymwysterau ôl-radd gan arwain at therapi iaith a lleferydd, dysgu dramor, a hyfforddiant arall er mwyn dilyn gyrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol, gwaith yr heddlu, gwaith yn ymwneud â mewnfudo, llywodraeth leol, bancio a chyfrifeg, llyfrgellyddiaeth, y cyfryngau a newyddiaduraeth, ysgrifennu creadigol a chyhoeddi.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

LINGUISTICS AND THE ENGLISH LANGUAGE
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
Q140 BA/LELA
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Yn achos graddau ar y cyd, dylech edrych hefyd ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion Iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
leithyddiaeth ac Iaith Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r ddau bwnc hyn yn ategu ei gilydd, yn eich galluogi i ennill dealltwriaeth lawn o'r ffordd y mae gallu ieithyddol yn datblygu yn ogystal â datblygu eich gwybodaeth a'ch gallu wrth ddefnyddio Saesneg. Ceir disgrifiad llawnach o leithyddiaeth ar y dudalen flaenorol. Yn y modiwlau rhagarweiniol byddwch yn edrych ar faterion yn ymwneud â sut mae ein hiaith yn newid yn ôl y cyd-destun y mae'n cael ei defnyddio a sut mae defnydd iaith dynion a merched yn wahanol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Ein hadran ni yw un o'r adrannau ieithyddiaeth hynaf yn y DU. Byddwch yn cael eich dysgu gan staff sy'n ymchwilwyr cyson mewn amrywiaeth o feysydd damcaniaethol a chymhwysol sy'n gysylltiedig â'r cyrsiau - mae gan nifer ohonynt enw da rhyngwladol yn y maes.
- Bydd ein modiwlau yn rhoi golwg wyddonol i chi ar strwythur a defnydd iaith, yn ogystal ag ar seicoieithyddiaeth (y berthynas rhwng y meddwl ac iaith) a sosioieithyddiaeth (y berthynas rhwng iaith a chymdeithas).
- Rydym yn ymdrin ag ystod eang o faterion pwnc, ac ar ôl y flwyddyn gyntaf byddwch yn gallu canolbwyntio ar gwestiynau penodol sydd o ddiddordeb mwyaf ichi.
- Mae ein hamrywiaeth eang o gyfleusterau dysgu yn cynnwys casgliad helaeth o lyfrau ar leithyddiaeth ac iaith Saesneg, labordy lleferydd, stiwdio recordio ac offer sain/fideo/teledu. Byddwch yn gallu datblygu eich sgiliau prosesu geiriau.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Byddwch yn gwneud chwe modiwl (cyfanswm o 120 credyd) sy'n cynnwys y modiwlau leithyddiaeth ac iaith Saesneg isod:

Gall modiwlau gynnwys:
- Introduction to Language: how to be a linguist; the different subfields of linguistics; introduce basic linguistic terminology; academic skills.
- Introduction to English Grammar: how to describe the grammatical structure of the English Language on the word level (morphology).
- Language, Literature and Culture: an overview of the key concepts in the study of the relationships between language, literature and culture.
- Introduction to Phonetics & Phonology: the study of sounds and sounds systems.
- Introduction to Meaning.
- Language and Society: how language varies according to dialect and social aspects; the relationship between language and cultural aspects such as language policy and bilingualism.

Blwyddyn 2 a 3
Ym mhob un o'r blynyddoedd hyn byddwch yn gwneud chwe modiwl 20 credyd. Ym mlwyddyn 2 bydd rhai modiwlau yn orfodol, a byddant yn cynnwys modiwlau manwl e.e. am ffonoleg, cystrawen, semanteg, dwyieithrwydd a hanes Saesneg. Ym mlwyddyn 3 bydd gennych ddewis mwy rhydd o fodiwlau, a bydd gofyn i chi gwblhau traethawd hir ar bwnc ieithyddol o'ch dewis fel un o'ch modiwlau. Gall modiwlau Blwyddyn 3 gynnwys pynciau fel:
- Dwyieithrwydd
- Language Acquisition
- Psycholinguistics
- Phonetics and Phonology
- Discourse Analysis
- Welsh Linguistics (English-medium)
- Teaching English as a Foreign Language (practice and theory)
- Language Change

Mae modiwlau cyfrwng Cymraeg hefyd ar gael fel opsiynau ym mlwyddyn 2 a 3.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 10 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a chyfleoedd i siarad un-i-un gyda thiwtoriaid. Byddwch hefyd yn treulio amser yn darllen, casglu a dadansoddi data iaith naturiol ac yn gweithio ar dasgau ymarferol yn y labordy. Bydd eich traethawd hir yn caniatáu ichi ymchwilio'n fanwl i bwnc o ddiddordeb a byddwch yn gweithio dan oruchwyliaeth aelod staff.

Mae'r asesu'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau - ysgrifennu traethodau, aseiniadau ymarferol, astudiaethau ymchwil empirig, cyflwyniadau llafar ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y radd hon yn cynyddu eich gwybodaeth am strwythur a defnydd iaith at ddibenion cyfathrebu, hanes yr iaith a swyddogaeth Saesneg yn y byd, a'ch gallu o ran strwythur gramadegol a defnyddio Saseneg. Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i wneud astudiaeth academaidd bellach fel TAR a chymwysterau ôl-radd gan arwain at therapi iaith a lleferydd, dysgu dramor, a hyfforddiant arall er mwyn dilyn gyrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol, gwaith yr heddlu, gwaith yn ymwneud â mewnfudo, llywodraeth leol, bancio a chyfrifeg, llyfrgellyddiaeth, y cyfryngau a newyddiaduraeth, ysgrifennu creadigol a chyhoeddi.

ENGLISH LANGUAGE WITH ENGLISH LITERATURE / LINGUISTICS WITH ENGLISH LITERATURE
BA [Anrh]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
English Language with English Literature: Q3Q2 BA/EngEL
Linguistics with English Literature: Q1Q3 BA/LEL
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (Llenyddiaeth Saesneg/Iaith Saesneg/Saesneg yn ddelfrydol ond ddim yn hanfodol)
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (yn cynnwys H6 mewn Llenyddiaeth Saesneg neu Iaith Saesneg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Cwrs mynediad gydag elfen o Lenyddiaeth Saesneg: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir eu hystyried ar y cyd â chymhwyster arall mewn Llenyddiaeth Saesneg

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg
Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

Llenyddiaeth Saesneg
Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/saesneg

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Byddwch yn treulio dwy ran o dair o'ch amser yn astudio Ieithyddiaeth (fel y disgrifir ar dudalen 208) neu iaith Saesneg (fel y disgrifir ar dudalen 204) ac un rhan o dair yn astudio llenyddiaeth Saesneg (fel y disgrifir ar dudalen 198).

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae ein hadran ieithyddiaeth yn un o'r rhai hynaf yn y DU, gyda staff sy'n ymchwilwyr cyson mewn amrywiaeth o feysydd damcaniaethol a chymhwysol – mae gan lawer enw da yn rhyngwladol yn y maes.
- Bydd ein modiwlau yn rhoi golwg wyddonol i chi ar strwythur a defnydd iaith, yn ogystal ag ar seicoieithyddiaeth (y berthynas rhwng y meddwl ac iaith) a sosioieithyddiaeth (y berthynas rhwng iaith a chymdeithas).
- Mae'r modiwlau yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion pwnc, ac ar ôl y flwyddyn gyntaf byddwch yn gallu canolbwyntio ar gwestiynau penodol sydd o ddiddordeb mwyaf ichi.
- Mae ein hamrywiaeth eang o gyfleusterau dysgu yn cynnwys casgliad helaeth o lyfrau ar leithyddiaeth ac Iaith Saesneg, labordy lleferydd, stiwdio recordio ac offer sain, fideo a theledu.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Byddwch yn gwneud pedwar modiwl mewn leithyddiaeth neu iaith Saesneg a dau mewn llenyddiaeth Saesneg.

Modiwlau gorfodol mewn leithyddiaeth ac Iaith Saesneg:
- Reading, Thinking, Writing
- Introduction to Language

Byddwch yn gwneud dau fodiwl arall mewn leithyddiaeth a dau fodiwl o'r iaith Saesneg o restr ddewisol.

Modiwlau gorfodol mewn Iaith Saesneg gyda Llenyddiaeth Saesneg:
- Reading, Thinking, Writing
- Introduction to Language
- Introduction to English Grammar

Byddwch yn gwneud dau fodiwl arall o lenyddiaeth Saesneg a modiwl o'r iaith Saesneg o restr ddewisol.

Blwyddyn 2 a 3
Bydd modiwlau gorfodol yn yr 2il flwyddyn yn cynnwys pynciau fel ffonoleg, cystrawen, semanteg, a dwyieithrwydd. Ym mlwyddyn 3 cewch ddewis o ystod eang o fodiwlau leithyddiaeth a llenyddiaeth Saesneg. Mae modiwlau cyfrwng Cymraeg hefyd ar gael fel opsiynau ym mlwyddyn 2 a 3. I gael rhagor o fanylion darllenwch y rhestr ar gyfer leithyddiaeth (tudalen 208)/ Iaith Saesneg (tudalen 204), yn cynnwys y gofyniad am **Draethawd Hir**, a'r cofnod ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg (tudalen 198) ar gyfer dewis modiwlau o'r maes pwnc hwnnw.

Mae enghreifftiau o bynciau traethodau hir diweddar yn cynnwys:
Language change and the internet; language policy in cases of genocide; bilinguals' word-processing; gender-neutral pronouns in English; stress patterns in child speech; influence of the media on Welsh-English code-switching patterns.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 10 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau. Byddwch hefyd yn treulio amser yn darllen, casglu a dadansoddi data iaith naturiol ac yn gweithio ar dasgau ymarferol yn y labordy. Bydd eich traethawd hir yn caniatáu ichi ymchwilio'n fanwl i bwnc o ddiddordeb a byddwch yn gweithio dan oruchwyliaeth aelod staff.

Mae'r asesu'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau - ysgrifennu traethodau, aseiniadau ymarferol, astudiaethau ymchwil empirig, cyflwyniadau llafar ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd gradd mewn leithyddiaeth/ iaith Saesneg yn cynyddu eich gwybodaeth am strwythur a defnydd iaith at ddibenion cyfathrebu, hanes yr iaith a swyddogaeth Saesneg yn y byd, a'ch gallu o ran strwythur gramadegol a defnyddio Saseneg. Mae graddedigion diweddar wedi mynd ymlaen i wneud astudiaeth academaidd bellach fel TAR a chymwysteirau ôl-radd gan arwain at therapi iaith a lleferydd, dysgu dramor, a hyfforddiant arall er mwyn dilyn gyrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol, gwaith yr heddlu, gwaith yn ymwneud â mewnfudo, llywodraeth leol, bancio a chyfrifeg, llyfrgellyddiaeth, y cyfryngau a newyddiaduraeth, ysgrifennu creadigol a chyhoeddi.

ENGLISH LANGUAGE FOR TEFL
BA [Anrh] / MArts

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
Q315 BA/ELT
Hyd: 3 Blynedd
Q316 MArts/ELT
Hyd: 4 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion Iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae Saesneg yn iaith bwysig yn gymdeithasol, yn wleidyddol ac yn economaidd. Mae'n iaith y byd, gydag amcangyfrif o 1,500 miliwn o siaradwyr ledled y byd, sydd yn ei dro yn arwain at angen cynyddol am bobl sy'n gymwys i ddysgu Saesneg yn rhyngwladol. Bydd y cwrs hwn yn eich dysgu am ieithyddiaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar Saesneg, ac yn eich trydedd flwyddyn byddwch yn canolbwyntio'n benodol ar fodiwlau sy'n ymwneud ag addysgu Saesneg fel iaith dramor (TEFL), fel y byddwch ar y llwybr i fod yn gymwysedig i ddysgu Saesneg.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae'r cwrs hwn yn darparu hyfforddiant mewn amrywiaeth eang o agweddau ar yr iaith Saesneg ac ieithyddiaeth Saesneg, gyda ffocws penodol ar ddysgu Saesneg fel iaith dramor.
- Cewch fwynhau gyfleusterau dysgu gwych gan gynnwys casgliad helaeth o lyfrau ar leithyddiaeth ac Iaith Saesneg; stiwdio recordio ac offer sain, fideo a theledu; siop llogi i fyfyrwyr sydd angen benthyg meicroffonau ac offer recordio.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Yn eich blwyddyn gyntaf byddwch yn cymryd modiwlau gyda'r bwriad o ddarparu sylfaen gadarn yn y maes fel y canlynol;
- Introduction to Language: how to be a linguist; the different subfields of linguistics; introduce basic linguistic terminology; academic skills.
- Introduction to Phonetics and Phonology.
- Language and Society: how language varies according to dialect and social aspects; the relationship between language and cultural aspects such as language policy and bilingualism.
- Introduction to Meaning.
- Introduction to English Grammar.
- Language, Literature and Culture.

Bydd gennych hefyd yr opsiwn o gymryd modiwlau cyfrwng Cymraeg am agweddau craidd o ieithyddiaeth.

Blwyddyn 2 a 3
Ym mhob un o'r blynyddoedd hyn byddwch yn gwneud modiwlau gorfodol a fydd yn datblygu eich sgiliau Saesneg ymhellach, ynghyd â modiwlau fydd yn rhoi cefndir ieithyddol sylweddol mewn perthynas â gramadeg, dwyieithrwydd a hanes Saesneg. Ym mlwyddyn 3 byddwch yn canolbwyntio ar fodiwlau sy'n gysylltiedig â dysgu, e.e. Theori EFL, Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor, a Chaffael Ail Iaith ar gyfer Dysgu Iaith. Gofynnir i chi hefyd ysgrifennu traethawd hir ar bwnc ymchwil mewn maes sy'n gysylltiedig â TEFL, dan oruchwyliaeth agos aelod staff ymchwil a chewch arweiniad a gweithdai ar sut i gynnal ymchwil ieithyddol academaidd.

Blwyddyn 4
Os byddwch yn dewis astudio'r radd pedair blynedd Meistr yn y Celfyddydau (MArts) bydd tair blynedd gyntaf eich cwrs yr un fath ag ar gyfer BA. Fodd bynnag, yn eich pedwaredd blwyddyn byddwch yn gallu cynyddu eich gwybodaeth ac astudio modiwlau ieithyddol eraill o'r amrywiaeth o fodiwlau ôl-radd sydd ar gael, a chwblhau traethawd hir arall ar bwnc sy'n gysylltiedig â dysgu iaith. Amcan y bedwaredd flwyddyn yw datblygu eich sgiliau academaidd a throsglwyddadwy a chynyddu eich cyflogadwyedd.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 10 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau a thiwtorialau.
Byddwch hefyd yn treulio amser yn darllen, casglu a dadansoddi data iaith naturiol ac yn gweithio ar dasgau ymarferol yn y labordy.
Bydd eich traethawd hir yn caniatáu ichi ymchwilio'n fanwl i bwnc o ddiddordeb a byddwch yn gweithio dan oruchwyliaeth aelod staff.
Mae'r asesu'n cynnwys ysgrifennu traethodau, aseiniadau ymarferol, cyflwyniadau llafar ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r radd hon yn paratoi myfyrwyr ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain lle mae Saesneg yn iaith fyd-eang.
Yn bennaf, mae'r cwrs hwn yn paratoi myfyrwyr i fod yn athrawon, gan roi'r cefndir academaidd priodol iddynt fynd ymlaen i gael cymwysterau perthnasol eraill.
Bydd gan raddedigion lefelau hyfedredd bron cystal â siaradwr iaith gyntaf ym mhob agwedd ar Saesneg llafar ac ysgrifenedig.
Byddant hefyd yn fedrus o ran natur a defnyddio Saesneg mewn ystod o gyd-destunau ac wrth ddefnyddio Saesneg trwy amrywiaeth o gyfryngau. Bydd hyn yn hwyluso gyrfaoedd mewn lleoliadau rhyngwladol lle mae lefel uchel o arbenigedd mewn Saesneg yn hollbwysig. Yn ogystal â gyrfaoedd ym maes addysg, mae'r cwrs hwn yn gwneud myfyrwyr yn addas ar gyfer gyrfaoedd posib mewn meysydd fel:
- cysylltiadau rhyngwladol, gwleidyddiaeth ac ysgrifennu areithiau
- marchnata a hysbysebu
- masnach a bancio
- rheolaeth gorfforaethol ryngwladol a newyddiaduraeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
Q314 BA/IELT
Hyd: 2, 3 neu 4 blynedd yn dibynnu ar y lefel mynediad

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 112 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

Ewch i'r wefan am yr amrywiol opsiynau mynediad: www.bangor.ac.uk/linguistics/undergraduate-courses/Q314-International-English-Language-for-TEFL#requirements

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithyddiaeth

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae Saesneg yn iaith bwysig yn gymdeithasol, yn wleidyddol ac yn economaidd. Mae'n iaith y byd, ac amcangyfrifir bod 1,500 miliwn o siaradwyr ledled y byd. Saesneg hefyd yw'r iaith y gellir ei disgrifio orau yn y byd. Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer siaradwyr Saesneg anfrodorol. Mae'n darparu hyfforddiant gyda'r bwriad o wneud safon Saesneg myfyrwyr bron cystal â siaradwr iaith gyntaf ar ôl cwblhau, ynghyd â rhoi hyfforddiant mewn ystod eang o agweddau ar yr iaith Saesneg ac ieithyddiaeth Saesneg, gyda ffocws penodol ar ddysgu Saesneg fel iaith dramor.

PAM DEWIS BANGOR?
- Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg yw un o'r adrannau ieithyddiaeth hynaf yn y DU. Byddwch yn cael eich dysgu gan staff sy'n ymchwilwyr cyson mewn amrywiaeth o feysydd damcaniaethol a chymhwysol sy'n gysylltiedig â'r cyrsiau.
- Mae hyfforddiant yn cynnwys agweddau sosioieithyddol ar Saesneg, gramadeg, system sain a semanteg Saesneg, hanes Saesneg, yn ogystal â materion yn ymwneud â Saesneg a globaleiddio, cynllunio a pholisi iaith, ac iaith addysgol.
- Yn gyffredinol, mae'r cwrs yn hyfforddi myfyrwyr rhyngwladol i fod yn ymwybodol o agweddau ieithyddol sy'n berthnasol i ddysgu Saesneg.
- Cewch ddefnyddio cyfleusterau dysgu gwych gan gynnwys casgliad helaeth o lyfrau ar leithyddiaeth ac Iaith Saesneg; stiwdio recordio ac offer sain, fideo a theledu; siop llogi i fyfyrwyr sydd angen benthyg meicroffonau ac offer recordio.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Mae'r radd hon yn cyfuno modiwlau a ddewiswyd yn ofalus i ddelio â phwysigrwydd Saesneg fel iaith ryngwladol gyda dosbarthiadau sy'n cefnogi eich hyfedredd yn y Saesneg tuag at ennill lefel cymhwysedd bron cystal â siaradwr iaith gyntaf gymaint ag y bo modd.

Modiwlau Iaith Saesneg:
- Introduction to Language: how to be a linguist; the different subfields of linguistics; introduce basic linguistic terminology; academic skills.
- Introduction to English Grammar
- Language, Literature and Culture
- Introduction to Phonetics and Phonology
- English Classes: Improving your English Language skills on many levels – Speaking and Listening; Grammar and Writing; and Vocabulary.

Blwyddyn 2 a 3
Ym mhob un o'r blynyddoedd hyn byddwch yn gwneud modiwlau gorfodol a fydd yn gwella eich sgiliau Saesneg ymhellach, ynghyd â modiwlau fydd yn rhoi cefndir ieithyddol sylweddol mewn perthynas â gramadeg, dwyieithrwydd a hanes Saesneg.

Ym mlwyddyn 3 byddwch yn canolbwyntio ar fodiwlau sy'n gysylltiedig â dysgu, e.e. Theori EFL, Dysgu Saesneg fel Iaith Dramor, a Chaffael Ail Iaith ar gyfer Dysgu Iaith. Gofynnir i chi hefyd ysgrifennu traethawd hir ar bwnc ymchwil mewn maes sy'n gysylltiedig â TEFL, gydag aelod staff ymchwil yn eich goruchwylio'n agos - gydag arweiniad a gweithdai ar sut i gynnal ymchwil ieithyddol academaidd.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio tua 10 awr yr wythnos mewn darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a chyfleoedd i siarad un-i-un gyda thiwtoriaid. Byddwch hefyd yn treulio amser yn darllen, casglu a dadansoddi data iaith naturiol ac yn gweithio ar dasgau ymarferol yn y labordy. Bydd eich traethawd hir yn caniatáu ichi ymchwilio'n fanwl i bwnc o ddiddordeb a byddwch yn gweithio dan oruchwyliaeth aelod staff. Mae'r asesu'n cynnwys ysgrifennu traethodau, aseiniadau ymarferol, cyflwyniadau llafar ac arholiadau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r radd hon yn paratoi myfyrwyr ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain lle mae Saesneg yn iaith fyd-eang. Yn bennaf, mae'r cwrs hwn yn paratoi myfyrwyr i fod yn athrawon, gan roi'r cefndir academaidd priodol iddynt fynd ymlaen i gael cymwysterau perthnasol eraill. Bydd gan raddedigion lefelau hyfedredd bron cystal â siaradwr iaith gyntaf ym mhob agwedd ar Saesneg llafar ac ysgrifenedig. Byddant hefyd yn fedrus o ran natur a defnyddio Saesneg mewn ystod o gyd-destunau ac wrth ddefnyddio Saesneg trwy amrywiaeth o gyfryngau. Bydd hyn yn hwyluso gyrfaoedd mewn lleoliadau rhyngwladol lle mae lefel uchel o arbenigedd mewn Saesneg yn hollbwysig. Yn ogystal â gyrfaoedd ym maes addysg, mae'r cwrs hwn yn gwneud myfyrwyr yn addas ar gyfer gyrfaoedd posib mewn meysydd fel:
- cysylltiadau rhyngwladol, gwleidyddiaeth ac ysgrifennu areithiau
- marchnata a hysbysebu
- masnach a bancio
- rheolaeth gorfforaethol ryngwladol a newyddiaduraeth.

Mae'r BA hefyd yn paratoi myfyrwyr ar gyfer astudio galwedigaethol ac an-alwedigaethol ar lefel MA, naill ai ar yr MA mewn Astudiaethau Cyfieithu ym Mhrifysgol Bangor, neu mewn prifysgolion eraill yn y DU neu dramor.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
W890 BA/CPW
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/creadigol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cwrs gradd arloesol hwn wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd eisiau astudio ysgrifennu, ac mae'n unigryw o ran eich galluogi i astudio trwy amrywiaeth o lwybrau disgyblaethol: cyfarwyddyd i ddefnyddio technegau a ffurfiau ysgrifennu creadigol; astudiaeth o'r stori fer, y nofel a barddoniaeth fel ffurfiau llenyddol; modiwlau sy'n canolbwyntio ar y galwedigaethol mewn newyddiaduraeth, ysgrifennu ar gyfer y sgrin, ysgrifennu sgriptiau, adrodd straeon, ysgrifennu genre, ysgrifennu ar gyfer perfformio a chyhoeddi, ac ysgrifennu ar gyfer cyfryngau ar-lein a chyfryngau digidol eraill. Bydd y cwrs hwn yn rhoi sylfaen gadarn i chi yn y sgiliau beirniadol ac ymarferol y byddwch eu hangen i ddilyn gyrfa fel awdur.

Yn ystod y tair blynedd o astudio'r radd hon, cewch gyfle i weithio gyda staff sydd â diddordebau ac arbenigedd amrywiol yn cynnwys barddoniaeth, y nofel, y stori fer, gwneud rhaglenni dogfen a ffilmiau, cyfathrebu digidol, e-gyhoeddi, gemau cyfrifiadurol, sgriptio ac ysgrifennu ar gyfer y sgrin, a newyddiaduraeth brint a darlledu.

PAM DEWIS BANGOR?
- Rydym wedi ymrwymo i gael cyfuniad agos rhwng dulliau gweithredu academaidd ac ymarfer creadigol.
- Mae myfyrwyr yn cael cyfle ar bob lefel i gyfuno astudiaethau yn eu dewis faes gyda gwaith ymarferol sy'n deillio o hynny megis ysgrifennu a chynhyrchu yn y cyfryngau/cyfryngau digidol.
- Rydym yn dysgu ac ymchwilio i waith awduron ar draws yr holl brif gyfnodau llenyddol o Hen Saesneg hyd at yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r staff dysgu yn cynnwys nifer o awduron creadigol sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n cyhoeddi mewn amrywiaeth o ffurfiau llenyddol.
- Mae gennym brofiad sylweddol hefyd mewn golygu a chyhoeddi.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Dyma rai o'r modiwlau y gallech eu hastudio:

Blwyddyn 1
- Creative Writing: Prose
- Creative Writing: Poetry
- Creating Narratives
- Cyflwyniad i Newyddiaduraeth Ymarferol
- Introduction to Screenwriting
- Reading, Thinking, Writing

Blwyddyn 2 a 3
- Creative Writing: The Novel
- Creative Writing: Poetry and Short Fiction
- Practical Digital Journalism
- Writing for Film and Television
- Literature and Modernity
- Alfred Hitchcock
- Digital Journalism
- Newyddiaduraeth Ymarferol: MCD
- Adapting for Film & Media
- Final Year Group Project
- Dickens and Print Culture
- Developing Scripted Media
- Genre Fiction: Theory and Craft
- Experimental Writing
- Dystopian Fiction
- Transformative Writing
- Creative Non-Fiction
- Working-class Fiction
- Game Development
- Reading Myth
- Sex, Sects and Scandal
- Transmedia Storytelling
- Traethawd Hir

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae astudio ysgrifennu ym Mangor yn cynnig cydbwysedd rhwng tasgau ymarferol a dadansoddol. Addysgir modiwlau yn bennaf trwy seminarau a gweithdai gyda chyflwyniadau gan awduron gwadd, ac fe'u hasesir yn ôl cynnyrch ymarferol ac ar allu'r unigolyn i adfyfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer. Wrth i chi fynd trwy'r radd, caiff llawer o'r gwaith astudio ei wneud mewn grwpiau dysgu bach gyda phwyslais ar ddysgu sgiliau gweithio grŵp a'r gallu i gyflawni darn o waith o'r syniad dechreuol i gynnyrch proffesiynol.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae'r radd hon yn paratoi graddedigion i weithio fel awduron ym maes ffilm, cyfryngau digidol, teledu, radio a'r wasg, yn ogystal â dilyn gyrfaoedd proffesiynol mewn ysgrifennu creadigol. Mae nifer o'r graddedigion bob blwyddyn yn mynd ymlaen i ddatblygu eu gwaith ymhellach trwy gyfnod o astudio ôl-radd.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
P3W9 'and Media'
W6W8 'and Film'
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Astudiaethau Creadigol
a'r Cyfryngau

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/creadigol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r graddau cyffrous hyn wedi'u bwriadu ar gyfer myfyrwyr sydd am gyfuno meistrolaeth ar ystod o ddulliau ysgrifennu 'anhraddodiadol' (megis ffuglen ddigidol ac ysgrifennu ar gyfer y sgrin) gydag astudio mathau eraill o gyfryngau (er enghraifft teledu a radio, ffilm a fideo, meddalwedd a gemau cyfrifiadurol, dylunio, ysgrifennu proffesiynol a newyddiaduraeth).

Mae'r **BA Professional Writing and Film** yn cyfuno astudio ysgrifennu gydag ymchwilio beirniadol i bynciau fel natur y ddelwedd symudol, pynciau mewn theori ffilm a dadansoddi'r diwylliant gweledol, yn ogystal â chaniatáu i chi wneud modiwlau ffilmiau arbenigol mewn meysydd fel America ar Ffilm, Theori Ffilm, a Dosbarthu Ffilm.

Mae'r **BA Professional Writing and Media** yn ychwanegu amrywiaeth o lwybrau disgyblaethol i'r dewis, yn cynnwys cyfryngau digidol a gemau, diwylliant y cyfryngau, drama teledu ac ymarfer y cyfryngau, yn ogystal â'ch dysgu i gael dealltwriaeth feirniadol o'r ffordd y mae'r cyfryngau yn gweithio a'r berthynas rhwng diwylliant y cyfryngau a chymdeithas. Amcan y rhaglenni hyn yw annog archwilio ysgrifennu proffesiynol gyda phwyslais arbennig ar arloesi ac ymholi. Byddant hefyd yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu safbwyntiau beirniadol a hunan-adfyfyriol ar eu hysgrifennu proffesiynol yng nghyd-destun ymarfer hanesyddol a chyfoes.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae'r cyfuniad agos rhwng dulliau gweithredu academaidd a theoretig ac ymarfer creadigol yn un unigryw. Mae myfyrwyr yn cael cyfle i gyfuno astudiaethau yn eu dewis faes gyda gwaith ymarferol sy'n deillio o hynny megis ysgrifennu, perfformio, a chynhyrchu yn y cyfryngau/cyfryngau digidol.
- Rydym yn arbenigo mewn nifer o feysydd allweddol: Ysgrifennu Proffesiynol a Newyddiaduriaeth; Cyfathrebu Cyfryngau a Digidol; Astudiaethau Ffilm; Astudiaethau Perfformio; Ymarfer Creadigol a'r Cyfryngau.
- Mae gennym gysylltiadau gwych â chwmnïau theatr, papurau newydd a'r diwydiant teledu.
- Mae llawer o aelodau staff yn ymarferwyr ac yn ymgynghorwyr yn eu meysydd.
- Mae gennym ganolfan gyfryngau a'r holl offer priodol, gydag ystafelloedd golygu, stiwdios cynhyrchu, offer cyfryngau a chyfryngau digidol.
- Cynhelir amrywiaeth o gynadleddau, fideo gynadleddau a digwyddiadau'r Diwydiannau Creadigol ym Mangor. Mae cyfleoedd i gael nawdd ac ysgoloriaeth ar sail gystadleuol.
- Yn aml, cynhelir projectau blwyddyn olaf mewn cydweithrediad â chwmni a gallent gynnwys gweithio mewn tîm gyda myfyrwyr o gyrsiau gradd yn y celfyddydau creadigol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Dyma rai o'r modiwlau y gallech eu hastudio yn y ddwy radd:

Blwyddyn 1
- Cyfathrebu Digidol
- Cyflwyniad i Newyddiaduraeth Ymarferol
- Introduction to Screenwriting
- Film History
- Film Criticism
- Iaith y Ffilm
- American TV Drama

Blwyddyn 2 a 3
- Writing for Film & TV
- Genre Fiction: Theory & Craft
- Digital Journalism*
- Storytelling: Theory & Craft*
- Animation & Motion Graphics*
- Practical Digital Journalism*
- Y Ffilm ddogfen:Theori+
- Advanced Screenwriting
- Race and Gender+
- Stanley Kubrick: Auteur+
- Film Theory
- Film Distribution
- Transmedia Storytelling

* Modiwlau ar gael yn Ysgrifennu Proffesiynol ac Astudiaethau'r Cyfryngau
* Modiwlau ar gael yn Ysgrifennu Proffesiynol ac Astudiaethau'r Ffilm

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r ddwy radd yn cynnig cydbwysedd rhwng tasgau ymarferol a dadansoddol. Byddwch yn edrych ar amrywiaeth o ffurfiau, yna'n arbenigo yn y ffurf sydd o ddiddordeb mwyaf a gwerthfawr i chi (e.e. ysgrifennu ar gyfer y sgrin, ysgrifennu i'r cyfryngau newydd, ysgrifennu ar gyfer genre penodol). Addysgir modiwlau yn bennaf trwy seminarau a gweithdai gyda chyflwyniadau gan awduron a darlithwyr gwadd, a chaiff myfyrwyr eu hasesu yn ôl cynnyrch ymarferol a gallu'r unigolyn i adfyfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer. Wrth i chi fynd trwy'r radd, caiff llawer o'r gwaith astudio ei wneud mewn grwpiau dysgu bach.

RHAGOLYGON GYRFA
Bydd y graddau hyn yn paratoi myfyrwyr i ddiwallu'r angen, a nodir fwyfwy yn y diwydiant, am ymarferwyr hunan-adfyfyriol sydd â phrofiad o ddatblygu projectau yn y sector creadigol. Bydd yr elfen ymarferol yn y ddwy radd yn eu galluogi i lunio portffolio o waith a fydd yn creu argraff ar ddarpar gyflogwyr, tra bydd yr elfen ddadansoddol yn rhoi dealltwriaeth eang iddynt o sut mae'r diwydiant yn gweithredu.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
W620 BA/FLM
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Astudiaethau Creadigol
a'r Cyfryngau

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/creadigol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae modiwlau yn y maes hwn yn cyfuno gwaith ac ymarfer beirniadol a chreadigol, yn dibynnu ar eich diddordebau a'ch cynlluniau o ran gyrfa. Ym Mangor, rydym wedi ymrwymo i ddysgu mewn grwpiau bach a chyflwynir y mwyafrif o'n modiwlau trwy weithdai wythnosol neu seminarau.

Mae gan ddarlithwyr ffilm amrywiaeth o ddiddordebau gan gynnwys cynnwys Sinema America, ffilmiau Prydeinig ac Ewropeaidd, a sinemâu eraill y byd, gender, dadansoddi ffilmiau, Stanley Kubrick, ffilm a hanes, ffilm a gwleidyddiaeth, technoleg ddigidol a ffilm, ysgrifennu sgriptiau ac ysgrifennu ar gyfer y sgrin, gwneud ffilmiau, y cyfryngau a ffilm yng Nghymru, actio a pherfformio, iaith a ffilm, blogio a phodledu, gemau cyfrifiadurol a ffilm, sêr ffilm a ffilm ar y teledu. Yn ddiweddar mae darlithwyr ffilm wedi ysgrifennu llyfrau ac erthyglau ar bynciau fel Stanley Kubrick, Diwylliant a Ffilm America, Llywyddiaeth yr UD ar Ffilm a Theledu, Ffilmiau Iddewig, a thechnolegau newydd gwylio ffilmiau.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae astudio'r Cyfryngau ym Mangor yn unigryw oherwydd y cyfuniad agos rhwng dulliau gweithredu beirniadol a theoretig ac ymarfer creadigol. Mae myfyrwyr yn cael cyfle ar bob lefel i gyfuno astudiaethau yn eu dewis faes gyda gwaith ymarferol sy'n deillio o hynny megis ysgrifennu, perfformio, a chynhyrchu yn y cyfryngau/cyfryngau digidol.
- Rydym yn arbenigo mewn nifer o feysydd allweddol: Ysgrifennu Proffesiynol a Newyddiaduriaeth; Cyfathrebu Cyfryngau a Digidol; Astudiaethau Ffilm; Astudiaethau Perfformio; Ymarfer Creadigol a'r Cyfryngau. Mae gennym ddiddordebau ymchwil ym mhob maes o Astudiaethau Ffilm, gyda rhaglenni ymchwil yn cael eu cynnal mewn nifer o feysydd allweddol.
- Mae gennym gysylltiadau gwych â chwmnïau theatr, papurau newydd a'r diwydiant teledu.
- Mae llawer o aelodau staff yn ymarferwyr ac yn ymgynghorwyr yn eu meysydd.
- Mae gennym ganolfan gyfryngau a'r holl offer priodol, gydag ystafelloedd golygu, stiwdios cynhyrchu, offer cyfryngau a chyfryngau digidol.
- Cynhelir amrywiaeth o gynadleddau, fideo gynadleddau a digwyddiadau'r Diwydiannau Creadigol ym Mangor.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Dyma rai o'r modiwlau y gallech eu hastudio:

Blwyddyn 1
- Creating Narratives
- Iaith y Ffilm
- Cyfathrebu Digidol
- Cyflwyniad i Ymarfer y Cyfryngau
- Film History
- Film Criticism
- American TV Drama

Blwyddyn 2 a 3
- America on Film
- Writing for Film & Television
- Research and Methods
- Media Practice: Factual
- Y Ffilm ddogfen:Theori
- Traethawd Hir
- Short film Production
- Animation & Motion Graphics
- Film Theory
- Alfred Hitchcock
- Film Industry Development
- Political Cinema and Television
- Advanced Screenwriting
- Race and Gender
- Stanley Kubrick
- Contemporary Spanish Cinema
- The German Film

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn cynnig cydbwysedd rhwng tasgau ymarferol a dadansoddol. Mae modiwlau ymarfer y cyfryngau yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: cynhyrchu stiwdio, ffilmio a golygu camera sengl, a chynhyrchu radio.
Caiff modiwlau ymarferol eu hasesu ar gynnyrch ymarferol ac ar allu'r unigolyn i adfyfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer. Asesir modiwlau ar theori ffilm, ffilm a diwylliant, dadansoddi ffilm a rhaglenni dogfen trwy arholiad ac aseiniad ac yn aml maent hefyd yn cynnig cyfle i gyflwyno gwaith ymarferol fel rhan o'r asesu. Wrth i chi fynd trwy'r radd, caiff llawer o'r gwaith astudio ei wneud mewn grwpiau dysgu bach gyda phwyslais ar ddysgu sgiliau gweithio grŵp a'r gallu i gyflawni darn o waith ar eich pen eich hun o'r syniad dechreuol i'r cwblhau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae ein graddedigion yn gweithio yn y diwydiannau ffilm, cyfryngau a chreadigol, addysgu, mewn datblygu'r celfyddydau, mewn rhaglennu ffilm, gwneud ffilmiau ac amserlennu, ac mewn meysydd eraill lle ystyrir bod eu synnwyr gweledol datblygedig a'u gallu i ymwneud yn feirniadol ac yn greadigol gyda ffilm yn bwysig iawn. Mae nifer o raddedigion bob blwyddyn yn mynd ymlaen i ddatblygu eu gwaith ymhellach gyda ni trwy gyfnod o astudio ôl-radd, lle unwaith eto rydym yn cynnig cyfuniad o ddulliau beirniadol a chreadigol o astudio ffilm ac ymarfer ffilm.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
P3WL BA/MSTP Media Studies with Theatre and Performance
P3W5 BA/FSTP Film Studies with Theatre and Performance

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Astudiaethau Creadigol
a'r Cyfryngau

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/creadigol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Yn yr un modd â'r graddau eraill a gynigir gan Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau, mae'r graddau hyn wedi'u strwythuro o amgylch cydbwysedd rhwng theori ac ymarfer. Yn rhannau Theatr eich gradd byddwch yn cael cyfle i astudio pynciau fel hanes perfformio, traddodiadau dramatig cenedlaethol a rhyngwladol, theatr a chymdeithas, perfformio a hunaniaeth, perfformio byw, sgiliau actio a pherfformio, ysgrifennu sgriptiau ar gyfer theatr a theledu ac ysgrifennu ar gyfer y sgrin.

Ym mhob achos caiff astudio gwahanol agweddau damcaniaethol y ddisgyblaeth eu dwyn at ei gilydd gyda chyfleoedd i greu darnau perfformio gwreiddiol fel unigolyn ac fel aelod o ensemble.

Mae'r **BA Film Studies with Theatre and Performance** yn cyfuno astudio'r pynciau hyn gydag ymchwilio beirniadol i bynciau fel natur y ddelwedd symudol, pynciau mewn theori ffilm a dadansoddi'r diwylliant gweledol, yn ogystal â chaniatáu i chi astudio modiwlau ffilmiau arbenigol mewn meysydd fel America ar Ffilm, Awduraeth Ffilm, Genre Ffilm a Sinema Ffrangeg. Mae'r **BA Media Studies with Theatre and Performance** yn ychwanegu amrywiaeth o lwybrau disgyblaethol i'r dewis, yn cynnwys cyfryngau digidol a gemau, diwylliant y cyfryngau, drama teledu ac ymarfer y cyfryngau, yn ogystal â'ch dysgu i gael dealltwriaeth feirniadol o'r ffordd y mae'r cyfryngau yn gweithio a'r berthynas rhwng diwylliant y cyfryngau a chymdeithas. Gyda'r ddwy radd, cewch yr opsiwn yn eich blwyddyn olaf i gynhyrchu naill ai traethawd hir unigol neu ddarn o waith grŵp, ac mae gan y ddwy radd ddau opsiynau yn seiliedig ar berfformiad.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae'r cyfuniad agos rhwng dulliau gweithredu academaidd a theoretig ac ymarfer creadigol yn un unigryw. Mae myfyrwyr yn cael cyfle ar bob lefel i gyfuno astudiaethau yn eu dewis faes gyda gwaith ymarferol sy'n deillio o hynny megis ysgrifennu, perfformio, a chynhyrchu yn y cyfryngau/cyfryngau digidol.
- Rydym yn arbenigo mewn nifer o feysydd allweddol: Ysgrifennu Proffesiynol a Newyddiaduriaeth; Cyfathrebu Cyfryngau a Digidol; Astudiaethau Ffilm; Astudiaethau Perfformio; Ymarfer Creadigol a'r Cyfryngau. Mae diddordebau ymchwil yn cynnwys pob maes o Astudiaethau Ffilm, gyda rhaglenni ymchwil yn cael eu cynnal mewn nifer o feysydd allweddol.
- Mae gennym gysylltiadau gwych â chwmnïau theatr, papurau newydd a'r diwydiant teledu.
- Mae nifer o aelodau staff yn ymarferwyr sy'n gweithio ar brojectau ar y cyd ac yn gweithredu fel ymgynghorwyr i ddiwydiant.
- Mae gennym ganolfan gyfryngau a'r holl offer priodol, gydag ystafelloedd golygu, stiwdios cynhyrchu, offer cyfryngau a chyfryngau digidol.
- Cynhelir nifer o wyliau ym Mangor ac mae'n lleoliad ar gyfer amrywiaeth o gynadleddau, fideo gynadleddau a digwyddiadau'r Diwydiannau Creadigol. Mae'n safle rheolaidd ar gyfer awduron creadigol, gwneuthurwyr ffilm, newyddiadurwyr, dylunwyr, dramodwyr, gwneuthurwyr cyfryngau newydd gwadd a mwy, ac mae'n annog myfyrwyr i ymwneud yn eang â'u diddordebau creadigol y tu hwnt i waith cwrs ffurfiol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Edrychwch ar y disgrifiadau o'r graddau Astudiaethau'r Cyfryngau (tudalen 218) ac Astudiaethau Ffilm (tudalen 215) i weld y modiwlau y gallech eu hastudio ar gyfer yr elfennau hyn o'ch gradd.

Enghraifft o fodiwlau cysylltiedig â Theatr a Pherfformiad y gallech eu cymryd:

Blwyddyn 1
- Dyfeisio Theatr
- Perfformio ar gyfer y Llwyfan a'r Sgrin

Blwyddyn 2 a 3
- Perfformio Safle Benodol
- Ymarfer Theatr Cyfoes
- Research/ Creative Practice / Enterprise Dissertation

Ewch i'r wefan i gael gwybodaeth am y modiwlau diweddaraf.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Caiff modiwlau ymarferol eu hasesu ar gynnyrch ymarferol ac ar allu'r unigolyn i adfyfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer. Asesir modiwlau eraill trwy arholiad ac aseiniad ac yn aml maent hefyd yn cynnig cyfle i gyflwyno gwaith ymarferol fel rhan o'r asesu. Wrth i chi fynd trwy'r radd, caiff llawer o'r gwaith astudio ei wneud mewn grwpiau dysgu bach gyda phwyslais ar ddysgu sgiliau gweithio grŵp a'r gallu i gyflawni darn o waith ar eich pen eich hun o'r syniad dechreuol i'r cwblhau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae graddedigion yn gweithio mewn meysydd fel ysgrifennu creadigol, ysgrifennu proffesiynol a chyhoeddi; newyddiaduraeth brint a/neu ddarlledu; cynhyrchu rhaglenni teledu; y diwydiannau hysbysebu a marchnata; radio, fel cyflwynwyr, yn ogystal â chynhyrchu rhaglenni; podledu, cynhyrchu ar y we a chyfryngau newydd a diwydiannau amlgyfrwng. Mae yna hefyd gyfleoedd ôl-radd.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
PP53 BA/JMS
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A (nid oes angen unrhyw bynciau penodol)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Mynediad: Llwyddo
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL
PROFIAD RHYNGWLADOL
BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Astudiaethau Creadigol
a'r Cyfryngau

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/creadigol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae wedi ei anelu at fyfyrwyr sy'n dymuno astudio newyddiaduraeth a'r cyfryngau, yn cynnwys: newyddiaduraeth teledu a radio; newyddiaduraeth brint; newyddiaduraeth ddigidol; ymarfer y cyfryngau; cysylltiadau cyhoeddus; a hanes, datblygiad a moeseg newyddiaduraeth. Pwyslais y cwrs yw cynnig cydbwysedd rhwng agweddau ymarferol ac academaidd.

Bydd y cwrs hwn yn rhoi sylfaen gadarn i chi mewn egwyddorion newyddiaduraeth, yn ogystal â'r sgiliau technegol ac ymarferol sy'n ofynnol i'ch gwneud yn weithiwr proffesiynol medrus yn y maes. Mae gan y staff ystod o ddiddordebau ymchwil gan gynnwys hysbysebu, cyfraith a rheoleiddio'r cyfryngau, preifatrwydd, newyddiaduraeth ddigidol, newyddiaduraeth ddarlledu, ysgrifennu proffesiynol, comics, diwylliant gweledol, digwyddiadau teledu a chyfryngau byw, gemau a bydoedd rhithwir, a hyperdestunau, ac maent yn ddiweddar wedi ysgrifennu am bynciau fel ffilm a fideo, amlgyfrwng, systemau cyfryngau byd-eang, tirweddau rhithwir, rhwydweithiau cymdeithasol, teledu rhyngweithiol, cyfryngau a chynrychiolaeth, teledu cwlt a gemau cyfrifiadurol.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae'r cyfuniad agos rhwng dulliau gweithredu academaidd a theoretig ac ymarfer creadigol yn un unigryw. Mae myfyrwyr yn cael cyfle ar bob lefel i gyfuno astudiaethau yn eu dewis faes gyda gwaith ymarferol sy'n deillio o hynny megis ysgrifennu, perfformio, a chynhyrchu yn y cyfryngau/cyfryngau digidol.
- Rydym yn arbenigo mewn nifer o feysydd allweddol: Ysgrifennu Proffesiynol a Newyddiaduriaeth; Cyfathrebu Cyfryngau a Digidol; Astudiaethau Ffilm; Astudiaethau Perfformio; Ymarfer Creadigol a'r Cyfryngau.
- Mae gennym gysylltiadau gwych â chwmnïau theatr, papurau newydd a'r diwydiant teledu.
- Mae llawer o aelodau staff yn ymarferwyr ac yn ymgynghorwyr yn eu meysydd.
- Mae gennym ganolfan gyfryngau a'r holl offer priodol, gydag ystafelloedd golygu, stiwdios cynhyrchu, offer cyfryngau a chyfryngau digidol.
- Cynhelir amrywiaeth o gynadleddau a digwyddiadau'r Diwydiannau Creadigol ym Mangor. Ceir ymweliadau rheolaidd gan awduron creadigol, gwneuthurwyr ffilm, newyddiadurwyr, dylunwyr, dramodwyr, gwneuthurwyr cyfryngau newydd gwadd a mwy, ac mae hyn yn annog myfyrwyr i ymwneud yn eang â'u diddordebau creadigol y tu allan i waith cwrs ffurfiol.
- Yn aml, cynhelir projectau blwyddyn olaf mewn cydweithrediad â chwmni a gallent gynnwys gweithio mewn tîm gyda myfyrwyr o gyrsiau gradd yn y celfyddydau creadigol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Dyma rai o'r modiwlau y gallech eu hastudio:

Blwyddyn 1
- Cyflwyniad i Newyddiaduraeth Ymarferol
- Cyfathrebu Digidol
- Issues in Media and Journalism
- Cyflwyniad i Ymarfer yn y Cyfryngau

Blwyddyn 2 a 3
- Cynhyrchu'r Ffilm Ddogfen
- Research and Methods
- The Global News Agenda
- Writing for Film and Television
- Y Ffilm ddogfen:Theori
- Newyddiaduraeth Ddigidol Ymarferol
- Digital Journalism
- Final Year Group Project
- Journalism and Risk
- Newyddiaduraeth Ymarferol: MCD
- Radio: Theori ac Ymarfer
- Radio Pellach a Phodledu
- Traethawd Hir

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r cwrs yn gydbwysedd rhwng tasgau ymarferol a dadansoddol. Mae modiwlau newyddiaduraeth Ymarferol yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu'r myfyriwr i gynhyrchu darnau newyddiadurol ar gyfer print, teledu, radio a'r we. Caiff modiwlau ymarferol eu hasesu ar gynnyrch ymarferol ac ar allu'r unigolyn i adfyfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer. Asesir modiwlau eraill trwy arholiad ac aseiniad ac yn aml maent hefyd yn cynnig cyfle i gyflwyno gwaith ymarferol fel rhan o'r asesu. Wrth i chi fynd trwy'r radd, caiff llawer o'r gwaith astudio ei wneud mewn grwpiau dysgu bach gyda phwyslais ar ddysgu sgiliau gweithio grŵp a'r gallu i gyflawni darn o waith ar eich pen eich hun o'r syniad dechreuol i'r cwblhau.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae elfennau ymarferol y radd hon yn rhoi dealltwriaeth drylwyr i'r myfyrwyr o'r egwyddorion sy'n llywio ymarfer newyddiadurol. Mae nifer o'n graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio yn y diwydiant papurau newydd, ac ar deledu a radio, o flaen y camera ac fel rhan o'r tîm cynhyrchu. Mae nifer o raddedigion bob blwyddyn yn mynd ymlaen i ddatblygu eu gwaith ymhellach gyda ni trwy gyfnod o astudio ôl-radd, lle unwaith eto rydym yn cynnig cyfuniad o ddulliau beirniadol a chreadigol o astudio'r cyfryngau ac ymarfer yn y cyfryngau.

DATBLYGIADAU NEWYDD
Yn amodol ar gael ei ddilysu bydd BA Journalism yn cael ei gynnig fel gradd anrhydedd sengl ym mis Medi 2021. Ewch i'r wefan am y manylion diweddaraf.

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Cod cwrs UCAS:
P306
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Cynnig nodweddiadol o isafswm o 104 pwynt tariff o gymhwyster lefel 3* e.e.:
- Lefel A (dim pwnc penodol)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: MMM
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Astudiaethau Creadigol
a'r Cyfryngau

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/creadigol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Ar y cwrs cyffrous hwn byddwch yn dysgu am ddulliau gwahanol o gyfathrebu – mewn geiriau a delweddau, ac agweddau gwahanol ar y cyfryngau – radio, teledu ac amlgyfryngedd. Bydd cyfle hefyd i ddatblygu'r medrau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer gyrfaoedd perthnasol i'r meysydd hynny.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae gennym gysylltiadau arbennig gyda'r diwydiannau creadigol proffesiynol yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys cwmnïau teledu annibynnol, BBC Cymru, S4C, a'r wasg leol a chenedlaethol.
- Mae Canolfan y Cyfryngau yn cynnwys stiwdio radio sain gydag offer hunan-reoli, unedau symudol fideo a sain ac ystafell benodol ar gyfer y cyfryngau newydd.
- Yn yr un ganolfan ceir yr offer golygu digidol diweddaraf: *Final Cut Pro* ar gyfer sain a fideo.
- Cynhelir dangosiadau o raglenni a ffilmiau gyda thaflunydd DVD a sain *Dolby* yn ein theatr ac yn adeilad Pontio.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Blwyddyn 1
Mae'r modiwlau a gynigir yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwyniad i Newyddiaduraeth Ymarferol
- Cyfathrebu Digidol
- Iaith y Ffilm
- Cyflwyniad i Ymarfer y Cyfryngau
- Sgriptio Teledu
- Dyfeisio Theatr
- Perfformio ar y Llwyfan a'r Sgrin
- Issues in Media and Journalism
- Hanes Ffilm
- Dramâu Teledu Americanaidd



Blwyddyn 2 a 3
Mae'r canlynol ymhlith y modiwlau a gynigir:

- Y Ffilm Ddogfen: Theori
- Ymarfer y Cyfryngau: Ffeithiol
- Radio: Theori ac Ymarfer
- Newyddiaduraeth Ddigidol Ymarferol
- Radio Pellach a Phodledu
- Ymarfer Theatr Gyfoes
- Cynhyrchu'r Ffilm Fer
- Y Sgrin Fach Gymraeg
- Sgriptio
- Ymarfer Proffesiynol
- Perfformio Safle-benodol
- Y Theatr Gymraeg Fodern
- Newyddiaduraeth Ymarferol: Moeseg, Cyfraith a Democratiaeth

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn mynychu darlithoedd, seminarau, tiwtorialau, gweithdai a sesiynau gwylio, gan gyflawni tasgau ymarferol a dadansoddol.

Mae'r modiwlau cyfryngau ymarferol yn canolbwyntio ar dri phrif faes: cynhyrchu ffilm a theledu, cynhyrchu radio a chyfryngau digidol yn fwy cyffredinol. Asesir y modiwlau hyn ar sail y gwaith creadigol a gallu'r unigolyn i ddadansoddi'r gwaith.

Bydd y modiwlau sydd yn ymwneud â hanes, dylanwad a diwylliant y cyfryngau yn cael eu hasesu drwy aseiniadau ac arholiadau, ond mae'r dulliau asesu yn amrywio yn ôl y modiwlau a ddewisir. Bydd llawer o'r dysgu yn cael ei gyflawni mewn grwpiau bach.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Yn ogystal â magu dealltwriaeth o gynhyrchu cyfryngol a'r cyd-destun ehangach, bydd y myfyrwyr hefyd yn datblygu nifer o sgiliau trosglwyddadwy gwerthfawr. Mae ein graddedigion felly yn gweithio mewn nifer o feysydd amrywiol, gan gynnwys y diwydiannau creadigol, a'r cyfryngau creadigol yn arbennig, addysg a'r sector cyhoeddus, a marchnata a chysylltiadau cyhoeddus. Mae nifer ohonynt wedi parhau â'u haddysg drwy gyflawni astudiaethau ôl-radd ym Mangor.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
Astudiaethau'r Cyfryngau gyda:
French P3R1 BA/MSFr; German P3R2 BA/MS; Italian P3R3 BA/MSIt; Spanish P3R4 BA/MSSp
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 104 pwynt tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.:
- Lefel A, yn cynnwys gradd C mewn iaith berthnasol. (Nid oes rhaid cael iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- Diploma Bagloriaeth Ryngwladol gan gynnwys H5 mewn Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg neu Sbaeneg. (Nid oes rhaid cael iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo**
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ei ystyried ar y cyd â chymhwyster arall yn yr iaith berthnasol, e.e. Lefel A ac IB Uwch mewn iaith.
Nid oes rhaid cael iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Astudiaethau Creadigol
a'r Cyfryngau

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cah@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/creadigol

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae'r cyrsiau hyn yn eich galluogi i astudio astudiaethau'r cyfryngau (dwy ran o dair) gydag iaith fodern (un rhan o dair). Bydd y cyrsiau hyn yn rhoi sylfaen gadarn i chi mewn egwyddorion theori ac ymarfer y cyfryngau, yn ogystal â'r sgiliau technegol ac ymarferol sy'n ofynnol i'ch gwneud yn weithiwr llwyddiannus yn y cyfryngau.
Yn ogystal, bydd y cwrs yn eich galluogi i ymestyn eich gwybodaeth am iaith fodern.

Mae gan y staff dysgu amrywiaeth o ddiddordebau ymchwil gan gynnwys hysbysebu, comics, gemau a bydoedd rhithwir, diwylliant gweledol, teledu byw, hyperdestunau, y diwydiant gemau a digwyddiadau'r cyfryngau ac maent yn ddiweddar wedi ysgrifennu am bynciau fel ffilm a fideo, gwleidyddiaeth a'r cyfryngau, amlgyfrwng, systemau cyfryngau byd-eang, tirweddau rhithwir, rhwydweithiau cymdeithasol, teledu rhyngweithiol, preifatrwydd, y cyfryngau a chynrychiolaeth, teledu cwlt, gemau cyfrifiadurol a rhaglenni dogfen.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae'r cyfuniad agos o ddulliau gweithredu academaidd a theoretig ac ymarfer creadigol yn un unigryw. Mae myfyrwyr yn cael y cyfle i gyfuno astudiaethau yn eu dewis faes gyda gwaith ymarferol sy'n deillio o hynny megis ysgrifennu, perfformio, a chynhyrchu yn y cyfryngau/cyfryngau digidol.
- Rydym yn arbenigo mewn nifer o feysydd allweddol: Ysgrifennu Proffesiynol a Newyddiaduriaeth; Cyfathrebu Cyfryngau a Digidol; Astudiaethau Ffilm; Astudiaethau Perfformio; Ymarfer Creadigol a'r Cyfryngau. Mae gennym ddiddordebau ymchwil ym mhob maes o Astudiaethau Ffilm, gyda rhaglenni ymchwil yn cael eu cynnal mewn nifer o feysydd allweddol.
- Mae gennym gysylltiadau gwych â phapurau newydd a'r diwydiant teledu.
- Mae gennym ganolfan gyfryngau a'r holl offer priodol, gydag ystafelloedd golygu, stiwdios cynhyrchu, offer cyfryngau a chyfryngau digidol.
- Cynhelir amrywiaeth o gynadleddau, fideo gynadleddau a digwyddiadau'r Diwydiannau Creadigol ym Mangor.
- Yn aml, cynhelir projectau blwyddyn olaf mewn cydweithrediad â chwmni a gallent gynnwys gweithio mewn tîm gyda myfyrwyr o gyrsiau gradd yn y celfyddydau creadigol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Dyma rai o'r modiwlau y gallech eu hastudio:
Mae'r cyrsiau wedi'u cynllunio fel eich bod yn astudio dwy ran o dair o fodiwlau Astudiaethau'r Cyfryngau, ac un rhan o dair o fodiwlau Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg/Eidaleg. Dyma rai o'r modiwlau y gallech eu hastudio:

Blwyddyn 1
- Materion yn y Cyfryngau a Newyddiaduraeth
- Sgriptio Teledu
- Cyfathrebu Digidol
- Cyflwyniad i Ymarfer y Cyfryngau
- French/German/Spanish/Italian Language Skills
- French/German/Spanish/Italian Communication Skills
- Film History

Blwyddyn 2 a 3
- Cynhyrchu'r Ffilm Ddogfen
- Writing for Film and Television
- Research and Methods
- Cynhyrchu'r Ffilm Fer
- Theori ac Ymarfer
- Radio Pellach a Phodledu
- Traethawd Hir

Byddwch hefyd yn gwneud modiwlau o'r radd BA Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg, neu o ystod o fodiwlau mewn Eidaleg.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn mynd i ddarlithoedd, seminarau, tiwtorialau, gweithdai a sesiynau gwylio, ac yn gwneud tasgau ymarferol a damcaniaethol. Mae modiwlau ymarfer y cyfryngau yn canolbwyntio ar dri phrif faes: cynhyrchu ffilm a theledu, cynhyrchu radio a dylunio gemau. Caiff modiwlau ymarferol eu hasesu ar gynnyrch ymarferol ac ar allu'r unigolyn i adfyfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer. Asesir modiwlau ar hanes a dylanwad y cyfryngau, a diwylliant y cyfryngau, gan arholiadau ac aseiniadau, ond bydd dulliau asesu yn amrywio yn ôl y modiwlau a ddewiswyd.

RHAGOLYGON GYRFA
Yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o gynhyrchu yn y cyfryngau a'r cyd-destun y tu ôl i hyn, bydd myfyrwyr yn ymarfer nifer o sgiliau trosglwyddadwy dymunol iawn. Felly mae ein myfyrwyr wedi mynd ymlaen i yrfaoedd mewn meysydd fel y diwydiannau creadigol, a'r cyfryngau creadigol yn benodol, addysg a'r sector cyhoeddus, a marchnata a chysylltiadau cyhoeddus. Mae nifer o raddedigion bob blwyddyn yn mynd ymlaen i ddatblygu eu gwaith ymhellach gyda ni trwy gyfnod o astudiaeth ôl-radd, lle unwaith eto mae Bangor yn cynnig cyfuniad o ddulliau beirniadol a chreadigol i astudio ffilm ac ymarfer y cyfryngau.









"Dwi wrth fy modd efo'r ardal, ac mae gen i deulu'n byw ddim yn bell iawn o Fangor ym Mlaenau Ffestiniog. Dwi wedi gwirioni efo'r awyrgylch ac adeilad y Brifysgol. Mae'r golygfeydd yn anhygoel ac mae popeth ar stepan eich drws...

Dwi'n hoff iawn o'r gwahanol fodiwlau ar y cwrs, ac wrth gwrs, cael darllen llu o lyfrau. Mae'r staff o hyd yn barod i helpu ac yn gyfeillgar iawn."

Catrin Elain Jones
BA Llenyddiaeth Saesneg

ATHRONIAETH A CHREFYDD

- **Philosophy and Religion BA**

Gradd Gysylltiedig
- Law with Philosophy and Religion (tud 167)

PHILOSOPHY AND RELIGION
BA [Anrh]

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Cod cwrs UCAS:
VV56 BA/PhRe
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Ar gyfer cyrsiau gradd cyd-anrhydedd, cofiwch fwrw golwg ar ofynion mynediad y pwnc arall a ddewiswch. Cynnig nodweddiadol o isafswm o 104 pwynt tariff o gymhwyster lefel 3* e.e.:
- Lefel A (dim angen unrhyw bwnc penodol)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
- Derbynnir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion laith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Athroniaeth a Chrefydd

Ffôn: 01248 382085
E-bost: athroniaeth@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/spar

BETH YDI NATUR Y CWRS HWN?
Mae astudio'r pwnc hon yn rhoi cyfle i chi ymwneud â rhai o'r syniadau pwysicaf a mwyaf heriol sydd wedi dylanwadu ar ddiwylliannau Dwyreiniol a Gorllewinol. Mae ein dewis o fodiwlau yn cynnig amrywiaeth unigryw o draddodiadau crefyddol ac athronyddol, sy'n cynnwys athroniaeth ddadansoddol a chyfandirol a chrefyddau o'r traddodiad Dwyreiniol a Gorllewinol. I rai gyda meddwl ymchwilgar sydd eisiau meithrin sgiliau newydd, efallai mai hwn yw'r cwrs delfrydol i chi!

PAM DEWIS BANGOR?
- Byddwch yn elwa o arbenigedd ac ymrwymiad ein staff i addysgu, a gofal dros fyfyrwyr a'u lles.
- Mae myfyrwyr yn ystyried bod ein haddysgu o safon hynod uchel ac mae Athroniaeth ym Mangor ar y brig yng Nghymru o ran boddhad myfyrwyr (Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2018).
- Mae ein staff yn cyflawni llawer o waith ymchwil ac yn cynnwys ymchwil gyfredol yn eu haddysgu.
- Rydym yn cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio'r radd fel gradd Anrhydedd Sengl, neu ar y cyd ag ystod o bynciau eraill fel rhan o radd gyd-anrhydedd.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Bydd y cyrsiau cydanrhydedd hyn yn eich galluogi i astudio dwy iaith yn gyfartal. Byddant yn rhoi sgiliau uwch i chi yn y ddwy iaith, ac amrywiaeth eang o drosolwg arbenigol a manwl i ddiwylliant, cymdeithas a hanes y gwledydd y siaredir yr ieithoedd hyn. Mae iaith yn ganolog i'r radd hon, gyda modiwlau craidd yn datblygu'r sgiliau llafar, clywedol ac ysgrifenedig allweddol bob blwyddyn. Mae'r modiwlau hyn hefyd yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol, y bydd ei hangen arnoch ar gyfer eich blwyddyn dramor, ac ar gyfer byd gwaith yn nes ymlaen. Gallwch astudio un o'r ieithoedd o lefel dechreuwr. Rhestr yw'r hyn sy'n dilyn o'r cyfuniadau sydd ar gael.

Codau cwrs UCAS:

German and French	RR12 BA/G4F
French and Italian	RR13 BA/FI
French and Spanish	RR14 BA/FS
German and Italian	RR23 BA/GI
German and Spanish	RR24 BA/GS
Spanish and Italian	RR43 BA/SI
Chinese and French	T104 BA/CHFr
Chinese and German	T105 BA/CHG
Chinese and Italian	T106 BA/CHIt
Chinese and Spanish	T107 BA/CHSp

Cyfeiriwch at y tudalennau sy'n rhoi sylw i ieithoedd penodol yn gynharach yn yr adran hon i gael rhagor o fanylion.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae Bangor yn cael canlyniadau rhagorol yn gyson am foddhad myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Ar yr un pryd, mae ein hystod fawr ac amrywiol o fodiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i'ch anghenion personol.
- Caiff rhai opsiynau eu haddysgu drwy gyfrwng Ffrangeg/ Almaeneg/Sbaeneg/Eidaleg/ Tsieinëeg, ac eraill drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Mae gan raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau ein graddau yn hyblyg.
- Gallwch newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion mynediad).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Yn ogystal â'r ddwy iaith, mae'r maes llafur yn cynnwys amrywiaeth eang o opsiynau cyffrous ar gyfer pob un o'ch pynciau. Mae modiwlau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys rhagarweiniad i hanes, diwylliant, sinema a llenyddiaethau Ewrop a/ neu Tsieina. Mae'r dewisiadau yn yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn cynnig lefelau cynyddol o arbenigo wrth i chi gwblhau eich gradd. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o ddeunyddiau diwylliannol a llenyddol o wahanol ganrifoedd ond gyda phwyslais ar y cyfnod modern. Mae pob un o'r ieithoedd yn cynnig modiwlau ar hanes, sinema a chyfryngau eu maes ieithyddol.

Byw Dramor:
Caiff y drydedd flwyddyn ei threulio dramor. Eich prif opsiynau yw:

- Astudio yn un o'r prifysgolion sy'n bartneriaid i ni mewn gwledydd lle siaredir yr ieithoedd rydych yn eu hastudio (gweler y tudalennau sy'n manylu ar yr ieithoedd penodol hynny am restrau o'r sefydliadau partner yn y gwahanol wledydd).
- Lleoliad gwaith â thâl fel cynorthwyydd Saesneg mewn ysgolion mewn gwlad lle siaredir un o'r ieithoedd yr ydych chi'n eu hastudio ac o leiaf gwrs haf mewn gwlad lle siaredir yr iaith arall.
- Lleoliad gwaith cymeradwy.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych 3-4 awr o ddosbarthiadau iaith bob wythnos ar gyfer y ddwy iaith o'ch dewis ynghyd â dosbarthiadau yn y modiwlau eraill y byddwch wedi eu dewis. Mae'r hyfforddiant gan fwyaf mewn grwpiau bychain, ac nid oes llawer o ddarlithoedd ffurfiol.

Mae'r asesu'n cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau ysgrifenedig a llafar. Byddwch hefyd yn cwblhau traethawd hir fel rhan o'ch gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae astudio leithoedd a Diwylliannau Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd. Mae llawer o raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfieithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, mewn busnes a masnach, mewn diwydiant ac yn y cyfryngau. Mae cyflogwyr o bob sector o'r economi yn rhoi gwerth uchel ar y sgiliau a ddysgwch wrth astudio ieithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf
Hyd: 4 blynedd (3 blynedd os yw iaith yn is elfen)

GOFYNION MYNEDIAD:
Isod rhestrir yr elfennau sy'n benodol i iaith. Dylech edrych hefyd ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis.
- Lefel A (yn cynnwys gradd C mewn iaith. Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr).
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn iaith berthnasol) Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- BTEC/City & Guilds/Mynediad: Caiff ei ystyried ar y cyd â gradd C mewn lefel A neu Fagloriaeth Ryngwladol Uwch mewn iaith berthnasol. Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol:
www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithoeddmodern

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'r cyrsiau hyn yn caniatáu ichi astudio iaith fodern fel rhan o radd gydanrhydedd (50% iaith, 50% pwnc arall) neu mewn cyfuniad prif bwnc / is bwnc (67% pwnc arall, 33% iaith). Gweler isod fanylion y cyfuniadau sydd ar gael. Os ydych yn dymuno astudio iaith fel prif elfen eich cynllun gradd, cyfeiriwch at y tudalennau sy'n manylu ar yr iaith honno yn benodol yn gynharach yn yr adran hon.

French, German, Italian neu Spanish A phwnc arall (50% iaith, 50% pwnc arall)
Mae'n bosibl cyfuno unrhyw un o'r ieithoedd uchod ag un o'r pynciau canlynol: Criminology and Criminal Justice, English Literature, English Language, Film Studies, History, Linguistics, Music, Philosophy and Religion, Sport Science neu Gymraeg. Gweler tudalennau 63-64 am godau UCAS.

Chinese A phwnc arall (50% Chinese, 50% pwnc arall)
Mae'n bosibl cyfuno Chinese ag un o'r pynciau canlynol: English Language, English Literature, Film Studies, Linguistics, Cymraeg.

Pwnc arall GYDA French, German, Italian, Spanish neu Chinese (67% pwnc arall, 33% iaith)
Mae'n bosibl cyfuno pwnc arall gydag unrhyw un o'r ieithoedd uchod. Gweler tudalen 166 am y Gyfraith a tudalen 63 am godau UCAS Astudiaethau'r Cyfryngau.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae Bangor yn cael canlyniadau rhagorol yn gyson am foddhad myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Ar yr un pryd, mae ein hystod fawr ac amrywiol o fodiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i'ch anghenion personol.
- Caiff rhai opsiynau eu haddysgu drwy gyfrwng Ffrangeg/ Almaeneg/Eidaleg/Sbaeneg/ Tsieinëeg, ac eraill drwy gyfrwng y Saesneg.
- Mae gan raddedigion leithoedd a Diwylliannau Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau'r cyrsiau gradd yn hyblyg, sy'n eich galluogi i newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch (yn amodol ar fodloni unrhyw ofynion mynediad).

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Iaith:
Yn ogystal â'r iaith mae'r maes llafur yn cynnwys ystod eang o opsiynau cyffrous. Mae cyrsiau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys rhagarweiniad i hanes, diwylliant, sinema a llenyddiaethau Ewrop a/neu Tsieina. Mae'r dewisiadau yn yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn cynnig lefelau cynyddol o arbenigo wrth i chi gwblhau eich gradd. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o ddeunyddiau diwylliannol a llenyddol o wahanol ganrifoedd ond gyda phwyslais ar y cyfnod modern. Mae pob un o'r ieithoedd yn cynnig modiwlau ar hanes, sinema a chyfryngau eu maes ieithyddol.

Os ydych yn astudio iaith fel is elfen dim ond y modiwlau iaith craidd y byddwch yn eu cymryd.

Pwnc arall:
Gweler y tudalennau sy'n rhoi manylion y pwnc penodol.

Byw Dramor:
Caiff y drydedd flwyddyn ei threulio dramor. Eich prif opsiynau yw:

- Astudio yn un o'r prifysgolion sy'n bartneriaid i ni trwy'r cynllun Erasmus (gweler y tudalennau sy'n manylu ar yr ieithoedd penodol hynny am restrau o'r sefydliadau partner yn y gwahanol wledydd).
- Lleoliad gwaith â thâl fel cynorthwyydd Saesneg mewn ysgolion.
- Lleoliad gwaith cymeradwy.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Bydd gennych 3-4 awr o ddosbarthiadau iaith bob wythnos ynghyd â dosbarthiadau yn y modiwlau eraill y byddwch wedi eu dewis. Mae'r hyfforddiant gan fwyaf mewn grwpiau bychain, ac nid oes llawer o ddarlithoedd ffurfiol.

Mae'r asesu'n cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau ysgrifenedig a llafar. Byddwch hefyd yn cwblhau traethawd hir fel rhan o'ch gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae astudio leithoedd a Diwylliannau Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd. Mae llawer o'n graddedigion, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfieithwyr, ond mae eraill wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, mewn busnes a masnach, mewn diwydiant ac yn y cyfryngau. Mae cyflogwyr o bob sector o'r economi yn rhoi gwerth uchel ar y sgiliau a ddysgwch wrth astudio ieithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol.

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
gweler y golofn nesaf
Hyd: 4 blynedd (3 blynedd os yw iaith yn is elfen)

GOFYNION MYNEDIAD:
Dylech edrych hefyd ar y gofynion mynediad ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis. TGAU: gradd C/4 mewn Mathemateg. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 96 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:
- Lefel A (yn cynnwys gradd C mewn iaith berthnasol.
- Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol (gan gynnwys H5 mewn iaith berthnasol)
- Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig a Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: MMM**
- Diploma Technegol/Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo**
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.

Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs
Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*I gael manylion llawn ewch i'n gwefan ac i weld rhestr lawn o'r cymwysterau lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ei ystyried ar y cyd â gradd C mewn lefel A neu Fagloriaeth Ryngwladol Uwch mewn iaith berthnasol.
Nid oes gofynion iaith ar gyfer y llwybr i ddechreuwyr.

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Ieithoedd a Diwylliannau Modern

Ffôn: 01248 382085
E-bost: ieithoedd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/ieithoeddmodern

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'r cyrsiau hyn yn caniatáu ichi astudio iaith fodern fel rhan o radd gydanrhydedd (50% iaith, 50% pwnc arall) neu mewn cyfuniad prif bwnc / is bwnc (67% pwnc arall, 33% iaith). Gweler isod fanylion y cyfuniadau sydd ar gael. Os ydych yn dymuno astudio iaith fel prif elfen eich cynllun gradd, cyfeiriwch at y tudalennau sy'n manylu ar yr iaith honno yn benodol yn gynharach yn yr adran hon.

French, German, Italian neu Spanish
A phwnc arall
(50% iaith, 50% pwnc arall)
Mae'n bosibl cyfuno unrhyw un o'r ieithoedd uchod ag un o'r pynciau canlynol: Accounting, Banking, Business Management, Economics neu Marketing. Gweler tudalennau 63-64 am godau UCAS.

Chinese A phwnc arall
(50% iaith, 50% pwnc arall)
Business Studies, Economics.
Gweler tudalennau 63-64 am godau UCAS.

Pwnc arall GYDA
French, German, Italian neu Spanish
(67% pwnc arall, 33% iaith)
Mae'n bosibl cyfuno Business Management neu Marketing gydag unrhyw un o'r ieithoedd uchod.
Gweler tudalennau 63-64 am godau UCAS.

PAM DEWIS BANGOR?
- Mae Bangor yn cael canlyniadau rhagorol yn gyson am foddhad myfyrwyr.
- Mae ein maint yn golygu ein bod yn cynnig addysg bersonol, mewn dosbarthiadau bychain, lle cewch ddod i adnabod y staff a'ch cyd-fyfyrwyr.
- Ar yr un pryd, mae ein hystod fawr ac amrywiol o fodiwlau yn eich galluogi i deilwra eich gradd i'ch anghenion personol.
- Caiff rhai opsiynau eu haddysgu drwy gyfrwng Ffrangeg/ Almaeneg/Eidaleg/Sbaeneg/ Tsieinëeg, ac eraill drwy gyfrwng y Saesneg.
- Mae gan raddedigion Ieithoedd a Diwylliannau Modern Bangor hanes da iawn o gael gwaith cyflogedig.
- Mae strwythurau ein graddau'n hyblyg, gan eich galluogi i newid eich gradd ar ddiwedd blwyddyn 1 os dymunwch.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Iaith:
Yn ogystal â'r iaith mae'r maes llafur yn cynnwys ystod eang o opsiynau cyffrous. Mae modiwlau'r flwyddyn gyntaf yn cynnwys rhagarweiniad i hanes, diwylliant, sinema a llenyddiaethau Ewrop a/neu Tsieina. Mae'r dewisiadau yn yr ail flwyddyn a'r flwyddyn olaf yn cynnig lefelau cynyddol o arbenigo wrth i chi gwblhau eich gradd. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o ddeunyddiau diwylliannol a llenyddol o wahanol ganrifoedd ond gyda phwyslais ar y cyfnod modern.
Mae pob un o'r ieithoedd yn cynnig modiwlau ar hanes, sinema a chyfryngau eu maes ieithyddol.

Os ydych yn astudio iaith fel is elfen dim ond y modiwlau iaith craidd y byddwch yn eu cymryd.

Pwnc arall:
Gweler y tudalennau sy'n rhoi manylion y pwnc penodol.

Byw Dramor:
Caiff y drydedd flwyddyn ei threulio dramor. Eich prif opsiynau yw:
- Astudio yn un o'r prifysgolion sy'n bartneriaid i ni (gweler y tudalennau sy'n manylu ar yr ieithoedd penodol hynny am restrau o'r sefydliadau partner yn y gwahanol wledydd).
- Lleoliad gwaith â thâl fel cynorthwyydd Saesneg mewn ysgolion.
- Lleoliad gwaith cymeradwy.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
Mae'r hyfforddiant gan fwyaf mewn grwpiau bychain, ac nid oes llawer o ddarlithoedd ffurfiol.

Mae'r asesu'n cynnwys gwaith cwrs ac arholiadau ysgrifenedig a llafar. Byddwch hefyd yn cwblhau traethawd hir fel rhan o'ch gradd.

RHAGOLYGON GYRFA
Mae astudio Ieithoedd a Diwylliannau Modern yn agor y drws i amrywiaeth eang o yrfaoedd. Mae llawer o raddedigion Ieithoedd a Diwylliannau Modern ym Mangor, wrth gwrs, wedi mynd ymlaen i fod yn athrawon a chyfieithwyr, ond mae'r un nifer wedi cychwyn ar yrfaoedd llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil, mewn busnes a masnach, mewn diwydiant ac yn y cyfryngau. Mae cyflogwyr o bob sector o'r economi yn rhoi gwerth uchel ar y sgiliau a ddysgwch wrth astudio ieithoedd - ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cyfathrebu, cywirdeb, cynllunio a dadansoddi rhesymegol.

CERDDORIAETH, THEATR A PHERFFORMIO

- Cerddoriaeth BA
- Cerddoriaeth BMus
- Cerddoriaeth gyda Theatr a Pherfformio BA

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
W300 BA/Mus; W302 BMus/Mus
Mae codau cydanrhydedd ar dudalennau 63-64.
Hyd: 3 blynedd llawn amser (astudio rhan-amser ar gael hefyd).

GOFYNION MYNEDIAD:
Yn achos graddau ar y cyd, edrychwch ar y cofnod ar gyfer y pwnc arall o'ch dewis. Mae angen medru darllen hen nodiant i wneud unrhyw un o'r cyrsiau Cerddoriaeth. Mae cynnig nodweddiadol yn seiliedig ar isafswm o 120 o bwyntiau tariff o gymhwyster Lefel 3* e.e.:

- Lefelau A (yn cynnwys gradd B mewn Cerddoriaeth neu ar y cyd â chymwysterau eraill a restrir isod**)
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol/ IB (gan gynnwys gradd H6 mewn Cerddoriaeth)
- Diploma Cenedlaethol/Estynedig BTEC mewn Cerddoriaeth: DDM
- Diploma Technegol Estynedig Caergrawnt: DDM**
- Diploma Technegol / Estynedig Uwch City & Guilds: ystyrir fesul achos**
- Mynediad: Llwyddo**
- Derbynnir Bagloriaeth Cymru.
- Mae pwyntiau o arholiadau safonau cerdd yn cael eu hystyried lle bo hynny'n briodol, er nad ydynt fel rheol yn cael eu cynnwys yn y cynnig. Derbynnir cymwysterau gadael ysgol a diplomâu coleg rhyngwladol, yn amodol ar ofynion iaith Saesneg penodol: www.bangor.ac.uk/intreqs

Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn.
*Am fanylion llawn ewch i'n gwefan ac am restr o gymwysterau Lefel 3 a dderbynnir, ewch i www.ucas.com
**Gellir ei ystyried ar y cyd â gradd B mewn Cerddoriaeth Safon Uwch; neu deilyngdod yn Theori Gradd 5 ABRSM / Trinity / LCM / Rockschool / Gradd 7 Ymarferol; neu IB Uwch mewn Cerddoriaeth.

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Cerddoriaeth, Drama a Pherfformio

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cerdd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/cerddoriaeth

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Nod ac amcan y cyrsiau hyn yw perfformio, cyfansoddi, ac astudio cerddoriaeth o bob cyfnod mewn awyrgylch greadigol fyrlymus ac ysgolheigaidd.

PAM DEWIS BANGOR?

- Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o ddewisiadau sy'n eich galluogi i lunio'ch cwrs gradd i adlewyrchu'ch diddordebau a'ch cryfderau.
- Ymhlith ein haelodau staff cyfeillgar a hynod gefnogol, fe geir cyfansoddwyr, cerddoregwyr a pherfformwyr sydd ag arbenigedd mewn amrywiaeth eang o feysydd ym maes cerddoriaeth.
- Gwneir llawer o'r dysgu mewn grwpiau bach sy'n creu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a chefnogol.
- Mae ein cyfres gyngherddau yn cynnwys cyngherddau cerddoriaeth siambr (a phreswyliaeth flynyddol gan Ensemble Cymru a'r Benyounes Quartet, sydd hefyd yn cynnig dosbarthiadau meistr); datganiadau gan gantorion ac offerynwyr blaenllaw, cyngherddau o gerddoriaeth acwstmatig a roddir gan Electroacwstig Cymru, ac ymweliadau cyson gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Cherddorfa Ffilharmonig Frenhinol Lerpwl. Yn ogystal â hyn, rydym yn cynnal Gŵyl Cerddoriaeth Newydd. Mae tocynnau tymor ar gael i fyfyrwyr am bris rhesymol iawn.
- Mae gennym gôr mawr a cherddorfa symffoni, côr siambr, grwpiau cerddoriaeth gynnar ac amrywiaeth o ensemblau eraill.
- Rhoddir cyfle i berfformwyr chwarae concertos gyda cherddorfa symffoni'r Brifysgol. Perfformir cyfansoddiadau gan ein myfyrwyr, yn aml gan gerddorion proffesiynol sy'n ymweld â ni. Mae Cymdeithas Gerdd y Brifysgol hefyd yn cynnal cerddorfa a chôr ac mae cymdeithasau eraill Undeb y Myfyrwyr yn cynnwys band pres, band jazz, a chymdeithas sioeau cerdd.
- Mae gennym ddwy neuadd gyngerdd odidog ac adeiladau adrannol sy'n cynnwys ystafelloedd dysgu modern, lleoliadau ymarfer, mannau astudio, a nifer o ystafelloedd ymarfer tawel unigol, sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Hefyd mae nifer o bianos cyngerdd ac unionsyth, organau, telynau, offerynnau taro a harpsicordiau. Mae ein 5 stiwdio, sydd ar agor 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos, yn cynnwys offer o safon ryngwladol ar gyfer recordio, ymchwil a chyfansoddi. Mae gennym dros 3,000 o gryno ddisgiau ac 20,000 o sgorau.
- Mae gennym amrywiaeth helaeth o adnoddau electronig, yn cynnwys Naxos Music Libary a Grove Online. Mae yna nifer o gyfrifiaduron mynediad agored, sydd â Sibelius a phecynnau meddalwedd cerddorol eraill.
- Prifysgol Bangor yw'r lle mwyaf blaenllaw yn y byd i astudio Cerddoriaeth Cymru. Mae gennym Archif Cerddoriaeth Draddodiadol (sy'n cynnwys casgliad o dros 300 o offerynnau o ddiwylliannau byd-eang), Archif Cerddoriaeth Boblogaidd Gymreig (sydd â chasgliad nodedig o recordiau), a Chasgliad Crossley-Holland (sy'n cynnwys casgliad o dros 600 o offerynnau o ddiwylliannau byd-eang).
- Cynigir Ysgoloriaethau Perfformio i'r offerynwyr neu'r cantorion mwyaf addawol. Cewch fwy o fanylion gan y Tiwtor Mynediad.

BETH FYDDAF YN EI DDYSGU?
Os byddwch yn dilyn cwrs gradd cyd-anrhydedd, byddwch yn astudio hanner eich modiwlau mewn Cerddoriaeth bob blwyddyn, gan gynnwys traean o'r modiwlau craidd.

Blwyddyn 1:
Os byddwch chi'n dilyn cwrs Cerddoriaeth BA, byddwch yn cymryd rhwng 80 a 120 credyd mewn cerddoriaeth. Bydd myfyrwyr BMus yn cymryd y 120 i gyd mewn cerddoriaeth.

Modiwlau craidd:

- Cerddoriaeth Ers 1850 neu Cerddoriaeth 1550 - 1850
- Harmoni a Gwrthbwynt

Dewisiadau yn cynnwys:
Perfformio Unawdol; Cyfansoddi; Celfyddyd Sonig.

Blwyddyn 2:
Ar gyfer y cwrs Cerddoriaeth BA, byddwch yn cymryd rhwng 100 a 120 credyd mewn Cerddoriaeth; bydd myfyrwyr BMus yn cymryd 120 credyd mewn Cerddoriaeth.

Modiwlau gorfodol:

- Rhaid dewis o leiaf ddau o'r modiwlau canlynol: Cerddoreg; Cyfansoddi a/neu Gyfansoddi Acwsmatig; Perfformio Unawdol; Nodiant a Golygu.
- Byddwch hefyd yn astudio o leiaf un o'r Astudiaethau *Genre* neu Gyfansoddwyr. Mae'r rhain yn newid bob blwyddyn, ond ymhlith enghreifftiau ceir:

Astudiaethau *Genre*:
Symffoni'r Ugeinfed Ganrif, Beethoven a'r Pedwarawd Llinynnol, Y Ffidil yn Niwylliant y Byd, Minimaliaeth.

Astudiaethau Cyfansoddwyr,
Wagner, Y Beatles, Handel, Nyman, Ligeti a Bjork.

Dewisiadau:
Harmoni a Gwrthbwynt Uwch; Astudiaethau Cerddoriaeth Cymru; Addysgu Cerddoriaeth yn ei Gyd-destun; Ysgrifennu Caneuon, Cerddorfaeth, Cerddoriaeth mewn Iechyd a Lles; Celfyddydau yn y Gymuned, Ensemblau a Grwpiau, Sain a Cherddoriaeth Ryngweithiol; Arwain.

Blwyddyn 3:
Bydd yr holl fodiwlau y byddwch yn ei hastudio yn rhai Cerddoriaeth ar y cyrsiau BA neu BMus fel ei gilydd. Bydd yn rhaid i chi wneud gwaith project mewn un o leiaf o'r meysydd project canlynol: Traethawd Hir, Golygu, Cyfansoddi (yn cynnwys Cyfansoddi Acwstig, Cyfansoddi Acwsmatig, Cyfansoddi Poblogaidd), Perfformio Unawdol.

Dewisiadau eraill:
Harmoni a Gwrthbwynt Uwch; Astudiaethau Cerddoriaeth Cymru; Addysgu Cerddoriaeth yn ei Gyd-destun; Ysgrifennu Caneuon, Cerddorfaeth, Cerddoriaeth mewn Iechyd a Lles; Celfyddydau yn y Gymuned, Ensemblau a Grwpiau, Sain a Cherddoriaeth Ryngweithiol; Arwain.

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn cael tua 12 awr o ddarlithoedd yr wythnos gan gynnwys seminarau a dosbarthiadau tiwtorial. Mae Perfformio Unawdol yn cael ei ddysgu trwy gyfuniad arloesol o wersi unigol, hyfforddiant, gweithdai a dosbarthiadau meistr. Ar ben hynny, byddwch yn treulio amser yn darllen gwaith cefndir, gwrando ar gerddoriaeth, cwblhau traethodau a gwaith cwrs a pharatoi ar gyfer seminarau, ynghyd ag ymarfer a pherfformio mewn ensemblau, corau a cherddorfeydd. Mae nifer o fodiwlau yn cynnwys ymweliadau maes, er enghraifft â neuaddau cyngerdd, cwmnïau recordio a chyhoeddwyr cerddoriaeth. Bydd rhai yn cynnwys lleoliadau byr y tu allan i'r Brifysgol (e.e. Celfyddydau yn y Gymuned). Gallwch ddisgwyl treulio rhwng traean a dwy ran o dair o'r flwyddyn olaf yn gweithio ar brojectau cerddoriaeth annibynnol. Gall myfyrwyr sy'n cymryd eu gradd gyda Phrofiad Rhyngwladol astudio am flwyddyn ychwanegol dramor; mae myfyrwyr cerdd yn y gorffennol wedi astudio yn y Unol Daleithiau America, Canada, y Ffindir a'r Weriniaeth Tsiec. Gallwch hefyd ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Tra bo llawer o raddedigion yn dilyn gyrfaoedd ym maes cerddoriaeth, mae'r cyrsiau gradd hyn hefyd yn baratoad da ar gyfer amrywiaeth eang o swyddi mewn gweinyddu, masnach a rheoli. Mae ein graddedigion wedi dod yn berfformwyr proffesiynol, cyfansoddwyr, athrawon, gweinyddwyr celfyddydau, therapyddion cerdd, cyhoeddwyr cerddoriaeth, llyfrgellwyr, rheolwyr cyngherddau, rheolwyr llwyfan, cynhyrchwyr recordio a darlledu, a pheirianwyr sain. Mae llawer o gyn-fyfyrwyr wedi dilyn hyfforddiant cerddorol ychwanegol ar ôl y cyrsiau gradd hyn, fel perfformwyr, ysgolheigion neu gyfansoddwyr, a cheir cyfleoedd i astudio'r rhain i gyd ym Mangor.

GRADDAU PERTHNASOL
Cerddoriaeth gyda Theatr a Pherfformio BA, Cerddoriaeth with Journalism BA.

GRADDAU CYDANRHYDEDD
Gallwch astudio'r radd hon fel gradd gydanrhydedd gydag amryw o bynciau. Ewch i dudalen 63 am fwy o wybodaeth.







CERDDORIAETH GYDA THEATR A PHERFFORMIO
BA [Anrhydedd]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Cod cwrs UCAS:
W3W4 BA/MUSTP

GOFYNION MYNEDIAD:
Am y gofynion mynediad, gweler tudalennau BA Cerddoriaeth. Does dim gofynion mynediad ychwanegol ar gyfer Theatr a Pherfformio.

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

BLWYDDYN LLEOLIAD AR GAEL

MWY O WYBODAETH
Tîm Derbyniadau
Cerddoriaeth, Drama a Pherfformio

Ffôn: 01248 382085
E-bost: cerdd@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/cerddoriaeth

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae astudio theatr ochr yn ochr â cherddoriaeth yn ehangu eich profiad a'ch dealltwriaeth o grefft perfformio. Mae'n addas iawn ar gyfer cantorion, ac i'r rheiny sydd â diddordeb yn yr opera, y theatr gerdd, a chyfansoddi i'r llwyfan a'r sgrin.

Ar y rhaglen hon, bydd traean o'ch modiwlau mewn astudiaethau theatr, a dwy ran o dair mewn cerddoriaeth. Yn amodol ar ddilysiad, bydd Theatr a Pherfformio hefyd ar gael fel cwrs anrhydedd sengl neu gyd-anrhydedd llawn o fis Medi 2021 ymlaen.

Mae'r rhaglen wedi'i llunio ar gydbwysedd rhwng archwilio ymarferol a dadansoddi beirniadol. Cewch gyfle i astudio pynciau fel hanes perfformio, traddodiadau dramatig cenedlaethol a rhyngwladol, theatr a chymdeithas, perfformio a hunaniaeth, perfformio byw, sgiliau actio a pherfformio ac ysgrifennu sgriptiau ar gyfer y llwyfan a'r teledu. Ym mhob un o'r meysydd yma, byddwch yn gwneud gwaith ymarferol a fydd yn sicrhau eich gafael ar y pwnc, a byddwch yn cael llawer o gyfleoedd i greu darnau perfformio gwreiddiol fel unigolyn ac fel aelod o *ensemble*.

PAM DEWIS BANGOR?
- Trwy astudio gydag ymarferwyr theatr profiadol yn sefyllfa draddodiadol y brifysgol, byddwch yn elwa o'r integreiddio hynod glos ar y dulliau damcaniaethol ac ymarfer creadigol ymarferol. Cewch gyfle i weithio'n unigol ac mewn timau, gan ddod â'ch sgiliau a'ch arbenigedd eich hun i gydweithrediad ag eraill, gan esgor ar waith gwreiddiol eithriadol sy'n fwy na chyfanswm y rhannau.
- Mae gennym gysylltiadau gwych â chwmnïau theatr, gwneuthurwyr ffilmiau a'r diwydiant teledu. Byddwn yn datblygu eich sgiliau entrepreneuraidd ochr yn ochr â'ch dychymyg creadigol.
- Mae ein staff i gyd yn weithwyr proffesiynol gweithredol, a chanddynt arbenigedd mewn actio, cyfarwyddo, coreograffi, ysgrifennu sgriptiau, dramäwriaeth, theatr gorfforol, theatr gymunedol, a llawer mwy.
- Mae gennym gyfleusterau perfformio rhagorol, gan gynnwys ein theatr ymarfer ein hunain (Awditoriwm John Phillips) a dwy theatr broffesiynol llawn offer (Theatr Bryn Terfel a Theatr Stiwdio Pontio). Gallwch elwa hefyd o'r cyfleusterau eithriadol sydd gennym ar gyfer cynhyrchu yn y cyfryngau, gan gynnwys ystafelloedd golygu fideo, amrywiaeth o offer digidol, a sinema o safon broffesiynol.
- Mae Bangor yn lleoliad syfrdanol ar gyfer gwaith safle-benodol. Gallwch gerdded at y môr mewn 5 munud o'n theatr ymarfer, ac mae gan y rhanbarth amrywiaeth hynod o leoliadau allanol, gan gynnwys cestyll, chwareli, coedwigoedd a mynyddoedd.
- Mae ymweliadau â'r theatr yn y rhan fwyaf o'n modiwlau, ym Mangor ac ymhellach i ffwrdd.
- Yn ogystal â chyfleoedd lu i berfformio o fewn y rhaglen hyfforddedig, mae nifer o gymdeithasau drama a theatr gerdd rhagorol i chi ymuno â nhw a helpu eu rhedeg, gan ddatblygu profiad fel actorion, cantorion, cerddorion, cyfarwyddwyr, coreograffwyr, a chriw technegol.

BETH FYDDAF YN EI DDYSGU?

Blwyddyn 1:
- Dyfeisio Theatr
- Perfformio ar gyfer y Llwyfan a'r Sgrin

Blwyddyn 2 a 3
- Theatr a Pherfformio: Yr Hunan
- Ymarfer Proffesiynol
- Perfformio Safle-benodol
- Ymarfer Theatr Gyfoes
- Sgriptio
- O'r Llyfr i'r Llwyfan



Mae modiwlau perthnasol eraill yn elfen gerdd y rhaglen, gan gynnwys **Perfformio Unigol** a'r **Celfyddydau yn y Gymuned.**

Gallwch ddewis ymgymryd â thraethawd hir neu broject ymarferol mewn theatr a pherfformio yn eich blwyddyn olaf.

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Asesir modiwlau ymarfer yn ôl yr allbwn ymarferol a'ch gallu chi i adfyfyrio'n feirniadol ynghylch eich ymarfer. Caiff rhai modiwlau eu hasesu'n gyfan gwbl drwy waith cwrs. Wrth i chi fynd trwy'r radd, caiff llawer o'r gwaith astudio ei wneud mewn grwpiau dysgu bach gyda phwyslais ar ddysgu sgiliau gweithio grŵp a'r gallu i gyflawni darn o waith ar eich pen eich hun o'r syniad dechreuol i'r cwblhau.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Mae ein graddedigion yn gweithio mewn amryw o feysydd, gan gynnwys actio a mathau eraill o berfformiad (theatr, teledu, ffilm, a'r neuadd gyngerdd), gwneud ffilmiau, ysgrifennu sgriptiau, cyfarwyddo, theatr gymunedol, addysg, codi arian a marchnata yn y celfyddydau, a diwydiant y cyfryngau'n ehangach.

ADDYSG, ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD A DYLUNIO CYNNYRCH

- Addysg Gynradd BA
- Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid BA
- Dylunio Cynnyrch BSc

ADDYSG GYNRADD
BA [Anrhydedd] Yn arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC)

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Codau cwrs UCAS:
X130 Cyfrwng Cymraeg
X131 Cyfrwng Saesneg
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: rhaid cael gradd B/5 mewn unrhyw un o'r canlynol: Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg (Iaith gyntaf), Llenyddiaeth Gymraeg. Lle bo myfyrwyr wedi cael yr hyn sy'n gyfatebol i radd B/radd 5 mewn naill ai Llenyddiaeth Saesneg neu Lenyddiaeth Gymraeg, rhaid cael lleiafswm o radd C yn yr arholiad TGAU cyfatebol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg (Iaith Gyntaf). Gradd B/Gradd 5 yn yr arholiad TGAU mewn Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd. TGAU Gradd C /Gradd 4 mewn Cymraeg Iaith a Gwyddoniaeth. Cynnig nodweddiadol o isafswm o 120 o bwyntiau tariff o gymwysterau lefel 3* o lefel A neu gyfwerth e.e.

- Diploma Cenedlaethol Estynedig OCR: Rhagoriaeth a Theilyngdod
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch, Unedau Coleg Agored neu Gredydau Prifysgol Agored a gydnabyddir gan y QAA
- Y Diploma Uwch: derbyniol ar ei ben ei hun
- Parodrwydd ac agwedd gadarnhaol tuag at wella eu defnydd personol o'r iaith Gymraeg.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at y tariff newydd gan UCAS ar www.ucas.com.

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Addysg

Ffôn: 01248 382629
E-bost: addysg@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/addysg/

BETH YW NATUR Y CYRSIAU HYN?
Mae'r radd 3 blynedd gyffrous hon gyda SAC yn eich cymhwyso i weithredu fel athro cynradd/ athrawes gynradd, gyda sgiliau arbennig i ddysgu yng Nghymru. Fodd bynnag, gellir ei defnyddio hefyd i ddysgu mewn gwledydd eraill, yn cynnwys Lloegr. Byddwch yn ennill sylfaen yn y cwricwlwm cynradd, gan ddewis arbenigo yn y cyfnod sylfaen (3- 7), neu gyfnod allweddol 2 (7-11) ym mlwyddyn 3.

Bydd ysgolion ymroddedig gyda mentoriaid wedi'u hyfforddi'n dda yn cefnogi cynnydd Athrawon Cysylltiol tuag at ennill Statws Athro Cymwysedig yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yng Nghymru.

Bydd tiwtoriaid ac ymchwilwyr profiadol yn y brifysgol a staff yn yr ysgolion yn rhoi cefnogaeth ragorol a sesiynau ysgogol, a bydd y cymhwyster a geir yn galluogi myfyrwyr i ddysgu yng Nghymru a thu hwnt.

Ysgrifennwyd y cwrs mewn cydweithrediad ag athrawon mewn Ysgolion Arweiniol yng Ngogledd Cymru a'n partneriaid ym Mhrifysgol Caer. Ein henw yw Partneriaeth CaBan (Caer a Bangor).

PAM DEWIS BANGOR?

- Byddwch wedi eich lleoli ar safle'r Normal sydd â'i lyfrgell a'i ganolfan adnoddau ei hun lle mae dewis eang o adnoddau dysgu dwyieithog cynradd ac adnoddau blynyddoedd cynnar.
- Rydym yn cynnig amgylchedd dysgu cyffrous a byddwch yn cyfarfod staff a hyfforddeion sy'n gweithio ar amrywiaeth o brojectau datblygu cwricwlwm ac ymchwil.
- Mae ysgolion partneriaeth y Brifysgol yn cynnig amgylchedd hyfforddi llawn amrywiaeth sydd, yr un pryd, yn gefnogol.
- Arweinwyr ym maes ymchwil dwyieithrwydd ac addysg dwyieithog.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Byddwch yn astudio holl feysydd y Cwricwlwm Cynradd. Ewch i'r wefan am y manylion llawn.

Profiad Ysgol
Byddwch yn gweithio gydag athrawon profiadol a fydd yn rhoi cefnogaeth i chi wrth i chi ddysgu'r sgiliau i fod yn athro neu athrawes dosbarth. Bydd hyn yn eich helpu i ddod yn gyfarwydd â'r fframwaith cyfnod sylfaen, cynnwys y cwricwlwm, a'r cwricwlwn newydd sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru. Byddwch yn dysgu sut i drefnu cynlluniau gwaith addas ac ystyried strategaethau asesu cyflawniad disgyblion. Ceir o leiaf wyth wythnos o brofiad ysgol ym mhob blwyddyn.

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn treulio 20 awr yr wythnos ar gyfartaledd mewn darlithoedd/seminarau. Bydd gofyn i chi hefyd ddarllen, paratoi ar gyfer seminarau, gwneud gwaith cwrs a pharatoi adnoddau addysgu.

Bydd yr elfennau a astudiwch yn y Brifysgol yn cael eu hasesu drwy waith cwrs. Bydd eich ymarfer dysgu yn cael ei fonitro gan fentoriaid ysgol a thiwtoriaid cyswllt.

> "Mae'r darlithwyr yn cynnig eu cymorth yn ddiflino, ac mae eu parodrwydd i helpu gydag unrhyw aseiniadau neu'n offer addysgu yn rhywbeth calonogol go iawn."
>
> **Steffan Nicholas**
> Cyn-fyfyriwr Addysg Gynradd

CYRSIAU PERTHNASOL
Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau TAR Addysg Gynradd ac Uwchradd i'r rhai sy'n dymuno cymhwyso fel athrawon yn dilyn cwblhau eu gradd gyntaf. Ewch i'r wefan am fanylion y cyrsiau TAR.

ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID
BA [Anrhydedd]

Y FFEITHIAU SYLFAENOL
Codau cwrs UCAS:
X314 Cyfrwng Cymraeg
X313 Cyfrwng Saesneg
Am gyd-anrhydedd gweler y dudalen nesaf
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
Cynnig nodweddiadol o isafswm o 96 o bwyntiau tariff o gymwysterau lefel 3* e.e.

- Lefel A
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: MMM
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
- NCFE CACHE Lefel 3 Diploma Estynedig: Gradd C
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Mae'n rhaid i bob myfyriwr gael archwiliad gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhaid i'r Coleg bennu ei fod yn foddhaol cyn y gallant ddechrau ar brofiad ysgol.
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at y tariff newydd gan UCAS ar www.ucas.com.

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Addysg

Ffôn: 01248 382629
E-bost: addysg@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/addysg/

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Gellir dilyn cwrs gradd anrhydedd mewn Astudiaethau Plentyndod ar y cyd ag un o'r pynciau a ganlyn, sef Cymdeithaseg, Cymraeg, Polisi Cymdeithasol a Seicoleg.

Mae'r radd ddynamig, amlddisgyblaethol hon yn cynnig cyfle i chi astudio ystod amrywiol o bynciau sy'n ymwneud â phrofiadau byw plant a phobl ifanc yn y gymdeithas gyfoes, gan eich cynorthwyo i ddilyn gyrfaoedd mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys addysgu, gwaith cymdeithasol, cwnsela a'r gyfraith.

Mae gan ein tîm addysgu arbenigedd a chefndir mewn seicoleg, cymdeithaseg, hawliau plant, ieithyddiaeth, addysg, agweddau fforensig, iechyd a lles. Mae'r amgylchedd ddysgu cyfoethog ac amrywiol hon yw nodwedd unigryw o'n cwrs, gan roi'r cyfle i chi astudio plentyndod a phobl ifanc o amrywiaeth o safbwyntiau.

Mae'r cwrs 3-blynedd wedi'i gynllunio o gwmpas tri llwybr, gyda modiwlau yn ymwneud â safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol ac addysgol ar faterion sy'n berthnasol i blentyndod ac ieuenctid mewn theori ac ymarfer.

Mae'r flwyddyn gyntaf wedi'i chynllunio i roi sylfaen gadarn i chi ym mhob un o'r tri maes. Mae'r ail flwyddyn yn parhau i adeiladu ar y llinynnau hyn sy'n arwain at drydedd flynedd, lle gallwch astudio o leiaf pedwar pwnc a ddewisir o'r ystod o fodiwlau sydd ar gael ar draws y llwybrau ar hyn o bryd.

Mae'r cwrs hwn hefyd yn cynnwys lleoliadau, siaradwyr gwadd, cyfleoedd i astudio dramor yn ogystal â chyfleoedd i gyflwyno mewn cynadleddau sy'n eich helpu i ddatblygu'ch sgiliau academaidd a chyflogadwyedd.

PAM DEWIS BANGOR?

- Nod y radd yw diwallu'r angen presennol am arbenigwyr gyda chymwysterau da a all weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn ystod o gyd-destunau, yn y gymuned ac mewn sefydliadau. Yn y rhaglen, ceir cyfuniad o sylfaen academaidd gadarn ynghyd â dimensiwn ymarferol a gweithredol a fydd yn cynhyrchu gweithwyr proffesiynol a all ymdopi â sialensiau cymdeithas gyfoes a phrysur mewn gwlad ddwyieithog.
- Yn ystod y radd, ceir cyfleoedd bob blwyddyn i fynd ar leoliadau i ddatblygu eich dealltwriaeth o agweddau ar anghenion a datblygiad plant ac i wneud ymchwil i faterion ac ymarfer cyfredol.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Mae pob modiwl yn y flwyddyn 1af yn orfodol; ym mlynyddoedd 2 a 3, yn dibynnu ar argaeledd, bydd gennych ddewis o ystod eang o fodiwlau gan roi'r cyfle i chi astudio plentyndod a phobl ifanc o amrywiaeth o safbwyntiau. Pob blwyddyn byddwch yn astudio cyfanswm o 120 credyd, fydd yn rhoi i chi ehangder a dyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth erbyn i chi raddio.

SUT Y BYDDAF YN DYSGU?
Byddwch yn dysgu trwy gymysgedd o ddarlithoedd, seminarau a gweithdai ymarferol. Caiff pob darlith ei recordio trwy bodlediad ac mae adnoddau ar-lein eraill hefyd yn cael eu darparu cyn pob darlith.

Gall myfyrwyr ddewis derbyn Tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg a chwblhau aseiniadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r asesiadau'n amrywio o fodiwl i fodiwl. Mae'r asesiadau'n amrywio o draethodau, cyflwyniadau, gwneud ffilmiau, a phrofion aml-ddewis.

RHAGOLYGON GYRFAOEDD
Mae cynnwys amlddisgyblaethol y radd yn cynnig ystod o ddewisiadau gyrfa ym myd addysg a phroffesiynau cysylltiedig, yn y sector cyhoeddus a phreifat, yn ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol. Mae rhai myfyrwyr yn parhau â'u hastudiaethau ar raglen Meistr neu'n ymgeisio am le ar gwrs TAR Cynradd. Os penderfynwch ymgeisio am gwrs TAR Cynradd ym Mangor, cynigir cyfweliad i chi os byddwch yn cyflawni'r gofynion mynediad.

DYLUNIO CYNNYRCH
BSc [Anrhydedd]

FFEITHIAU AM Y CWRS
Codau cwrs UCAS:
Ffrwd ddwyieithog W241
Ffrwd Saesneg W240
Hyd: 3 blynedd

GOFYNION MYNEDIAD:
TGAU: Iaith Saesneg C/4. Cynnig nodweddiadol o isafswm o 80 o bwyntiau tariff o gymwysterau lefel 3* e.e:
- Lefel A (yn cynnwys gradd C in mewn Dylunio a Thechnoleg neu bwnc Celf/ Peirianneg)
- BTEC Cenedlaethol/Diploma Estynedig: MMP
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Llwyddo
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr hŷn, unigolion â chymwysterau Ewropeaidd ac ymgeiswyr rhyngwladol.

*Mae cymwysterau lefel 3 yn cynnwys Lefel A, BTEC, Mynediad, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac eraill – am restr lawn, cyfeiriwch at y tariff newydd gan UCAS ar www.ucas.com.

MAE MODD GWNEUD Y CWRS HWN DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

MODIWLAU DATBLYGU SGILIAU IAITH AR GAEL

PROFIAD RHYNGWLADOL

MWY O WYBODAETH
Addysg

Ffôn: 01248 382629
E-bost: addysg@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/addysg/

BETH YW NATUR Y CWRS HWN?
Mae pawb sy'n graddio o'r cwrs BSc Dylunio Cynnyrch yn hynod gyflogadwy. Mae eu meddylfryd a'u sgiliau dylunio bellach yn cael eu defnyddio i wneud y byd yn lle gwell, maent yn datrys problemau i gwsmeriaid, defnyddwyr, cleientiaid a chwmnïau ledled y byd.

Yn ystod y cwrs 3 blynedd hwn byddwch yn datblygu sgiliau i'ch galluogi i ddod â chynhyrchion arloesol newydd i'r farchnad a gwneud bywyd yn well, yn haws ac yn fwy cynhyrchiol i gwsmeriaid sy'n gwerthfawrogi ffordd newydd o wneud pethau. Mae graddedigion yn rheoli projectau masnachol yn effeithiol gan ganiatáu i gwmnïau fod yn effeithiol, yn gystadleuol ac yn berthnasol yn y byd heddiw.

Mae cael y sgiliau hyn yn caniatáu i'n graddedigion weld yn glir i'r dyfodol a helpu i weithredu'r hyn sydd orau i'r blaned. Mae gan ein graddedigion gred gadarn bod eu hegni a'u cyfraniad yn eu galluogi i gyflawni swyddogaeth sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan ddiwydiant.

PAM DEWIS BANGOR?
- Ceir tri lleoliad yn ystod y radd ac mae hyn yn rhoi'r cyfle i chi wella a datblygu fel unigolyn.
- Gall pob project fod yn friffiau byw gyda phartneriaid o ddiwydiant, sy'n rhoi profiad perthnasol i chi ar gyfer gyrfa yn y diwydiant dylunio a gweithgynhyrchu.
- Byddwch yn astudio yng Nghanolfan Ddylunio Cynnyrch Prifysgol Bangor, sy'n amgylchedd gwaith proffesiynol gyda chyfarpar o'r radd flaenaf.
- Cymarebau staff:myfyrwyr rhagorol.
- Mae'r Gynhadledd Ddylunio Flynyddol yn dod â myfyrwyr a dylunwyr blaenllaw at ei gilydd.
- Dim cost ychwanegol am ddeunyddiau nac am ddefnyddio'r stiwdio na'r gweithdy.
- Ceir lefelau uchel o ddatblygiad proffesiynol trwy gyfrwng sgiliau cyflwyno llafar a sgiliau ysgrifennu adroddiadau dadansoddol ar leoliadau gwaith.

BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?
Bydd y cwrs yn rhoi sylfaen i chi mewn dylunio cynnyrch trwy brojectau byw a phrofiad diwydiannol sy'n cynnwys pedwar modiwl 30 credyd ym mhob blwyddyn:
- Ymarfer Proffesiynol
- Astudiaeth Pwnc (dau fodiwl)
- Profiad Gwaith

Yn **Ymarfer Proffesiynol** byddwch yn dod i ddeall y materion sy'n effeithio ar ddylunwyr cynnyrch mewn diwydiant:
- Arloesi dylunio ar gyfer diwydiant
- Rheoli cynhyrchu
- Sefydliadau a rheolaeth
- Marchnata
- Sgiliau cyflwyno

Yn y modiwlau **Astudiaeth Pwnc** byddwch yn astudio methodolegau dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl a meddylfryd dylunio. Bydd amrywiaeth o friffiau'n eich herio ac yn eich datblygu'n greadigol ac yn broffesiynol. Bydd projectau gyda phartneriaid diwydiannol yn darparu sylfaen a chyd-destun i ddeall sut mae diwydiant yn gweithio. Eich her fydd bod yn greadigol a sicrhau arloesi yn y briff a roddir. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Egwyddorion meddylfryd dylunio
- Creadigrwydd
- Cyfathrebu a modelu dylunio
- Dylunio â Chymorth Cyfrifiadur (CAD)
- Gweithgynhyrchu â Chymorth Cyfrifiadur (CAM)
- Sgiliau gweithgynhyrchu

- Prototeipio
- Datblygiad cynaliadwy a'r economi cylchol
- Sgiliau cyflwyno

Mae **profiad gwaith** yn cynnwys 24 wythnos dros dair blynedd:
- Bloc 8 wythnos pob blwyddyn
- Cefnogir gan fentoriaid profiadol
- Ymweliadau gan diwtoriaid cyswllt coleg
- Cynhyrchu portffolio ardderchog
- Cymryd rhan mewn projectau go iawn
- Datblygiad personol a phroffesiynol
- Profiadau a ysgogir gan yrfaoedd

Bydd project gradd blwyddyn olaf yn dwyn yr holl elfennau uchod ynghyd.

SUT BYDDAF YN DYSGU?
- O leiaf 19 awr o amser cyswllt pob wythnos mewn darlithoedd/ seminarau.
- Darllen, paratoi at seminarau, cwblhau gwaith cwrs.
- Asesu elfennau o astudiaethau proffesiynol trwy waith cwrs ac un arholiad.
- Asesu parhaus o'r modiwlau astudiaeth pwnc (ni fydd unrhyw arholiad ysgrifenedig ffurfiol).
- Caiff profiad yn y gwaith ei fonitro trwy ymweliadau gan diwtoriaid a chyflwyniadau.
- Caiff y profiadau eu gwella trwy brojectau byw gyda diwydiant.
- Tiwtorialau personol rheolaidd.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

bangor.ac.uk